Rhaglen Gyflawn

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 13eg Medi, 2022
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Aml Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu https://gwynedd.public-i.tv/core/portal/home
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig Siencyn	Arweinydd y Cyngor
Nia Wyn Jeffreys	Dirprwy Arweinydd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Beca Brown	Aelod Cabinet Addysg
Berwyn Parry Jones	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC
Dafydd Meurig	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Elin Walker Jones	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Menna Jones	Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYS			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 GORFFENNAF 2022			4 - 14
6	ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL	Cyng. Elin Walker Jones	Dafydd Gibbard	15 - 32
7	ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB	Cyng. Menna Jones	Delyth G Williams	33 - 78
8	DIWYGIO POLISI IAITH GYMRAEG Y CYNGOR	Cyng. Menna Jones	Gwenllian Mair Williams	79 - 128
9	ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH	Cyng. Menna Jones	Eurig Williams	129 - 143
10	ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT	Cyng. Menna Jones	Catrin Love	144 - 148
11	ADRODDIAD DRAFFT O SEFYDLOGRWYDD MARCHNAD GOGLEDD CYMRU 2022	Cllr. Dilwyn Morgan	Alun Gwilym Williams	149 - 357
12	PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR	Cyng. Ioan Thomas	Dewi A Morgan	358 - 402

13	ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) GWYNEDD	Cyng. Beca Brown	Buddug Mair Huws	403 - 406
14	CYMERADWYO A MABWYSIADU MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG CYNGOR GWYNEDD	Cyng. Beca Brown	Buddug Mair Huws	407 - 409
15	ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS ADDYSG	Cyng. Beca Brown	Garem Jackson	410 - 417
16	ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GYLLID	Cyng. Ioan Thomas	Dewi A Morgan	418 - 422

Y CABINET DYDD MAWRTH, 19 GORFFENNAF 2022

Yn bresennol-
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig a Dilwyn Morgan.

Hefyd yn bresennol-
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Prosiectau) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion) a Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi).
Eitem 7-9: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Rhaglenni Datblygu'r Economi) a Esyllt Rhys (Rheolwr Rhaglen Adfywio).
Eitem 11 a 12: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd)
Eitem 13: Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Huw Williams (Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Dyfrig Siencyn a Ioan Thomas.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYAFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y 14 AC 28 MEHEFIN 2022

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 14 a 28 Mehefin 2022 fel rhai cywir.

6. PROSIECTAU GRANT CYFALAF ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG, LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Beca Brown

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i symud ymlaen i gyflwyno achosion busnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyflawni dibenion y prosiectau isod:

a) Prosiect 1 – Buddsoddi dros £1.1m i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd - Yr ail wedd.
b) Prosiect 2 – Buddsoddi dros £1.5m cyfalaf a £0.3m refeniw i gynyddu capasiti 3 ysgol (Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog) er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg) i ffynnu.

Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cais sydd yma i gyflwyno dwy achos busnes llawn ger bron Llywodraeth Cymru. Nodwyd mai'r cyntaf oedd buddsoddiad i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd, ac yr ail gais yn un cyfalaf a refeniw er mwyn cynyddu capasiti tair ysgol o fewn y sir er mwyn cefnogi cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg. Esboniwyd gan fod y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog dros 25% bydd angen cynnal ymgynghoriad statudol yn unol a gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013.

Mynegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig i Cynghorau ymgeisio am y grant er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg o fewn Cymru ac i hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn ysgolion. Eglurwyd o ran y Canolfannau Iaith fod y buddsoddiad er mwyn cynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu drwy sicrhau lleoliadau strategol. Amlygwyd o ran Ysgol Maesincla fod angen ymestyn y ganolfan bresennol, yn Nolgellau i ail-leoli'r ganolfan i Ysgol Bro Idris ac o ran Ysgol Bro Cybi i ail leoli'r Ganolfan i safle Ysgol y Cymerau. Pwysleisiwyd fod llawer o waith cyffroes yn digwydd o fewn y canolfannau a bydd y cynlluniau yn adeiladu ar y sail gadarn sydd i'w gweld eisoes.

Nodwyd fod tair ysgol wedi ei amlygu ar gyfer cynyddu capasiti – Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Chwilog ac fod hyn oherwydd fod y

cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg ac fod cynlluniau ar y gweill i godi mwy o dai yn yr ardaloedd. Mynegwyd fod y cynllun hwn yn dangos ymrwymiad i addysg Gymraeg ac i blant y Sir, ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu a sicrhau Cymreictod plant y Sir.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr achosion busnes a nodwyd yr angen ar gyfer y buddsoddiad hwn.
- Nodwyd cefnogaeth i'r cynlluniau ac gan fynegi eu bod yn edrych ymlaen i weld y cynlluniau yn cael eu gwireddu.

7. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Beca Brown

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i symud ymlaen i gyflwyno achosion busnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyflawni dibenion y prosiectau isod:

a) Prosiect 1 – Buddsoddi dros £1.1m i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd - Yr ail wedd.
b) Prosiect 2 – Buddsoddi dros £1.5m cyfalaf a £0.3m refeniw i gynyddu capasiti 3 ysgol (Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog) er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg) i ffynnu.

Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cais sydd yma i gyflwyno dwy achos busnes llawn ger bron Llywodraeth Cymru. Nodwyd mai'r cyntaf oedd buddsoddiad i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd, ac yr ail gais yn un cyfalaf a refeniw er mwyn cynyddu capasiti tair ysgol o fewn y sir er mwyn cefnogi cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg. Esboniwyd gan fod y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog dros 25% bydd angen cynnal ymgynghoriad statudol yn unol a gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013.

Mynegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig i Cynghorau ymgeisio am y grant er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg o fewn Cymru ac i hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn ysgolion. Eglurwyd o ran y Canolfannau Iaith fod y buddsoddiad er mwyn cynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu drwy sicrhau lleoliadau strategol. Amlygwyd o ran Ysgol Maesincla fod angen ymestyn y ganolfan

bresennol, yn Nolgellau i ail-leoli'r ganolfan i Ysgol Bro Idris ac o ran Ysgol Bro Cybi i ail leoli'r Ganolfan i safle Ysgol y Cymerau. Pwysleisiwyd fod llawer o waith cyffroes yn digwydd o fewn y canolfannau a bydd y cynlluniau yn adeiladu ar y sail gadarn sydd i'w gweld eisoes.

Nodwyd fod tair ysgol wedi ei amlygu ar gyfer cynyddu capasiti – Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Chwilog ac fod hyn oherwydd fod y cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg ac fod cynlluniau ar y gweill i godi mwy o dai yn yr ardaloedd. Mynegwyd fod y cynllun hwn yn dangos ymrwymiad i addysg Gymraeg ac i blant y Sir, ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu a sicrhau Cymreictod plant y Sir.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr achosion busnes a nodwyd yr angen ar gyfer y buddsoddiad hwn.
- Nodwyd cefnogaeth i'r cynlluniau ac gan fynegi eu bod yn edrych ymlaen i weld y cynlluniau yn cael eu gwireddu.

8. AIL WEDD Y RHAGLEN ARFOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Beca Brown

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i symud ymlaen i gyflwyno achosion busnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyflawni dibenion y prosiectau isod:

a) Prosiect 1 – Buddsoddi dros £1.1m i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd - Yr ail wedd.
b) Prosiect 2 – Buddsoddi dros £1.5m cyfalaf a £0.3m refeniw i gynyddu capasiti 3 ysgol (Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog) er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg) i ffynnu.

Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cais sydd yma i gyflwyno dwy achos busnes llawn ger bron Llywodraeth Cymru. Nodwyd mai'r cyntaf oedd buddsoddiad i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd, ac yr ail gais yn un cyfalaf a refeniw er mwyn cynyddu capasiti tair ysgol o fewn y sir er mwyn cefnogi cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg. Esboniwyd gan fod y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog dros 25% bydd angen cynnal ymgynghoriad statudol yn unol a gofynion Deddf

Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013.

Mynegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig i Cynghorau ymgeisio am y grant er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg o fewn Cymru ac i hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn ysgolion. Eglurwyd o ran y Canolfannau Iaith fod y buddsoddiad er mwyn cynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu drwy sicrhau lleoliadau strategol. Amlygwyd o ran Ysgol Maesincla fod angen ymestyn y ganolfan bresennol, yn Nolgellau i ail-leoli'r ganolfan i Ysgol Bro Idris ac o ran Ysgol Bro Cybi i ail leoli'r Ganolfan i safle Ysgol y Cymerau. Pwysleisiwyd fod llawer o waith cyffroes yn digwydd o fewn y canolfannau a bydd y cynlluniau yn adeiladu ar y sail gadarn sydd i'w gweld eisoes.

Nodwyd fod tair ysgol wedi ei amlygu ar gyfer cynyddu capasiti – Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Chwilog ac fod hyn oherwydd fod y cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg ac fod cynlluniau ar y gweill i godi mwy o dai yn yr ardaloedd. Mynegwyd fod y cynllun hwn yn dangos ymrwymiad i addysg Gymraeg ac i blant y Sir, ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu a sicrhau Cymreictod plant y Sir.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr achosion busnes a nodwyd yr angen ar gyfer y buddsoddiad hwn.
- Nodwyd cefnogaeth i'r cynlluniau ac gan fynegi eu bod yn edrych ymlaen i weld y cynlluniau yn cael eu gwireddu.

9. Y GRONFA FFYNIANT BRO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Beca Brown

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i symud ymlaen i gyflwyno achosion busnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyflawni dibenion y prosiectau isod:

a) Prosiect 1 – Buddsoddi dros £1.1m i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd - Yr ail wedd.
b) Prosiect 2 – Buddsoddi dros £1.5m cyfalaf a £0.3m refeniw i gynyddu capasiti 3 ysgol (Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog) er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg) i ffynnu.

Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cais sydd yma i gyflwyno dwy achos busnes llawn ger bron Llywodraeth Cymru. Nodwyd mai'r cyntaf oedd buddsoddiad i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd, ac yr ail gais yn un cyfalaf a refeniw er mwyn cynyddu capasiti tair ysgol o fewn y sir er mwyn cefnogi cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg. Esboniwyd gan fod y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog dros 25% bydd angen cynnal ymgynghoriad statudol yn unol a gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013.

Mynegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnig i Cynghorau ymgeisio am y grant er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg o fewn Cymru ac i hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn ysgolion. Eglurwyd o ran y Canolfannau Iaith fod y buddsoddiad er mwyn cynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu drwy sicrhau lleoliadau strategol. Amlygwyd o ran Ysgol Maesincla fod angen ymestyn y ganolfan bresennol, yn Nolgellau i ail-leoli'r ganolfan i Ysgol Bro Idris ac o ran Ysgol Bro Cybi i ail leoli'r Ganolfan i safle Ysgol y Cymerau. Pwysleisiwyd fod llawer o waith cyffroes yn digwydd o fewn y canolfannau a bydd y cynlluniau yn adeiladu ar y sail gadarn sydd i'w gweld eisoes.

Nodwyd fod tair ysgol wedi ei amlygu ar gyfer cynyddu capasiti – Ysgol Llanllechid, Ysgol Bro Lleu ac Ysgol Chwilog ac fod hyn oherwydd fod y cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg ac fod cynlluniau ar y gweill i godi mwy o dai yn yr ardaloedd. Mynegwyd fod y cynllun hwn yn dangos ymrwymiad i addysg Gymraeg ac i blant y Sir, ac yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu a sicrhau Cymreictod plant y Sir.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr achosion busnes a nodwyd yr angen ar gyfer y buddsoddiad hwn.
- Nodwyd cefnogaeth i'r cynlluniau ac gan fynegi eu bod yn edrych ymlaen i weld y cynlluniau yn cael eu gwireddu.

10. ACHOS DROS NEWID: DARPARU LLEOLIADAU NYSRIO FEL RHAN O BARTNERIAETH SECTOR GYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr achos dros newid a gofyn i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyflwyno Achos Busnes Amlinellol Strategol erbyn Hydref 2022 ar greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle(oedd) yng Ngwynedd, mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr Aelod Cabinet yn hynod frwdfrydig dros yr eitem hon sydd yn arloesol tu hwnt. Nodwyd fod y Cyngor ar hyn o bryd yn

darparu oddeutu 50% o ddarpariaeth gofal preswyl i drigolion y sir, tra fod y sector annibynnol yn cyfrannu'r hanner arall. Eglurwyd ar hyn o bryd fod y ddarpariaeth yn y sector nyrsio yn cael ei ddarparu yn gyfan gwbl gan y sector annibynnol gan ei bod wedi bod yn anghyfreithiol i'r Cyngor fod yn ei ddarparu. Mynegwyd fod hyn ar newid gyda cyfleoedd bellach yn bosib.

Mynegwyd werthfawrogiad i gyfraniad y sector annibynnol i'r maes gofal nyrsio ond nodwyd fod y cyfle i ddarparu mewn partneriaeth fel Cyngor yn rhoi cyfle i wella'r ddarpariaeth i drigolion y sir. Eglurwyd ar hyn o bryd os nad oes lleoliad nyrsio ar gael fod nifer yn gorfod aros am gyfnod hir o amser neu yn gorfod symud tu allan i'w cymunedau. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad hwn yn ddechrau'r daith sydd yn amlinellu'r achos dros newid ynghyd a gosod y risgiau sydd ynghlwm a'r newid hwn. Mynegwyd mai cyfle yw hwn i symud ymlaen i'r cam nesaf, sef i greu achos busnes.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mae un o brif ddyletswyddau ei rôl yw i edrych ar ôl pobl bregus o fewn y sir, ac fod y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu fod yr elfen hon o'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn amhosib i roi y gofal gorau i drigolion Gwynedd. Mynegwyd ei bod yn falch, yn ei chyfarfod olaf yn y rôl i gyflwyno'r adroddiad hwn sydd yn gyfle i weithio gyda partneriaid a law yn llaw gyda'r sector annibynnol er mwyn sefydlogi'r farchnad. Eglurwyd fod presenoldeb y Cyngor o fewn y ddarpariaeth preswyl a gofal cartref wedi cryfhau'r ddarpariaeth ac felly gobeithio y bydd y cam hwn yn cryfhau'r ddarpariaeth nyrsio o fewn y sir. Diolchwyd i'r bwrdd lechyd am eu parodrwydd i fod yn trafod y maes hwn mewn cyfnod mor heriol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd cefnogaeth i'r adroddiad a diolchwyd am y gwaith.
- Diolchwyd i Morwena Edwards am ei arweiniad ar y gwaith hwn ac am ei gwaith dros y blynyddoedd diwethaf fel Cyfarwyddwr Corfforaethol.

11. DYFODOL Y GWASANAETH CYNLLUNIO POLISI AR Y CYD (GWYNEDD A MÔN)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i:

1) Estyniad i'r cytundeb cydweithio cyfredol ar gyfer darpariaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar Cyd hyd at 31 Mawrth 2023;
2) Bod y cytundeb cydweithio ac felly y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dod i ben ar y 31 Mawrth 2023, a bod Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd yn cael ei greu ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd:
3) Bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd yn unig:
4) Bod trefniadau ar gyfer cefnogi a gwneud penderfyniadau ar y broses o

baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a materion polisi cynllunio perthnasol yn cael eu creu ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd;

5) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd gytuno ar drefniadau cydweithio gydag Ynys Mon i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gwrdd a'r gofynion statudol (ac unrhyw waith cysylltiedig), sydd ei angen ar gyfer monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd;
6) Gan fod hwn yn fater o'r flaenoriaeth uchaf, gofynnir i'r Cabinet ragfarnu'r broses 'bidiau' flynyddol a chaniatáu 'bid' am £70,000 o gyllideb refeniw parhaol rŵan, er mwyn cyfarch y gost ychwanegol o fod yn sefydlu Gwasanaeth Polisi Cynllunio Gwynedd.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi cefndir yr eitem. Eglurwyd fod cytundeb wedi ei wneud rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Mon i sefydlu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd yn ôl yn 2011. Nodwyd mai prif dasg y tîm oedd i greu Cynllun Datblygu Lleol. Amlygwyd fod y cynllun mewn bodolaeth ers dros 10 mlynedd bellach ac ei fod yn dod i ben ddiwedd y mis. Esboniwyd fod dau brif opsiwn o ran symud ymlaen, sef i ymestyn y cytundeb neu dod a'r gytundeb i ben. Mynegwyd mae'r prif fantais o gyfuno'r gwaith dros 10 mlynedd yn ôl oedd er mwyn rhannu adnoddau.

Amlygwyd fod trafodaethau wedi cael ei cynnal er mwyn creu dwy uned ar wahân, sydd ar hyn o bryd yn cael ei weld fel yr opsiwn ffafriedig. Eglurwyd wrth greu y polisi yn benodol ar gyfer Gwynedd fod modd rhoi perchnogaeth 100% i anghenion Gwynedd ac addasu y Cynllun Datblygu Lleol. Pwysleisiwyd mai dim mater hawdd fydd datglymu'r trefniant gan fod staff a trefn llywodraethu ar y cyd. Ond mynegwyd gofynnir fel rhan o'r penderfyniad i ymestyn y cytundeb presennol at ddiwedd Mawrth 2023 er mwyn gwneud y gwaith fydd angen ei gwneud.

Nodwyd fod yr un adroddiad wedi ei chyflwyno yng Nghyngor Mon heddiw ac eu bod wedi datgan awydd i greu uned eu hunain.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

— Holwyd o ran penderfyniad Ynys Mon os yw'r penderfyniad yr un peth, nodwyd er mwyn symud ymlaen fod angen i'r penderfyniad fod yr union yr un peth gan y ddwy Gyngor.

12. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma adroddiad perfformiad cyntaf yr Aelod Cabinet yn ôl fel yr arweinydd portffolio yn y maes. Eglurwyd ei fod yn hapus ar y cyfan gyda beth mae wedi ei weld ar yr olwg gyntaf. Tynnwyd sylw at Gynllun Argyfwng Newid Hinsawdd gan nodi fod y cyfarfodydd bellach wedi ail ddechrau ac eu bod yn edrych i droi o gynlluniau i fod yn gweithredu. Nodwyd fod cynnydd wedi ei weld yn nifer o'r blaenoriaethau.

O ran perfformiad yr adran mynegwyd ei bod yn galonogol tu hwnt fod cynnydd wedi bod ym mherfformiad y Gwasanaeth Cynllunio gyda cyfartaledd nifer y dyddiau i ddelio gyda ceisiadau cynllunio wedi gostwng o 103 i 78. Er hyn amlygwyd fod gwaith pellach i anelu at yr amserlen statudol o 56 diwrnod gwaith. Amlygwyd her arall gyda niferoedd y ceisiadau gorfodaeth cynllunio ar gynnydd gyda 45 wedi ei dderbyn yn ystod dau fis cyntaf y flwyddyn ariannol hon. Nodwyd fod gwaith yn mynd rhagddo i ddelio a'r ceisiadau.

Pwysleisiwyd fod gwaith da yn cael ei wneud gan wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gyda dros 90% o 2189 o fusnesau Gwynedd wedi cael sgôr hylendid bwyd rhwng 3-5. O ran sefyllfa ariannol yr adran, mynegwyd ei fod yn weddol iach gyda cynlluniau arbedion ar drac i gael eu cwblhau yn amserol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd os y bydd yr adran yn mynd i'r afael ar sicrhau llwybrau teithio llesol ar draws y sir. Eglurwyd fod gwaith yn cael ei wneud ac fod ymgynghoriad ar agor ar hyn o bryd, ac anogwyd i bawb leisio ei farn ynddo.
- Gyda'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y newid mewn cyflymder ceir i lawr i 20 milltir yr awr mewn rhai lleoliadau holwyd os yw'r adran a digon o staff i ddelio ar newid. Pwysleisiwyd pan fydd yn dod i rym y bydd yr amserlen yn heriol a nodwyd fod trafodaeth yn digwydd ar hyn o bryd gyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod capasiti fydd ei angen ac yr angen i sicrhau staffio. O ran staffio o fewn yr adran amlygwyd fod angen staff gyda arbenigedd technegol yn yr adran hon sydd yn gallu bod yn heriol gyda'r gofynion ieithyddol.

13. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL A YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Berwyn Parry Jones

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi diolch i'r cyn-ddeilydd portffolio am ei gwaith dros y blynyddoedd diwethaf. Tynnwyd sylw yn gyntaf at waith y adran Briffyrdd gan amlygu bellach fod Tîm Arfon wedi ei penodi ar gyfer cynllun Cymunedau Glan a Thaclus. Eglurwyd fod ychydig o oedi wedi bod yn penodi ar gyfer y 4 tîm

arall ond y byddant yn eu lle cyn diwedd yr haf. O ran cynllun Goleuadau Strydoedd i oleuadau LED nodwyd fod ychydig gannoedd ar ôl i'w gnwued ac y bydd y cynllun wedi ei gwblhau cyn diwedd yr Hydref.

Diolchwyd i'r gweithwyr am fod allan yn gweithio yn y gwres llethol sydd wedi bod dros y dyddiau diwethaf. Mynegwyd fod gorwariant yn yr adran yn benodol yn y gwasanaeth gwastraff ac eglurwyd fod yr adran wedi penodi arbenigwyr i edrych yn fanwl ar y mater a bydd modd adrodd yn ôl yn ystod yr Hydref.

O ran yr adran Ymgynghoriaeth Gwynedd mynegwyd fod hon yn adran sydd yn dod a incwm sylweddol i'r Cyngor. Nodwyd fod rhaglen waith gadarn mewn lle ar gyfer y flwyddyn gyda 11 swydd ychwanegol am gael ei hysbysebu. Mynegwyd y bydd yr adran yn cyrraedd ei tharged incwm eleni.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd sut y bydd modd cysylltu a'r Timau Cymunedau Glan a Thaclus. Eglurwyd y bydd Swyddog Prosiect yn cysylltu ac aelodau er mwyn egluro'r drefn o gael y tîm yn eu hardal.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.25 y.h.

CADEIRYDD

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**13 Medi 2022**
Aelod Cabinet:	**Elin Walker Jones, Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd**
Swyddog Cyswllt:	**Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr**
Teitl yr Eitem:	**Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol 2021-22**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2021-22.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

2.2. Mae gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid gyfrifoldeb clir i fod yn Rhiant Corfforaethol i bob plentyn yng Ngwynedd, ac yn benodol i sicrhau gofal effeithiol, sefydlog, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, ynghyd â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y gwaith sydd wedi ei wneud i sirchau fod y Cyngor yn ymgymryd a'i chyfrifoldeb.

3. CEFNDIR

3.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y cyfnod.

3.2. Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel yn gywir a theg.

4. Barn y Swyddogion Statudol:

Y Swyddog Monitro:

Mae'r dyletswydd o weithredu fel rhiant corfforaethol yn un pwysig. Mae'n allweddol felly fod effeithlonrwydd y trefniadau yma yn cael eu hadolygu yn gyson. Mae gan y Cabinet rôl allweddol yn cadw trosolwg o waith y Panel.

Y Pennaeth Cyllid:

Mae'r adroddiad yn un ffeithiol, sy'n egluro i'r Cabinet y gwaith a gyflawnwyd gan y Panel yn ystod 2021/22. Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa, a ni fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd.

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

2021-22

1. Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i amlygu rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor i weithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal, i rannu gwybodaeth am weithrediad y panel dros y flwyddyn ddiwethaf ac i amlinellu bwriad y panel ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am niferoedd a phatrymau ym maes plant mewn gofal.

Ychydig yn wahanol i adroddiad y llynedd bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r gwaith sydd wedi ei wneud wrth i ni fynd drwy gyfnod adfer yn dilyn pandemig Covid-19

2. Be mae'r Panel yn ei wneud i mi?

2.1 Mae gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid gyfrifoldeb clir i fod yn Rhiant Corfforaethol i bob plentyn yng Ngwynedd, ac yn benodol i sicrhau gofal effeithiol, sefydlog, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, ynghyd â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifri, ac yn ymrwymedig i sicrhau fod y plant a phobl ifanc yn ei ofal yn cael y cyfleoedd gorau posib mewn bywyd, a'u bod yn derbyn gofal priodol, yn cael addysg o safon, yn byw mewn llety sefydlog, ac yn cael gofal iechyd da.

2.2 Mae plant a phobl ifanc yn dod i ofal y Cyngor o dan amgylchiadau anodd iawn, ond mae'r Cyngor yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gan unrhyw blentyn sydd yn cael ei ofalu amdano gan y Cyngor yr hawl i ddisgwyl yr un peth gan ei riant corfforaethol a fyddai'n ei ddisgwyl gan riant da.

2.3 Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn:

- Adnabod ei blant, eu hanghenion, eu talentau a'u breuddwydion, ac yn hyrwyddo eu buddiannau
- Dal uchelgais uchel am eu dyfodol ac yn disgwyl y gorau ganddynt ac ar eu cyfer
- Cymryd diddordeb yn eu llwyddiannau a'u problemau a dangos balchder yn eu llwyddiannau a dathlu gyda nhw
- Gwrando ar eu barn a sicrhau bod hyn yn dylanwadu ar ymarfer, datblygiadau gwasanaethau a pholisïau
- Sicrhau eu bod yn rhan o gynllunio eu bywydau ac yn ymgynghori a hwy ynglŷn â'u dewisiadau
- Cydnabod, cefnogi a pharchu eu hunaniaeth ymhob ffordd
- Hyrwyddo a chefnogi cyflawniad addysgol i orau eu gallu gan sicrhau mynediad at addysg o safon uchel a chyfleoedd dysgu eang

- Cefnogi eu gwydnwch iechyd a lles emosiynol
- Darparu cartref diogel a sefydlog lle bo ymdeimlad o berthyn a gwerthfawrogiad yn bodoli
- Cefnogi eu siwrne o fod yn blant i oedolion a hyrwyddo eu potensial economaidd a'u paratoi i fod yn drigolion cyfrifol sydd yn cyfrannu i'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

2.4 Yn bwysicaf oll, fel Rhiant Corfforaethol bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn meddwl, cynllunio, gweithredu a gwneud penderfyniadau er pennaf les y plant yn ei ofal.

2.5 Er mwyn cynnal y swyddogaeth hon, mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel Rhiant Corfforaethol sy'n cynnwys Aelod Cabinet yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd, Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet perthnasol, rhiant maeth, ac aelod wedi ei dewis gan Bwyllgorau Craffu. Mae'r Panel hefyd yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaeth Cymdeithasol, Pennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Pennaeth Addysg. Drwy'r Panel mae'r Cyngor, sef yr holl aelodau etholedig, yn dirprwyo ei gyfrifoldeb yn y maes i'r Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd.

2.6 Mae gan y Panel Rhiant Corfforaethol gyfrifoldeb penodol ac uniongyrchol i sicrhau bod gwasanaethau aml-asiantaethol priodol ac addas ar gael i blant mewn gofal, a bod y gwasanaethau a gynigir iddynt o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn cwrdd â'u hanghenion, gan gydweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn sydd mewn gofal.

2.7 Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol hefyd yn gyfrifol am sefydlu grwpiau tasg a gorffen i ganolbwyntio ar feysydd penodol er mwyn edrych yn fanwl ar ansawdd gwasanaethau, llwyddiannau a rhwystrau yn ogystal â chanfod profiadau uniongyrchol plant, pobl ifanc a gofalwyr er mwyn gwella profiadau plant mewn gofal yng Ngwynedd. Mae gan y Panel yr hawl i ofyn i faterion sy'n achosi pryder iddynt gael eu craffu gan y Pwyllgor Craffu ar ei ran.

3. Beth am Covid-19?

3.1 Yn sgil dyfodiad pandemig Covid-19 yn ôl ym mis Mawrth 2020, bu'n rhaid addasu y ffordd o weithio er mwyn parhau i gynnal gwasanaethau hanfodol i blant y Sir. Rhoddwyd nifer o gamau mewn lle i sicrhau cefnogaeth i blant mewn gofal drwy gydol y cyfnod y pandemig a amlygwyd yn Adroddiad Blynyddol 2019-21.

3.2 Yn ystod 2021-22 cymerwyd yr amser i adfer yn dilyn y pandemig, ac er fod rhai ffyrdd o weithio yn ystod y pandemig wedi parhau gyda nifer o gyfarfodydd y

parhau i gyfarfod yn rhithiol, dechreuwyd ar y gwaith o ddod yn ôl i'r 'normal' newydd. Er hyn bu i'r adran sicrhau eu bod yn gweithio o fewn canllawiau cenedlaethol a lleol i sicrhau diogelwch eu staff a plant mewn gofal.

4. Sut mae'r sefyllfa ar hyn o bryd?

4.1 Cyflwynir yr wybodaeth isod ar sail ffigyrau diwedd chwarter pedwar 2022, gan gynnwys ffigyrau cymharol o'r chwe blynedd flaenorol:

Plant mewn gofal ar 31 Mawrth	**2021/22**	**2020/21**	**2019/20**	**2018/19**	**2017/18**	**2016/17**
Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y flwyddyn	273	281	291	253	227	218
Nifer o blant wedi dod i ofal yn ystod y flwyddyn	46	46	82	66	49	60
Nifer o blant wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn	54	56	44	40	40	49
Nifer o blant wedi eu mabwysiadu yn ystod y flwyddyn	2	6	6	5	9	5

4.2 Mae'r data yn dangos bod gostyngiad wedi bod yn nifer y plant mewn gofal yn ystod y flwyddyn. Tra bod 46 plentyn wedi dod i ofal am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn, mae 54 o blant wedi mynd allan o ofal.

4.3 Yn y siart isod, gellir gweld ystod oed y plant mewn gofal:



4.4 O gyfanswm y plant mewn gofal, mae 179 (66%) mewn lleoliadau maeth, 20 (7%) mewn lleoliadau preswyl a 63 (23%) wedi eu lleoli gyda'u rhieni. Roedd 3 o blant mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y flwyddyn gyda 8 person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.



4.5 <u>Lleoliadau Daearyddol</u>

4.5.1 Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 86 (32%) o blant mewn gofal wedi eu lleoli y tu allan i Wynedd. Roedd 36% o'r rhain ym Môn a Chonwy, gyda 62% o blant y tu allan i

Wynedd wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru. Mae 25 o blant wedi eu lleoli y tu allan i Gymru, gyda 8 o'r rhain mewn lleoliadau preswyl a'r gweddill naill ai wedi eu lleoli gyda rhieni neu berthnasau.

4.5.2 Mae amrywiaeth o resymau yn arwain at y gofyn am leoliadau preswyl, ac ymhob achos mae anghenion y plant a'r bobl ifanc yma yn gymhleth ac yn ddwys e.e. materion iechyd meddwl a hunan anafu, ecsploetiaeth rywiol, ymddygiad rhywiol niweidiol. Nid yw lleoli o fewn y Sir felly'n opsiwn mewn achosion o'r fath.

4.5.3 Yr her fwyaf sydd yn ein hwynebu fel Cyngor yw dod o hyd i leoliadau preswyl addas ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Nid yw hyn yn unigryw i Wynedd ac mae'n derbyn sylw yn genedlaethol drwy ymchwiliadau gan Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

4.5.4 I rhai plant mae dewis i'r Cyngor rhwng lleoli gyda gofalwyr maeth cyffredinol o fewn y Sir neu gyda theulu estynedig. Gall y teulu estynedig fod yn byw tu allan i ffiniau'r Sir. Y canlyniad i'r plentyn felly yw cael ei leoli'n all sirol, ond bod y lleoliad yn parhau o fewn ei deulu estynedig. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 19 plentyn yn y math yma o drefniant.

4.5.5 Mae gweddill y lleoliadau tu allan i'r Sir yn leoliadau maeth gyda Gofalwyr Gwynedd (sydd fel arfer wedi symud i fyw tu allan i Wynedd), neu'n leoliadau gydag asiantaethau maethu preifat. Mae mwyafrif llethol y gofalwyr maeth sydd wedi eu cofrestru gydag asiantaethau preifat yn byw y tu allan i Wynedd.

4.6 Plant Ifanc Iawn yn Dod i Ofal

4.6.1 Mae'r data diweddaraf yn dangos parhad yn y nifer o blant o dan 5 oed sy'n dod i ofal. Hyd at ddiwedd chwarter 4 2022 mae 33% o leoliadau newydd plant mewn gofal ar gyfer plant o dan 5 oed.

4.6.2 Dros 4 blynedd mae plant o dan 5 oed yn cynrychioli 47% o'r holl leoliadau newydd. Mae hyn o ganlyniad i nifer o resymau, ond yn benodol, plant ifanc yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso; trais yn y cartref; camddefnyddio sylweddau ac alcohol; bwydo plant ifanc yn fwriadol gyda chyffuriau a mamau sydd â phlant blaenorol wedi mynd i ofal yn beichiogi a heb wneud y newid angenrheidiol yn eu bywydau i fedru gofalu yn ddiogel am y plentyn.

4.7 Ceiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain (Unaccompanied Asylum Seeking Children)

Yn ystod Tachwedd 2021 fe dderbyniodd pob Awdurdod Lleol yng Nghymru a Lloegr gyfarwyddyd gan y Swyddfa Gartref ynglŷn â lleoli Ceiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain o dan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol. Nid oedd Awdurdodau Lleol yn Ne Ddwyrain Lloegr yn medru parhau i ymdopi gyda'r niferoedd oedd yn cyrraedd,

ac yn sgil hynny mae pob awdurdod lleol bellach wedi derbyn dyraniad. Mi fydd y carfan yma o bobl ifanc felly'n ychwanegiad at y nifer plant mewn gofal y Cyngor.

4.8 Rhwng Rhagfyr 2021 a Mawrth 2022 derbyniwyd 3 Ceisiwr Lloches. Ychydig iawn o wybodaeth gefndirol sydd ar gael yn yr achosion hyn a mae darganfod lleoliadau addas yn heriol o safbwynt eu hoedran, anghenion ieithyddol a diwylliannol ac yn aml iawn y trawma maent wedi ei brofi. Dyraniad gwreiddiol Cyngor Gwynedd oedd 6 o bobl ifanc o dan ffrwd cyntaf y cynllun, felly disgwylir 3 arall i'n cyrraedd yn gynnar yn ystod 2022-23.

4.9 Mae'r 3 sydd wedi eu derbyn gan Wynedd dros 16 oed, gydag un wedi ei leoli mewn lleoliad maeth yng Ngwynedd a 2 wedi eu lleoli tu allan i Wynedd. Mae pob un ohonynt yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyngor tra bod y Swyddfa Gartref yn rhoi ystyriaeth i'w achosion unigol. Mae proses penodol i'w ddilyn ac angen eiriolwr arbenigol arnynt. Bydd eu Gweithwyr Cymdeithasol yn cynllunio ac yn adolygu eu gofal ac yn gweithredu fel canolwr i hwyluso eu cais am lloches barhaol. Mae creu a chadw cysylltiad gyda'r Cyngor Ffoaduriaid ac eraill yn hanfodol wrth wneud hyn.

4.10 <u>Y Tîm Trothwy Gofal</u>

Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 gweithiodd y Tîm Trothwy Gofal gyda 160 o blant (91 teulu). Dechreuodd y tîm weithio gyda 75 o achosion newydd yn ystod y cyfnod.

4.11 Yn ystod y flwyddyn, daeth ymyrraeth y tîm i ben gyda 86 o blant (45 teulu). Roedd 63 o'r rhain yn byw adref gyda'u rhieni heb orchymyn gofal ar gychwyn yr ymyrraeth. Ar ddiwedd yr ymyrraeth roedd 53 yn parhau i fyw adref (84%).

4.12 Yn ogystal, daeth ymyrraeth i ben mewn 12 achos ble roedd y plant mewn gofal maeth ar gychwyn y gwaith. Roedd 7 o'r plant hyn wedi dychwelyd i fyw gyda rhieni ar ddiwedd ymyrraeth y tîm (58%).

4.13 Yn ychwanegol i ymyrraeth trothwy gofal, mae gan y gwasanaeth 2 Weithiwr Cymdeithasol sy'n canolbwyntio'n benodol ar asesu p'un a yw plentyn angen parhau i fod yn blentyn mewn gofal. Os yn ddiogel i wneud hynny, mae'r gweithiwr cymdeithasol yn cyflwyno adroddiad gyda cais i ddiddymu'r gorchymyn gofal yn y llys. Yn ystod y flwyddyn aeth 23 o blant allan o ofal yr awdurdod o ganlyniad i'r gwaith hwn. Mae gwaith ar y gweill mewn 26 achos arall i ddiddymu'r gorchymyn ar ddiwedd y cyfnod. Yn ystod 2021-22 bu i 54 o blant fynd allan o ofal, sy'n golygu bod cyfanswm y plant aeth allan o ofal yn ystod y flwyddyn yn fwy na'r nifer o blant a ddaeth i ofal. Mae'r gwaith hwn yn greiddiol felly wrth i'r Cyngor fynd i'r afael ag amcan Llywodraeth Cymru i leihau'r nifer o blant mewn gofal.

5. Dwi isio mynediad addas i wasanaethau iechyd

5.1 Mae'r cysylltiadau parhaus rhwng iechyd, yr awdurdod lleol a gwasanaethau eraill wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae cyfarfodydd rhithiol dros Teams wedi bod yn llwyfan cadarn ar gyfer trafodaeth ac wedi golygu bod cyfarfodydd dilynol yn cael eu trefnu yn gynt i gynnwys rhan-ddeiliaid perthnasol. Mae hyn wedi cynnwys y Cyfarfodydd Partneriaeth Diogelu gydag Iechyd a'r Awdurdod Lleol er mwyn adnabod materion sy'n peri pryder ac unrhyw risgiau yn gynnar a chynllunio ar eu cyfer.

5.2 Yn ystod y flwyddyn, roedd asesiadau iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal cychwynnol yn cael eu cwblhau gan y Pediatryddion gydag apwyntiad clinig wyneb yn wyneb ar gyfer yr holl asesiadau lle nad oedd unrhyw risg clinigol. Hefyd, roedd archwiliadau meddygol mabwysiadu yn cael eu cwblhau wyneb yn wyneb ac roedd Pediatryddion yn cyfarfod â'r darpar fabwysiadwyr ar gyfer crynodebau iechyd. Roedd asesiadau adolygu iechyd yn cael eu cwblhau gan y Nyrs LAC / Nyrs Ysgol neu'r Ymwelydd Iechyd o fewn yr amserlen lle bynnag y bo hynny'n bosib. Roedd 334 o asesiadau iechyd i fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn, gyda 57% wedi'u cynnal o fewn yr amserlen ofynnol.

5.3 Mae'r cysylltiadau rhwng CAMHS wedi'u cynnal a'u gwella gyda chyfarfodydd misol i wella safonau a gweithio ar y Siart Llif LAC / CAMHS i wella'r mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Roedd yr argymhellion o'r cyfarfod hwn yn tynnu sylw at waelodlin ar gyfer llesiant iechyd meddwl ar gyfer y plant sy'n dod i ofal; I wneud hyn drwy adroddiad gofalwyr sydd i'w ddefnyddio i gyfeirio at ymyrraeth gynnar fel bo'r angen, fydd yn rhan o'r trafodaethau nesaf gyda'r awdurdod lleol â'r timau IRO.

5.4 Mae'r swydd Nyrs LAC sydd wedi'i hariannu drwy Gronfa Gofal Intrergredig ar gyfer y tîm Trothwy Gofal / 16+ wedi tynnu sylw at anghenion a bylchau penodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal ac sydd angen cefnogaeth, yn enwedig wrth drosglwyddo i wasanaethau iechyd meddwl oedolion. Mae'r swydd hon wedi bod yn effeithiol o ran darparu cefnogaeth wedi'i thargedu a gwaith ataliol ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc.

5.5 Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm iechyd LAC wedi mynychu hyfforddiant Therapi Ymddygiad Dilechdidol a Therapi Briff Canolbwyntio ar Ddatrysiadau, mewn perthynas â rhiantu plant sydd wedi dioddef trawma datblygiadol, i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Weithwyr Cymdeithasol. Hefyd, mynychwyd sesiynau

ymwybyddiaeth gydag EMRALLT i godi ymwybyddiaeth a chynorthwyo i weithio â phlant sy'n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol. Mae hyn wedi darparu cyfleoedd hyfforddi cyson rhwng timau nyrsio a'r awdurdod lleol.

5.6 Dechreuwyd ar gynllun peilot Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ymwneud â chronfa ddata ar-lein WCCIS ym mis Ionawr 2022. Mae hyn yn barhaus ac fe ddylai helpu â chysylltiadau technoleg gwybodaeth a recordio digidol a rennir ynghyd â gwella cyfathrebu a chydweithio â'r awdurdod lleol, sy'n hanfodol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'u teuluoedd.

5.7 Mae Fframwaith Asesu Iechyd LAC Cymru Gyfan hefyd wedi cael ei lansio. Bydd hyn yn darparu arweiniad i weithwyr proffesiynol iechyd ar gwblhau asesiadau iechyd LAC i sicrhau unffurfiaeth ac ansawdd.

5.8 Mae anawsterau parhaus â'r atgyfeiriadau niwro-ddatblygol yn sgil rhestr aros o 2 flynedd; fodd bynnag, mae'r llwyth achosion Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei flaenoriaethu.

5.9 Bu i'r rhaglen frechu Covid ar gyfer plant LAC 12-15 oed hefyd ddechrau gyda materion cydsyniad yn cael eu datrys cyn i'r apwyntiadau gael eu hanfon allan.

6. Dwi isio lle da i fyw

6.1 Mae gofal maeth o’r ansawdd gorau yn adnodd annatod ar gyfer gallu sicrhau bod ymrwymiadau’r Cyngor i blant mewn gofal yn cael eu diwallu. Mae’r Cyngor yn ymfalchïo yn ei allu i gynnig gofal maeth o’r safon uchaf ac mae’n buddsoddi’n helaeth i recriwtio, asesu a chofrestru gofalwyr maeth lleol ar gyfer plant Gwynedd. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol bod gwasanaeth maethu prif ffrwd yn parhau i adrodd am colled net yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd sydd wedi eu cymeradwyo. Her allweddol i holl Wasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol Cymru yw gwella nifer yr ymholiadau a chymeradwyaeth gofalwyr maeth newydd.

6.2 Mae'r gwaith a wneir o dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn allweddol i ganolbwyntio ar sicrhau nifer digonol o ofalwyr maeth gyda digon o gymorth a sgiliau i fodloni’r galw cynyddol am leoliadau i blant a phobl ifanc gydag anghenion gynyddol cymhleth. Mae hyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i fodloni'r galw hwn.



6.3 Yn ystod y flwyddyn gwelwyd garreg filltir arwyddocaol iawn gyda lansiad Maethu Cymru. Bellach mae holl wasanaethau maethu Awdurdodau Lleol Cymru yn ran o Maethu Cymru. Mae gwasanaeth pob awdurdod lleol yn cadw ei hunaniaeth ei hun a bellach fe adnabyddir gwasanaeth maethu Gwynedd bellach fel Gwasanaeth Maethu Cymru Gwynedd.

6.4 Mae trefniadau llywodraethu newydd bellach yn eu lle a sefydlwyd Cydbwyllgor Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru. Bu i Cabinet y Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu'r trefniadau llywodraethu ym mis Mawrth 2022 a bydd yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd yn cynrychioli'r Awdurdod ar y Cyd Bwyllgor.

6.5 Mae darpariaeth uniongyrchol y gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyngor, ond mae marchnata a chydweithio i ddenu gofalwyr maeth newydd yn destun cydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ystod y flwyddyn penodwyd Rheolwr Marchnata Cenedlaethol i arwain ar y gwaith hwn.

6.6 Yn ogystal fe benodwyd Swyddog Marchnata Rhanbarthol yn Ionawr 2022, wedi ei gyflogi gan Wynedd sydd yn gyfrifol am feithrin marchnata ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol, gan gynnwys datblygu strategaeth recriwtio a marchnata, gweithredu ymgyrchoedd recriwtio lleol a rhanbarthol, datblygu cynnwys ar gyfer y gwefannau a sianeli cyfryngau cymdeithasol ac chyd-gordio'r blaenoriaethau recriwtio a marchnata cenedlaethol.

6.7 Mae Dadansoddiad Anghenion Rhanbarthol wedi'i gynnal a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio Strategaeth Recriwtio a Chadw rhanbarthol a lleol ar gyfer 2022-25. Mae'r gwaith o gasglu data ar gyfer y dasg hon wedi ei gwblhau a mae'r strategaeth wedi'i gwblhau yn ystod mis Ebrill 2022.

6.8 Yn lleol mae adeiladu ein darpariaeth faethu fewnol yn hanfodol er mwyn parhau i wella canlyniadau i blant. Golygai hyn symud y cydbwysedd gofal ac adnoddau ein timau Maethu i alluogi twf a'r gallu i ymateb i ofynion. Ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd 147 o blant wedi eu lleoli gyda Gofalwyr Maeth Gwynedd. O'r 46 plentyn a ddaeth mewn i ofal yn ystod 2021-22, mae 33 ohonynt wedi'u lleoli mewn gofal maeth.

6.9 Ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd 70 cartrefi maeth prif ffrwd wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Maethu Cymru Gwynedd. Mae hyn yn ostyngiad o 1 mewn blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd nifer o ofalwyr maeth yn ymddeol ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth. Er ein bod wedi cofrestru gofalwyr maeth newydd yn ystod y flwyddyn, ni lwyddwyd i gynyddu'r cyfanswm.

6.10 Mae cyfrifoldeb ar ofalwyr maeth i ofalu am y plant sydd yn eu gofal fel pe baent yn blant iddynt hwy gan sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd gorau, yn eirioli ar eu rhan ac yn cydweithio yn dda gyda rhieni, gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 3% o'r plant mewn gofal yng Ngwynedd wedi profi 3 neu fwy o symudiadau yn eu lleoliad. Golyga hyn ar sail perfformiad cenedlaethol 2020-21, bod lleoliadau maeth Gwynedd yn cynnig lefel uchel iawn o sefydlogrwydd i blant mewn gofal.

6.11 Mae canran uchel o blant sydd yng ngofal y Cyngor yn cael eu lleoli gydag aelodau o'u teuluoedd eu hunain sydd yn cael eu cofrestru fel gofalwyr maeth oherwydd statws cyfreithiol y plant. Rydym yn ymrwymo'n llawn i gymryd cyfrifoldeb i ddarparu'r un gefnogaeth ymarferol a phroffesiynol i'r teuluoedd yma ag i unrhyw leoliad maeth arall, gan fod yr her o ofalu am blentyn o'u teulu eu hunain yn un sydd yn cael ei gydnabod yn llawn.

7. Dwi isio llai o blant yn fy sefyllfa i

7.1 Ar ddechrau 2019, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, mai un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fydd lleihau niferoedd y plant mewn gofal, a gosodwyd gofyn ar awdurdodau lleol i osod targed rhifyddol i leihau niferoedd er mwyn medru mesur llwyddiant yn erbyn y targed hwnnw.

7.2 Penderfynodd Cyngor Gwynedd na fyddai'n gosod unrhyw darged rhifyddol na chanrannol mewn perthynas â niferoedd plant mewn gofal, gan fod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i sicrhau fod pob plentyn yn cael eu diogelu rhag niwed.

7.3 Mae Cyngor Gwynedd yn cael ei fonitro'n chwarterol ar y strategaeth i gael plant allan o ofal. Mewn gwirionedd, bu cynnydd cyson yn genedlaethol yn niferoedd y plant sy'n dod i ofal. Mae'r Cyngor wedi bod yn ymwybodol iawn o'r cynnydd, a hefyd yn ymwybodol o'r pwysigrwydd i weithredu cynlluniau er mwyn lleihau'r niferoedd sy'n dod i ofal. Er hynny, mae'r Adran Plant yn hollol argyhoeddedig bod yr holl blant mewn gofal yng Ngwynedd angen bod mewn gofal oherwydd y ffactorau sydd wedi arwain at yr angen i'r Cyngor ymyrryd er mwyn eu diogelu.

Mae ystadegau eleni yn dangos gostyngiad o 2.9% yn y nifer o blant mewn gofal yn Gwynedd.

8. Pa gynlluniau sydd wedi datblygu eleni?

8.1 Mae gwaith wedi parhau i drawsnewid hen fanc Natwest Caernarfon yn fflatiau, fflat hyfforddi a gofod amlasiantaethol, gyda chyfleoedd cyflogaeth ar gael hefyd. Targedir unigolion y mae gennym ni gyfrifoldeb amdanynt fel rhiant corfforaethol, a bydd y prosiect hwn yn gyfle i bobl ifanc ennill sgiliau byw'n annibynnol gan y Cyngor a GISDA, ynghyd ag asiantaethau eraill.

8.2 Bellach mae teclyn sydd wedi ei greu ar y cyd â phobl ifanc ar gyfer byw yn annibynnol yn weithredol. Mae ein pobl ifanc wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn, ac maent wedi gallu cyfrannu at ddatblygiad y pecyn drwy gael y cyfle i roi eu mewnbwn i bob rhan o'r datblygiad.

8.3 Mae'r broses o adael gofal a symud i fywyd fel oedolyn yn gallu bod yn heriol a dryslyd. Mae ap 'Barod' wedi cael ei greu i adael i bobol ifanc wybod am y gefnogaeth sydd ar gael wrth adael gofal gan Tîm 16+. Mae angen sicrhau'r gorau i bob plentyn; mewn ac allan o ofal.

Rydyn ni'n ymwybodol fod hwn yn gyfnod unigryw a phwysig yn eu bywydau, a cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau fod y gefnogaeth ar gael. Er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt allu cyrraedd eu potensial, mae gosod llwybr esmwyth o'u blaenau yn hollbwysig. Wrth greu'r creu'r ap gyda chyngor y bobl ifanc ynghyd a rhai sy'n gweld a phrofi hyn o ddydd i dydd mae'n sicrhau fod y wybodaeth angenrheidiol ar yr ap.



8.4 Yn ystod mis Chwefror 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod am lansio Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal trwy Gymru. Mae hwn yn ddatblygiad arwyddocaol iawn i'r bobl ifanc hynny, a fydd yn rhoi incwm cyn treth o £1600 y mis iddynt. Rydym yn cyd-weithio gyda'r Llywodraeth i baratoi ar gyfer lansiad y cynllun yn Gorffennaf 2022 a rhagwelir y bydd 21 o bobl ifanc cymwys ar gyfer y peilot yng Ngwynedd.

9. Dwi isio addysg dda

9.1 Mae camau breision wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau dealltwriaeth a pherchnogaeth y gyfundrefn addysg o'i swyddogaethau fel rhiant corfforaethol.

9.2 Mae cyswllt rhwng plant mewn gofal, ysgolion a'r adran addysg wedi cryfhau yn sgil y Cydlynydd Addysg Plant mewn Gofal gael ei leoli oddi mewn i'r adran am y tro cyntaf ers peth amser.

9.3 Yr ydym wedi llwyddo i drosi cynlluniau addysg personol plant mewn gofal sydd mewn ysgolion yng Ngwynedd i system ar lein. Mae hyn yn hwyluso'r broses o gynllunio ar gyfer plentyn mewn gofal ar lefel ysgol ac yn hwyluso mynediad rhieni maeth a gweithiwr proffesiynol i gynllun y plentyn. Gall y plentyn weld a chyfrannu at y cynllun pe dymunant ar unrhyw amser.

9.4 Gan fod y cynlluniau'n cael eu cynhyrchu'n ddigidol mae modd i ni bellach wirio ansawdd y cynlluniau, gan sicrhau fod y plant yn derbyn targedau addas yn brydlon.

9.5 Yn ystod y flwyddyn nesaf yr ydym yn awyddus i ddatblygu defnydd Gweithiwyr Cymdeithasol o'r system ar lein ac ymestyn defnydd y system i blant sydd wedi eu lleoli'n all sirol yn ogystal.

9.6 Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd trefn newydd er mwyn sicrhau na fydd unrhyw blentyn mewn gofal yn cael ei wahardd yn barhaol heb ymyrraeth gan y gwasanaeth addysg a gwasanaethau plant.

9.7 Yr ydym wedi llwyddo mewn cais diweddar am grant i dreialu rôl Pennaeth Rhithiol ar gyfer plant mewn gofal yma yng Ngwynedd. Yr ydym o'r farn y byddai'r rôl ychwanegol yn cyd fynd a'r hyn sydd yma'n barod ac yn sicrhau ffocws penodol ar hybu buddiannau a deilliannau addysgol. Rhagwelir y byddwn yn penodi i'r swydd yn ystod tymor yr Haf gyda'r rôl yn weithredol ar gychwyn yn flwyddyn addysgol.

9.8 Yr ydym yn rhagweld y bydd y Pennaeth yn ymgymryd ag agweddau lle mae'r galw ar ddod i farn ar ansawdd darpariaeth a chynnydd y disgybl yn allweddol. Bydd y Pennaeth yn gweithio gyda'r ysgolion i sicrhau fod y ddarpariaeth yn rhagorol a bod cynnydd y dysgwyr yn dda. Fe all hyn ddigwydd mewn sawl ffordd ond fe fydd mwyafrif gwaith y Pennaeth yn ymwneud a sicrhau fod yr ysgolion a'r sgiliau, adnoddau a chefnogaeth orau ar gyfer y dysgwr, nid gwneud y gwaith yn lle'r ysgol, ni fyddai hyn yn gynaliadwy.

9.9 Bydd y Pennaeth yn monitro cynlluniau unigol a chynnydd disgyblion a lle'n briodol cyfeirio'r ysgolion at wasanaethau arbenigol er mwyn eu grymuso. Gall rhain fod yn wasanaethau mewn meysydd megis anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiad neu wasanaethau neu gefnogaeth benodol gan wasanaethau plant a tu hwnt. Bydd y rôl hon yn plethu i weithrediad ystod o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau plant, gwasanaethau cyfiawnder, ieuenctid i enwi dim ond ychydig.

9.10 **Arian ychwanegol i gefnogi'r adran**

Mae'r grantiau bwrsari wedi eu darparu'n hwylus i'r rhai a fu i'r ysgolion wneud cais amdanynt, prin oedd yr enghreifftiau o ceisiadau nad oedd yn gymwys. Fel yr arfer gwelwyd ystod eang o geisiadau gan gynnwys set o ddrymiau a gwers drymio i adnoddau adolygu.

9.11 Mae'r grantiau clwstwr wedi eu rhannu drwy'r gwasanaeth rhanbarthol gyda phob clwstwr yn buddsoddi mewn hyfforddiant ac adnoddau i dargedu anghenion plant mewn gofal.

9.12 Rhagwelir y bydd y Pennaeth Rhithiol yn chwarae rôl weithredol mewn cyfarwyddo defnydd y clystyrau o'r grant hwn o fis Medi ymlaen.

9.13 **Canlyniadau PMG (CA4)**

Gyda'r arholiadau yn parhau i fod yn asesiadau athrawon dros y flwyddyn, nid oedd y canlyniadau diwedd cyfnod yn wahanol i'r hyn a ragfynegwyd, i bob unigolyn, â'r pobl ifanc yn cael yr un cyfleoedd i ddewis llwybr dysgu/ profiad ôl 16 yn seiliedig ar eu canlyniadau.

9.14 Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd arholiadau'n dychwelyd i'r hen drefn ac fe fydd mwy o ffocws ar sicrhau cefnogaeth a sefydlogrwydd i ddysgwyr yn arwain at ac yn ystod cyfnodau arholi.

9.15 **Data Perfformiad a Llais y Plentyn**

Mae cynlluniau addysg personol yr awdurdod yn cael eu creu, monitro ac adolygu ar lwyfan digidol ddatblygwyd gan yr awdurdod. Fodd bynnag mae mynediad yr

awdurdod i ddata perfformiad disgyblion yn gyfyng wrth i Lywodraeth Cymru leihau gofynion adrodd ar ysgolion.

9.16 Mewn ymateb i hyn yr ydym wedi ymchwilio i ffyrdd gwahanol y gellid casglu data allweddol er mwyn poblogi pob cynllun addysg personol ac fe fyddwn yn parhau i ddatblygu'r dulliau yma dros y flwyddyn nesaf. Ein bwriad fydd cyd weithio a systemau parod ysgolion nid llunio gofyn ychwanegol arnynt.

9.17 Yr ydym yn ymwybodol o'r angen i gasglu barn y plentyn am safon ei addysg. Byddwn yn ymchwilio i wahanol ffyrdd o gynnwys llais y plentyn a'i drin fel gwybodaeth feintiol.

10. Be fydd y Panel yn neud blwyddyn yma?

10.1 Gyda'r etholiadau Llywodraeth Leol yn cael ei gynnal ym Mai 2022, gwelir hyn fel cyfle i ail sefydlu trefniadau'r Panel Rhiant Corfforaethol. Roedd yn gyfle i edrych ar gadeiryddiaeth ac aelodaeth y Panel a penderfynwyd y bydd y gadeiryddiaeth yn nwylo'r Prif Weithredwr y Cyngor.

10.2 Ymhellach i hyn mae cyfle wedi bod i ail edrych ar drefniadau mewnol y Panel, a bellach mae aelod o staff wedi ei bennu i wneud y gwaith o gyd-lynu gwaith y panel ac i gydgordio adroddiadau ar gyfer y panel.

10.3 Yn ystod misoedd cyntaf 2022/23 bydd gwaith yn cael ei wneud i ail edrych ar strategaeth y Panel. Bydd hyn rhoi cyfle i'r Cynghorwyr newydd fydd yn rhan o'r Panel gael y cyfle i amlygu eu blaenoriaethau dros y cyfnod sydd i ddod ac i sicrhau fod y plentyn yn ganolog i holl weithrediad y panel.

10.4 Yn sgil y strategaeth, bydd modd adnabod meysydd sydd angen gwaith pellach neu angen eu cryfhau. Bydd clywed a gwrando ar lais y plentyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Panel Rhiant Corfforaethol. Mae'r Panel wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd mewn gofal yng Ngwynedd. Drwy hyn, bydd modd adnabod unrhyw rwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn unrhyw elfen o'u a gweithredu i gael gwared ar y rhwystrau hynny i orau ein gallu.

10.5 Fel arfer, mae hyfforddiant Rhiant Corfforaethol yn cael ei ddarparu i holl Aelodau Etholedig y Cyngor yn flynyddol. Yn anffodus iawn, ni fu hyfforddiant ar gael dros y

flwyddyn diwethaf ac mae'r Panel wedi gofyn i hyn gael ei flaenoriaethu ar fyrder. Gyda etholiad wedi ei gynnal ym mis Mai, mae trefniadau yn ei lle er mwyn cynnal sesiynau hyfforddiant ym mis Tachwedd.

11. I Orffen...

Mae llawer o waith da wedi ei wneud dros y flwyddyn diwethaf, a hynny drwy adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf.

Bydd gwaith pellach angen ei wneud dros y flwyddyn nesaf i sicrhau fod trefniadau addasedig y Panel wedi ei gwneud, ynghyd a datblygu'r strategaeth yn fuan yn ystod 2022/23. Yn ychwanegol ar hyn bydd angen parhau i sicrhau fod lleisiau plant mewn gofal yn cael eu clywed ac yn dylanwadu ar y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**19 Gorffennaf 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Menna Jones**
Swyddog Cyswllt:	**Delyth G Williams, Ymgynghorydd Cydraddoldeb**
Rhif Ffôn Cyswllt:	**01286 679708**
Teitl yr Eitem:	**Adroddiad Blynyddol 2021/22, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/24**

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet nodi cynnwys a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2021/22, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud i Gynllun Gweithredu'r 5 Amcan Cydraddoldeb y gweithiwyd tuag atynt yn ystod 2021-22 fel sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnydd yna. Mae adrodd yn flynyddol yn ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru.

3 CYNNWYS

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'n dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Prosiect Sicrhau Tegwch i Bawb (sef y Cynllun Cydraddoldeb) wedi ei adnabod fel un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor gan y Cabinet.

Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol i Gynllun Cydraddoldeb 2020-24 ac mae'n adrodd yn erbyn y 5 amcan a nodir ynddo. Mae'r ddwy flynedd gyntaf yma wedi bod yn rai heriol. Rydym wedi gorfod newid ein ffyrdd o weithio ac efallai ymgymryd â gwaith newydd am dro. Mae hyn wedi dod a sialensiau ond hefyd cyfleon. O ganlyniad mae ein hamserlenni yn anorfod wedi llithro rhywfaint. Wedi dweud hynny rydym yn ffyddiog y bydd yr holl waith yn cael ei gwblhau o fewn oes y Cynllun.

Mae’r adroddiad hefyd yn cynnwys manylion ychwanegol yn unol â chanllawiau Deddf Cydraddoldeb 2020-24 fel mae’n cael ei weithredu yng Nghymru, gan gynnwys adroddiad ar nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu..

4 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Diweddarwyd asesiad effaith cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb flwyddyn ddiwethaf yn sgil y sefyllfa newydd a’r data o gwmpas Covid-19. Nid ydym wedi gweld yr angen i'w addasu ymhellach flwyddyn yma.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

i) Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb yn creu ymrwymiadau gwario ychwanegol. Rwyf yn cefnogi’r adroddiad, ac nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

ii) Swyddog Priodoldeb

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd
2021-22



@CyngorGwyneddCouncil

@CyngorGwynedd

01766 771000

www.gwynedd.llyw.cymru

Rhagair

Mae'r Adroddiad Blynyddol hyn yn dod wedi diwedd fy nghyfnod fel yr Aelod Etholedig gyda chyfrifoldeb dros gydraddoldeb. Wedi dweud hynny, mae cydraddoldeb yn faes sy'n bwysig iawn i mi, ac fel Dirprwy Arweinydd y Cyngor mi fydda i'n bendant yn parhau i hybu'r maes yn enwedig gan fod y prosiect Sicrhau Tegwch i Bawb yn un o flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

Mae'n rhaid dweud fod y ddwy flynedd ers i Gynllun Cydraddoldeb 2020-24 gael ei fabwysiadu gan y Cabinet ddechrau Mawrth 2020 wedi bod yn rai anodd. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein dulliau o weithio ac ar ein hamserlenni. Dwi'n falch felly o allu adrodd ein bod wedi gallu symud ymlaen yn ystod y flwyddyn. Er nad ydym wedi gallu cyflawni popeth yr oeddem ni wedi ei obeithio, mae llawer o waith paratoi wedi digwydd ac rydym ar y trywydd iawn i gwblhau popeth o fewn oes y Cynllun.

Yn ystod y flwyddyn roedd hi'n bleser i gyflwyno'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad newydd i'r Cabinet a'u bod hwythau wedi ei gymeradwyo. Mae'r penderfyniad i weithio gyda "Inclusive Employers" i wella ein polisïau cyflogaeth yn un cyffrous. Un peth pwysig arall i'w nodi ym maes cydraddoldeb ydi'r ffoaduriaid oedd wedi dechrau dod o'r Wcráin erbyn Mawrth 2021. Rydym yn eu croesawu'n fawr yma i Wynedd, fel y ffoaduriaid eraill rydym yn eu cefnogi. Rydym yn ceisio rhoi cymaint o gymorth iddynt ag y gallwn, tra wrth gwrs yn gresynu at y rheswm mae nhw wedi gorfod gadael eu gwlad.

Dwi'n falch rŵan o allu trosglwyddo'r awenau i fy nghyd-Aelod Cabinet, y Cynghorydd Menna Jones, gan wybod fod y maes mewn dwylo diogel.

Y Cynghorydd Nia Jeffreys,
Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol
Cyngor Gwynedd.

Rhagair

Diolch yn fawr Nia, dwi'n falch iawn i gymryd y cyfrifoldeb am gydraddoldeb ar ran y Cabinet. Dwi'n gwerthfawrogi pa mor bwysig ydi hi i sicrhau fod gwasanaethau'r Cyngor yn addas i bawb.

Dwi'n edrych ymlaen hefyd at weld y prosiectau sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb yn dwyn ffrwyth dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd cael amrediad o gyrsiau ym maes cydraddoldeb yn ddefnyddiol i'n staff, a dwi'n edrych ymlaen yn fawr i weld pa welliannau y gallwn ei wneud yn ein trefniadau cyflogi. Mae'r datblygiadau ym meysydd asesu effaith ac ymgysylltu gyda phobl Gwynedd yn gyffrous iawn hefyd.

Y Cynghorydd Menna Jones,
Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol
Cyngor Gwynedd.

1. Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2020 cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24' (y Cynllun) er mwyn parhau gyda'r gwaith o Sicrhau Tegwch i Bawb sydd yn un o flaenoriaeth gwella'r Cyngor. Mae hyn yn bodloni dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf wedi ei chynllunio i leihau anghydraddoldeb rhwng grwpiau penodol drwy ofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Cynllun yn edrych ar degwch o ran 9 o nodweddion gwarchodedig sef:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhywedd
- Hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

(Deddf Cydraddoldeb 2010)

Mae'r Cynllun gosod ac yn disgrifio'r gwaith fyddai o flaenoriaeth i'r Cyngor yn y maes yma am y bedair blynedd dan sylw, ac rydym wedi rhannu'r gwaith i bum amcan sef:

- **Amcan 1:** Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb, trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir.

- **Amcan 2:** Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchodedig.

- **Amcan 3:** Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.

- **Amcan 4:** Gweithredu i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall.

- **Amcan 5:** Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

Mae'r ddwy flynedd ers i'r Cynllun ddod yn weithredol wedi bod yn rai anodd iawn i bawb. Mae'r argyfwng achoswyd gan Covid-19 wedi amlygu nifer o anghydraddoldebau ac mae'n bwysig ein bod yn edrych ar ein gwasanaethau yn sgil hyn i sicrhau ein bod yn deg. Mae

cyfnod clo wedi achosi i ni weithredu yn wahanol, e.e. gan ddefnyddio mwy ar dechnoleg gwybodaeth, sydd wedi achosi problemau mewn rhai ffyrdd ond hefyd wedi bod o gyfle i symud dulliau o weithio yn eu blaenau. Mae hyn wedi effeithio ar rai amserlenni oherwydd yr angen i ganfod ffyrdd gwahanol o wneud pethau a blaenoriaethau eraill.

Rydym hefyd wedi edrych ar 5 amcan y Cynllun, yn yr un modd a'r llynedd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas wrth i bethau ddechrau gwella a sefydlogi. Ein casgliad yw eu bod yn addas. Nid ydym wedi adnabod unrhyw angen i ychwanegu at yr amcanion ar hyn o bryd a'n blaenoriaeth fydd cwblhau'r gwaith sydd wedi ei adnabod o fewn cyfnod y Cynllun.

Mae'r adroddiad yma yn amlinellu, fesul amcan, beth yw'r pwyntiau gweithredu rydym wedi ymrwymo iddynt yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, beth oedden ni'n gobeithio'i gyflawni yn ystod 2021/22 a beth y gwnaethom lwyddo i'w wneud mewn gwirionedd. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar y math o wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei gasglu ym maes cydraddoldeb a'r defnydd rydym yn wneud ohono.

Amcan 1:

Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb, trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir.

Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn creu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb fel maes craidd fydd yn amrywiol, blaengar, penodol ac o'r ansawdd uchaf. Bydd wedi ei deilwra'n briodol ar gyfer pob aelod o staff ar bob lefel, ynghyd ag Aelodau Etholedig, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'u dyletswydd tuag at gydraddoldeb.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

- ystyried effeithiolrwydd ein hyfforddiant presennol a darganfod beth fyddai'n helpu staff i ddeall mwy am y maes
- cydweithio gyda Rheolwyr y Cyngor er mwyn darganfod pa ddulliau cyflwyno fyddai fwyaf addas ar gyfer anghenion staff amrywiol, e.e. staff rheng flaen, rheolwyr
- comisiynu darparwyr hyfforddiant gyda phrofiad bywyd o'r maes i ddarparu hyfforddiant arbenigol wyneb yn wyneb i'n staff yn ôl yr angen.

Beth wnaethom ni?

Erbyn hyn mae hyfforddiant drwy'r Amgylchedd Dysgu o Bell (ADoB) wedi ennill ei blwy ac rydym wedi dechrau ei ddefnyddio yn y maes cydraddoldeb. Rhoddwyd hyfforddiant ar-lein i rai gwasanaethau ac mae'r hyfforddiant yma yn awr ar gael ar gyfer gwasanaethau eraill.

Rydym wedi adnabod fod hi'n anodd dod o hyd i hyfforddiant sydd wedi ei wneud yn barod yn y Gymraeg ac felly wedi methu cael hyd i e-fodiwl i'w ddefnyddio. Mae hyn wedi ein gorfodi i ystyried dulliau amgen. Ein penderfyniad felly oedd addasu'r un sydd gennym yn barod, wrth ddisgwyl i weld os fydd gan Lywodraeth Cymru arweiniad yn sgil y cynlluniau gweithredu hil, LHDT+ ac anabledd y maent yn y broses o'u creu. Mae'r e-fodiwl yma bron yn barod i'w gyhoeddi ac mi fydd yn un o'r e-fodiwlau craidd fydd yn fandadol i'r gweithlu cyfan ei gwblhau., Ein bwriad yw sicrhau fod pawb yn cael gwybodaeth sylfaenol yn y maes.

Rydym wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r prosiect 'dysgu digidol' cenedlaethol sy'n creu adnoddau dysgu cydraddoldeb, gyda'r gobaith y bydd hyn yn ychwanegiad gwerthfawr at y 'pecyn' o adnoddau sydd gennym.

Ein blaenoriaethau pellach ar gyfer 2022/23 fydd cwblhau ein Fframwaith Hyfforddiant Cydraddoldeb, gan greu hyfforddiant i Aelodau a rheolwyr ar asesiadau effaith a dyletswyddau'r Cynllun Cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn plethu elfennau cydraddoldeb i amrediad o deitlau hyfforddi newydd sy'n cefnogi rheolwyr i arwain timau ac yn canfod ffyrdd gwell o hybu'r defnydd o'r hyfforddiant sydd ddim yn fandadol gan ddefnyddio'r wybodaeth rydym ni wedi ei gasglu o'r arolwg diweddar.

Pwynt Gweithredu 2:

Mae gan Aelodau Etholedig fynediad i Borth Aelodau, sef mewnrwyd electroneg, sy'n cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a digwyddiadau sy'n berthnasol iddynt. Dros gyfnod y Cynllun byddwn yn diweddaru'r Porth gyda chanllawiau hyfforddi a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r maes cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch hyrwyddo gan ddefnyddio e-newyddlen yr Aelodau, "Rhaeadr", i wella dealltwriaeth o'r wybodaeth sydd ar gael ar y Porth.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Byddwn yn diweddaru'r Porth Aelodau gan roi gwybodaeth am gydraddoldeb arno, gan gynnwys dyletswyddau'r Cyngor a'r Aelodau ym maes cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol newydd .

Beth wnaethom ni?

Mae'r Fewnrwyd Aelodau wedi ei greu ar ei newydd wedd ac mae'n cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd gymdeithasol newydd a'r hyfforddiant cydraddoldeb. Bydd yn cael ei hyrwyddo ymhellach i Aelodau'r Cyngor newydd o fis Mai ymlaen er mwyn esbonio eu cyfrifoldeb dros gydraddoldeb. Mae'r pwynt gweithredu yma wedi ei gwblhau, felly, heb law am y gwaith hyrwyddo, sydd angen digwydd yn barhaus.

Pwynt Gweithredu 3:

"Ffordd Gwynedd" yw'r "ffordd" y byddwn yng Nghyngor Gwynedd yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Bwriedir creu sefyllfa lle bydd profiadau unigolion wrth iddynt ddod i gyswllt â'r Cyngor yn rai positif ac yn cwrdd â'u hanghenion. Byddwn yn parhau i weithio ar gryfhau'r elfen cydraddoldeb fel rhan o hyfforddiant "Ffordd Gwynedd". Felly hefyd y drefn Croesawu i'r Cyngor ar gyfer aelodau o staff newydd.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Y gwaith wedi ei gwblhau yn ystod 2020/21.

Amcan 2:

Gwella’r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchodedig.

Pwynt Gweithredu 1:

Er mwyn deall unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig wrth iddynt ymwneud â'r Cyngor, byddwn yn cynnal arolwg cyhoeddus trylwyr. Bydd yr arolwg yn adnabod beth yw'r rhwystrau hynny a'r hyn y gallwn ei wneud er mwyn ymateb. Bydd y gwaith yma'n cynnwys amrywiaeth o wahanol ddulliau er mwyn cyrraedd croestoriad o bobl, yn enwedig y rhai sydd ddim fel arfer yn cymryd rhan. Byddwn yn sicrhau cyfrinachedd y rhai sy'n cymryd rhan.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Cwblhau'r arolwg a symud ymlaen i ran 2 y gwaith, sef gweithredu gyda grwpiau oedd heb gymryd rhan yn yr arolwg hyd yma.

Beth wnaethom ni?

Er bod argyfwng Covid-19 wedi golygu y bu'n rhaid addasu ein ffordd o weithio, a bod yr amserlen hefyd wedi newid yn sylweddol, llwyddwyd i gwblhau arolwg ar-lein erbyn 30 Ebrill 2021. Nod yr ymarferiad oedd canfod os oedd pobl Gwynedd yn wynebu rhwystrau neu annhegwch wrth ymwneud â'r Cyngor. Rydym wedi cwblhau'r dadansoddiad ac wedi dechrau gweithredu ar y prif negeseuon yn fewnol ond nid yw'r canfyddiadau wedi eu rhannu eto. Roedd yr ymatebion yn dangos fod mwyafrif sylweddol o ddefnyddwyr y Cyngor yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg wrth dderbyn gwasanaethau. Ar y llaw arall roedd yr ymatebwyr wedi rhoi llawer o sylwadau gwerthfawr i'n help i wella ein gwasanaethau.

Roedd yr arolwg yma, ynghyd a'r un staff, hefyd yn rhoi gwybod i ni am ffyrdd o wella ein trefniadau cyflogaeth (gweler Amcanion 4 a 5)

Byddwn yn awr yn symud ymlaen i gwblhau'r gwaith sydd angen ar y dadansoddiad, a'r gwaith sy'n deillio o'r ymatebion. Rydym yn awr o'r farn y dylai'r gwaith yma fod yn rhan annatod o'r rhaglen waith yn symud ymlaen.

Pwynt Gweithredu 2:

Byddwn yn gweithio i ddatblygu mwy o gyswllt gyda grwpiau neu unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig drwy barhau i weithio efo'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'i ehangu. Rhaid gwneud cyswllt gyda grwpiau ychwanegol o bobl gyda nodweddion gwarchodedig penodol er mwyn parhau i dderbyn barn amrywiol. Cymerwn hefyd gamau pellach i sicrhau fod ein Panel Trigolion yn cynnwys amrywiaeth o bobl â nodweddion gwarchodedig, drwy dargedu yn ôl yr angen.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Nid oes amserlen penodol wedi ei nodi ar gyfer y gwaith yma felly disgwylir i ni weithredu'n flynyddol.

Beth wnaethom ni?

Mae'r gwaith o gyfathrebu gyda mudiadau wedi parhau yn ystod 2021-22. Mae nifer o grwpiau wedi dangos diddordeb mewn ymuno ac wedi eu rhoi ar y rhestr bostio. Yn anffodus siomedig fu'r niferoedd oedd yn mynychu'r cyfarfodydd. Byddwn yn gweithio yn 2022-23 i wella hyn ac i chwilio am ffyrdd amgen i gynnal y cyfarfod fydd yn denu mwy o fynychwyr.

Yn ychwanegol, bwriedir gweithio gyda Grŵp Hunan Eiriolaeth Gwynedd y Gwasanaeth Adfocatiaeth a Chynghori Gogledd Cymru i greu fersiwn hawdd ei ddarllen o'r holiadur Ardal Ni a mynd at grwpiau nodweddion gwarchodedig fel Grŵp LHDTC+ GISDA, Dementia Actif Gwynedd a Pride Gogledd Cymru ym Mangor i hyrwyddo'r holiadur.

Pwynt Gweithredu 3:

Drwy weithio gyda rheolwyr a phenaethiaid byddwn yn sicrhau fod pawb sy'n gweithio i'r Cyngor yn deall anghenion pobl gyda nodweddion gwarchodedig penodol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wella ein gwasanaethau a chreu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Bydd angen adolygu ein Polisi Mynediad/Cydraddoldeb gan ystyried hefyd argymhellion gweithredol y Grŵp Craidd Cydraddoldeb.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Roedd y pwynt gweithredu yma'n waith parhaol ond roeddem wedi gosod y nod o adolygu'r Polisi Mynediad/Cydraddoldeb erbyn Ionawr 2022.

Beth wnaethom ni?

Penderfynwyd uno'r Polisi Mynediad a'r Polisi Cydraddoldeb mewn un ddogfen a chymeradwywyd y Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad hwnnw gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2021. Mae felly'n weithredol ac yn rhoi arweiniad i aelodau staff ar ffyrdd o weithredu i sicrhau eu bod yn cael gwared ar rwystrau.

Mae'r gwaith o hyrwyddo negeseuon cydraddoldeb ymysg staff yn mynd yn ei flaen.

Amcan 3:

Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.

Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn creu hyfforddiant ychwanegol penodol ar gyfer staff perthnasol ac Aelodau Etholedig. Bydd yn canolbwyntio ar fanteision Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac yn darparu arweiniad a chyngor ar eu cynnal er mwyn ystyried yn drylwyr unrhyw effeithiau posib ar bobl Gwynedd. Bydd cynnwys yr hyfforddiant yn cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Creu hyfforddiant penodol ar asesu effaith polisi neu weithdrefn newydd / wedi'i haddasu ar gyfer Aelodau.

Beth wnaethom ni?

Penderfynodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru greu templed rhanbarthol. Y bwriad oedd creu templed safonol a fyddai'n haws i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith partneriaethol a chynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd yn ogystal â chwestiynau i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi addasu'r templed ar gyfer ei ddefnyddio yng Ngwynedd ac mae'n cael ei osod ar ap electroneg i hwyluso ei ddefnyddio. Bydd yn weithredol erbyn yr haf. Unwaith fydd y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau byddwn yn gallu cynnig hyfforddiant arno.

Bu rhywfaint o lithriad yn y gwaith oherwydd bod yr arbenigedd technegol wedi ei ddargyfeirio i weithio ar y prosiect ffoaduriaid Wcráin. Yn y cyfamser defnyddiwn dempled interim, sy'n cynnwys y cwestiynau angenrheidiol. Bydd y gwaith o gyhoeddi, hyrwyddo a rhoi hyfforddiant ar y templed Asesu Effaith newydd yn cael ei flaenoriaethu yn ystod 2022/23.

Pwynt Gweithredu 2:

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn cryfhau trefniadau drwy sicrhau fod Aelodau Etholedig yn gynyddol hyderus i herio ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel rhan naturiol o'u gwaith wrth dderbyn adroddiadau/gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn cyfarfodydd Cabinet, Pwyllgorau Craffu a chyfarfodydd Herio Perfformiad. Bydd yr hyfforddiant uchod yn allweddol i sicrhau llwyddiant y drefn hon a byddwn yn darparu canllawiau ar gyfer y cyfarfodydd gwahanol.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Cwblhau'r canllawiau ar gyfer Aelodau sy'n aelodau o wahanol gyfarfodydd gyda gweddill y gweithgareddau yn waith parhaol.

Beth wnaethom ni?

Nid yw wedi bod yn bosib cwblhau'r gwaith ar yr asesiad effaith cydraddoldeb (gweler uchod) ac felly nid yw'r canllawiau ar gyfer aelodau wedi eu cwblhau. Wedi dweud hynny mae

gwybodaeth am gydraddoldeb, gan gynnwys asesiadau effaith, wedi ei roi ar y fewnrwyd newydd i aelodau ac mae arweiniad ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi ei roi i weithdai craffu yn ystod 2021/22.

Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i Aelodau Etholedig yn fuan wedi'r etholiadau ar gyfer y Cyngor ym mis Mai.

Pwynt Gweithredu 3:

Byddwn yn parhau i gydweithio ag Adrannau'r Cyngor i sicrhau y caiff sylw dyledus ei roi i anghenion cydraddoldeb mewn unrhyw gyfundrefn i adnabod arbedion neu doriadau. Sicrheir y bydd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb amserol ac o ansawdd yn cael eu cynnal i gyfrannu at y broses o adnabod unrhyw gynlluniau er mwyn adnabod unrhyw oblygiadau negyddol fyddai penderfyniad am doriad mewn cyllideb yn ei gael ar grwpiau lleiafrifol penodol yng Ngwynedd, a'u lleihau lle'n bosib.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Nid oes amserlen penodol wedi ei nodi ar gyfer y gwaith yma yn y Cynllun Cydraddoldeb. Yn hytrach disgwylir i ni weithredu os yn berthnasol.

Beth wnaethom ni?

Gan nad oedd angen adnabod arbedion neu doriadau o'r newydd yn y cyfnod dan sylw nid ydym eto wedi gorfod gweithredu. Fodd bynnag, mae staff ac adrannau'r Cyngor wedi derbyn cymorth a chefnogaeth barhaol gydag asesiadau effaith mewn meysydd eraill, yn bennaf drwy gymorth unigol gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb.

Amcan 4:

Gweithredu i leihau’r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall.

Pwynt Gweithredu 1:

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar annog mwy o staff i gwblhau'r holiadur data cydraddoldeb dewisol er mwyn cynyddu faint o wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu. Bydd hyn yn ein galluogi i sefydlu gwaelodlin, adnabod bylchau yn ein gweithlu a chynnal archwiliadau ar sail nodweddion gwarchodedig eraill. Byddwn yn gwneud hyn drwy amrywiol ddulliau yn ystod cyfnod y cynllun, gan gynnwys cynnal ymgyrch hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth yr aelodau staff sy'n newydd i'r system hunanwasanaeth.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Mae hyn yn waith fydd angen sylw parhaol am beth amser ac felly nid oedd gwaith penodol wedi ei nodi am y flwyddyn yma.

Beth wnaethom ni?

Fel nodwyd llynedd mae'r niferoedd sydd wedi rhoi'r wybodaeth yma'n isel, ac mae'r sefyllfa yma'n wir ym mudiadau sector gyhoeddus eraill. Yn sgil gweithredu, a gyda chymorth Penaethiaid Adrannau, mae'r niferoedd yn codi'n araf ond mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau fod mwy o wybodaeth yn cael ei rannu. Rydym wedi adnabod y mannau sydd angen mwyaf o waith a byddwn yn parhau i weithredu i wella'r sefyllfa. Dim ond wedyn fydd gennym ni wybodaeth ddigonol er mwyn adnabod unrhyw broblemau.

Yn ystod y flwyddyn edrychwyd ar berfformiad pob Adran a chydweithiwyd gyda Phenaethiaid i annog staff i lenwi'r holiadur neu ei ddiweddaru. Byddwn yn teilwra gweithgareddau pellach i gyd-fynd â sefyllfaoedd adrannau / gweithluoedd unigol.

Pwynt Gweithredu 2:

Byddwn yn parhau i gynnal archwiliad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng dynion a merched, a thrwy gasglu'r data yn unol â Phwynt Gweithredu 1, yn gweithio i ddatblygu'n gallu i gynnal archwiliad o'r fath mewn perthynas â nodweddion eraill sydd wedi'u gwarchod. Yn ogystal, byddwn yn cynnal awdit tâl bob tair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i dalu cyflog cyfartal am y math o waith sy'n cael ei gyflawni. Byddwn hefyd yn gweithio tuag at gael cynlluniau mewn lle i leihau unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr awdit.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Cynnal awdit ar y gwahaniaeth cyflog rhwng dynion a merched (*gender pay gap*) a chynnal awdit tâl ar sail rhyw (*equal pay audit*)

Beth wnaethom ni?

Mae'r ymgynghorydd annibynnol wedi gwneud gwaith sylweddol ar yr awdit tâl ac erbyn Mawrth 2022 roeddem wedi derbyn drafft cyntaf o'r adroddiad. Mae'r gwaith o ddadansoddi'r data ymhellach yn parhau, gyda'r bwriad o dderbyn yr adroddiad terfynol yn ystod yr haf. Byddwn yn ystyried cynnwys yr adroddiad wedi i ni ei dderbyn ac yn gweithredu yn unol â'r canfyddiadau os oes angen.

Pwynt Gweithredu 3:

Mae gwaith hefyd wedi bod yn digwydd fel rhan o brosiect Merched mewn Arweinyddiaeth (sy'n un o flaenoriaethau gwella Cynllun y Cyngor 2018-23). Rydym wedi adnabod bod y nifer o ferched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur o isel o ystyried mai merched sy'n ffurfio 70% o'r gweithlu cyfan. Prif amcan y prosiect yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi arweiniol o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith i ddenu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

- Adolygu amodau a'r amgylchedd gwaith i sicrhau ein bod yn flaengar yn annog Merched Mewn Arweinyddiaeth ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.
- Gweithredu rhaglen waith sy'n cynnwys cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol, cynnal a datblygu'r fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor a threfnu a chynnal digwyddiad i ddynion y Sefydliad

Beth wnaethom ni?

- Fel rhan o'n harfer fel Sefydliad i farcio Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar Fawrth yr 8fed, lansiwyd y gyfres gyntaf o Raglen Ddatblygol Merched Mewn Arweinyddiaeth eleni gydag 11 merch o drawstoriad o adrannau a rolau o fewn y Cyngor yn derbyn lle. Mae'r adborth cyn belled yn datgan bod y rhaglen wedi bod yn ddefnyddiol iawn iddynt a'u bod yn elwa o'r profiad. Mae rhai hyd yn oed wedi eu dyrchafu i swyddi uwch yn ystod cyfnod y rhaglen.

- Yn ogystal ag arbenigwyr mewnol rydym hefyd wedi croesawu siaradwyr allanol i fod yn cyfrannu i'r Rhaglen; Alys Carlton - sy'n rhedeg cwmni Cymhelliant Gweithredol, Dr Hanna Hopwood, Cyflwynwraig, a Marian Evans, dynes busnes o fri wedi ei henwi fel *Inspirational Woman of the Decade.*

- Mae awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi yn cael ei arwain gan y Tîm Adnoddau Dynol gydag ymgynghoriad llawn wedi bod efo aelodau'r Grŵp Merched mewn Arweinyddiaeth cyn diwygio amodau gwaith unigol. Bydd y drefn hon yn parhau i'r flwyddyn nesaf.

- Mae'r cyfarfodydd poblogaidd "Sgyrsiau dros Baned" ar gyfer Aelodau Etholedig benywaidd yn ogystal â staff wedi parhau gyda siaradwyr allanol wedi'u gwahodd i gyfrannu yn ogystal â rhai o'n harweinwyr benywaidd mewnol presennol.

- Mae tudalen mewnrwyd newydd yn cofnodi a hyrwyddo gweithgarwch y prosiect wedi ei dylunio a'i chyhoeddi yn ystod y flwyddyn.

- Cynhaliwyd digwyddiad i ddynion y sefydliad ar yr 28ain o fis Mehefin.

Amcan 5:

Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

Pwynt Gweithredu 1:

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i gasglu o'r holiadur cydraddoldeb (gweler Amcan 4, Pwynt Gweithredu 1), ac yn cynnal ymchwil ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd a'n staff, er mwyn canfod unrhyw ffactorau sy'n rhwystro carfannau penodol o bobl â nodweddion gwarchodedig rhag ymgeisio am swyddi. Byddwn hefyd yn gweithio er mwyn darganfod ffyrdd o'u hannog i ymgeisio e.e. drwy hysbysebu swyddi'n ehangach nag ar wefan y Cyngor yn unig er mwyn denu ystod ehangach o geisiadau.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Mae'r gwaith yma'n barhaol ond erbyn 2021/22 roeddem yn anelu i gwblhau'r arolwg cyhoeddus er mwyn adnabod beth yw'r rhwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd â gwahanol nodweddion (yn unol ag Amcan 2, Pwynt Gweithredu 1).

Beth wnaethom ni?

Mae'r ymgynghoriad gyda'r gweithlu a'r cyhoedd wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn. Nid ydym eto wedi cael y siawns i weithredu'n llawn ar y canfyddiadau. Bydd hynny yn cael ei wneud wrth i ni weithio gyda Inclusive Employers (gweler pwynt 3 isod) i wella ein polisïau a ffyrdd o weithio er mwyn rhoi sylw priodol i nodweddion cydraddoldeb.

Er mwyn casglu mwy o wybodaeth rydym wedi penderfynu holi'r rhai sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor os ydynt wedi profi unrhyw rwystrau. Mae'r drefn yma yn rhoi'r siawns i ni gasglu'r wybodaeth yn barhaus a bydd yn arwain at well data ynghylch tueddiadau. Yn gynharach yn y flwyddyn cynhaliwyd peilot yn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Mae hi'n ddyddiau cynnar ar y gwaith hwnnw ond y gobaith yw y bydd yn ein helpu i ddeall yn well os oes yna rwystrau mae pobl yn ei wynebu wrth weithio â'r Cyngor. Byddwn yn symud ymlaen i sefydlu trefniadau tebyg yn ehangach ar draws y Cyngor yn ystod 2022/23.

Pwynt Gweithredu 2:

Gweithio ar y cyd gyda chyrff cyhoeddus eraill o fewn ein rhanbarth megis Heddlu Gogledd Cymru neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cyfarch unrhyw rwystrau a amlygir. Gallai hyn ddarparu mynediad at amrywiaeth ehangach o bobl hefyd, o gofio nad yw proffil cydraddoldeb bob gweithlu'n debygol o fod yr un fath.

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Mae'r gwaith yma'n barhaol felly nid oedd gwaith penodol wedi ei glustnodi ar gyfer y flwyddyn yma.

Beth wnaethom ni?

Mae'r problemau a achoswyd gan Covid-19, ynghyd â phroblemau staffio, wedi parhau i oedi'r gwaith yma. Ond mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi

penderfynu fod gwneud gwaith ar amrywiaeth o fewn cyflogaeth yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen ac wedi ail-sefydlu is-grŵp. Bydd yr is-grŵp yn ystyried hefyd os oes angen addasu'r ffordd fydd y gwaith yma ddigwydd erbyn hyn. Mae'r maes cynllunio'r gweithlu yn faes sydd yn derbyn sylw ehangach o fewn y Cyngor a bydd gwella recriwtio yn datblygu i fod yn rhan bwysig o'r prosiect.

Pwynt Gweithredu 3:

Blaenoriaethu gweithio tuag at gyrraedd Lefel 2 y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' er mwyn bod yn 'Gyflogwr Hyderus' ac edrych ar ddod yn Bencampwr Stonewall

Beth wnaethom ni ddweud y byddem yn ei wneud yn 2021/22?

Nid oedd unrhyw waith penodol wedi ei nodi ar gyfer y flwyddyn yma.

Beth wnaethom ni?

Mae'r gwaith o gyrraedd Lefel 2 yn parhau; rydym eisoes wedi adnabod yr hyn fydd angen ei gyflawni er mwyn cyrraedd Lefel 2 y cynllun, gyda'r camau yn cwmpasu'r themâu canlynol:

- Ceisio dylanwadu ar sefydliadau eraill i fod yn hyderus o ran anabledd
- Sicrhau fod gan staff y mynediad at hyfforddiant pwrpasol yn y maes
- Parhau i gymryd camau i gael gwared ar rwystrau allai fod yn atal datblygiad mewn swydd ar gyfer staff anabl
- Datblygu ymhellach y cyfleoedd sydd yna i staff anabl allu rhoi adborth, trwy annog sgyrsiau rhwng rheolwyr a staff ond hefyd trwy ddatblygu rhwydweithiau penodol.
- Datblygu ymhellach sut rydym yn recriwtio a phenodi staff anabl.

Rydym yn parhau i ddal achrediad Lefel 1 y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, ac yn gwbl ymrwymedig i gyrraedd Lefel 2 cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.

Wrth ymchwilio i'r posibilrwydd o fod yn Bencampwr Stonewall, penderfynwyd y dylid dilyn trywydd ychydig yn wahanol ac ehangach er mwyn ceisio gwireddu'r amcan hwn. Ein bwriad yw ymgeisio am achrediad yr Inclusive Employers, a fydd yn ein galluogi i dderbyn adborth ar ein gwaith fel cyflogwr yn y maes cydraddoldeb, ac yn y pen draw i'n cynorthwyo i wella yn y maes. Trwy ddilyn y llwybr hwn byddwn yn derbyn cyngor ac adborth arbenigol a fydd yn bwydo i mewn i gynllun gwaith ar ein cyfer fel cyflogwr. Bydd y broses yn dechrau ddiwedd haf 2022.

Gwybodaeth

Mae hi'n ofynnol i Gyngor Gwynedd, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i adrodd ar yr wybodaeth rydym yn ei gasglu ym maes cydraddoldeb yn flynyddol.

Monitro Manylion Cydraddoldeb Staff

Oherwydd bod llenwi'r ffurflen yn ddewisol (yn unol â'r canllawiau) nid oes digon o aelodau staff wedi ei lenwi. Rydym wedi adnabod hyn, ac yn gweithio i annog mwy o weithwyr i wneud hynny (Amcan 4, Pwynt Gweithredu 1). Pan fydd gennym wybodaeth ddigonol byddwn yn gallu adnabod bylchau cyflog yn fwy eang nag ar sail rhyw yn unig (Amcan 4, Pwynt Gweithredu 2) a gweld os oes angen gweithredu i wella amrywiaeth ein gweithlu (Amcan 5). Roedd 48% o'r gweithlu wedi cwblhau'r holiadur y tro hyn i'w gymharu â 41.8% y flwyddyn ddiwethaf.

Cwynion a phryderon

Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn rhoi cyngor ar unrhyw gwyn sy'n cael ei wneud ar sail camwahaniaethu. Rydym hefyd yn edrych am batrymau'n flynyddol a gall hynny ein galluogi i adnabod a dysgu gwersi. Yn ystod 2021/22 derbyniwyd 5 cwyn ffurfiol ynglŷn â gwasanaethau'r Cyngor a 2 am Fyw'n Iach. Roedd 4 ar sail anabledd, 2 ar ran hil (sef cenedligrwydd) ac un ar sail rhyw. Nid oedd digon o gwynion i adnabod unrhyw batrwm ac mae ymateb wedi ei roi i'r achwynwyr i gyd. Yn ogystal mae nifer o sylwadau wedi eu derbyn, mewn ymgynghoriadau ac yn uniongyrchol, am y penderfyniad i godi premiwm ar gartrefi gwyliau sydd hefyd yn honni hiliaeth ar y sail cenedligrwydd yn erbyn pobl o Loegr, . Nid ydynt yn ymddangos yn y ffigyrau yma gan eu bod yn sôn am benderfyniad sydd wedi ei wneud gan y Cabinet ac felly nid ydynt yn ddilys i'w cyfrif. Byddwn yn edrych ymhellach ar hyn er mwyn sefydlu os oes angen gweithredu i esbonio safbwynt y Cyngor yn well.

Ymgysylltu

Er bod y Cyngor yn ymgysylltu'n aml gyda'r cyhoedd am bob math o bynciau roeddem wedi sylweddoli nad oedd gennym ddigon o wybodaeth benodol am yr union rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd wrth ymwneud â'r Cyngor. Mae Amcan 2 yn mynd i'r afael â hyn. Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn annog cynnwys y cwestiynau cydraddoldeb ym mhob arolwg.

Rydym hefyd yn cydweithio gyda'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, sef grŵp swyddogion cydraddoldeb mudiadau cyhoeddus y rhanbarth, i ymgysylltu yn rhanbarthol bob rhyw 2 flynedd yn arferol ond nid yw hynny wedi digwydd yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Mae gennym hefyd wrth gwrs fynediad at wybodaeth mae'r llywodraeth wedi ei gasglu e.e. ar gyfer y Cynlluniau Gweithredu mae'n wneud ym meysydd hil, LHDTC+ ac anabledd a mudiadau eraill gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Data meintiol

Bu i Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, ar y cyd â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, greu dogfen ddata rhanbarthol yn 2019/20 ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb 2020-24. Roedd ar yr un llinellau ag A yw Cymru'n Decach? Llywodraeth Cymru. Mae'n dangos fod diffyg yn y data sydd ar gael mewn rhai meysydd craidd ar lefel sirol neu ranbarthol. Mae'n debygol fod hyn yn deillio yn rhannol o'r niferoedd isel. Ond mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol sy'n dangos sut fod y rhanbarth neu'r sir yn cymharu gyda Chymru yn ei gyfanrwydd mewn meysydd fel addysg, tai ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r diffyg gwybodaeth yma ar lefel sirol yn rhywbeth fyddwn ni'n edrych arno yn y Rhwydwaith wrth symud ymlaen, er nad oes gweithrediadau pendant eto.

Eto, mae gennym hefyd fynediad at yr wybodaeth mae'r Llywodraeth wedi ei gasglu ar gyfer amryw ddibenion, gan gynnwys y Cynlluniau Gweithredu ac wrth gwrs bydd yr wybodaeth fydd yn dod o Gyfrifiad 2021 yn ddefnyddiol iawn.

Y defnydd o'r wybodaeth i ddiwallu 3 nod y ddyletswydd gyffredinol

Mae'r dyletswyddau penodol sy'n cael eu rhoi ar gyrff cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn nodi fod yn rhaid esbonio sut mae'r wybodaeth yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu 3 nod y ddyletswydd gyffredinol sef:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r ffyrdd mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio'r wybodaeth uchod i ddiwallu'r 3 nod uchod yn cynnwys:

- **Gwella amrywiaeth ein gweithlu -** Bydd yr wybodaeth rydym ni'n gasglu o'n holiadur staff, ynghyd a gwybodaeth am y sir yn gyffredinol, yn cael ei ddefnyddio i'r diben yma.

- **Polisïau staffio mewn meysydd penodol -** Mae gan y Cyngor nifer bolisïau cyflogaeth i wahardd aflonyddu ac erledigaeth yn y gweithle ac mae'r rheini wedi cael eu selio ar dystiolaeth e.e. polisi canu'r gloch a pholisi urddas yn y gwaith, ynghyd â rhai i atal gwahaniaethu yn y gweithle e.e. polisi menopôs a pholisi trawsryweddol.

- **Gweithdrefnau penodol -** Mae gennym hefyd wrth gwrs weithdrefnau i sicrhau parch ac urddas tuag at ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Mae'r Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad (gweler Amcan 2) hefyd yn rhoi amlinelliad o'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau tegwch i bawb a bydd yn cael ei adolygu fel sydd angen ar sail y dystiolaeth a gesglir.

- **Asesu effaith –** Rydym yn y broses o greu dull newydd o asesu effaith fel rhan o Amcan 3. Mae hwnnw wrth gwrs yn cynnwys ystyriaeth o'r 3 nod a bydd yn rhaid i unrhyw asesiad fod wedi ei selio ar dystiolaeth. Byddwn yn casglu cymaint o wybodaeth a phosib mewn un lle fel adnodd ar gyfer cwblhau asesiad

- **Gwaith dydd i ddydd –** Oherwydd bod bob un ohonom ag o leiaf 5 nodwedd warchodedig nid oes unrhyw ran o waith y Cyngor sydd ddim yn cyfrannu tuag at lesiant ar sail cydraddoldeb mewn rhyw ffordd. Mae Gwasanaethau'n casglu gwybodaeth yn eu meysydd eu hunain, ac yn defnyddio'r wybodaeth uchod, er mwyn adnabod y ffordd gorau o sicrhau cyfleon cyfartal ar gyfer grwpiau penodol. Ceir esiamplau o'r gwaith yma yn ein Datganiadau I'r Wasg sydd ar gael yma.

- **Hyfforddiant –** Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn adnabod meysydd penodol sydd angen eu cyfarch. Mae'n bwysig fod aelodau staff yn ymwybodol o'r angen i ystyried cydraddoldeb yn eu gwaith bob dydd felly mae yr e-fodiwl cydraddoldeb, sydd wedi ei selio ar y 3 nod, yn hyfforddiant mandadol.

Gwybodaeth Cyflogaeth 2021-22

Mae gan y Cyngor ddyletswydd, yn ôl Cynllun Cydraddoldeb 2010, i ddarparu gwybodaeth cyflogaeth yn flynyddol. Dyma'r wybodaeth am 2021-22.

1. Manylion y gweithlu yn gyffredinol

Mae **48.3%** o staff y Cyngor wedi llenwi'r holiadur cydraddoldeb dewisol, ac mae'r ffigyrau isod wedi eu selio ar y rhain os nad ydym yn nodi'n wahanol. Mae'r wybodaeth am y nodweddion cydraddoldeb fel â ganlyn:

Rhyw :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Benyw	70.0	33.8
Gwryw	29.0	14.0
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	0.2	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	0.7	0.4
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Albanwr / Albanes	0.1	0.1
Cymro / Cymraes	89.0	43.0
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	0.1	0.1
Prydeiniwr / Prydeines	6.0	2.8
Sais / Saesnes	2.9	1.4
Arall	1.1	0.5
Gwell gennyf beidio â dweud	0.8	0.4
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

Hil :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Gwyn	98.2	47.4
Du – Caribiaidd	-	-
Du - Affricanaidd	<0.1	<0.1
Du – Arall	-	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-	-
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	<0.1	<0.1
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	0.1	<0.1
Cymysg – Arall	<0.1	<0.1
Asiaidd – Indiaidd	-	-
Asiaidd - Pacistanaidd	<0.1	<0.1
Asiaidd – Bangladesiaidd	0.1	<0.1
Asiaidd – Tseinieg	0.1	<0.1
Asiaidd – Arall	0.1	0.1
Arall	0.4	0.2
Gwell gennyf beidio â dweud	1.0	0.5
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

Cyfeiriadedd Rhywiol :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Deurywiol	0.4	0.2
Dyn Hoyw	0.5	0.2
Dynes Hoyw / Lesbian	0.4	0.2

Heterorywiol neu 'Strêt'	95.4	46.1
Arall	0.4	0.2
Gwell gennyf beidio â dweud	2.9	1.4
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

Crefydd :

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio orau?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Anffyddiwr	2.1	1.0
Bwdhaidd	0.2	0.1
Cristion	55.1	26.6
Dim Crefydd	34.8	16.8
Mwslim	0.1	0.1
Iddewig	<0.1	<0.1
Hindŵ	-	-
Arall	2.3	1.1
Gwell gennyf beidio â dweud	5.4	2.6
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

Statws Priodasol :

Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydw	40.6	19.6
Ydw	55.9	27.0
Gwell gennyf beidio â dweud	3.5	1.7
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

Anabledd :

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydw	95.0	45.9
Ydw	2.2	1.0
Gwell gennyf beidio â dweud	2.8	1.4
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

Hunaniaeth Rhywedd :

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Nac Ydi	97.1	46.9
Ydi	1.3	0.6
Gwell gennyf beidio â dweud	1.6	0.8
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

Oedran :

	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
16-19	0.3	0.1
20-24	4.3	2.1
25-29	8.9	4.3
30-34	10.1	4.9
35-39	11.2	5.4
40-44	13.5	6.5
45-49	13.7	6.6
50-54	15.0	7.2

55-59	13.0	6.3
60-64	7.3	3.5
65-69	1.5	0.7
70+	0.1	0.1
Gwell gennyf beidio â dweud	1.1	0.6
Cyfanswm	**100.0**	**48.3**

2. Natur Swyddi

Dim ond nodwedd cydraddoldeb **rhyw** sydd angen ei nodi yma.

a) Y nifer â gyflogir yn ôl swydd :

Dadansoddiad ddim ar gael

b) Nifer â gyflogir yn ôl graddfa cyflog :

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Graddfa Sylfaenol (GS)	36.3	9.4	<0.1	0.3	46.0	22.2
Swyddogion (S)	14.5	9.6	<0.1	0.2	24.4	11.8
Uwch Swyddogion (PS)	9.7	6.8	0.1	0.2	16.9	8.1
Uwch Reolwyr (UR)	0.4	0.7	0.1	-	1.1	0.5
Prif Swyddogion	0.2	0.2	-	-	0.4	0.2

Athrawon (Cynnwys heb gymhwyso a llanw)	6.5	1.3	-	-	7.8	3.8
Prifathrawon / Dirprwy Brifathrawon	1.1	0.6	-	<0.1	1.6	0.8
Soulbury	1.3	0.5	-	-	1.8	0.9
Cyfanswm	**70.0**	**29.1**	**0.2**	**0.7**	**100.0**	**48.3**

c) Nifer â gyflogir fesul amrediad cyflog :

Hyn ar sail cyflog pe byddai'r unigolion yn Gyfwerth Amser Llawn (FTE), ac nid o reidrwydd y gwir gyflog maent yn ei dderbyn.

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
£10,000 - £19,999	35.5	9.0	<0.1	0.3	44.9	21.7
£20,000 - £29,999	13.4	7.4	-	0.1	20.9	10.1
£30,000 - £39,999	16.9	8.9	0.1	0.2	26.1	12.6
£40,000 - £49,999	2.0	2.3	<0.1	0.1	4.5	2.1
£50,000 - £59,999	1.7	0.8	<0.1	<0.1	2.6	1.3
£60,000 - £69,999	0.3	0.4	-	-	0.7	0.3
£70,000 - £79,999	0.1	0.2	-	-	0.2	0.1
£80,000+	0.1	0.1	-	-	0.1	0.1
Cyfanswm	**70.0**	**29.1**	**0.2**	**0.7**	**100.0**	**48.3**

ch) Nifer â gyflogir yn ôl math o gontract

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Cyfnod Penodol	2.0	1.2	-	-	3.2	1.5
Achlysurol	2.3	0.6	-	-	2.9	1.4
Parhaol	65.7	27.3	0.2	0.7	93.9	45.4
Cyfanswm	**70.0**	**29.1**	**0.2**	**0.7**	**100.0**	**48.3**

d) Nifer â gyflogir yn ôl patrwm gwaith

	% Benyw	% Gwryw	% Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	% Gwell gennyf beidio â dweud	% o'r Sampl	% o'r Gweithlu
Llawn Amser	37.4	25.3	0.2	0.5	63.4	30.6
Rhan Amser	32.6	3.8	<0.1	0.2	36.6	17.7
Cyfanswm	**70.0**	**29.1**	**0.2**	**0.7**	**100.0**	**48.3**

3. Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda'r awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Nodyn : ymgeiswyr sydd wedi ceisio am swydd ar lein yn unig ydi'r rhain - ddim yn cynnwys y rhai sydd wedi gwneud cais ar bapur. Mae'n cynnwys pobl sydd eisoes yn gyflogedig gan yr Awdurdod yn ogystal ag ymgeiswyr allanol. Gall person fod wedi ymgeisio am fwy nac un swydd ac felly yn ymddangos dwywaith yn y data. Ar gyfer 2021/22 ceisiadau hyd at y 7/2/22 yn unig sydd yn cael eu hadrodd arnynt oherwydd newid yn y broses o gyflwyno ceisiadau am swyddi.

Rhyw	Nifer
Benyw	2,262
Gwryw	1,312
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	3
Gwell gennyf beidio â dweud	26
Cyfanswm	**3,603**

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	1
Cymro / Cymraes	3,162
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	1
Prydeiniwr / Prydeines	234
Sais / Saesnes	120
Arall	59
Gwell gennyf beidio â dweud	26
Cyfanswm	**3,603**

Hil	Nifer
Gwyn	3,474
Du – Caribiaidd	0
Du – Affricanaidd	13
Du – Arall	0
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	0
Asiaidd – Indiaidd	20

Asiaidd - Pacistanaidd	3
Asiaidd – Bangladesiaidd	2
Asiaidd – Tseinieg	1
Asiaidd – Arall	5
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	5
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	17
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	13
Cymysg – Arall	4
Arall	5
Gwell gennyf beidio â dweud	41
Cyfanswm	**3,603**

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	43
Dyn Hoyw	49
Dynes Hoyw / Lesbian	27
Heterorywiol neu 'Strêt'	3,338
Arall	14
Gwell gennyf beidio â dweud	132
Cyfanswm	**3,603**

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	84
Bwdhaidd	6

Cristion	1,525
Dim Crefydd	1,643
Hindŵ	6
Iddewig	9
Mwslim	13
Arall	65
Gwell gennyf beidio â dweud	252
Cyfanswm	**3,603**

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	2,510
Ydw	996
Gwell gennyf beidio â dweud	97
Cyfanswm	**3,603**

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	3,407
Ydw	102
Gwell gennyf beidio â dweud	94
Cyfanswm	**3,603**

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	3,507
Ydi	61

Gwell gennyf beidio â dweud	35
Cyfanswm	**3,603**

Oedran	Nifer
16-19	128
20-24	797
25-29	659
30-34	508
35-39	387
40-44	337
45-49	228
50-54	256
55-59	172
60-64	47
65-69	8
70-74	0
75+	0
Gwell gennyf beidio â dweud	79
Cyfanswm	**3,603**

4. **Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am swydd wahanol o fewn yr awdurdod**

   Rhan o'r ffigyrau uchod.

5. **Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer fu'n llwyddiannus**

O'r 3,184 aelod o staff wnaeth gais am hyfforddiant, a bu pob aelod o staff yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau am hyfforddiant.

6. **Pobl sy'n gyflogedig i'r Cyngor sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn llwyddiannus**

   Bu i 3,184 aelod o staff gwblhau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn, boed yn hyfforddiant traddodiadol neu yn fodiwl e-ddysgu. O'r rhain 1,759 oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb.

Rhyw	Nifer
Benyw	1,265
Gwryw	475
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	5
Gwell gennyf beidio â dweud	14
Cyfanswm	**1,759**

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	2
Cymro / Cymraes	1,544
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	2
Prydeiniwr / Prydeines	108
Sais / Saesnes	65
Arall	20
Gwell gennyf beidio â dweud	18
Cyfanswm	**1,759**
Hil	Nifer
Asiaidd - Pacistanaidd	1
Asiaidd – Tseinieg	2

Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Bangladesiaidd	1
Asiaidd – Arall	1
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	-
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	2
Cymysg – Arall	1
Gwyn	1,723
Du – Caribiaidd	-
Du - Affricanaidd	1
Du – Arall	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Arall	8
Gwell gennyf beidio â dweud	19
Cyfanswm	**1,759**

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	8
Dyn Hoyw	9
Dynes Hoyw / Lesbian	9
Heterorywiol neu 'Strêt'	1,668
Arall	11
Gwell gennyf beidio â dweud	54
Cyfanswm	**1,759**

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	39
Bwdhaidd	2
Cristion	933
Dim Crefydd	645
Mwslim	1
Iddewig	1
Hindŵ	-
Arall	48
Gwell gennyf beidio â dweud	90
Cyfanswm	**1,759**

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	714
Ydw	986
Gwell gennyf beidio â dweud	59
Cyfanswm	**1,759**

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	1,665
Ydw	43
Gwell gennyf beidio â dweud	51
Cyfanswm	**1,759**

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	1,706
Ydi	25
Gwell gennyf beidio â dweud	28
Cyfanswm	**1,759**

Oedran	Nifer
16-19	6
20-24	89
25-29	162
30-34	175
35-39	195
40-44	248
45-49	243
50-54	252
55-59	225
60-64	128
65-69	15
70+	2
Gwell gennyf beidio â dweud	19
Cyfanswm	**1,759**

7. Aelodau o staff sydd wedi bod yn rhan o'r weithdrefn gwyno naill ai fel achwynydd neu fel y sawl y gwnaethpwyd cwyn yn eu herbyn

Mae 6 unigolyn wedi bod yn rhan o weithdrefn gwyno. O rhain dim ond 5 oedd wedi cwblhau yr holiadur cydraddoldeb. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion.

8. Aelodau staff sydd wedi bod drwy'r weithdrefn ddisgyblaethol

Mae 25 achos o ddisgyblu wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. O rhain dim ond 7 oedd wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldeb. Nid yw'n bosib dadansoddi'n bellach oherwydd y peryg o adnabod unigolion.

9. Aelodau staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor

Bu i 612 unigolyn adael cyflogaeth y Cyngor yn ystod 2021/22. O'r rhain, 208 ohonynt oedd wedi ateb yr holiadur cydraddoldeb.

Rhyw	Nifer
Benyw	148
Gwryw	58
Arall / Rwyf yn meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	2
Cyfanswm	**208**

Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer
Albanwr / Albanes	1
Cymro / Cymraes	183
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	-
Prydeiniwr / Prydeines	16
Sais / Saesnes	4
Arall	1
Gwell gennyf beidio â dweud	3
Cyfanswm	**208**

Hil	Nifer
Asiaidd - Pacistanaidd	-
Asiaidd – Indiaidd	-
Asiaidd – Bangladesiaidd	-
Asiaidd – Tseinieg	-
Asiaidd – Arall	-
Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd	-
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	-
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	-
Cymysg – Arall	-
Gwyn	205
Du – Caribiaidd	-
Du - Affricanaidd	-
Du – Arall	-
Sipsiwn neu deithiwr Gwyddelig	-
Arall	-
Gwell gennyf beidio â dweud	3
Cyfanswm	**208**

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer
Deurywiol	-
Dyn Hoyw	3
Dynes Hoyw / Lesbian	-
Heterorywiol neu 'Strêt'	196
Arall	1

Gwell gennyf beidio â dweud	8
Cyfanswm	**208**

Crefydd	Nifer
Anffyddiwr	2
Bwdhaidd	-
Cristion	117
Dim Crefydd	69
Mwslim	-
Iddewig	-
Hindŵ	-
Arall	6
Gwell gennyf beidio â dweud	14
Cyfanswm	**208**

Statws Priodasol : Ydych chi'n briod, neu mewn partneriaeth sifil?	Nifer
Nac Ydw	101
Ydw	100
Gwell gennyf beidio â dweud	7
Cyfanswm	**208**

Anabledd : Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer
Nac Ydw	195
Ydw	6

Gwell gennyf beidio â dweud	7
Cyfanswm	**208**

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg geni?	Nifer
Nac Ydi	198
Ydi	5
Gwell gennyf beidio â dweud	5
Cyfanswm	**208**

Oedran	Nifer
16-19	3
20-24	21
25-29	24
30-34	21
35-39	18
40-44	15
45-49	13
50-54	19
55-59	24
60-64	34
65-69	13
70+	-
Gwell gennyf beidio â dweud	3
Cyfanswm	**208**

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**13 Medi 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Menna Jones**
Swyddog Cyswllt:	**Gwenllian Mair Williams, Ymgynghorydd Iaith**
Rhif Cyswllt:	**32469**
Pwnc:	**Diwygio Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor**

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

I gefnogi'r addasiadau sydd wedi eu gwneud i'r Polisi Iaith ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadau y Polisi diwygiedig.

RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae newidiadau mawr wedi bod yn y modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ers i'r Polisi cyfredol gael ei lunio yn 2016. Mae'n allweddol felly sicrhau bod Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor yn cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu dulliau gweithredu hynny ac uchelgais cyfredol y Cyngor o ran hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau.

---

1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae ymrwymiad statudol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn cael ei ddiffinio dan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* a'r Safonau Iaith a osodwyd ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

1.2. Cafodd y Polisi cyfredol ei ysgrifennu a'i gymeradwyo yn 2016 mewn ymateb i osod Safonau'r Gymraeg. Roedd yn fodd o ateb y gofynion o fewn y Safonau i "*ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso'r Gymraeg*" (Safon 98) ac i gael dogfen sydd yn esbonio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio gyda'r gwahanol ddosbarthiadau o Safonau (Safon 171 ac eraill).

1.3. Ar yr un pryd, roedd awydd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gweithredu'r Safonau yn gwanhau ei ymrwymiadau hanesyddol, drwy'r Polisïau a Chynllun Iaith blaenorol, ac yn benodol felly yr ymrwymiad i gynnal gweinyddiaeth fewnol y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg, i fod yn hybu'r Gymraeg, ac i fod yn gwneud y cynnig rhagweithiol Cymraeg drwy ei holl wasanaethau.

1.4. Lluniwyd y Polisi felly gyda'r bwriad o esbonio sut y bydd gwasanaethau a staff y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r Safonau wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac hefyd i adlewyrchu egwyddorion ac uchelgais y Cyngor ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, a'r bwriad i weithredu o blaid y Gymraeg.

2. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

2.1 Yn ystod 2020, dechreuwyd edrych ar adolygiadau posib i'r polisi iaith. Cymerwyd y cam hwn am fod newidiadau mawr wedi bod yn y modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ers i'r Polisi cyfredol gael ei lunio yn 2016.

2.2 Roedd teimlad nad oedd rhai rhannau o'r Polisi yn rhoi arweiniad digon clir a chadarn i staff, ac nad oedd yn cwmpasu'r holl sefyllfaoedd y mae gwasanaethau yn delio gyda nhw o ddydd i ddydd. Nid oedd cymalau penodol, er enghraifft, yn delio gyda'r modd y caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio yn systemau TG y Cyngor. Roedd hefyd angen adlewyrchu'r newidiadau oedd wedi eu gwneud i'r drefn recriwtio yn y polisi.

2.3 Manteisiwyd ar y cyfle felly i wneud adolygiad trylwyr o'r Polisi. Mae'r Polisi diwygiedig i'w weld yn llawn yn **Atodiad A**, ac mae'r newidiadau sydd yn cael eu cynnig yma yn amrywio o:

- fan newidiadau gweinyddol
- creu cymalau newydd
- rhoi arweiniad ar feysydd sydd ddim o reidrwydd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Safonau
- gosod cymalau sydd yn nodi'r egwyddorion allweddol yn glir er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cymryd pob cyfle i hybu'r Gymraeg.

3 Cymalau neu adrannau newydd

3.1 Mae rhai cymalau wedi eu hychwanegu o'r newydd i'r polisi a rhai adrannau lle mae newidiadau mwy sylweddol wedi eu gwneud i gynnwys y polisi blaenorol. Nodwn isod felly y prif newidiadau er gwybodaeth i chi:

- **Amcanion ac Egwyddorion cyffredinol –** Mae'r egwyddorion cyffredinol ar ddechrau'r polisi wedi cael eu haddasu a'u cryfhau, a chymalau newydd yn cynnwys un am arddel enw Cymraeg y Cyngor yn unig, ac un yn amlygu cyfrifoldeb y Cyngor i asesu effaith penderfyniadau. Mae diwyg y polisi wedi ei addasu er mwyn cynnwys Egwyddorion Cyffredinol ar ddechrau pob adran hefyd. Mae'r rhain yn rhoi esboniad byr a chryno o beth yw'r amcan cyffredinol ar gyfer y maes gweithredu hwnnw, a bydd modd defnyddio'r egwyddorion hyn fel canllaw byr a sydyn i helpu staff ddeall beth sydd angen ei wneud i weithredu'r polisi a chydymffurfio gyda'r Safonau yn eu gwaith. Mae'r amcanion ac egwyddorion hyn yn cyfleu ymrwymiad y Cyngor i'r Safonau ac hefyd i hybu y Gymraeg ymhellach na chynnig gwasanaethau dwyieithog.

- **Amcanion Cyffredinol - Enw'r Cyngor:** Mae ymrwymiad wedi ei gynnwys yn yr amcanion cyffredinol, a cymalau wedi eu hychwanegu i'r polisi, sydd yn adlewyrchu'r awydd i arddel enw Cymraeg y Cyngor (Cyngor Gwynedd) wrth gyfeirio at ei hun yn ysgrifenedig ac fel rhan o'r ddelwedd gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys newid o Cyngor Gwynedd Council i

Cyngor Gwynedd ar logos electronig, pen-lythyrau a chyfeiriadau at y Cyngor mewn dogfennau cyhoeddus, rhaglenni cyfarfodydd a gwefannau ac apiau. Bydd hefyd yn cynnwys defnydd o enw'r Cyngor mewn logos a ddefnyddir yn gyhoeddus, megis ar arwyddion safle neu gerbydau y Cyngor, a bydd y newidiadau hyn yn cael eu gwneud wrth adnewyddu er mwyn osgoi costau ychwanegol.

Mae'r newid hwn wedi ei gynnwys i adlewyrchu gwaith, a'r arweiniad sydd wedi ei gael, gan y Prosiect Enwau Lleoedd Cynhenid.

Yn statudol dan Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae gan y Cyngor ffurf enw yn y Gymraeg a'r Saesneg sef enw'r Sir, Gwynedd ac unai Cyngor Gwynedd neu Gwynedd Council. Nid yw'r hyn a argymhellir yn y Polisi yn newid y sefyllfa yma. Yr hyn sydd yn y Polisi yw bwriad i ddefnyddio y ffurf Gymraeg yn unig wrth gyfathrebu a chyfeirio at y Cyngor. Rydym wedi derbyn arweiniad cyfreithiol y gellir gweithredu yn y modd yma gan ddal sylw penodol at ofynion Mesur Iaith (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r agweddau yma yn cael sylw penodol yn yr adroddiad a'r Asesiad Ardrawiad sydd yn ynghlwm. Dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 25 mae gan y Cyngor bŵer cymhwysedd cyffredinol bellach sydd yn rhoi hyblygrwydd gweithredol ehangach i'r Cyngor i wneud penderfyniadau. Mae'r gallu i ddefnyddio'r pŵer yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiad statudol sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag nid yw'r hyn a argymhellir yn disgyn o fewn y categori yma. Mae'r hyn a argymhellir yn yr adroddiad ynglŷn ag arddel y ffurf Gymraeg yn unig yn safbwynt Polisi y gall y Cyngor ei gymryd o fewn y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Yn amlwg wrth weithredu y Polisi bydd angen cadw trosolwg o amgylchiadau ble fyddai gofynion penodol yn golygu fod angen defnyddio ffurf amgen ond mae'r Polisi yn darparu hyblygrwydd digonol ar gyfer cyfarch hyn.

- **Adran 5 - Gwasanaethau digidol – gwefan, apiau a hunanwasanaeth –** mae'r adran hon wedi ei newid yn sylweddol er mwyn rhoi gwell arweiniad i staff am ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwahanol ffyrdd y defnyddir technoleg yng ngwaith y Cyngor. Roedd yr arweiniad oedd yn cael ei roi am ddefnyddio'r Gymraeg mewn technoleg yn y Safonau, ac yn sgil hynny y Polisi blaenorol, yn brin iawn, a chan fod y Cyngor wedi bod yn datblygu mwy o wasanaethau ar-lein ac yn dibynnu mwy ar systemau TG, roedd angen addasu'r polisi i adlewyrchu hynny.

- **Adran 6 – Arwyddion –** Mae nifer o gymalau newydd wedi eu hychwanegu i'r polisi i adlewyrchu amcanion prosiect blaenoriaeth y Cyngor Prosiect Enwau Llefydd Cynhenid Cymreig ac ymrwymiad y Cyngor i warchod enwau lleoedd Cymraeg. Yn hanesyddol, roedd gan y Cyngor gymal o fewn ei gynllun iaith oedd yn ymrwymo i ddefnyddio enwau Cymraeg lleoedd, ond roedd hwnnw wedi diflannu o'r Polisi Iaith, ac roedd awydd i weld cymal tebyg yn cael ei ailosod yn y Polisi diwygiedig. Mae'r cymalau yma hefyd yn adlewyrchu'r arweiniad sydd wedi ei roi i'r Prosiect Enwau Llefydd yng nghyd-destun defnyddio enw Cymraeg y Cyngor ac arddel enwau Cymraeg strydoedd a lleoedd yn y sir.

- **Adran 14 - hysbysebu swyddi a'r broses recriwtio** – Ers cyhoeddi'r Polisi Iaith yn 2016, mae gwaith sylweddol wedi ei wneud yn sgil y prosiect Dynodiadau Iaith i ddatblygu trefniadau asesu sgiliau iaith ar draws y Cyngor, ac felly roedd angen newid yr adran hon er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi eu gweithredu o fewn y broses recriwtio yn sgil y prosiect.

Mae'r diwygiadau yma felly wedi eu llunio ar sail trafodaethau gyda swyddogion Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, Adnoddau Dynol a'r gwasanaeth Cefnogol fel rhan o Fwrdd Prosiect y Dynodiadau Iaith, ac maent yn gyson gyda'r addasiadau sydd hefyd wedi eu gwneud i bolisi recriwtio'r Cyngor.

- **Adran 15 – Atebolrwydd –** Mae'r adran hon wedi ei hychwanegu er mwyn nodi yn glir pwy sydd yn atebol i'r polisi a beth yw cyfrifoldeb yr Aelodau Etholedig ac aelodau'r Pwyllgor Iaith.

4 Ymgysylltu ac ymgynghori

4.1 Rydym wedi ymgynghori a thrafod yn eang ar y newidiadau i'r Polisi hwn. Cynhaliwyd nifer o weithdai a sgyrsiau gyda swyddogion i drafod rhannau penodol o'r polisi a newidiadau oedd yn cael eu hystyried, megis yr adran gweinyddiaeth fewnol, er mwyn sicrhau bod unrhyw addasiadau yn ymarferol a ddim yn rhoi swyddogion mewn sefyllfa anodd o ran cydymffurfio. Cafwyd sgyrsiau penodol gyda swyddogion adnoddau dynol y Cyngor hefyd, er mwyn sicrhau bod cysondeb rhwng y cymalau recriwtio a phenodi fyddai yn y Polisi Iaith a'r polisi recriwtio mewnol, a gafodd ei adolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

4.2 Rydym wedi cyflwyno eitemau i'r Pwyllgor Iaith ar ddau achlysur. Unwaith yn Ionawr 2021, pan gynhaliwyd gweithdy anffurfiol gyda'r aelodau ar adolygu'r Polisi, er mwyn casglu barn am rai o'r egwyddorion oedd yn cael eu hystyried ac i gymeradwyo y cymalau recriwtio a phenodi, ac yna eto yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2022 er mwyn cyflwyno'r drafft o'r polisi.

4.3 Rydym hefyd wedi derbyn sylwadau yn sgil ymgynghori gydag Adrannau'r Cyngor a grŵp Cydraddoldeb y Cyngor, ac wedi ystyried newidiadau yn sgil cwynion ac ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg. Mae crynodeb o'r ymgynghori sydd wedi ei wneud, y sylwadau neu awgrymiadau sydd wedi eu cynnig yn y gwahanol fforymau, ac unrhyw newidiadau yr ydym wedi eu hymgorffori yn y polisi terfynol o ganlyniad i'r sylwadau hynny, i'w weld fel atodiad i'r adroddiad hwn (**Atodiad B**). Mae'r risgiau a gafodd eu hadnabod drwy'r gwaith ymgysylltu yma hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad effaith, ac unrhyw oblygiadau cydraddoldeb wedi eu hystyried yn ofalus.

5. Asesiadau Effaith

5.1 Cyfrifoldebau Statudol

5.1.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Mae'r materion hyn wedi cael sylw wrth lunio'r asesiad effaith.

5.1.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

5.1.3 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae'r Safonau Iaith a osodir dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i gael polisi sydd yn esbonio sut bydd y Cyngor yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol a dyletswydd i ystyried effaith ei benderfyniadau ar gyfleoed i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Polisi a'r ddogfen asesu effaith sydd wedi ei atodi gyda'r adroddiad hwn yn ateb y gofynio hynny a osodir yn y Safonau.

5.2 Crynodeb o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

5.2.1 Gan fod y Polisi wedi ei ysgrifennu i ateb gofyn statudol i gydymffurfio gyda'r Safonau, a'i fod wedi ei fwriadu i sicrhau bod y Cyngor yn gwarchod hawliau trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb, roedd yr effaith a nodwyd yn gadarnhaol ar y cyfan. Gweler yr Asesiad Effaith diweddaraf yn llawn yn **Atodiad C**.

5.2.2 Codwyd rhai materion yn ystod yr ymgynghori yn ymwneud gyda hil, a'r ffaith bod argraff gan rai unigolion bod y Polisi Iaith yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o hil gwahanol ac o leiafrifoedd ethnig – hy.y. pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg/ sydd ddim efo cenedligrwydd Cymreig neu bobl sydd wedi symud i'r ardal ac heb fynd drwy system addysg y sir a chael y cyfle i ddysgu Cymraeg. . Mae hyn yn ymwneud yn bennaf gyda'r cymalau recriwtio a ragdybiaeth bod sgiliau "hanfodol" yn golygu sgiliau rhugl, lefel uwch. Serch hynny, teimlwyd bod yr effaith gyffredinol yn gadarnhaol yn sgil y ffaith bod y polisi yn ateb y dyletswydd i warchod hawl unigolion i wasanaethau Cymraeg a bod y cymalau recriwtio yn fodd o sicrhau bod y sgiliau priodol ar gael i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddi-dor.

5.2.3 Codwyd materion eraill yn ymwneud efo hygyrchedd gwybodaeth, effeithiau posib cynhyrchu dogfennau dwyieithog ar rai carfanu o bobl gydag anableddau, a'r peryg bod y dull gweithredu presennol yn mynd i gau rhai aelodau o'r gymdeithas allan o ddefnyddio gwasanaethau yn effeithiol oherwydd diffyg mynediad i dechnoleg (effaith sosio-economaidd posib). Gan fod y materion hyn yn ymwneud fwy efo'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyfathrebu yn gyffredinol yn hytrach na mater yn ymwneud efo'r Polisi Iaith yn uniongyrchol, ni ystyriwyd bod effaith fyddai yn arwain at angen i newid y polisi, ond bydd angen ystyried sut y byddwn yn ymateb i'r sylwadau.

5.2.4 Casglwyd mai effaith bositif y byddai mabwysiadu'r addasiadau i'r Polisi yn ei gael gan fod y newidiadau hynny yn cynrychioli ymdrech i gryfhau ymrwymiadau y Cyngor i weithredu Safonau'r Gymraeg ac hefyd dymuniad y Cyngor i fod yn hybu'r iaith ac yn cynnig cyfleoedd

amrywiol i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r asesiad yn nodi bod gan y Cyngor strategaeth iaith sydd yn amlinellu ei amcanion i hybu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir, a bod y Polisi diwygiedig yn cyfrannu at amcanion maes Blaenoriaeth 3- Iaith Gwaith a Gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i'r nod llesiant o weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau bod trigolion yn gallu byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg" drwy Gynllun y Cyngor.

6. Oblygiadau gweithredu a chostau

6.1 Gan fod nifer o newidiadau wedi eu gwneud i'r polisi, bydd yn allweddol bod yr Ymgynghorwyr Iaith yn codi ymwybyddiaeth staff am y newidiadau hynny, ac yn rhoi camau yn eu lle er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gofynion. Bydd rhaglen gyfathrebu yn cael ei datblygu er mwyn rhannu negeseuon yn rheolaidd ac amserol gyda staff.

6.2 Mae rhai meysydd lle rydym yn ymwybodol, o ganlyniad i gwynion ac ati, bod ymwybyddiaeth am union ofyn y Safona yn isel, a bydd angen rhoi sylw arbennig i'r meysydd hynny.

6.3 Mae rhai oblygiadau gweithredu hefyd ar gyfer yr adrannau hynny o'r polisi sydd wedi ei nodi yn adran 3 uchod fel y rhai lle mae'r newidiadau mwyaf wedi eu gwneud i'r Polisi. Mae'r rhain yn cynnwys:

6.4 **Adran 5 - Gwasanaethau digidol – gwefan, apiau a hunanwasanaeth:** Mae darn o waith penodol angen ei wneud i adolygu systemau TG y cyngor, er mwyn sicrhau bod pob system gennym yn ateb gofyn y Safonau a'r Polisi, ac yn gweithredu mewn modd sydd yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ac yn defnyddio enwau a chyfeiriadau Cymraeg. Bydd hon yn rhaglen hir-dymor, gyda newidiadau yn cael eu gwneud i systemau wrth iddynt gael eu hadnewyddu os na fydd modd gwneud newidiadau yn syth ac yn rhwydd (di-gost). Mae hyn yn osgoi gorfod mynd i wariant ychwanegol wrth weithredu y polisi wedi iddo gael ei fabwysiadu.

6.5 **Adran 6 – Arwyddion:** Mae'r ymrwymiad sydd wedi ei nodi yn y polisi i ddefnyddio enwau lleoedd a strydoedd Cymraeg lle bynnag y bo'n bosib yn golygu y bydd angen cymryd rhai camau gweithredu er mwyn gweld newid cyn gynted â phosib. Bydd staff yn cael cyfarwyddyd i ddefnyddio enwau Cymraeg lleoedd, gan gynnwys strydoedd a phentrefi, mewn unrhyw ohebiaeth, cyhoeddiadau ysgrifenedig, ac arwyddion.

6.6 **Amcanion Cyffredinol - Enw'r Cyngor:** Bydd y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i arddel enw Cymraeg y Cyngor yn cael eu gwneud fel rhan o raglen waith y Prosiect Enwau Lleoedd, ac mewn ffordd sydd yn golygu'r lleiafswm â phosib o gostau i'r Cyngor. Bydd cyfarwyddyd yn cael ei rannu gyda staff fel rhan o raglen gyfathrebu y Polisi, er mwyn cymryd camau cychwynnol di-gost, megis newid logos electronig, pen-lythyrau a chyfeiriadau at y Cyngor mewn dogfennau. Bydd newidiadau mwy, megis newid logos ar arwyddion neu gerbydau y Cyngor, yn cael eu gwneud wrth adnewyddu er mwyn osgoi costau ychwanegol.

6.7 Mae rhai amgylchiadau lle y bydd angen cyngor cyfreithiol cyn gweithredu'r newid, er enghraifft wrth ddefnyddio enw Cymraeg y Cyngor mewn dogfennau cyfreithiol, gorchmynion statudol, cytundebau a rhybuddion cosb, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg i'r Cyngor.

6.8 Bydd y Prosiect Enwau Lleoedd a'i fwrdd prosiect yn gyfrifol am fonitro'r newidiadau i'r ddau bwynt uchod ac i ystyried unrhyw faterion ymarferoldeb a chost – h.y. os bydd costau yn amlygu eu hunain wrth weithredu rhai elfennau, bydd angen cael cytundeb y Cabinet cyn symud mlaen.

6.9 **Adran 14 - hysbysebu swyddi a'r broses recriwtio**: Mae nifer o newidiadau yn y maes hwn eisoes wedi eu gweithredu fel rhan o'r Prosiect Dynodiadau Iaith, ond bydd cyfrifoldeb yn parhau i fonitro, ac i sicrhau bod cymalau'r polisïau Iaith a Recriwtio yn cael eu dilyn. Bydd hefyd angen rhoi camau ar waith i ddatblygu'r gefnogaeth sydd yn cael ei roi i weithwyr a rheolwyr er mwyn datblygu sgiliau ieithyddol a sicrhau bod gwasanaethau yn gallu parhau i weithredu a gweinyddu yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.10 **Adran 15 – Atebolrwydd:** Bydd angen gwirio Cod Ymddygiad yr Aelodau Etholedig ac ystyried adolygu er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau a osodir yn y Polisi i barchu safbwynt y Cyngor at y Gymraeg yn cael ei nodi yn glir yno. Bydd hefyd angen codi ymwybyddiaeth yr aelodau o'r newidiadau hyn yn y Polisi.

6.11 Nid ydym yn ystyried bod unrhyw gost ychwanegol ynghlwm efo'r newidiadau a ddaw yn sgil gweithredu'r Polisi felly, gan y bydd newidiadau yn cael eu gweithredu fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor, ac yn achos arwyddion, yn raddol ac fel rhan o drefniadau adnewyddu arferol y Cyngor.

7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Os bydd y Cabinet yn cytuno ar y Polisi ar ei ffurf bresennol, bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn er mwyn ei gymeradwyo.

7.2 Bydd yr Ymgynghorwyr Iaith yn llunio a gweithredu rhaglen gyfathrebu er mwyn sicrhau bod staff y Cyngor yn ymwybodol o'r newidiadau sydd wedi eu gwneud.

7.3 Bydd nifer o ganllawiau yn cael eu rhannu ar fewnrwyd y Cyngor er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth a rhoi arweiniad pellach i staff ar feysydd penodol, gan gynnwys canllaw asesu effaith a thempledi a brawddegu safonol i'w defnyddio fel datganiadau mewn dogfennau a gohebiaeth.

8. BARN SWYDDOGION STATUDOL:

i. Y Swyddog Monitro:

Rwyf wedi cael cyfle i gynghori yn benodol ar agweddau mater yma. Rwy'n fodlon fod y diwygiadau a argymhellir I'r Polisi yn briodol o safbwynt cyfreithiol.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Tra gall fod ymhlygiadau ariannol ymylol o weithredu'r newidiadau i'r Polisi Iaith ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, rwyf yn argyhoeddedig gall adrannau'r Cyngor ddygymod gyda'r anghenion o fewn eu hadnoddau cyfredol.

Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd bydd newidiadau mwy, megis newid logos ar arwyddion neu gerbydau y Cyngor, yn cael eu gwneud wrth adnewyddu er mwyn osgoi costau ychwanegol, ac ymhellach nodir os bydd costau yn amlygu eu hunain wrth weithredu rhai elfennau, bydd angen cael cytundeb y Cabinet cyn symud mlaen. Nid oes gennyf felly unrhyw wrthwynebiad i gynnwys y Polisi Iaith ddiwygiedig o safbwynt ariannol.

Atodiadau sydd wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad hwn:

Atodiad A: Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig 2022
Atodiad B: Crynodeb Ymgysylltu y Polisi
Atodiad C: Asesiad Effaith y Polisi Iaith – Awst 2022

POLISI IAITH GYMRAEG CYNGOR GWYNEDD 2022

1. RHAGAIR

Cyhoeddir y Polisi Iaith hwn yn unol â blaenoriaethau Cyngor Gwynedd a'r gofynion a osodir ar y Cyngor dan Safonau'r Gymraeg, Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Diben y polisi yw nodi sut y bydd y Cyngor a'i weithwyr yn mynd ati i gynllunio a darparu er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Bydd hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith.

Mae helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei nodi fel un o flaenoriaethau gwella Cyngor Gwynedd yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r flaenoriaeth honno yn ategu nod y Cynllun Llesiant i "gael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg".

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo drwy ei strategaeth hybu – *Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd* - i gymryd camau rhagweithiol i hybu'r iaith a chynyddu cyfleoedd i bobl Gwynedd ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau.

2. <u>AMCANION CYFFREDINOL Y POLISI</u>

Drwy weithredu yn unol â'r polisi hwn, felly, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau:

1. Bod gweithlu cyfan y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2. Bod delwedd a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn un Cymreig a Chymraeg, ac yn adlewyrchu ei ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r enw 'Cyngor Gwynedd' wrth gyfeirio at ei hun lle bynnag y bo'n bosib.

3. Y bydd staff yn manteisio ar bob cyfle i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ymysg defnyddwyr gwasanaethau.

4. Y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â'u dewis personol, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod y dewis iaith hwnnw yn cael ei nodi a'i barchu bob amser.

5. Y bydd gwasanaethau neu weithgareddau sydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu cymunedau yn cael eu hyrwyddo yn briodol ac effeithiol.

6. Y rhoir cyfrifoldeb ar **holl** Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.

7. Bod pob corff allanol yn cael eu cymell i gyfathrebu gyda'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog.

8. Bod disgwyl i unrhyw gyrff neu fusnesau allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor wneud hynny yn unol â'r Safonau a osodir ar y Cyngor ei hun. Bydd disgwyliadau clir yn cael eu gosod mewn cytundebau gwasanaeth a threfniadau monitro priodol yn cael eu sefydlu a'u dilyn.

9. Bod staff y Cyngor yn sicrhau eu bod yn dilyn prosesau asesu effaith trylwyr, fydd yn ystyried effaith polisïau, penderfyniadau a chynlluniau'r Cyngor ar y Gymraeg a'i siaradwyr, gan gynnwys effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir a chyfleoedd i weld a chlywed y Gymraeg yn y spher gyhoeddus. Bydd disgwyl i bawb ddefnyddio'r fframwaith asesu effaith integredig sydd wedi ei datblygu ar gyfer cydraddoldeb, iaith ac anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn sicrhau bod holl gynlluniau'r Cyngor yn cyd-fynd gyda'r amcanion a nodir yn strategaeth iaith y Cyngor – Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd – a'r uchelgais hir-dymor i weld nifer siaradwyr Cymraeg yn y sir yn cynyddu.

3. Y POLISI – GWEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG YNG NGWAITH Y CYNGOR

ADRAN 1. GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1,4,5,6, 7)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Byddwn yn parchu rhyddid yr unigolyn/ cyhoedd i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu Saesneg.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gofnodi dewis iaith, ac i gyfathrebu yn unol â'r dewis hwnnw.

Byddwn yn annog unigolion a chyrff eraill i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu efo ni.

1.1 Dylai aelodau staff y Cyngor ateb pob llythyr yn yr iaith y cafodd ei ysgrifennu yn wreiddiol, ac yn unol â'r targedau ateb llythyrau corfforaethol, sef cydnabod yr ohebiaeth o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 15 diwrnod gwaith.

1.2 Os oes angen gohebu (dros e-bost neu lythyr) ar ôl siarad gyda rhywun wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, dylai unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig ddilyn y dewis iaith yn y sgwrs wreiddiol, neu yn yr iaith a ddewiswyd gan y defnyddiwr os ydyn nhw wedi dweud yn benodol yr hoffent gael gwybodaeth ysgrifenedig mewn iaith wahanol i'w dewis llafar.

1.3 Dylai unrhyw ohebiaeth dorfol gael ei anfon yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys unrhyw lythyr sydd yn cael ei anfon at fwy nag un person yn defnyddio'r un templed (nid oes rhaid iddynt gael eu hanfon ar yr un pryd) - fel ymatebion i geisiadau ar y system hunanwasanaeth.

1.4 Os bydd llythyrau yn cael eu hanfon o system gyfrifiadurol/hunanwasanaeth lle mae dewis iaith wedi ei nodi a lle mae'r wybodaeth wedi ei bersonoli mewn rhyw ffordd, er enghraifft drwy ddefnyddio cyfeirnod achos, nid oes rhaid anfon yn ddwyieithog a gellir anfon yn newis iaith yr unigolyn.

1.5 Pan fydd aelod o staff yn cychwyn gohebiaeth efo unigolyn, cymdeithas neu gwmni ar ffurf llythyr neu e-bost, dylent ysgrifennu'r ohebiaeth honno yn ddwyieithog. Gallant ysgrifennu yn Gymraeg yn unig os ydynt yn gwybod i sicrwydd bod y derbynnydd yn gallu'r Gymraeg ac yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.

1.6 Dylid sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a anfonir, yn electronig neu yn unigol gan staff, yn defnyddio cyfeiriadau Cymraeg, gan gynnwys enwau strydoedd Cymraeg a'r ffurfiau ar enwau lleoedd sydd ar gofrestr enwau lleoedd y Cyngor.

1.7 Dylai aelodau staff y Cyngor bob amser ysgrifennu at gyrff cyhoeddus a chyrff sydd wedi eu datganoli yng Nghymru **yn y Gymraeg yn unig**.

1.8 Os bydd corff arall sydd hefyd yn atebol i'r Safonau Iaith (yn enwedig awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru) yn anfon gohebiaeth uniaith Saesneg, dylai aelodau staff y Cyngor ofyn am gopi Cymraeg o'r ohebiaeth cyn ymateb i'r corff yn Gymraeg. Os na dderbynnir gohebiaeth Gymraeg wedi gwneud cais amdano, dylid ymateb i'r

ohebiaeth yn Gymraeg a rhoi gwybod i'r Uned Iaith a Chraffu.

1.9 Dylai aelodau staff y Cyngor gynnwys datganiad ar unrhyw ohebiaeth yn nodi bod croeso i'r cyhoedd gyfathrebu efo nhw yn Gymraeg ac na fydd cyfathrebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

1.10 Dylid sicrhau cywirdeb unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon. Anogir holl staff y Cyngor i ddefnyddio rhyngwyneb Cymraeg Windows a CySill ac i ddefnyddio iaith glir a syml.

1.11 Bydd canllawiau a thempledi yn cael eu darparu ar y fewnrwyd, a hyfforddiant Gloywi Iaith ar gael i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio gyda gofynion y cymalau uchod.

ADRAN 2. GWASANAETHAU FFÔN
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17,18, 20, 21, 22)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod posib delio gydag unrhyw ymholiad yn llawn yn y Gymraeg wrth i'r cyhoedd gysylltu ar y ffôn.

2.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod posib i unrhyw aelod o'r cyhoedd gael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg wrth gysylltu gyda nhw dros y ffôn.

2.2 Bydd pob aelod o staff rheng flaen a phob system ateb electronig awtomatig – a hynny yn y Pencadlys, y swyddfeydd rhanbarth a mannau cyhoeddus eraill y Cyngor - yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn y Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg) ac mewn ffordd groesawgar.

2.3 Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyfarch yn y Gymraeg wrth ateb galwadau gan y cyhoedd.

2.4 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn galw ac eisiau delio efo'u ymholiad yn Gymraeg, ond nad yw'r swyddog sy'n ateb yr alwad yn gallu siarad Cymraeg yn ddigon rhugl i ymdrin â'r mater **yn llawn**, dylai'r swyddog egluro hynny wedi cyfarch y galwr, a chynnig trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff fydd yn gallu ymdrin â'r mater yn llawn yn newis iaith y galwr. Mewn achosion lle bo'r swyddog sy'n ateb galwad yn ddysgwr(aig), anogir y swyddog i ddefnyddio ac ymarfer ei G/Chymraeg hyd eithaf ei (g)allu.

2.5 Bydd negeseuon ar holl beiriannau ateb y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r neges

Gymraeg i’w chlywed gyntaf.

2.6 Pan fydd aelod o staff yn ffonio aelod o’r cyhoedd, ac yn cysylltu am y tro cyntaf, bydd yn gwneud yn siŵr ei fod yn ymwybodol o ddewis iaith yr unigolyn, gan wneud cofnod o hynny os oes angen er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw alwadau ffôn gan y gwasanaeth yn y dyfodol hefyd yn cael eu gwneud yn Gymraeg.

ADRAN 3. CYFARFODYDD - YN CYNNWYS Y CYHOEDD A STAFF ALLANOL
(Safonau 23, 25. 27, 27A, 27CH, 28, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Y Gymraeg yw prif iaith weithredol y Cyngor. Bydd pob cyfarfod a drefnir gan staff y Cyngor yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Annogir mynychwyr i gyfarfodydd y Cyngor i gyfrannu yn Gymraeg, ond byddwn hefyd yn parchu ac yn hwyluso dewis iaith.

Bydd y Cyngor yn trefnu cyfieithu ar y pryd lle bo'r angen er mwyn gwneud yn siŵr bod mynychwyr di-Gymraeg yn gallu dilyn y cyfarfod a chymryd rhan yn llawn.

Yn unol â nod y Cyngor, ceisir sicrhau bod staff dwyieithog ar gael bob amser er mwyn cynnal cyfarfodydd yn unol â dewis iaith yr aelod o'r cyhoedd. Gan fod mwyafrif helaethaf staff y Cyngor yn ddwyieithog, ni ddylid bod mewn sefyllfa o orfod newid iaith cyfarfod gydag aelod o'r cyhoedd i'r Saesneg.

3.1 Dylai swyddogion sicrhau bod unrhyw un a gaiff eu gwahodd i gyfarfod **mewnol** yn y Cyngor yn ymwybodol bod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid rhoi cyfle iddynt nodi a ydynt yn dymuno cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg a dyletswydd swyddogion y Cyngor fydd sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar gael os oes angen er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn parhau drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfod sydd yn ymwneud â **llesiant** (h.y. unrhyw faterion personol), ac yn dymuno trafod y materion hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, **rhaid** cynnal y cyfarfod yn unol â dewis iaith yr unigolyn.

3.3. Rhaid i swyddogion y Cyngor sicrhau bod unrhyw staff (o'r Cyngor ei hun neu unrhyw gorff/asiantaeth arall) sy'n bresennol mewn cyfarfodydd llesiant yn gallu'r Gymraeg, ac os nad ydynt, bod trefniadau yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn amharu o gwbl ar y gallu i gynnal y cyfarfod hwnnw yn y Gymraeg os mai dyna ddymuniad yr unigolyn. **NI DDYLID** newid iaith y cyfarfod er lles swyddogion.

3.4 Y Gymraeg fydd prif iaith unrhyw gyfarfodydd **cyhoeddus** a gynhelir gan y Cyngor. Pan fydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod, gwrandawiadau neu ymchwiliad cyhoeddus, dylai swyddogion gyflwyno ac arwain y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.5 Mae gan y cyhoedd hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis, mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus sydd yn cael ei drefnu gan y Cyngor, a bydd gwasanaeth cyfieithu yn cael ei drefnu er mwyn sicrhau bod modd i rai nad ydynt yn deall a siarad Cymraeg allu deall a chyfrannu yn effeithiol tuag at y cyfarfod.

3.6 Bydd disgwyl i gadeiryddion neu swyddogion arweiniol unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus dynnu sylw at y ffaith bod cyfieithu ar y pryd ar gael ar gychwyn y cyfarfod, ac annog mynychwyr i ddefnyddio'r offer er mwyn hybu dewis iaith.

3.7 Disgwylir i bob dogfen sydd yn ymwneud â chyfarfod cyhoeddus gael ei greu a'i gyhoeddi yn ddwyieithog. Bydd hefyd angen sicrhau bod pob rhaglen, gwahoddiad neu hysbyseb ar gyfer y cyfarfod yn cynnwys datganiad sydd yn nodi mai Cymraeg fydd iaith y cyfarfod cyhoeddus ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r rhai sydd yn dymuno cyfrannu a dilyn y cyfarfod drwy gyfrwng y Saesneg.

3.8 Disgwylir i swyddogion y Cyngor gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau a drefnir gan awdurdodau neu sefydliadau cyhoeddus eraill, ac fe'u hanogir i sicrhau bod darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei gynnig gan y trefnwyr er mwyn eu galluogi i allu cyfrannu os bydd angen.

3.9 Bydd unrhyw weithgareddau neu hyfforddiant a gynhelir gan y Cyngor ar gyfer y cyhoedd yn cael ei gynnig yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. (Safon 84)

ADRAN 4 - CYHOEDDIADAU A DEUNYDD YSGRIFENEDIG
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 38, 40, 48, 49, 50, 50A, 50B, 51, 52, 55, 56)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Y Gymraeg yw prif iaith weithredol y Cyngor, sydd yn golygu mai'r Gymraeg gaiff flaenoriaeth wrth ysgrifennu adroddiadau a dogfennau mewnol.

Bydd holl ddogfennau cyhoeddus y Cyngor - sy'n cynnwys adroddiadau, cynlluniau, posteri, ffurflenni a deunyddiau esboniadol, hysbysiadau i'r Wasg, hysbysiadau cyhoeddus a dogfennau ymgynghori - ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd unrhyw ddogfennau swyddogol sydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar gael yn y ddwy iaith, gyda'r gallu i symud yn rhwydd o un fersiwn i'r llall.

Ni fydd y Cyngor yn cyhoeddi/rhannu dogfennau uniaith Saesneg, ar bapur nac ar wefan y Cyngor, oni bai bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael ar yr un pryd.

Gwneir pob ymdrech i greu dogfennau byr yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gweld y Gymraeg ar bob cyfle posib.

Bydd y Cyngor yn cyfeirio at ei hun yn ôl ei enw Cymraeg, Cyngor Gwynedd, mewn deunyddiau ysgrifenedig ac yn arddel enwau Cymraeg ar leoliadau a nodweddion yn eu holl gyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig cyhoeddus.

4.1 Bydd swyddogion yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sydd wedi ei fwriadu ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys deunydd ysgrifenedig wedi ei argraffu a deunydd a gaiff ei rannu yn electronig.

4.2 Bydd swyddogion yn sicrhau bod unrhyw ddogfen Saesneg sydd yn cael ei gyhoeddi/ryddhau yn cynnwys datganiad sydd yn nodi yn glir bod fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hefyd ar gael.

4.3 Bydd unrhyw daflenni sy'n cael eu hanfon i'r trigolion yn ddwyieithog ac yn cael eu rhoi mewn amlenni mewn modd sy'n sicrhau mai'r Gymraeg sydd i'w gweld gyntaf wrth agor.

4.4 Os bydd Swyddogion yn rhannu deunydd ysgrifenedig gan sefydliadau eraill (naill ai ar ffurf dogfennau, neu drwy gyfeirio at ffynonellau eraill fel gwefannau) disgwylir i'r swyddogion wneud pob ymdrech i sicrhau bod y deunydd hwnnw ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Os bydd dogfennau yn cael eu rhannu fel rhan o waith ymgynghori, ac nad yw'r sefydliad allanol yn gallu darparu copïau dwyieithog, rhaid gwneud trefniadau i'w cyfieithu yn fewnol cyn rhannu'r dogfennau yn gyhoeddus.

4.5 Dylai swyddogion sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn safonol ei ffurf a'i arddull, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol o ran ffurf, maint, ansawdd ac eglurder. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod unrhyw ddeunydd yn ddealladwy ac yn eglur i'r cyhoedd, ac yn dilyn egwyddorion Cymraeg Clir / Plain English.

4.6 Dylid rhoi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg mewn unrhyw ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus. Mae hynny yn golygu y bydd y testun Cymraeg yn cael ei osod naill ai uwchben neu ar y chwith i'r testun Saesneg.

4.7 Dylid ceisio dylunio unrhyw daflenni, pamffledi, a dogfennau fydd yn cael eu rhannu yn gyhoeddus fel fersiynau printiedig mewn ffordd fydd yn sicrhau bod y ddwy iaith yn ymddangos efo'i gilydd. Gall hyn fod yn destun dwyieithog ar yr un ddalen neu yn ddogfen gyda'r ddwy iaith wedi eu hargraffu gefn wrth gefn.

4.8 Pe byddai rhaid i'r Cyngor, am unrhyw reswm, (e.e. maint dogfen, cyhoeddi ar y wefan) gyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, a bydd y fersiwn Saesneg yn nodi yn glir bod fersiwn Gymraeg ar gael er mwyn annog trigolion i fynd at y fersiwn Gymraeg.

4.9 Dylid sicrhau bod unrhyw ddogfennau sydd yn cael eu **hargraffu** fel fersiynau papur Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gael gyda'i gilydd ac mai'r fersiwn Gymraeg sydd yn cael ei gynnig gyntaf i'r cyhoedd.

4.10 Bydd unrhyw daflenni gwybodaeth neu bosteri a gaiff eu gosod mewn unrhyw fan

cyhoeddus sydd dan ofal y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn dilyn oddi tannodd.

4.11 Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw hysbysiadau neu bosteri gan gyrff a chwmnïau eraill fydd yn cael eu harddangos yn eiddo ac adeiladau'r Cyngor hefyd yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Ni chaniateir arddangos posteri uniaith Saesneg yn adeiladau'r Cyngor.

4.12 Bydd pob datganiad i'r wasg neu i'r cyfryngau gan y Cyngor yn ddwyieithog.

4.13 Bydd ymateb i ymholiadau gan y wasg neu'r cyfryngau yn cael ei anfon yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn ddibynnol ar iaith y gohebydd perthnasol.

4.14 Bydd yr holl ddeunydd a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth, i farchnata, i hyrwyddo ac i ddenu buddsoddiad i'r ardal yn nodi a chydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg.

4.15 Bydd unrhyw ymgyrchoedd marchnata a gynhelir gan neu ar ran y Cyngor yn rhai cwbl ddwyieithog, gan gynnwys arddangosfeydd, stondinau gwybodaeth a chynadleddau. Golyga hyn y bydd unrhyw waith hysbysebu, cyhoeddi neu ymchwil yn gwbl ddwyieithog.

4.16 Caniateir yr eithriadau canlynol i'r cymalau uchod:

a) Dogfen sydd yn ymwneud yn benodol gyda gweithgarwch sydd â'i brif fwriad i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a/neu sydd yn ymwneud â digwyddiad sydd yn cefnogi iaith a diwylliant yr ardal. Gall hyn gynnwys digwyddiadau megis gweithgareddau'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol neu weithgareddau gan bartneriaid hyrwyddo'r Gymraeg.
b) Datganiadau neu hysbysebion ar gyfer rhaglenni radio neu deledu ar sianeli Cymraeg eu hiaith.
c) Hysbysiadau yn y wasg Gymraeg, fydd yn ymddangos un uniaith Gymraeg.

4.17 Disgwylir i unrhyw ddogfennau neu ddatganiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer cynulleidfa y tu allan i Gymru, neu hysbysebion ar gyfer sianeli radio a theledu y tu allan i Gymru gynnwys rhywfaint o Gymraeg. Fel ymgais i hyrwyddo'r iaith fel rhan greiddiol o hunaniaeth a diwylliant y sir, ni ddylid cyhoeddi deunyddiau yn gyfan gwbl yn Saesneg yn unig.

4.18 Disgwylir i hysbysebion a chyhoeddusrwydd ar ran trydydd parti a fo'n ymddangos ar eiddo, tir neu adeilad y Cyngor ddilyn y canllawiau uchod. Lle bu cytundeb rhwng y Cyngor a pharti arall ar gyfer defnyddio eiddo, tir neu adeilad y Cyngor, bydd amod i'r perwyl hwn yn y cytundeb, yn cynnwys cyhoeddusrwydd cysylltiedig (e.e. posteri, hysbysebion).

ADRAN 5 - GWASANAETHAU DIGIDOL – GWEFAN, APIAU A HUNANWASANAETH
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 56, 57, 58, 59, 60)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pob ap a system electronig a ddefnyddir ganddynt er mwyn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn gweithio yn gyfangwbl ddwyieithog.

Bydd y Cyngor yn ystyried datblygu apiau a systemau eu hunain lle bo'n bosib er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn gyfangwbl ddwyieithog, a bod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw.

Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gyhoeddir yn electronig yn dilyn y canllawiau a nodir ar gyfer deunydd ysgrifenedig uchod.

Bydd modd symud o fersiynau Cymraeg a Saesneg tudalennau'r wefan yn rhwydd, a bydd datganiadau yn nodi yn glir bod fersiwn Cymraeg ar gael os bydd dogfennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân heb y gallu i doglo.

5.1 Bydd unrhyw wefannau a ddatblygir gan y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, yn llywio'r defnyddiwr at y dudalen Gymraeg yn gyntaf lle bo modd, ac yn caniatáu symud yn hwylus rhwng y tudalennau cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg.

5.2 Bydd unrhyw gyfrifon ar wefannau cymdeithasol (megis *Facebook* a *Twitter*) yn dilyn y canllawiau sydd ar gael gan yr Uned Gyfathrebu ac yn cyflwyno gwybodaeth yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf bob amser.

5.3 Bydd unrhyw ymateb i negeseuon neu sylwadau a dderbynir ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hysgrifennu yn yr un iaith, felly bydd pob sylw Cymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg.

5.4 Bydd unrhyw ffurflenni neu holiaduron sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor drwy ddull hunanwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r unigolion yn dewis iaith wrth gofrestru ar gyfer y gwasanaeth.

5.5 Bydd unrhyw lythyrau neu ymateb i geisiadau drwy'r system hunanwasanaeth ar-lein yn cael eu hanfon yn yr iaith a ddewiswyd gan y defnyddiwr.

5.6 Bydd unrhyw beiriannau hunanwasanaeth a ddefnyddir mewn lleoliadau gwasanaeth yn gweithio yn gyfan gwbl ddwyieithog, ac os yn bosib yn cynnig y Gymraeg fel y dewis cyntaf/yr iaith ddi-ofyn.

5.7 Wrth gomisiynu neu brynu systemau TG newydd i'w defnyddio fel rhan o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau mynediad cyfartal i bawb, ac yn sicrhau nad oes angen cymryd camau ychwanegol i ddefnyddio'r fersiwn

Gymraeg, a fyddai yn golygu ein bod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5.8 Os bydd unrhyw Adran neu wasanaeth o fewn y Cyngor yn comisiynu/prynu systemau newydd eu hunain i'w defnyddio fel rhan o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, disgwylir iddynt ymgynghori gyda'r gwasanaeth TG, tîm y We a'r Uned Iaith a Chraffu er mwyn sicrhau bod y systemau yn cyd-fynd gyda'r gofynion uchod ac yn cael eu profi yn ddigonol cyn eu defnyddio.

ADRAN 6 -ARWYDDION
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 61, 62, 63, 141, 142, 143)

6.1 Bydd pob arwydd a osodir mewn man cyhoeddus gan y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf. Mae hyn yn cynnwys arwyddion a osodir mewn adeiladau'r Cyngor a lleoliadau gwasanaeth a hefyd arwyddion cyhoeddus ar stryd/ffordd.

6.2 Bydd swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod yr iaith a'r ystyr yn glir ar unrhyw arwyddion, posteri, hysbysiadau gwybodaeth.

6.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw ddarparwyr neu gontractwyr trydydd parti yn defnyddio arwyddion dwyieithog hefyd sydd yn dilyn yr un egwyddor o ran amlygrwydd a chywirdeb y Gymraeg.

6.4 Bydd y Cyngor yn ymrwymo i godi proffil gweledol y Gymraeg a hybu defnydd cyhoeddus o enwau Cymraeg drwy ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion a osodir ar ei adeiladau a lleoliadau yn y sir, lle bynnag y bo hynny yn bosib. Bydd y Cyngor yn ystyried newidiadau priodol i arwyddion wrth iddynt gael eu hadnewyddu er mwyn defnyddio enwau Cymraeg yn unig. Mae hyn yn cynnwys defnyddio enw Cymraeg y Cyngor yn unig ar arwyddion newydd fydd yn cael eu gosod ac sydd yn cynnwys logo'r Cyngor a defnyddio enwau llefydd Cymraeg yn unig ar arwyddion stryd a ffyrdd newydd.

ADRAN 7 - DERBYNFEYDD
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 64, 67, 68,69)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Dilynir egwyddor y cynnig rhagweithiol a bydd pob aelod o staff rheng flaen ar dderbynfeydd y Cyngor yn cychwyn y sgwrs yn y Gymraeg.

7.1 Bydd modd i'r cyhoedd gael gwasanaeth dwyieithog llawn ym mhob un o dderbynfeydd cyhoeddus y Cyngor. Mae hyn yn golygu y bydd pob cynghorydd cwsmer a chroesawydd mewn derbynfeydd llyfrgelloedd, ysgolion ac ati yn gallu cyfathrebu yn ddwyieithog.

7.2 Bydd arwyddion yn cael eu harddangos yn nerbynfeydd ac unrhyw fannau gwasanaeth cyhoeddus y Cyngor fydd yn nodi'n glir bod modd cael gwasanaeth Cymraeg er mwyn annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac er mwyn sicrhau bod dewis iaith yn cael ei nodi a'i barchu.

7.3 Anogir, ble bo'n briodol, i staff derbynfeydd a mannau gwasanaeth cyhoeddus wisgo bathodynnau neu gortynnau gwddf "Cymraeg"/Iaith Gwaith fydd yn galluogi'r cyhoedd i wybod lle mae siaradwyr neu ddysgwyr Cymraeg all roi gwasanaeth cyfrwng Cymraeg iddynt.

ADRAN 8 - GRANTIAU A CHEFNOGAETH ARIANNOL
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 71, 72, 72A, 73, 75)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae gan y Cyngor is-bolisi i'r Polisi Iaith hwn sydd yn gosod y disgwyliadau o ran dyfarnu grantiau, ac sydd yn ateb gofyn Safon 94. Bydd disgwyl i staff ddilyn yr is-bolisi hwnw wrth ystyried unrhyw drefniadau lle mae grantiau neu gymorth ariannol yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd.

8.1 Defnyddir unrhyw nawdd neu grant gan y Cyngor fel un arf cyhoeddus ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn lleol. Gall hyn fod drwy gynyddu defnydd llafar, dydd i ddydd, o'r Gymraeg neu drwy hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol.

8.2 Bydd amodau am ddefnydd iaith yn cael eu gosod o fewn unrhyw gytundebau grant, yn unol â natur y grant a'r gweithgarwch sydd yn cael ei ariannu.

8.3 Bydd y Cyngor yn disgwyl i sefydliadau, mudiadau, cyrff ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned fusnes yn lleol wneud hynny'n ddwyieithog, ac yn unol â gofynion y Polisi hwn a Safonau'r Gymraeg.

8.4 Bydd y Cyngor yn disgwyl i fusnesau sydd yn derbyn grantiau neu gymorth ariannol fod yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r Gymraeg, ei defnyddio yn weledol yn y busnes, ac i gynnig cyfleoedd gwaith lle mae sgiliau Cymraeg yn cael eu cydnabod.

8.6 Bydd pob gohebiaeth yn ymwneud â dyrannu grantiau neu dendrau gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.

8.7 Bydd yr holl brosesau sydd yn ymwneud efo dyfarnu grantiau a chymorth ariannol yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, a bydd posib i unrhyw un gael cyfarfod neu gyfweliad yng nghyd-destun grantiau neu gymorth ariannol yn Gymraeg. Cyfrifoldeb swyddogion y Cyngor fydd sicrhau bod cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os bydd angen.

ADRAN 9 – PROSESAU CAFFAEL A THENDRO (CYD-DDARPARU, COMISIYNU AC ALLANOLI GWASANAETHAU)
(Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 76, 77, 77A, 78, 80)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae trefniadau cyd-ddarparu a chyd-ariannu gwasanaethau, yn ogystal ag allanoli gwasanaethau, yn cael eu defnyddio fwyfwy gan y Cyngor ac yn allweddol i'r dyfodol. Wrth ddatblygu strwythurau a chytundebau gydag eraill, bydd y Cyngor yn gwarchod a sicrhau anghenion trigolion y Sir o safbwynt derbyn gwasanaethau dwyieithog.

Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i godi ymwybyddiaeth o broffil a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn y Sir gyda'n cyd-ddarparwyr ac i gydweithio tuag at well darpariaeth ddwyieithog ar draws yr holl wasanaethau.

Bydd sicrhau hawl unigolion i wasanaethau Cymraeg yn rhan greiddiol o unrhyw waith i allanoli neu osod cytundeb ar gfyer gwasanaethau.

Dilynir canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar osod contractau -= c-gosod-contractau-gwasanaethau-cyhoeddus.pdf (comisiynyddygymraeg.cymru)

9.1 Bydd unrhyw gytundebau darparu yn cyfeirio at y polisi hwn ac yn cynnwys cymalau fydd yn nodi'n glir y gofynion a'r disgwyliadau ar ddarparwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Polisi hwn.

9.2 Wrth ddrafftio ac adolygu cytundebau cyd-ddarparu a chyd-ariannu, bydd y Cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r trefniadau'n arwain at unrhyw ddirywiad mewn darpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd. Byddwn yn monitro'r cytundebau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

9.3 Os bydd gwasanaeth yn cael ei allanoli, neu gytundeb/tendr yn cael ei roi i ddarparu gwasanaeth mewn adeilad sydd yn eiddo i'r Cyngor bydd disgwyl iddynt weithredu i'r un safonau a osodir yn y Polisi hwn, a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y busnes neu wasanaeth yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Os yn briodol, bydd y Cyngor yn gofyn i'r darparwr lunio polisi iaith annibynnol sydd yn adlewyrchu union natur y gwaith a gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig.

9.4 Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol, ac asiantaethau eraill. Mewn unrhyw sefyllfa o gydweithio, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y sefydliadau oll yn gweithredu yn unol ag arweiniad Comisiynydd y Gymraeg (Canllaw Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus), ac y dylid cynllunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'r Safonau uchaf perthnasol mewn unrhyw sefyllfa o gyd-ddarparu. Dylid sicrhau felly nad yw unrhyw sefyllfa o gyd-ddarparu neu osod cytundeb i ddarparu gwasanaethau yn allanol yn mynd yn groes i

ofynion Safonau'r Gymraeg Cyngor Gwynedd, ac yn rhoi'r Cyngor mewn peryg o fethu â chydymffurfio.

Bydd y Cyngor hefyd yn cymryd y camau canlynol:

i. Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn weithredol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg.

ii. Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth, ac mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbwn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Polisi Iaith a bydd y Cyngor yn annog y partïon eraill i weithredu yn yr un modd.

iii. Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel rhan o gonsortia/cyd-bwyllgor, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'i Bolisi Iaith.

iv. Pan fo'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Polisïau Iaith, neu'r modd y maent yn gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn cynnig cyngor i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

9.5 Gall y Cyngor gynorthwyo'r uchod, e.e. trwy gynnig cyngor ynglŷn â dwyieithrwydd a llogi offer cyfieithu.

ADRAN 10 - LLUNIO POLISI

(Safonau Llunio Polisi 88, 89, 90, 91, 92, 93, 95, 96, 97)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae disgwyl i adrannau gynnal asesiad o effaith unrhyw bolisi neu weithdrefn newydd, neu newid i bolisi neu weithdrefn, sy'n cwmpasu materion ieithyddol, cydraddoldeb, hawliau dynol ac economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'r holl ddyletswyddau yn y meysydd hyn.

Bydd y Cyngor yn scirhau bod barn y cyhoedd yn cael ei gasglu wrth ymgynghori am effaith posib unryw gynlluniau neu bednerfyniadau ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned ac ar hawliau siaradwyr Cymraeg.

Ceisir dilyn y Cyngor a nodir gan y Comisiynydd yn y ddogfen:
Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol

Asesu Effaith

10.1 Bydd cyfrifoldeb ar wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei roi i effeithiau ieithyddol posib unrhyw benderfyniadau polisi, a hynny wrth lunio polisi newydd, neu wrth adolygu neu addasu polisi cyfredol.

10.2 Bydd cyfrifoldeb ar wasanaethau'r Cyngor i sicrhau bod unrhyw gynlluniau, menter neu bolisïau newydd yn cyd-fynd gydag ymrwymiadau ehangach y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, a'r nod tymor hir o weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a bod pob cyfle yn cael ei gymryd i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir.

10.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion a osodir yn Safonau'r Gymraeg o safbwynt asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg ac ar gyfleoedd i'w defnyddio o fewn y gymuned. Bydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei gyflawni fel rhan o ddyletswydd ehangach i asesu effaith polisïau a chynlluniau ar lesiant, dan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Cynllun Llesiant Lleol, drwy ddefnyddio fframwaith asesu effaith integredig sydd wedi ei datblygu gan y Cyngor i gwmpasu'r gofynio ym meysydd iaith, cydraddoldeb, ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn cael ei gyflwyno i Aelodau Etholedig wrth gyflwyno eitemau i Gabinet y Cyngor.

10.4 Bydd arweiniad pellach i'w gael gan yr Ymgynghorwyr Iaith am yr union amgylchiadau lle y dylid cynnal asesiad iaith, ac yn benodol felly unrhyw amgylchiadau lle nad yw'r cynllun neu benderfyniad yn gorfod mynd o flaen Cabinet y Cyngor, ac felly ddim yn gofyn am yr asesiad effaith integredig, ond bod y penderfyniad neu gynllun hwnnw yn dal i ffitio o fewn diffiniad Comisiynydd y Gymraeg o benderfyniad polisi (Gweler Cod Ymarfer y Safonau) ac felly angen asesiad effaith ieithyddol ar wahan.

10.5 Bydd disgwyl i swyddogion y Cyngor gynnal asesiadau effaith amserol a thrylwyr o unrhyw bolisi neu gynllun strategol newydd wrth gynllunio a datblygu'r polisi neu gynllun strategol hwnnw er mwyn ystyried pa effaith, os o gwbl, y bydd y cynlluniau yn eu cael ar ffyniant yr iaith yng Ngwynedd, gan gynnwys unrhyw effaith ar;

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg,
- niferoedd neu ganran siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau,
- gwasanaethau neu adnoddau cymunedol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i bobl yn y cymunedau hynny;
- amcanion Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd a'r nod tymor hir o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

Ymgynghori ar benderfyniadau:

10.6 Bydd gwasanaethau yn sicrhau bod unrhyw waith ymchwil neu unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus a gynhelir yng nghyswllt llunio polisi neu gynlluniau strategol newydd yn rhoi sylw teg i effeithiau ieithyddol posib unrhyw benderfyniadau, a bod yr ymchwil neu ymgynghoriadau hynny yn cyfrannu at y broses o asesu effaith.

10.7 Bydd angen i swyddogion sicrhau bod cwestiynau penodol yn cael eu gofyn mewn unrhyw ymgysylltu/ymgynghoriad cyhoeddus am bolisïau neu gynlluniau er mwyn casglu barn y cyhoedd ac ystyried unrhyw effeithiau posib neu debygol y gallai'r newid ei gael ar yr iaith a'i ddefnydd yn y gymuned. Bydd enghreifftiau o gwestiynau i'w cynnwys mewn ymgynghoriadau ar gael ar fewnrwyd y Cyngor a thrwy gysylltu gyda'r Ymgynghorwyr Iaith.

Addasu neu newid polisïau neu gynlluniau:

10.8 Bydd disgwyl i swyddogion ystyried unrhyw newidiadau neu addasiadau priodol y gellir eu gwneud i bolisi neu gynllun os bydd unrhyw effeithiau negyddol posib yn cael eu hadnabod, neu os bydd cyfleoedd yn cael eu hadnabod i wneud newidiadau fyddai yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, wrth asesu effaith neu ymgynghori/ymgysylltu.

Monitro effaith

10.9 Pan fo'n briodol, bydd y Cyngor yn sefydlu trefniadau monitro ar gyfer cynlluniau strategol, er mwyn gallu mesur yr effaith, a chasglu tystiolaeth am y cyswllt rhwng y cynlluniau ac amcanion hybu iaith y Cyngor.

ADRAN 11 - GWEITHREDIAD MEWNOL Y CYNGOR
(Safonau Gweithredu 98, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 111, 112, 112A, 113, 115, 116, 116A, 117, 119, 120, 121, 124, 126, 128, 129, 141, 142, 143, 144)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Cyngor yn gweithredu yn fewnol drwy gfyrwng y Gymraeg yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod cyfarfodydd, a chyfathrebu mewnol yn digwydd yn Gymraeg. Bydd y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser mewn unrhyw ddatganiadau llafar, bwletinau gwybodaeth, posteri ac arwyddion.

Mae holl wasanaethau mewnol ar gyfer staff, gan gynnwys polisiau gwaith a'r gwasanaeth mewnrwyd a hunanwasnaeth staff, yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.

Bydd disgwyl i bob aelod o staff ddefnyddio fersiynau Cymraeg o feddlwedd cyfrifiadurol.

Bydd disgwyl i bob aelod o staff defnyddio llofnod ebost sydd yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr.

Bydd unrhyw bolisïau perthnasol sydd yn ymwneud efo hawliau staff, prosesau disgyblu a chwynion, yn amlygu hawliau'r unigolion dan ofynion y Safonau. Bydd y Cyngor yn parchu hawl aelodau staff i arddel dewis iaith, ac yn darparu gwybodaeth bersonol yn yr iaith o'u dewis.

Cyfathrebu a chyfarfodydd mewnol – gwaith dydd i ddydd y Cyngor

11.1 Disgwylir bod cyfarfodydd mewnol y Cyngor – gan gynnwys cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd rhwng swyddogion i drafod cydweithio – yn cael eu cynnal yn Gymraeg.

11.2 Disgwylir bod y rhan fwyaf o gyfathrebu mewnol yn Gymraeg, a bod adroddiadau, rhaglenni gwaith ac ati, yn cael eu llunio yn Gymraeg yn gyntaf.

11.3 Os bydd angen rhannu dogfennau gyda chydweithwyr (mewnol neu allanol) nad ydynt yn gallu'r Gymraeg, mae gwasanaeth cyfieithu ar gael.

Mewnrwyd staff

11.4 Bydd mewnrwyd y Cyngor yn uniaith Gymraeg, a bwletinau gwybodaeth staff ar e-bost yn Gymraeg. Darperir fersiwn Saesneg o'r bwletinau gwybodaeth a'u cynnwys mewn atodiad i'r e-bost.

11.5 Bydd gwybodaeth ar y fewnrwyd yn Gymraeg yn bennaf, gyda gwybodaeth yn cael ei rannu yn Saesneg yn ôl yr angen.

Hunanwasanaeth a materion cyflogaeth staff

11.6 Bydd unrhyw wybodaeth yn ymwneud â materion cyflogaeth ar Hunanwasanaeth Staff, ac unrhyw bolisïau neu ganllawiau yn ymwneud â materion allweddol megis Iechyd a Diogelwch ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

11.7 Bydd modd i bob aelod o staff gyflwyno cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a dylid delio ag unrhyw achos yn newis iaith yr aelod staff.

11.8 Bydd gan bob aelod o staff hawl i ymdrin ag unrhyw faterion disgyblu neu unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag amodau gwaith neu berfformiad drwy gyfrwng eu dewis iaith, yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Hyfforddiant

11.9 Bydd **POB** hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg. Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg, ac ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.

11.10 Dylid ystyried defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn sesiynau hyfforddiant, pan fo hynny yn ymarferol bosib, er mwyn galluogi staff sydd yn ddi-hyder eu Cymraeg i gymryd rhan yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnal fel y brif iaith weinyddol fewnol, ac er mwyn rhoi cyfleoedd anffurfiol, cefnogol i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

Cefnogi Staff

11.11 Er mwyn galluogi i'r Cyngor weithredu yn unol â'r polisi hwn, bydd yn ofynnol i staff y Cyngor allu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd at safon sy'n briodol ac er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n llawn.

11.12 Mae'r Cyngor yn dymuno cydweithio gyda'i staff er mwyn cyrraedd y sefyllfa honno a rhoddir pob cefnogaeth ac anogaeth posib i weithwyr ddatblygu eu hyder a'u gallu yn y Gymraeg. Yn yr un modd mae'r Cyngor yn disgwyl i'r staff fod yn ymroddgar ac i fod yn barod i gydweithio i gyrraedd y nod hwnnw.

11.13 Anogir staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac fe'u rhyddheir, os bydd angen, i ddysgu neu i loywi eu sgiliau. Bydd y Cyngor yn darparu ar gyfer hyfforddi staff ar sawl lefel ac yn paratoi cyllid ar gyfer hynny.

11.14 Cyfrifoldeb Rheolwyr llinell fydd annog staff i fynychu hyfforddiant ac i asesu'r angen am hyfforddiant gloywi neu wella sgiliau o fewn eu timau.

11.15 Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith hefyd yn cael ei gynnig i'r holl weithlu, fydd yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg a hanes yr iaith.

11.16 Bydd cyfle yn ogystal i unrhyw aelod etholedig sy'n dymuno gwella eu sgiliau ieithyddol ymuno â hyfforddiant iaith y Cyngor

11.17 Cyflwynir Gwobr Goffa Dafydd Orwig yn flynyddol i ddysgwyr er mwyn cydnabod ymdrech staff sy'n gwneud cynnydd arbennig yn y deuddeg mis blaenorol. Mae'r Wobr hefyd yn cydnabod gwaith a chyfraniad Mentoriaid iaith.

ADRAN 12- HYSBYSEBU SWYDDI A'R BROSES RECRIWTIO
(Safonau Gweithredu 136, 136A, 137, 137A, 137B, 140)

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor.

Rhaid i ofynion ieithyddol pob swydd gael eu hasesu yn erbyn y fframwaith iaith.

Bydd cyfweliadau ar gyfer swyddi yn cael eu cynnal yn Gymraeg.

Rhaid cynnal asesiad o sgiliau iaith pob aelod o staff, naill ai wrth iddynt gael eu penodi, neu fel rhan o drefniadau anwytho.

Cyffredinol / Pennu gofynion ieithyddol

12.1 Mae gan y Cyngor Bolisi Recriwtio mewnol, sydd yn rhoi arweiniad pellach i reolwyr ar y broses i'w dilyn wrth benodi, a'r gofynion ieithyddol i'w hystyried ar wahanol gamau. Bydd posib cael cyngor gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol neu'r Ymgynghorwyr Iaith hefyd am sut i ystyried y Gymraeg os bydd unrhyw drefn wahanol i'r arfer yn cael ei defnyddio wrth benodi.

12.2 Dylai'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil allweddol hanfodol ar gyfer pob swydd, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd – gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.

12.3 Bydd y Rheolwr yn pennu'r union lefel o allu a sgiliau cyfathrebu fydd eu hangen ar gyfer cyflawni **holl** ofynion y swydd drwy ddefnyddio Fframwaith Iaith y Cyngor.

12.4 Pan fydd swydd yn dod yn wag, bydd rhaid i reolwyr sicrhau bod y gofynion iaith yn gyfredol ac yn addas i ofynion y swydd.

12.5 Ar gyfer swyddi lle mae gofynion iaith yn rhan gwbl greiddiol o gyflawni dyletswyddau'r swydd (e.e. mewn swyddi rheng flaen lle bydd angen delio gyda'r cyhoedd), bydd gofyn i unigolyn fod yn cyrraedd y lefel ofynnol o ddyddiad cychwyn eu cyflogaeth.

12.6 Mewn amgylchiadau eraill (e.e. os ydym wedi methu penodi rhywun sydd â'r holl sgiliau gofynnol ar yr ymgais gyntaf) gall fod yn addas penodi unigolion sydd â'r sgiliau eraill perthnasol ac sy'n dangos ymrwymiad i ddatblygu'r sgiliau ieithyddol dros amser. Yn yr achosion hynny, bydd y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

yn gallu darparu cymorth a threfnu hyfforddiant pwrpasol, a bydd rhaglen ddatblygu addas yn cael ei llunio mewn cytundeb rhwng y Cyngor, fel y cyflogwr, y rheolwr, a deilydd y swydd er mwyn pontio'r bwlch rhwng sgiliau'r unigolyn a'r sgiliau sydd yn ofynnol ar gyfer y swydd.

12.7 Cyfrifoldeb y rheolwr sydd yn penodi yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad pan fo'n briodol a'u bod yn mynychu unrhyw hyfforddiant sydd wedi ei adnabod ac yn datblygu eu sgiliau.

Hysbysebu

12.8 Bydd pob hysbyseb recriwtio staff a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddwyieithog, ac eithrio swyddi dysgu sydd yn cael eu hysbysebu yn uniaith Gymraeg.

12.9 Bydd pob hysbyseb swydd yn cynnwys brawddeg sydd yn tynnu sylw at weinyddiaeth fewnol cyfrwng Cymraeg y Cyngor a'r angen am sgiliau iaith ymysg y gweithwyr.

"Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig ei holl wasanaethau yn ddwyieithog. Bydd angen i'r ymgeisydd gyrraedd y lefel ieithyddol sy'n cael ei nodi yn y Manylion Person."

12.10 Anogir pob ymgeisydd i gyflwyno ffurflenni cais yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog, fel ffordd o arddangos dealltwriaeth o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Bydd brawddeg yn cael ei chynnwys ar bob hysbyseb swydd i'r perwyl hwnnw:

"Rydym yn annog pob ymgeisydd am swydd gyda'r Cyngor i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.
(Bydd ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno yn uniaith Gymraeg neu Saesneg yn cael eu trin yn gwbl gyfartal, ond gofynnir i'r ymgeisydd ystyried yn ofalus beth yw gofynion iaith y swydd a'r sefydliad ac a fyddai cyflwyno cais yn uniaith Gymraeg yn fwy addas)."

12.11 Os na fydd yn bosib penodi rhywun gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar ôl hysbysebu unwaith, gellir ystyried derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion iaith yn syth, ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu.

NI FYDD DYNODIAD IAITH Y SWYDD EI HUN YN CAEL EI NEWID O GWBL WRTH AIL-HYSBYSEBU.

12.12 Mewn amgylchiadau fel hyn, bydd y geiriad sydd yn ymddangos yn yr hysbyseb yn cael ei newid i'r canlynol:

Rydym yn awyddus i ystyried ceisiadau gan unigolion sydd, o bosib, yn is na lefel iaith y swydd ar hyn o bryd, ond bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i ddysgu neu ddatblygu i lefel iaith y swydd o fewn amserlen resymol. Bydd y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i gyflawni hynny.

Saesneg:

We are eager to consider applications from individuals who, possibly, do not currently reach the language level of the post, but the successful applicant would be required to commit to either learn, or develop language skills to the required level within a reasonable timescale. The Council will provide support to achieve this.

12.13 Os bydd swydd yn cael ei hysbysebu mewn dull gwahanol i'r arfer a heb fod yn defnyddio'r templedi swydd ddisgrifiad a manylion person arferol – er enghraifft drwy greu Pecyn Recriwtio neu hysbysebu secondiad mewnol - rhaid sicrhau bod y wybodaeth am sgiliau allweddol yn dal i gael ei gynnwys rhywle o fewn y pecyn. Gellir cael arweiniad pellach gan swyddogion Adnoddau Dynol a'r Ymgynghorwyr Iaith.

Penodi / Cyfweliadau

12.14 Cynhelir pob cyfweliad yn y Gymraeg. Bydd y ddogfennaeth sydd yn gwahodd unigolion i gyfweliad yn nodi yn glir mai yn y Gymraeg y bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal a bod angen cysylltu gyda'r swyddog priodol petai angen gwneud trefniadau amgen.

12.15 Os bydd aelod o'r panel cyfweld yn digwydd bod yn ddi-Gymraeg (e.e. os bydd angen cynrychiolydd allanol am ryw reswm) ni fydd hynny yn effeithio ar hawl yr unigolyn i gyfweliad Cymraeg a bydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw anghenion cyfieithu.

<u>ADRAN 13 - MATERION ERAILL – ATEBOLRWYDD</u>

Staff

13.1 Disgwylir i bob aelod o staff sydd yn gyflogedig gan y Cyngor ddilyn y polisi hwn. Ar yr un pryd, cydnabyddir nad yw rhai aelodau staff ac adrannau yn atebol i Safonau'r Gymraeg am wahanol resymau. Mae hyn yn cynnwys:

- Staff GWE, yr Asiantaeth Cefnffyrdd, a'r Bwrdd Uchelgais, sydd yn gweithredu led braich a dan statws cyd-bwyllgor (ac felly ddim yn atebol i'r Safonau Iaith),
- staff dysgu ysgolion, sydd yn cael eu cyflogi gan yr ysgolion a'r cyrff llywodraethu yn uniongyrchol. Mae polisi iaith wedi ei ddatblygu ar gyfer ei ddefnyddio gan ysgolion, gyda chyrff llywodraethu yn gyfrifol am fabwysiadu'r polisi a monitro ei weithrediad.
- Staff etholiadau, sydd yn dod dan gyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau, sydd yn swydd annibynnol o'r Cyngor.

13.2 Mae'r Adran Addysg ar Uned Iaith a Chraffu wedi paratoi templed o bolisi iaith i'w ddefnyddio gan ysgolion, sydd yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r ymrwymiadau cyffredinol yn y polisi hwn i weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau bod hawl y cyhoedd i wasanaethau Cymraeg yn cael ei barchu bob amser. Mae'r polisi hwnnw wedi ei rannu gyda holl gyrff llywodraethu ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, gyda'r gobaith y byddant yn eu mabwysiadu a'u gweithredu.

Gwirfoddolwyr

13.3 Os bydd gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio i gyflenwi gwasanaethau neu weithgareddau ar ran y Cyngor, dylid sicrhau eu bod hwythau yn ymwybodol o'r angen i ddarparu yn ddwyieithog a recriwtio rhai a all gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg ble bo'n bosib. Os oes gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg, rhaid i swyddog neu reolwr y Cyngor sicrhau nad yw hyn yn amharu ar allu'r gwasanaeth i gynnig y gweithgaredd yn ddwyieithog.

13.4 Os bydd gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio ar gyfer y tymor hir (mwy na gweithgaredd unigol) dylid sicrhau bod elfen o ymwybyddiaeth neu fagu hyder yn y Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn unrhyw hyfforddiant rôl.

Aelodau Etholedig

13.5 Mae aelodau etholedig yn rhan o weithdrefnau mewnol y Cyngor, ond nid ydynt yn atebol i'r Safonau fel staff cyflogedig y Cyngor.

13.6 Disgwylir iddynt serch hynny arddel a pharchu egwyddorion y Cyngor o ran y Gymraeg ac i fod yn ymwybodol o'r gofynion ar y gwasanaethau a staff y Cyngor.

13.7 Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wyneb yn wyneb ac ar-lein i'r holl aelodau er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o ymrwymiadau'r Cyngor dan Fesur y Gymraeg a fframweithiau a deddfwriaethau perthnasol eraill megis y Ddeddf Llesiant, Deddf Cydraddoldeb a fframwaith Mwy na Geiriau.

13.8 Bydd gan yr Aelodau Etholedig sydd yn eistedd ar Bwyllgor Iaith y Cyngor rôl i oruchwylio a monitro gweithrediad y Safonau a'r Polisi. Bydd yr Uned Iaith a Chraffu ac Adrannau'r Cyngor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd fydd yn eu diweddaru ar faterion perthnasol.

<u>ADRAN 14 - MONITRO AC ADRODD</u>
(Safonau Cadw Cofnodion 147, 148, 149, 150, 151, 152, 153)

Monitro

14.1 Bydd y Cyngor yn adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiad â'r Safonau Iaith i Gomisiynydd y Gymraeg.

14.2 Bydd proses hunanasesu fewnol yn cael ei gweithredu, gydag adrannau yn monitro cydymffurfiaeth ac adrodd ar unrhyw broblemau neu rwystrau i'r Uned Iaith a Chraffu.

14.3 Bydd camau gweithredu a rhaglen waith ddatblygol yn cael ei llunio ar sail unrhyw fylchau a gaiff eu hadnabod er mwyn gweithio yn gyson tuag at wella perfformiad.

Cwynion iaith

14.4 Mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw gŵyn yn erbyn gweinyddiad ein Polisi Iaith fel

tystiolaeth ynglŷn â'n perfformiad ac fel cyfle i wella.

14.5 Byddwn yn ymdrin â phob cwyn iaith yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor. Yr Uned Iaith a Chraffu sydd â chyfrifoldeb dros fonitro cwynion iaith, ac adroddir arnynt yn rheolaidd i'r Pwyllgor Iaith. Bydd yr Uned yn dilyn trefn o adrodd yn ffurfiol ar y cwynion hynny sydd wedi eu hateb yn llawn, ac yn anffurfiol am gwynion sydd yn dal i gael eu datrys. Mae esboniad pellach ar y broses y byddwn yn ei dilyn, a rôl y Comisiynydd, wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Safonau'r Gymraeg a Pholisi Iaith (llyw.cymru)

14.6 Bydd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Polisi Iaith hwn neu gydymffurfiad y Cyngor gyda Safonau'r Gymraeg (2015) yn cael eu hadrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

Adolygu

14.7 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn rheolaidd, a'i addasu yn ôl yr angen.

Atodiad: Cofnod ymgysylltu ac ymgynghori

Mae'r tabl isod yn grynodeb o'r pwyntiau a chwestiynau a godwyd yn y gwahanol fforymau, yn ogystal a nodi beth yw ymateb yr ymgynghorwyr iaith i'r sylwadau a beth yw'r newidiadau sydd wedi eu cynnig i'r Polisi yn sgil y sylwadau.

Rydym hefyd wedi nodi os oes materion y byddwn yn gweithredu arnynt mewn ffyrdd eraill, neu yn eu codi gyda chydweithwyr, yn hytrach na newid y polisi ei hun.

Pwyllgor iaith, Ionawr 2021 (Cyflwyno cymalau recriwtio yn benodol a thrafod rhai newidiadau posib).	
Materion a godwyd	**Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud**
I. Ategwyd pwysigrwydd nodi mewn cyfarfodydd mai ar gyfer y mynychwyr Di-gymraeg mae'r gwasanaeth cyfieithu ac nid gwasanaeth i'r siaradwyr Cymraeg. II. Angen cymal am ymwybyddiaeth o enwau llefydd III. Cyfeiriad at hysbysebion uniaith Gymraeg o fewn adeiladau'r Cyngor IV. Dylanwadu ar bolisïau cyrff sydd yn rhan o gaffaeliad y Cyngor V. Gofyn barn am yr egwyddor o gynhyrchu dogfennau dwyieithog fel bod pobl yn gweld y Gymraeg ar bob cyfle posib. Y pwyllgor yn cytuno ar yr egwyddor yma.	I. Cymalau perthnasol wedi eu haddasu yn y polisi i amlygu'r egwyddor yma. ***(Egwyddorion Cyffredinol Adran 3)*** II. Enwau llefydd- cymalau wedi eu hychwanegu – seiliedig ar hen gymalau y Cynllun Iaith blaenorol ac hefyd ar flaenoriaethau gwaith y Prosiect Enwau Lleoedd. III. Cymal eisoes yn y polisi am iaith arwyddion a phosteri IV. Cymalau cyd-ddarparu ac allanoli – Adran 9 (9.1) – yn nodi os bydd gwasanaeth yn cael ei allanoli, y disgwylir iddynt ddilyn yr un safonau a pholisïau iaith. ***V.*** Wedi ystyried yr egwyddor yma ymhellach byddai yn anodd ei weithredu, gan fod cymaint o ddogfennau'r Cyngor yn cael eu cyhoeddi yn ddigidol gyda fersiwn Gymraeg a Saesneg ar wahân (a gallu i symud/toglo o un iaith i'r llall) ond rydym wedi cynnwys cymal

VI. Gofynnwyd barn am ddefnydd iaith mewn hyfforddiant a'r arfer o gynnal hyfforddiant yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Cytunwyd y dylid ceisio darparu cyfieithu yn lle cynnig sesiynau Saesneg er mwyn ceisio lleihau'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg sydd yn dewis sesiwn Saesneg o ran hwylustod amseru yn hytrach nag oherwydd dewis iaith.	newydd yn y polisi sydd yn gosod yr egwyddor a'r uchelgais yn yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer adran 4: *Gwneir pob ymdrech i greu dogfennau byr yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gweld y Gymraeg ar bob cyfle posib.* VI. Cymalau 11.9 ac 11.10 wedi ei haddasu: *11.9 Bydd **POB** hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.* *Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg, ac ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.* *11.10 Dylid ystyried defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn sesiynau hyfforddiant, pan fo hynny yn ymarferol bosib, er mwyn galluogi staff sydd yn ddi-hyder eu Cymraeg i gymryd rhan yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnal fel y brif iaith weinyddol fewnol, ac er mwyn rhoi cyfleoedd anffurfiol, cefnogol i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg.*
Grŵp Craidd Cydraddoldeb (Cyflwyno'r Polisi cyfredol (2016) a gofyn am unrhyw sylwadau)	
Materion a godwyd	**Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud**
Sylwadau cyffredinol am gywair iaith a gosodiad testun. ○ Maint y ffont yn gallu ei gwneud yn anodd i rai gyda nam ar y golwg. Gosod testun yn ddwyieithog weithiau yn golygu gorfod defnyddio ffont llai, a dim lle i wneud yn fwy. ○ Opsiwn Easy read ddim ar gael yn aml ○ Y dewis Saesneg neu Cymraeg ffurfiol – dim byd yn y canol.	Ystyried rhoi mwy o bwyslais ar defnyddio Cymraeg Clir – er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn cynhyrchu deunyddiau sydd yn hawdd eu darllen, ac yn helpu rhai sydd yn ddi-hyder am eu gallu i ddeall y Gymraeg Trafod efo cydweithwyr a oes cyfleoedd i ni greu mwy o ddeunyddiau yn ddwyieithog, yn hytrach na'r Gymraeg a'r Saesneg ar wahân.

○ Dysgwyr yn hoffi cael y Gymraeg a Saesneg efo'i gilydd yn hytrach na gorfod newid o un iaith i'r llall	
Sesiynau trafod staff Cynhaliwyd sawl trafodaeth gyda chydweithwyr oedd a diddordeb neu wybodaeth am feysydd penodol .	
Materion a godwyd	**Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud**
Gweinyddiaeth fewnol: Angen rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg o ran cyfathrebu mewnol tra hefyd yn parchu dewisiadau pobl, yn enwedig wrth dderbyn gwybodaeth bersonol. Angen gwahaniaethu rhwng y gwahanol ffyrdd y cyflwynir gwybodaeth, e.e. gwybodaeth bersonol sydd yn cael ei ddarparu i aelodau staff ar yr hunanwasanaeth a gwybodaeth gyffredinol ar y mewnrwyd.	Cymal wedi ei osod yn Egwyddorion Cyffredinol Adran 11: Gweithrediad Mewnol y Cyngor i adlewyrchu'r egwyddor yma: *Bydd unrhyw bolisïau perthnasol sydd yn ymwneud efo hawliau staff, prosesau disgyblu a chwynion, yn amlygu hawliau'r unigolion dan ofynion y Safonau. Bydd y Cyngor yn parchu hawl aelodau staff i arddel dewis iaith, ac yn darparu gwybodaeth bersonol yn yr iaith o'u dewis.* Y gwahanol ffyrdd o ddarparu gwybodaeth a defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau mewnol wedi ei amlygu yn Adran 11.
Recriwtio a phenodi: Angen adlewyrchu'r newidiadau i'r drefn recriwtio yn sgil gweithredu Prosiect y Dynodiadau. Angen amlygu gofynion y Safonau o ran hysbysebu swyddi a chofnodi sgiliau iaith.	Cymalau recriwtio a phenodi (Adran 12) wedi eu hysgrifennu mewn ymgynghoriad a'r Bwrdd Prosiect a swyddogion Dysgu a Datblygu. Yr Uned Iaith wedi cynghori a chydweithio gyda gwasanaeth Adnoddau Dynol i sicrhau cysondeb gyda'r polisïau recriwtio perthnasol. Geiriad wedi ei newid i amlygu'r angen yn y Safon i ddefnyddio'r gair HANFODOL.
Penaethiaid gwasanaethau Rhannu'r copi ymgynghori gyda phenaethiaid am sylwadau yn ystod Mai 2022	
Materion a godwyd	**Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud**
Newidiadau i'w cynnig neu cwestiynau a godwyd:	Derbyn y sylw yma ac wedi addasu yr adran yma o'r polisi – ychwanegu is-deitlau "Asesu Effaith" ac "Ymgynghori a gwaith ymchwil cysylltiol" a

Nodwyd bod angen edrych ar y cymalau Llunio Polisi er mwyn sicrhau bod yr arweiniad yn glir i staff. Teimlad nad oedd y disgwyliad i ofyn cwestiwn penodol wrth ymgynghori ar benderfyniadau polisi ddim digon clir. Sawl cyfeiriad at yr angen i asesu'r effaith ar y Gymraeg a mesurau lliniaru, ond dim y cwestiwn	chymalau newydd sydd yn gwneud y gofyn am gwestiynau ymgynghori yn glir. Hefyd wedi ychwanegu dyfyniad o'r Cod Ymarfer er mwyn dangos y diffiniad o benderfyniad polisi.
Pwyllgor Iaith 20 Mehefin 2022 Cyflwyno'r copi ymgynghori er mwyn cael sylwadau a chymeradwyaeth i symud ymlaen i gyflwyno i'r Cabinet.	
Materion a godwyd	**Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud**
Gofynnwyd a fyddai posib ychwanegu elfen fwy mesuradwy i'r cymalau llunio polisi sydd yn cyfeirio at asesu effaith. Roedd awydd i weld cymal yn cyfeirio at effaith a fyddai yn achosi gostyngiad sylweddol yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau. Cyfeirio at siaradwyr Cymraeg yn hytrach na thrin y Gymraeg fel mater annibynnol.	Mae'r cymalau yma wedi eu llunio yn benodol i adlewyrchu union ofyn y Safonau, ond mae'r ymgynghorydd wedi addasu geiriad y cymalau dan sylw er mwyn cyfarch y mater a godwyd. Rydym wedi ychwanegu at y cymalau er mwyn cyfeirio at bobl yn benodol, ac at gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg (sef geriad y gofyn yn y Safon). Mae gennym bryder am ymrwymo mewn cymal polisi i fesur effaith cynlluniau yn uniongyrchol ar nifer a chanran siaradwyr, gan nad hawdd yw gwneud cyswllt uniongyrchol rhwng polisïau, prosiectau a chynlluniau strategol y Cyngor a newid yn nifer a chanran siaradwyr, ac felly nid hawdd fyddai profi yr effaith. Mae dibyniaeth yr elfen yma ar ddata cyfrifiad hefyd yn gwneud y sefyllfa yn fregus i'r dyfodol. Rydym serch hynny yn cydnabod bod ceisio mesur newid yng nghanran y siaradwyr yn agwedd bwysig ar fesur effaith, a byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael sylw yn y canllawiau i staff ar asesu effaith ac yng ngwaith monitro yr Uned o asesiadau effaith. Bydd yr ymgynghorwyr hefyd yn cadw'r sylw yma mewn cof wrth ddatblygu eu gwaith o greu mesuryddion ieithyddol ar gyfer prosiectau a chynlluniau.

Cwestiynwyd yr angen i barhau i gynnwys cymal (12.3) sydd yn nodi y bydd un cwestiwn Saesneg yn cael ei ofyn mewn cyfweliadau.	Gan mai polisi yn benodol am y defnydd o'r iaith Gymraeg yw hwn rydym yn derbyn y sylw hwn ac yn cytuno i'w dynnu allan o'r Polisi Iaith. Mae'r cymal hwn hefyd wedi ei fabwysiadu yn y polisi recriwtio mewnol, sydd yn rhoi arweiniad i reolwyr ar y drefn o gynnal cyfweliadau, a byddwn yn tynnu sylw swyddogion perthnasol at y sylw hwn i'w drafod ymhellach.
Holwyd am yr angen i sicrhau sgiliau iaith Cymraeg i is-gontractwyr sydd yn cyd-weithio gyda'r Cyngor ar amrywiol brosiectau.	Disgwyliadau ar gontractwyr yn cael sylw dan gymal 9.1 *Bydd unrhyw gytundebau darparu yn cyfeirio at y polisi hwn ac yn cynnwys cymalau fydd yn nodi'n glir y gofynion a'r disgwyliadau ar ddarparwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Polisi hwn.* Credwn bod y cymal hwn, yn ogystal a'r arweiniad a roddir i swyddogion caffael o fewn y Cyngor, yn ddigonol. Cymalau safonol wedi eu llunio i'w defnyddio gan swyddogion caffael – ddim angen cyfeirio at hyn yn y polisi gan mai elfen weithredol yn hytrach nag egwyddor ydyw.
Tynnwyd sylw bod aelodau etholedig yn cael eu rhwymo gan y Cod Ymddygiad ac felly angen ystyried os ydi'r polisi iaith cydnabod hyn.	Cytuno i edrych ar gynnwys y Cod Ymddygiad i sicrhau bod y disgwyliad yn glir ac yn gyson.
Cwestiynwyd os oedd unrhyw oblygiadau i aelodau o staff sydd angen derbyn hyfforddiant i gyrraedd dynodiad iaith eu swydd ond wedi methu mynychu'r sesiynau hyfforddiant hynny.	Cadarnhawyd nad oes goblygiadau os ydi staff yn methu hyfforddiant iaith Gymraeg i gyrraedd eu dynodiad iaith. Trafodwyd y mater yma yn y Pwyllgor iaith rai blynyddoedd yn ôl, wrth sefydlu y prosiect Dynodiadau iaith, a chytunwyd gyda'r arweiniad gan y gwasanaeth adnoddau dynol ar y pryd nad oedd yn ymarferol i ymrwymo aelod staff i gyfnod penodol
Tîm Arweinyddiaeth 5 Ebrill 2022 Prosiect Enwau Lleoedd wedi cyflwyno adroddiadau i drafod egwyddorion penodol enwau lleoedd	
Materion a godwyd	**Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud**

Aeth swyddogion y Prosiect Enwau Lleoedd at y Tîm Arweinyddiaeth i ofyn am arweiniad gwleidyddol ar arddel enwau Cymraeg, a'r dymuniad i fod yn defnyddio enw Cyngor Gwynedd yn unig (ac nid Gwynedd Council) ac i ddefnyddio enwau strydoedd a lleoedd Cymraeg hyd eithaf ein gallu. Cafwyd arweiniad gan y TA eu bod yn cytuno gyda'r egwyddor o arddel enwau Cymraeg, a defnyddio enw Cymraeg y Cyngor lle bynnag y bo'n bosib. Bu i'r Tîm Arweinyddiaeth gefnogi'r egwyddor y gellid gweithredu ar rai materion yn syth, ond gan gydnabod y byddai hefyd yn cymryd rhai blynyddoedd i weithredu ar yr holl newidiadau. Rhoddwyd arweiniad y byddai arwyddion (yn cynnwys logo y Cyngor) yn cael eu newid wrth fod yr angen y codi, fel na fyddai yn golygu cost ychwanegol ar hyn o bryd.	Mae cymalau wedi eu cynnwys yn y polisi i adlewyrchu ymrwymiad y prosiect enwau lleoedd i warchod ac arddel enwau Cymraeg (***Egwyddor cyffredinol 2, Cymal 1.6, Egwyddor cyffredinol Adran 4, Cymal 6.4***) a bydd y gwaith o weithredu ar y cymalau hyn yn dod yn rhan o raglen waith y Prosiect Enwau Lleoedd, sydd oherwydd ei statws fel prosiect blaenoriaeth y Cyngor, yn cael ei fonitro wrth adrodd ar gynnydd drwy drefniadau herio perfformiad. *Bod delwedd a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn adlewyrchu ei ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio yr enw Cyngor Gwynedd wrth gyfeirio at ei hun lle bynnag y bo'n bosib.* ***1.6*** *Dylid sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a anfonir, yn electronig neu yn unigol gan staff, yn defnyddio cyfeiriadau Cymraeg, gan gynnwys enwau strydoedd Cymraeg a'r ffurfiau ar enwau lleoedd sydd ar Gofrestr Enwau Lleoedd y Cyngor.* ***Egwyddorion Cyffredinol Adran 4*** *Bydd y Cyngor yn cyfeirio at ei hun yn ôl ei enw Cymraeg, Cyngor Gwynedd, ac yn arddel enwau Cymraeg ar leoliadau a nodweddion yn eu holl gyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig cyhoeddus.* ***6.4*** *Bydd y Cyngor yn ymrwymo i hybu defnydd o enwau Cymraeg ar leoliadau drwy ddefnyddio yr enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion o fewn y sir lle bynnag y bydd hynny yn ymarferol bosib. Mae hyn yn cynnwys defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion stryd a ffordd newydd, ac ystyried newidiadau i arwyddion wrth iddynt gael eu hadnewyddu i ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig.*

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1) Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Polisi Iaith Cyngor Gwynedd

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Diwygio Polisi Iaith y Cyngor i adlewyrchu newidiadau mewn dulliau gweithredu, ac i gryfhau ymrwymiad y Cyngor i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Bwriad y Polisi Iaith yw sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd sydd yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae yn ateb y gofyn statudol dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i sicrhau hawl pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r Cyngor, ac yn cyfrannu at yr amcan llesiant i sicrhau bod trigolion yn gallu "byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg", ac amcan gwella'r Cyngor i "helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg".

Nid oes newid wedi bod yn y ddeddfwriaeth a'r gofyn statudol o safbwynt cynnig gwasanaethau Cymraeg, ond roedd angen addasu'r Polisi er mwyn rhoi arweiniad cliriach ar yr hyn mae gofynion Safonau'r Gymraeg yn ei olygu yn ymarferol ac yng nghyd-destun gwaith dydd i ddydd swyddogion, ac hefyd i roi arweiniad ar feysydd lle nad oes Safonau perthnasol.

Newidiadau hefyd wedi eu gwneud i adlewyrchu gwaith prosiectau blaenoriaeth ym maes y Gymraeg (Prosiect Dynodiadau, Prosiect Enwau Lleoedd) ac uchelgais y Cyngor i fod yn canfod ffyrdd o fynd y tu hwnt i ofynion y Safonau a chodi proffil yr iaith yn y sir, yn weledol ac ar lafar. Mae hyn yn cynnwys y penderfyniad i arddel enw Cymraeg y Cyngor (Cyngor Gwynedd) yn unig lle y mae'n bosib o hyn ymlaen.

Mae'r diwygiadau i'r Polisi felly yn cryfhau safbwynt y Cyngor eu bod yn mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau ac yn gweithredu mewn modd sydd yn rhoi y Gymraeg gyntaf bob amser.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gwenllian Williams, Ymgynghorydd Iaith, Uned Iaith a Chraffu, Cyngor Gwynedd

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1 – 14.09.21
Fersiwn 2 – diweddariad wedi ymgynghori – Gorffennaf 2022
Fersiwn 3 – diweddariad wedi mewnbwn Ymgynghorydd Cydraddoldeb – Awst 2022

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Swyddogion a Phenaethiaid Adrannau Cyngor Gwynedd
Trigolion
Pwyllgor Iaith

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷ n â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi gan nad yw'r newidiadau yn effeithio ar y gwasanaethau a gynnigir i'r cyhoedd. Mae'r gofyn statudol yn aros yr un fath, ond bod newidiadau eu hangen i roi eglurder i staff ac i adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol y Cyngor.

Credwyd serch hynny ei bod yn bwysig cynnwys barn pobl gyda gwahanol nodweddion ac mae ymgysylltu wedi ei gynnal efo Grŵp Craidd Cydraddoldeb ar y polisi presennol a'i effaith posib ar rai grwpiau penodol.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Atodiad – crynodeb ymgynghori

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cwynion sydd wedi bod yn cael eu derbyn gan yr Uned Iaith a Chraffu, a thestunau ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi amlygu rhai gwendidau o ran arweiniad y polisi ac ymwybyddiaeth staff o union ofyn y Safonau.
Roedd angen i ychwanegu ac addasu rhai cymalau hefyd fel rhan o gamau gweithredu a osodwyd yn sgil ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Roedd angen amlwg felly i adolygu'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi yr arweiniad gorau posib i staff, ac yn lleihau nifer y cwynion a dderbynnir.

Mae'r trafodaethau mewnol a gynhaliwyd gyda'r canlynol hefyd yn ychwanegu at y sail tystiolaeth, gan eu bod wedi ein helpu i adnabod y gwendidau a chael trafodaeth am y bylchau yn y polisi neu rwystrau wrth weithredu.

- Grwpiau swyddogion ar bynciau/rhannau penodol o'r polisi
- Bwrdd Prosiect Dynodiadau Iaith
- Penaethiaid adrannau'r Cyngor
- Pwyllgor Iaith
- Aelodau Cabinet

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nid ydym yn credu bod bylchau yn y dystiolaeth ar hyn o bryd, ond byddwn yn monitro gweithrediad y polisi ac yn cadw golwg ar unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth sydd yn amlygu eu hunain drwy ymholiadau neu gwynion.
Mae'r Uned iaith a Chraffu newydd sefydlu trefn hunanasesu newydd, gyda phob adran o fewn y Cyngor yn llenwi holiadur blynyddol sydd yn nodi sut y maent yn llwyddo i gydymffurfio gyda gofynion y Safonau a'r Polisi Iaith. Bydd hyn yn ffordd i ni adnabod unrhyw wendidau a gweithredu arnynt ar unwaith. Bydd hefyd yn ein galluogi i adnabod os oes unrhyw aneglurder neu addasiadau pellach eu hangen i'r Polisi.
..

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif / ~~negyddol / dim~~	Mae gwybodaeth sydd yn cael ei gasglu o arolygon / ymgynghoriadau cyhoeddus gan y Cyngor - ac yn arbennig felly adborth sydd wedi ei dderbyn yn ddiweddar gan gyd-swyddogion yn sgil ymgynghori cyhoeddus gan yr Uned Gydraddoldeb yn edrych ar rwystrau sydd yn wynebu'r cyhoedd wrth ymwneud efo'r Cyngor, ac ymgysylltu gan dim y we ar ddefnydd y cyhoedd o'r wefan – yn dangos bod rhai agweddau negyddol yn bodoli am bolisi iaith y Cyngor a rhagdybiaeth ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o hil gwahanol neu o leiafrifoedd ethnig (h.y. pobl sydd ddim yn drigolion brodorol). Mae nifer o gwynion wedi eu derbyn dros y blynyddoedd diweddar hefyd sydd yn awgrymu y gallai rhai deimlo bod y Polisi Iaith yn hiliol ac yn gwahaniaethu. Mae'r cwynion hyn wedi ymwneud yn bennaf gyda'r elfen recriwtio a'r gred bod y Polisi Iaith yn gwadu cyfleoedd gwaith i bobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg. Er nad yw iaith yn nodwedd cydraddoldeb warchodedig, mae hyn yn aml yn cael ei gysylltu yn uniongyrchol gyda'r agwedd hil. Gellir ystyried bod rhywfaint o ffaith negyddol posib felly wrth i gamddealltwriaeth am y polisi recriwtio greu argraff o wahaniaethu yn erbyn pobl di-Gymraeg/ sydd ddim efo cenedligrwydd Cymreig neu bobl sydd wedi symud i'r ardal ac heb fynd drwy system addysg y sir. Ar yr un pryd, mae peryg i'r cyfeiriad at ofynion ieithyddol o fewn adran recriwtio y polisi gael effaith negyddol ar garfan o siaradwyr Cymraeg wrth i bobl deimlo eu bod yn cael eu cau allan o gyfleoedd am nad yw Cymraeg yn ddigon da. Mae hyn yn deillio o ragdybiaeth bod sgiliau "hanfodol" yn golygu sgiliau rhugl, lefel uwch. Mae posib bod elfen o wirionedd yn hyn gan bod rhai swyddi yn bodoli lle na fyddai posib recriwtio rhywun heb y sgiliau iaith Gymraeg priodol heb i hynny effeithio ar y gwasanaeth sydd yn cael ei ddarparu. Daw effaith gadarnhaol ar y llaw arall yn sgil y ffaith bod y polisi yn ateb gofyn statudol i warchod hawl unigolion i wasanaethau Cymraeg a bod y cymalau recriwtio yn fodd o sicrhau bod y sgiliau priodol ar gael i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddi-dor. Er bod y polisi yn ymwneud yn benodol efo'r Gymraeg ac yn nodi bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, nid oes unrhyw fwriad i beidio cyfathrebu a chynnig gwasanaethau yn Saesneg hefyd, ac felly nid oes effaith negyddol ar allu pobl i gael gafael ar wasanaethau.

		Mae cymalau recriwtio'r polisi yn sicrhau bod nifer digonol o'r gweithlu yn gallu'r Gymraeg er mwyn ateb anghenion ieithyddol (Cymraeg) y boblogaeth, ac i gynnig cyfleoedd i weithwyr ddatblygu eu sgiliau. O ran gwahaniaethu yn erbyn trigolion o leiafrifoedd ethnig, sydd o bosib yn siarad ieithoedd eraill heblaw y Gymraeg a'r Saesneg, gellir ystyried bod effaith negyddol i'r polisi gan nad yw'n rhoi yr un hawliau i drigolion gael gwasanaethau mewn ieithoedd eraill. Gan mai polisi Iaith Gymraeg ydyw hwn, sydd wedi ei lunio i amlinellu cyfrifoldebau statudol dan Fesur y Gymraeg i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ac amlinellu sut y defnyddir y Gymraeg (a'r Saesneg) yng ngweithrediadau'r Cyngor, ni fwriedir iddo ddelio gydag/cyfarch anghenion y boblogaeth o ran ieithoedd eraill. Mae'r Cyngor serch hynny yn cyfarch gofynion ieithoedd eraill drwy ei gyfrifoldebau Cydraddoldeb, ac wedi ymrwymo i gynnig darpariaeth lle bo'r angen er enghraifft anghenion cyfieithu mewn cyfarfodydd llesiant.
Anabledd	Positif / negyddol / dim	Gan fod y Polisi yn ymwneud yn benodol efo cyfrifoldeb statudol i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog, a chyda cyfrwng iaith cyfathrebu yn hytrach na dulliau cyfathrebu mwy cyffredinol, nid oedd unrhyw effaith negyddol wedi ei adnabod yn ystod y gwaith ymgysylltu. Serch hynny, codwyd rhai materion yn ystod yr ymgynghori gyda'r grŵp Craidd Cydraddoldeb y dylid eu hystyried wrth weithredu'r polisi o gynhyrchu deunyddiau dwyieithog a hygyrchedd gwasanaethau yn gyffredinol. Nodwyd y gallai'r arfer o gynhyrchu deunyddiau dwyieithog gael effaith negyddol ar bobl sydd a nam ar eu golwg, gan y gallai'r angen i ddefnyddio print man neu orfod gwasgu llawer o gynnwys ar un dudalen effeithio ar eu gallu i ddarllen deunyddiau cyhoeddus. Gallai'r pwyslais ar gynhyrchu deunyddiau gwybodaeth ysgrifenedig gael effaith negyddol ar bobl gyda nam ar eu clyw. Gallai'r angen i ddefnyddio clustffonau er mwyn clywed cyfieithu mewn cyfarfodydd hefyd greu problemau (ni fyddai hyn yn gymaint o broblem gyda chyfarfodydd ar-lein). Mae effaith negyddol posib hefyd i bobl gydag anawsterau deallusol, os nad yw'r Cyngor yn dilyn arweiniad y polisi i gynhyrchu deunyddiau sydd yn dilyn egwyddorion Cymraeg Clir. Mynegwyd y farn bod y Cyngor yn defnyddio iaith rhy ffurfiol, jargonistaidd, a bod angen gweithio ar gynhyrchu deunyddiau fwy syml ac eglur. Fel y nodir yn barod, mae'r polisi yn ateb gofyn statudol i gynhyrchu deunyddiau a darparu gwasanaethau Cymraeg yn hytrach na dulliau cyfathrebu, felly ni ystyrir bod angen gwneud newidiadau yn sgil y sylwadau hyn, ond gan fod dyletswydd ehangach ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i liniaru unrhyw rwystrau i drigolion wrth geisio cael gafael ar wasanaethau neu

		wybodaeth byddwn yn ystyried camau lliniaru priodol ar gyfer y rhwystrau hyn. Mae effaith gadarnhaol i'w gael ar unrhyw grwpiau o bobl sydd ag anableddau hefyd, gan bod y Polisi yn dilyn yr egwyddor o gynnig rhagweithiol a osodir yn Fframwaith Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod y ffaith bod cynnig gwasanaethau yn iaith gyntaf unigolion yn gallu bod yn allweddol mewn achos o salwch neu anabledd, bod unigolion yn gallu mynegi eu hunain yn well yn eu hiaith eu hunain, ac felly ei fod yn rhan allweddol o gynnig gofal a gwasanaeth o safon. Mae cynnig gwasanaethau Cymraeg a sicrhau bod staff sydd yn gallu'r Gymraeg ar gael i siarad efo'r cyhoedd (yn rhagweithiol a heb orfod gofyn am hynny) yn egwyddor allweddol yn y polisi ac yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu mewn ffordd sydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl gydag anableddau sydd hefyd yn siaradwyr Cymraeg.
Rhyw	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Oedran	Positif / negyddol / dim	Effaith gadarnhaol o ran sicrhau gwasanaethau sydd yn ateb gofyn ac angen y cyhoedd ac yn sicrhau gwasanaethau o safon i grwpiau oedran bregus. Mae'r ystadegau cyfrifiad yn dangos bod canran uwch o bobl hyn yn siaradwyr Cymraeg ac felly mae'r angen i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r garfan hon o'r boblogaeth yn fwy. Fel y nodir uchod, mae'r Polisi yn dilyn yr egwyddor o gynnig rhagweithiol a osodir yn Fframwaith Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru. Mae gweithredu'r polisi yn sicrhau nifer digonol o staff sydd yn gallu'r Gymraeg i allu gwneud y rhagweithiol ac yn cael gwared ar rwystrau i bobl hyn drwy sicrhau nad oes rhaid iddynt ofyn nac aros am wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Ailbennu rhywedd	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif / negyddol / dim	Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd
Yr iaith Gymraeg	Positif / negyddol / dim	Effaith positif ar y cyfan oherwydd bod y polisi yn adlewyrchu ymrwymiadau statudol y Cyngor i weithredu Safonau'r Gymraeg ac hefyd dymuniad y Cyngor i fod yn hybu'r iaith ac yn cynnig

		cyfleoedd amrywiol i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Mae gan y Cyngor strategaeth iaith sydd yn amlinellu ei amcanion i hybu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir, ac mae'r Polisi hwn yn cyfrannu at amcanion maes Blaenoriaeth 3- Iaith Gwaith a Gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i'r nod llesiant o weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau bod trigolion yn gallu byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg" drwy Gynllun y Cyngor. Mae rhai effeithiau negyddol posib ar gyfer rhai agweddau, y manylir arnynt isod. **Cyffredinol:** Cyfle i atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg ac i gymryd camau cadarnhaol i sicrhau hawl trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg drwy wasanaethau'r Cyngor. Mae'r diwygiadau sydd wedi eu gwneud i'r polisi ers y polisi blaenorol yn sicrhau bod arweiniad clir i staff am sut y dylid cynnig gwasanaethau yn Gymraeg a chydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fynd y tu hwnt i ofyn y Safonau ac yn rhoi'r flaenoriaeth i'r Gymraeg yn ei weithrediadau. Mae'r newidiadau sydd yn cael eu cyflwyno yn ymgais i gael effaith fwy gadarnhaol ar y Gymraeg a hawliau trigolion i'w defnyddio. Mae hyn yn cynnwys: **Sgiliau iaith – dynodiadau iaith:** Mae cwynion wedi eu derbyn yn y gorffennol am bolisi recriwtio y Cyngor, a'r ffaith bod posib i'r polisi wahaniaethu yn erbyn y di-Gymraeg. Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan o gyfleoedd oherwydd y gofyn am sgiliau iaith hanfodol a'r teimlad nad yw eu Cymraeg yn ddigon da i gwrdd a'r gofynion. Mae prosiect blaenoriaeth y Dynodiadau Iaith wedi bod yn cael ei weithredu i geisio ymateb i'r heriau yma ac i edrych ar y ffordd rydym yn asesu anghenion iaith swyddi a sut rydym yn recriwtio pobl i'r swyddi. Mae newidiadau mawr wedi eu gwneud i'r broses recriwtio yn sgil y prosiect, a threfn asesu sgiliau newydd wedi ei sefydlu. Mae'r cymalau newydd yn y polisi felly yn adlewyrchu y newidiadau hynny. Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd ein bod yn symud i ffwrdd oddi wrth nodi gofynion iaith hanfodol, a manylu ar yr union sgiliau oedd eu hangen er mwyn ceisio agor y drws i ymgeiswyr swyddi gwahanol, ac i gynnig cyfleoedd i bobl ddysgu a throchi eu hunain mewn gweithlu cyfrwng Cymraeg, mae rhai o ofynion y Safonau yn golygu bod dal peryg i'r Polisi gael ei weld fel un sydd yn gwahaniaethu. Er bod y prosiect Dynodiadau wedi penderfynu peidio a defnyddio y gair "hanfodol" mewn hysbysebion swyddi, er enghraifft, er mwyn ceisio lleihau yr effaith negyddol a'r posibilrwydd o edrych fel bod y Cyngor yn gwahaniaethu, mae gofynion y Safonau a chamau gweithredu yn sgil ymchwiliad gan y Comisiynydd wedi golygu ein bod yn gorfod defnyddio y gair hanfodol. **Technoleg:**

		Mae cymalau newydd wedi eu creu i adlewyrchu defnydd cynyddol y Cyngor o dechnoleg a hunanwasanaeth ar-lein. Mae hwn yn faes lle mae posib i'r Cyngor beidio a gwireddu ei uchelgais gan nad yw bob amser yn bosib cael apiau a systemau sydd yn gweithio yn gyfangwbl Gymraeg ac sydd ar gael i bawb (rhai apiau ddim yn gweithio yn ddwyieithog ar bob ffon android) ond mae camau hefyd yn cael eu cymryd i ddatblygu nifer o systemau yn fewnol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cynnig darpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd. **Enwau lleoedd ac enw'r Cyngor:** Mae cymalau newydd wedi eu hychwanegu i'r Polisi i adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i warchod enwau lleoedd Cymraeg o fewn y sir, ac hefyd i godi proffil gweledol yr iaith drwy roi blaenoriaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn unig yn nelwedd gyhoeddus y Cyngor ac wrth ddefnyddio enwau llefydd. Mae asesiad effaith unigol wedi ei wneud ar gyfer y Prosiect Enwau Lleoedd a'r effeithiau posib ar y Gymraeg wedi eu hystyried wrth drafod arddel enwau Cymraeg y Cyngor ac enwau strydoedd a llefydd y sir. Mae'r rhain yn seiliedig ar gymalau oedd yn bodoli yn y Cynllun Iaith yn hanesyddol, ac sydd yn adlewyrchu arferion cyfredol neu egwyddor sydd yn cael ei arddel gan y Cyngor yn hytrach na bod yn newid fel y cyfryw.
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif / negyddol / dim	Codwyd nifer o bwyntiau yn y Grŵp Craidd Cydraddoldeb ynghylch hygyrchedd gwasanaethau a gwybodaeth yn fwy cyffredinol, ond maent hefyd yn berthnasol i'r Polisi ac yn faterion fydd angen ystyriaeth bellach wrth weithredu. Nodwyd bod effaith bosib i rai grwpiau o ran mynediad i wasanaethau wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein. Mae peryg bod y dull gweithredu yma yn mynd i gau rhai aelodau o'r gymdeithas allan o ddefnyddio gwasanaethau yn effeithiol oherwydd diffyg mynediad i dechnoleg. Mae hyn hefyd wedi ei nodi yn yr ymatebion diweddar i waith ymgynghori gan yr Uned Gydraddoldeb ar rwystrau i bobl ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?

Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi / nac ydi / posib	Ni ystyrir bod unrhyw gam-wahaniaethu anghyfreithlon oherwydd bod gofyn statudol wedi ei osod ar y Cyngor drwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod y Cyngor yn gweithredu'r Polisi Iaith er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, h.y. bod gwasanaethau dwyieithog cyson a di-dor ar draws y sir ac nad oes rhaid i bobl gymryd camau ychwanegol i gael gafael ar y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi / nac ydi / posib	Rydym yn cydnabod bod rhai yn teimlo nad ydynt yn gallu ymgeisio am swyddi oherwydd y gofynion ieithyddol a bod hynny yn creu risg o ran cynnig cyfle cyfartal.
Meithrin perthnasau da	Ydi / nac ydi / posib	Cydnabod bod posib codi gwrychyn wrth i bobl gamddeall bwriad y Polisi ac y gallai hynny effeithio ar berthynas dda. Bydd angen meddwl am sut y byddwn yn cyfathrebu bwriadau ac amcanion y polisi yn gyhoeddus er mwyn datblygu dealltwriaeth a magu agweddau a pherthynas gadarnhaol gyda'r carfanu hynny o'r gymuned sydd yn teimlo eu bod ar hyn o bryd dan anfantais oherwydd y polisi.

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Mae'r Polisi wedi ei ysgrifennu i adlewyrchu gofynion statudol Safonau'r Gymraeg ac ymrwymiad y Cyngor drwy'r Cynllun Hybu a Chynllun y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Dim ar hyn o bryd. Gan mai diwygiad er mwyn cryfhau y polisi sydd dan sylw, credwn ein bod wedi gwneud yr holl newidiadau posib ar hyn o bryd i gael yr effaith fwyaf cadarnhaol posib ar y Gymraeg. Os bydd cyfleoedd eraill yn codi, byddwn yn eu hystyried ar y pryd.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Rydym eisoes wedi nodi bod effaith bosib i rai grwpiau o ran mynediad i wasanaethau wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein ac oherwydd diffyg mynediad i dechnoleg. Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth hefyd ar gael drwy'r ffyrdd traddodiadol. Byddwn yn llunio cynllun cyfathrebu er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r newid.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Nid oes newid i'w wneud i'r polisi ei hun, ond bydd rhaglen gyfathrebu yn cael ei datblygu er mwyn rhannu negeseuon am y polisi ymysg staff a'r cyhoedd. Bydd cynyddu dealltwriaeth am fwriad ac amcanion y polisi gobeithio yn gwella'r canfyddiad am anfantais.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Effaith positif ar yr iaith Gymraeg.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Na Mae'r Polisi yn adlewyrchu gofyn statudol a'r angen i ateb anghenion ieithyddol y cyhoedd ar draws y sir.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	x
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	

Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd angen cynnal sgyrsiau pellach gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb a'r Uned Gyfathrebu er mwyn sicrhau bod y materion hygyrchedd a gafodd eu codi wrth ymgynghori yn cael eu cyfarch.

Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd o ddatblygu dealltwriaeth y cyhoedd o'r polisi fel rhan o'r rhaglen gyfathrebu, gan roi sylw i pam ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth a phwyslais arbennig ar ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ei wasanaethau.

Mae nifer o gynlluniau eraill yn cael eu gweithredu gan y Cyngor sydd yn gweithredu fel camau lliniaru rai o'r effeithiau negyddol posib, ac yn enwedig yr effeithiau a nodir dan y pennawd hil. Mae cyfleoedd amrywiol yn cael eu cynnig gan y Cyngor i ddysgu'r Gymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol, sydd yn rhoi cyfleoedd i bobl ymgeisio am swyddi pan nad ydynt yn cyrraedd y dynodiad iaith. Bydd y gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cyfeirio staff at ddarpariaethau allanol neu yn trefnu hyfforddiant pwrpasol er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau. Mae cynllun cyfeillio hefyd wedi ei sefydlu sydd yn cynnig cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr y Gymraeg ddefnyddio'r iaith a magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
Mae Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor yn nodi y bydd yn gweithio i "hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg ein gweithlu."

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu yn ddwyieithog, i sicrhau hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Byddwn yn ailymweld efo'r asesiad effaith os bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Polisi yn amlygu eu hunain yn sgil cwynion neu ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg.
Mae trefn hunanasesu adrannol hefyd wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth reolaidd am allu adrannau a gwasanaethau i gydymffurfio gyda'r Safonau Iaith a Pholisi Iaith y Cyngor.

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**13 Medi 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Menna Jones**
Swyddog Cyswllt:	**Geraint Owen**
Rhif ffôn cyswllt:	**01286 679335**
Teitl yr eitem:	**Adroddiad Blynyddol - Cyflogaeth**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Ar gyfer adlewyrchu a chytuno ar y strategaeth corfforaethol yn y maes allweddol hwn i'r dyfodol.

3. CYFLWYNIAD

Bwriad yr adroddiad hon yw cyflwyno diweddariad blynyddol o fanylion y gweithlu a'u cyflogaeth yn ogystal ag amlinellu amcanion ar gyfer datblygu'n gweithwyr a gosod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol (sef y fforwm ar y cyd rhwng cynrychiolwyr undebau cydnabyddedig ac Aelodau Etholedig) yn derbyn adroddiad blynyddol ar weithgaredd ym maes adnoddau dynol ond mae'r adroddiad honno yn canolbwyntio ar y berthynas weithredol rhwng y cyflogwr a chynrychiolwyr y gweithlu.

a) **<u>GWEITHLU'R CYNGOR</u>**

Nodir yn y tabl isod y niferoedd a gyflogwyd ar sail llawn-amser a rhan-amser o fewn y Cyngor dros y dair blynedd diwethaf. Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio yn ein hysgolion ond nid y staff hynny a gyflogir yn achlysurol yn ystod cyfnodau gwyliau / salwch y gweithlu sefydlog.

	31/3/20	31/3/21	31/3/22
Llawn amser	2,923	3,073	3,258
Rhan amser	2,781	2,776	2,650
Cyfanswm	**5,704**	**5,849**	**5,908**

Tra bod y patrwm cyffredinol dros y blynyddoedd wedi bod yn un o ostwng yn y niferoedd staff, mae'r manylion am 2021/22 yn gyson â'r hyn a welwyd y llynedd; gwelwyd cynnydd o 185 yn y nifer o unigolion a gyflogwyd ar gytundebau llawn amser gyda gostyngiad yn y niferoedd o staff dros dro. Arweiniodd hyn at gynnydd net o 59 yn nifer y staff a oedd yn gweithio i'r Cyngor yn y cyfnod dan sylw. Yn gyffredinol, gellir priodoli'r cynnydd hwn i'r angen a fu eto i ni fel cyflogwr ymateb i amgylchiadau'r pandemig, gan recriwtio staff ychwanegol i rai meysydd.

b) **RHANIAD Y GWEITHLU YN ÔL RHYW**

Gwelir yma ddadansoddiad pellach o'r nifer dynion a merched a gyflogwyd yn llawn amser ac yn rhan amser yn ystod yr un cyfnod. Y brif neges yma wrth gwrs yw'r ffaith fod yna nifer sylweddol uwch o ferched yn gweithio i'r Cyngor, gyda nifer sylweddol uwch o'r merched hynny yn cael eu cyflogi ar sail rhan amser.

		31/3/20	31/3/21	31/3/22
Llawn amser	Dynion	1,329	1,336	1,434
	Merched	1,594	1,737	1,824
Rhan amser	Dynion	313	314	280
	Merched	2,468	2,462	2,370
Cyfanswm	Dynion	1,642	1,650	1,714
	Merched	4,062	4,199	4,194
Cyfanswm %	Dynion	**28.8%**	**28.2%**	**29%**
	Merched	**71.2%**	**71.8%**	**71%**

Gweler ymhellach ddadansoddiad o'r rhaniad dynion a merched yn adrannau'r Cyngor fel ag yr oedd yn ymddangos ar 31 o Fawrth 2022.



c) **PROFFIL OEDRAN STAFF Y CYNGOR**

Y llynedd, adroddwyd fod y patrwm o broffil oedran ar gyfer staff yn dangos fod y gweithlu yn mynd yn hŷn. Eleni, mae'n ymddangos fel pe bai'r sefyllfa yn sefydlogi rhywfaint ond y brif neges i'w rhannu o hyn ydi fod 65% o'r gweithlu sydd dros eu 40 mlwydd oed, gyda 39.6% o'r staff dros 50 mlwydd oed. Mae hyn yn bwysig oherwydd fod gweithlu sydd yn mynd yn hŷn yn golygu fod yna risg cynyddol i'r Cyngor maes o law golli llawer o sgiliau a phrofiad mewn cyfnod byr. Mewn ymateb mae yna fuddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud i ddenu prentisiaid a hyfforddeion proffesiynol i mewn i wahanol feysydd gwaith, yn ogystal a datblygu'r gweithlu presennol sydd a photensial uwch. Mae'r dasg o baratoi at yr amser pan y bydd y grwp hŷn o staff yn gadael y Cyngor yn waith tymor hir ac yn rhan bwysig felly o'r gwaith cynllunio'r gweithlu sydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd cyfeiriad pellach at y gwaith hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Ceir dadansoddiad manwl ar lefel adrannol ar y proffil oedran yn Atodiad 1.

ch) **TROSIANT STAFF**

Yn 2019/20 gwelwyd cynnydd bychan yn y nifer o staff oedd yn gadael cyflogaeth y Cyngor, tra bod yna gwymp sylweddol wedi bod yn y ganran ar gyfer y flwyddyn 2020/21. Ar gyfer 2021/22, gwelwyd fod y ganran o staff oedd yn gadael yn debyg i'r cyfraddau cyn y cyfnod Covid (8.5%). Mae'r gyfradd hon yn isel o gymharu â chyfraddau mewn sectorau eraill o'r economi, ond mae hynny yn cyd-fynd â'r neges sydd yn y data am broffil oedran ein gweithlu a adroddwyd arno yn gynharach; ar gyfartaledd ar draws y sefydliad mae'n ymddangos nad yw'r gyfradd o staff sydd yn gadael cyflogaeth y Cyngor yn uchel, ac mae hynny yn ychwanegu at y risg y byddwn yn colli llawer o brofiad a sgiliau ar rhyw bwynt mewn amser yn y dyfodol.



Wedi dweud hynny, mae yna amrywiaeth yn y gyfradd trosiant ar lefel adrannol. Roedd y trosiant mwyaf yn y Tîm Arweinyddiaeth a'r Gwasanaethau Cyfreithiol (31.4%), yr Adran Economi a Chymuned (22.1%), Cefnogaeth Gorfforaethol (11.8%) a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (11.5%). Roedd y trosiant ar ei isaf yn yr adrannau Cyllid (5.4%) a Tai ac Eiddo (6.6%).

Mae mesur trosiant staff, a deall yn fanwl beth yw'r rhesymau y tu ôl i hynny, yn bwnc cymhleth gyda phob math o resymau penodol y tu ôl i ffigwr o fewn adran a thîm unigol. Er mwyn deall mwy ynghylch pam fod staff yn penderfynu gadael cyflogaeth y Cyngor, rydym ar hyn o bryd yn y broses o gyflwyno trefniadau ffurfiol ar gyfer cynnal cyfweliadau a holiaduron gadael ar gyfer staff, a fydd dros amser yn ychwanegiad gwerthfawr at y data lefel uchel sydd gennym ni ar hyn o bryd.

d) **ABSENOLDEBAU SALWCH**

Bu i'r nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd salwch ar draws y Cyngor godi i 10.07 diwrnod y pen yn ystod y flwyddyn 2021/22, o 6.35 diwrnod yn 2020/21. Rydym bellach yn ôl i'r patrwm o gynnydd a welwyd yn y blynyddoedd yn arwain at y pandemig, gyda'r patrwm hwnnw ar y cyfan yn gyson â'r hyn sydd yn digwydd ar draws llywodraeth leol yn Nghymru. Wedi dweud hynny, mae'r gyfradd o 10.07 yn uwch nag unrhyw ffigwr a welodd y Cyngor hwn ers sawl blwyddyn, ac felly mae'n bwysig ein bod ni yn ceisio deall beth yn union sydd y tu ôl i'r patrwm, er mwyn gweld pa gamau pellach y gallwn eu cymryd er mwyn ceisio sicrhau fod y gyfradd absenoldebau salwch yn gostwng.

Mae absenoldebau salwch yn cael effaith ar sawl elfen o waith y Cyngor, gan gynnwys ein gallu i ddarparu gwasanaethau o safon, ein cyfrifoldeb tuag at iechyd a lles ein staff, yn ogystal â chostau hefyd wrth gwrs. Mae felly yn bwnc pwysig ac mae swyddogion adnoddau dynol, iechyd a diogelwch, ac ymchwil a gwybodaeth, yn gynyddol roi mwy o amser i mewn i ddadansoddi'r data lefel uchel sydd ar gael er mwyn cefnogi adrannau i ymateb i'r sefyllfa.

Mae'r tabl dilynol yn arddangos lefelau yr absenoldebau salwch, fis wrth fis, yn ystod y flwyddyn diwethaf.



Mae'r tabl canlynol yn dangos y nifer o ddyddiau y pen a gollwyd i salwch, ar gyfartaledd, o fewn adrannau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Dyddiau salwch fesul aelod staff	Cyfanswm
Addysg - Canolog	8.18
Addysg - Ysgolion	9.45
Amgylchedd	9.62
Cefnogaeth Gorfforaethol	6.94
Cyllid	4.67
Economi a Chymuned	6.27
Oedolion, Iechyd a Llesiant	15.38
Plant a Chefnogi Teuluoedd	7.49
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	13.73
Tai ac Eiddo	10.01
Ymgynghoriaeth Gwynedd	6.20
Eraill	3.59
Cyfanswm y Cyngor	**10.07**

Fel ag ar gyfer 2020/21, roedd y lefelau salwch ar eu uchaf mewn gwasanaethau rheng flaen, ac o ystyried sefyllfa'r pandemig mae hynny yn gwbl ddealladwy.

Mae'n bwysig nodi yma na fu i 43% o staff adrodd eu bod wedi bod yn sâl o gwbl yn ystod y flwyddyn 2021/22.

Cyfeiriwyd yn gynharach at ymdrechion swyddogion yn y meysydd adnoddau dynol, iechyd a diogelwch ac ymchwil a gwybodaeth yn nghyswllt yr agenda hon. I roi blas o'r gwaith, mae yna gamau arwyddocaol wedi eu cymryd yn ddiweddar i ddatblygu'r data sydd ar gael i'w ddadansoddi; rydym yn ail lawnsio ein strategaeth llesiant staff ac mae polisi rheoli absenoldebau salwch newydd wedi ei fabwysiadu. Yn ychwanegol at hynny, mae swyddogion yn cydweithio'n glos â rheolwyr gwasanaethau i gefnogi staff unigol sydd yn dioddef o salwch.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi y math o salwch sydd wedi'i gofnodi ar gyfer absenoldebau dros y bum mlynedd ddiwethaf. Defnyddir yr wybodaeth yma i lywio'r drafodaeth pan yn ystyried cynnwys y rhaglen hybu iechyd a llesiant yn flynyddol.



Mae'r cynnydd sylweddol yn yr absenoldebau sydd yn cael eu cofnodi fel 'Sâl Arall' yn fater i'w nodi. Ar gyfer sefyllfaoedd unigryw y dylid defnyddio'r categori hwn mewn gwirionedd, ac mae'r ffaith fod bron i 33% achos wedi eu cofnodi felly yn 2021/22 yn golygu nad ydym yn gwybod i bob pwrpas beth oedd y rheswm y tu ôl i'r absenoldebau hynny. Gellir dyfalu bod gan salwch Covid beth cyfraniad i hynny, wrth i'r salwch ddod yn fwyfwy cyffredin a rheolwyr a staff yn ansicr sut i gofnodi hynny, ond mae camau pellach yn cael eu cymryd i geisio datrys y sefyllfa ac i atgoffa rheolwyr o'r angen i geisio osgoi'r categori salwch hwn yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae hynny yn gais pwysig am fod cofnodi salwch fel 'sâl arall' yn golygu na allwn fod yn siŵr pa fath o gefnogaeth sydd ei angen ar staff unigol. Tynnir eich sylw hefyd at y gostyngiad a fu yn y gyfradd salwch straen yn ystod y flwyddyn. Mae hynny yn newydd calonogol wrth gwrs, ond roedd y ganran yn parhau yn uchel, gan gofio hefyd y gallai salwch o'r fath fod yn cael ei guddio o dan y cofnod ar gyfer 'sâl arall' hefyd. Rydym yn ail lawnsio ein strategaeth ar lesiant staff gan edrych yn barhaus ar yr hyn y gellir ei ychwanegu at y ddarpariaeth. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn parhau i roi cefnogaeth

ymarferol i reolwyr i gefnogi eu staff yn parhau i fod yn gonglfaen bwysig o'r gwaith i geisio gostwng lefelau absenoldeb salwch.

dd) **DYSGU A DATBLYGU'R SEFYDLIAD**

Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth yn edrych ymlaen i gynnig **Rhaglen Dysgu a Datblygu** gyflawn, sy'n cydbwyso elfennau 'o bell' a 'wyneb i wyneb', gan roi mwy o ddewis i staff o ran arddulliau dysgu. Mae hyn yn dilyn cyfnod heriol o ran darparu rhaglenni dysgu yn ystod y pandemig, ble bu'r pwyslais ar hyfforddiant 'o bell', gydag ond ychydig o hyfforddiant 'wyneb i wyneb' ar gyfer teitlau angenrheidiol megis Cymorth Cyntaf. Bu'r cyfnod yn un trawsnewidiol gyda rhai elfennau positif a chyffrous, a chyfle i ddatblygu a threialu dulliau dysgu a thechnoleg newydd. Rydym wedi cynnig nifer gynyddol o deitlau drwy feddalwedd *Teams*, gan fireinio'r arddull drwy dreialu gwahanol syniadau ac elfennau rhyngweithiol megis grwpiau trafod.

Mae creu fersiynau 'o bell' ('rhithiol') a 'wyneb i wyneb'('traddodiadol') ar gyfer teitl dysgu yn golygu ail-ddylunio'r sesiynau ac addasu'r arddull cyflwyno, gyda sesiynau 'o bell' yn tueddu i fod yn fyrrach ond mwy niferus i grwpiau llai. Rydym wedi parhau i ddatblygu porth ar y we (Amgylchedd Dysgu o Bell) gydag adnoddau i alluogi staff ac Aelodau i ddysgu o bell.

Credwn bod y datblygiadau yn cynnig manteision o ran dysgu (yn ogystal â manteision mynediad, arbedion amser ac amgylcheddol e.e. lleihau teithio).

Er bod niferoedd y staff (ac Aelodau) sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu wedi lleihau yn ystod y pandemig, maent erbyn hyn yn cynyddu yn raddol wrth i'r rhaglen ddysgu esblygu. Derbyniwyd adborth ardderchog ar gyfer nifer o deitlau sy'n dystiolaeth o effeithiolrwydd dysgu drwy ddulliau gwahanol. Ymddengys bod cynnig dewis o ran arddull dysgu yn gweddu'n dda i batrymau gwaith hyblyg, gyda nifer o unigolion 'gwahanol' yn manteisio ar yr arddull dysgu newydd (rhai na welwyd ar raglenni dysgu o'r blaen). Credir bod hyn oherwydd yr hwylustod sydd o allu cael mynediad o bell.

Er bod hyfforddiant mewn meysydd traddodiadol allweddol e.e. *Iechyd a Diogelwch*, *Rheoli Cyllid* ayyb yn parhau, bydd ein prif raglenni dysgu yn canolbwyntio ar **Ddatblygu Diwylliant**, a chefnogi staff ac arweinwyr i addasu i batrymau gwaith gwahanol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau *Ffordd Gwynedd*, a theitlau megis *Arwain Newid, Delio hefo Newid*, *Arwain Tîm sy'n Gweithio'n Hyblyg*, *Gofal Cwsmer* (cyflwyno ar y cyd gyda swyddfa'r

Ombwdsmon). Byddwn hefyd yn parhau i gynnal gweithdai datblygu tîm, gyda sesiynau wedi eu teilwra mewn meysydd megis Cyfathrebu (yn seiliedig ar broffiliau personoliaeth DiSC). Mae arwyddion bod y 'gofyn' am weithdai wedi ei teilwra yn cynyddu, gyda cheisiadau am gymorth i ymdopi gyda threfniadau gwaith hyblyg.

Mae defnydd technoleg ar gyfer hyfforddi yn cynyddu'n barhaus, ac er bod mwy o staff yn cwblhau modiwlau e-ddysgu e.e. *Trais yn Erbyn Merched*, mae'n rhaid cydnabod nad yw mynediad atynt mor rhwydd i bob carfan o staff, a bod angen darparu amrediad o ddulliau hyfforddi, gan gynnwys sesiynau 'wyneb i wyneb'.

Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu perthynas ardderchog gyda darparwyr lleol e.e. Coleg Llandrillo Menai, ac rydym yn cydweithio'n agos ar raglenni megis Arwain a Rheoli ILM. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddelio hefo **Cwynion,** gan roi pwyslais ar yr elfen **Gwella Gwasanaeth**. Derbyniwyd adborth bositif iawn gan Swyddfa'r Ombwdsmon am ein trefniadau yng Ngwynedd, ac fel a nodir uchod rydym wedi cydweithio'n agos i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant ar y cyd.

Mae **Cynlluniau Talent** yn ran o flaenoriaethau'r Cyngor, er mwyn ymateb i heriau cyflogaeth sy'n ein wynebu a sicrhau parhad gwasanaethau'r Cyngor i'r dyfodol.
Ym Mai 2021 cymeradwyodd y Cabinet £1.1 miliwn o fuddsoddiad, yn gyfuniad o £600,000 ar gyfer y **Cynllun Prentisiaethau** dros 3 blynedd, a £500,000 ar gyfer y **Cynllun Arweinwyr ac Arbenigwyr Yfory**.

Mae'r tîm Talent o fewn y Gwasanaeth yn arwain ar nifer o gynlluniau sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddenu, datblygu a chadw staff. Rhagwelir y byddwn yn recriwtio ~20 Prentis a ~7 Hyfforddai Proffesiynol newydd yn flynyddol, sy'n golygu y bydd ~60 o unigolion ar ein Cynlluniau Talent erbyn Medi 2024.

Cynllun Prentisiaethau: Mae'r Cynllun yn cael ei ystyried yn un arloesol ymysg awdurdodau lleol Cymru

- Bu buddsoddiad cychwynnol o £300,000 yn 2019 gyda buddsoddiad pellach o £600,000 wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet i ymestyn y Cynllun yn 2021
- Mae'r Cynllun wedi rhoi cyfle i 40 o brentisiaid ers ei lansio
    - 12 prentis ar y Cynllun yn bresennol
    - 20 prentis wedi cwblhau prentisiaeth gyda 70% ohonynt wedi derbyn swydd yn y Cyngor
    - 8 prentis newydd yn cychwyn ar brentisiaethau cyn diwedd Awst

- Mae 9 o'r prentisiaethau yn rhai gradd
- Mae nifer o'r 40 mewn meysydd blaenoriaeth ple bo trafferthion recriwtio, gan gynnwys gofal oedolion a phlant, technoleg gwybodaeth a pheirianneg

Cynllun Arweinwyr ac Arbenigwyr Yfory (cynllun hyfforddeion graddedig):

- Mae'r Cyngor wedi buddsoddi £500,000 ychwanegol yn y Cynllun yn 2021
- Ers 2017, mae'r Cyngor wedi penodi 26 hyfforddai
    - 10 hyfforddai ar y Cynllun ar hyn o bryd
    - Y 12 hyfforddai sydd wedi cwblhau'r Cynllun mewn swyddi gyda'r Cyngor
    - Penodwyd 4 hyfforddai newydd i ddechrau ym mis Medi 2022
- Mae nifer o feysydd blaenoriaeth wedi'u cyfarch drwy leoliadau'r hyfforddeion
- Mae ansawdd yr ymgeiswyr yn parhau i fod yn uchel

Rhaglen Datblygu Potensial: Yn ogystal a denu *Talent newydd*, mae pwyslais ar ddatblygu staff presennol yn ffurfio rhan bwysig yn ein hymdrechion i adnabod a datblygu talent o fewn y sefydliad.

    - Cydnabod y talent sydd eisoes o fewn gweithlu'r Cyngor
    - Cyfarch prinder arbenigeddau ac arweinyddion y dyfodol

- Mae nifer o swyddogion wedi manteisio ar y cynllun, gan dderbyn dyrchafiad ac ymgymryd â swyddogaethau allweddol o ganlyniad.
- Ymhellach, mae rhaglen datblygu potensial penodol wedi'i chyflwyno yn y flwyddyn diwethaf ar gyfer hyrwyddo merched mewn arweinyddiaeth
    - Bu'r cyntaf yn y gyfres yn llwyddiant ysgubol gyda chofrestriad llawn
    - Cynhelir ail yn y gyfres yn yr Hydref

Gwnaethpwyd gwaith arloesol ar ddatblygu prosesau recriwtio 'o bell', gan gynnwys Canolfannau Recriwtio rhithiol.

Mae **Hybu Defnydd o'r Gymraeg** wedi ei adnabod fel blaenoriaeth gwella gan y Cyngor, gyda'r amcan o gysoni dynodiadau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor, ac adnabod anghenion datblygu staff yn dilyn hunanasesiad o'u sgiliau.
Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg** o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

Mae 6 adran allan o 11 bellach gyda dros 90% o staff wedi derbyn asesiad iaith, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos hefo Adrannau ble mae cyflawni hyn yn fyw heriol.
Wrth edrych i'r dyfodol byddwn yn parhau i gasglu hunanasesiadau a gwybodaeth gan Reolwyr, ond yn rhoi pwyslais cynyddol ar ddatblygu sgiliau iaith.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain y **Prosiect Merched Mewn Arweinyddiaeth**, i gefnogi ac annog merched mewn rolau arweinyddiaeth. Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus iawn ym Mehefin ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymysg dynion.

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu'r Sefydliad hefyd yn arwain ar nifer o gynlluniau **Buddiannau** megis:

- Cynllun **Hybu Busnesau Lleol**: Oddeutu 240 o fusnesau wedi ymuno â'r cynllun erbyn hyn, gydag elfen busnes y mis yn boblogaidd iawn
- **Cynllun Vectis (Cardiau disgownt)**: 2300 (cyfanswm) wedi cofrestru (Awst 2022)
- **Cynllun beics**: 11 wedi prynu beic newydd ers Ebrill 2022 (75 yn 2021/22 a 125 yn 2020/21), a diddordeb arbennig erbyn hyn mewn beiciau trydan (y Cyngor yn cydweithio gyda *Evolution Bikes* a *Specialized* gyda digwyddiadau wedi eu trefnu o gwmpas y Sir i staff ei treialu
- **Cynllun Ceir Gwyrdd**: Wedi ei ddatblygu i hybu Ceir Trydan.
- Cynllun 'Salary Sacrifice **AVC**': Wedi ei gymeradwyo gan HMRC

e) **STRWYTHUR TÂL A CHYFLOG**

Cymeradwywyd y Polisi Tâl ar gyfer 2021/22 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar Fawrth y 4ydd, 2021. Yn ystod y misoedd dilynol, daeth y Cyd-Bwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol i gytundeb ar godiadau cyflog am y flwyddyn hyd nes yr 31ain o Fawrth eleni. Roedd hynny yn golygu rhoi 1.75% ar gyflogau staff am y flwyddyn, ac yn gosod y pwynt cyflog isaf yn £9.59 yr awr.

Mae sicrhau cyflog cyfartal wedi bod yn un o gonglfeini'r Cyngor fel cyflogwr ers blynyddoedd, ac er mwyn gwirio fod y trefniadau yn parhau i fod yn rhai cadarn mae'n arferiad gennym i gynnal archwiliad o'n systemau bob tair blynedd. Mae'r archwiliad diweddaraf gan ymgynghorydd annibynnol yn tynnu tua'i derfyn a gobeithir adrodd ar y casgliadau yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

f) **CYNLLUNIO'R GWEITHLU**

Mae gallu'r Cyngor i gynllunio ei anghenion staffio yn y tymor canolig a thymor hir yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor hwn. Nid yw Cyngor Gwynedd yn unigryw yn hynny o beth ac mae'r maes bellach yn denu sylw cyflogwyr ar hyd a lled y wlad. Cyfeiriwyd yn gynharach at rai o'r ystadegau lefel uchel sydd yn bwydo i mewn i'r gwaith hwn. Mae'r ystadegau hynny yn fan cychwyn da ar gyfer cynllunio ein anghenion gweithlu yn y tymor hir, dros nifer o flynyddoedd ymlaen llaw o bosib. Dyma yw pwrpas craidd y prosiect cynllunio'r gweithlu sydd yn mynd i'r afael â'r maes, a'r nod tymor hir yw datblygu ymhellach allu'r Cyngor i gynllunio yn rhagweithiol ei anghenion staffio.

Ar yr un pryd mae sawl maes gwaith yn profi problemau recriwtio ar hyn o bryd, ac mae gwaith pellach yn cymryd lle i ddadansoddi'r bylchau staffio a'r anawsterau rydym ni yn eu profi. Bydd hyn yn sail i ni gymryd camau pellach i addasu ein dulliau recriwtio staff, gan deilwra'r dulliau hynny i gyd-fynd â'r math o swyddi rydym ni am eu llenwi.

Mae'r pandemig wedi newid y farchnad lafur, ac mae hi bellach yn farchnad sydd yn ffafrio ymgeiswyr am swyddi yn hytrach na'r cyflogwyr. Mae hyn i gyd yn golygu fod yna gystadleuaeth am staff, ac mae dyfodiad gweithio'n rhithiol a mwy o bwyslais ar weithio'n hyblyg mewn nifer o feysydd yn golygu fod yna ddewis ehangach o gyflogwyr ar gael i unigolion. Mae'n wir dweud y gall hyn fod yn fygythiad i ni, ond mae yma gyfle hefyd i ni arddangos cryfderau'r Cyngor fel cyflogwr. Bydd cynllunio'r gweithlu yn effeithiol felly yn faes cwbl allweddol i ni yn y tymor canolig a'r tymor hir.

ff) **AMODAU GWAITH LLEOL**

Cwblhawyd adolygiadau o nifer o bolisïau staffio ac amodau gwaith dros y flwyddyn a fu, gan gynnwys gweithio'n hyblyg, recriwtio a phenodi ac ymdrin â phryderon staff, gyda'r pwyslais canolog ar sicrhau eu bod yn adlewyrchu diwylliant gwaith y Cyngor hwn. Mae'r gwaith fel prosiect yn dirwyn i ben bellach, gan ddod yn rhan o raglen waith dydd i ddydd y swyddogion adnoddau dynol. Wrth ddatblygu'r gwaith bu pwyslais cynyddol ar ymgynghori â gwahanol grwpiau allweddol wrth ddatblygu polisi, a bydd hynny yn datblygu a chryfhau ymhellach wrth i'r tîm o swyddogion sefydlu rhaglen waith flynyddol o adolygu polisïau staffio.

g) **GWEITHIO I'R DYFODOL**

Mae'r gwaith o sefydlu trefniadau gwaith hyblyg yn dilyn y pandemig yn parhau. Mae trefniadau gwaith hybrid yn cael eu treialu bellach, a disgwylir y bydd yna adolygu'r sefyllfa

dros gyfnod y gaeaf er mwyn gwirio os yw'r trefniadau yn gweithio. Y pwyslais pennaf yw sicrhau fod y trefniadau yn cefnogi darpariaeth gwasanaeth a bydd hynny yn gwbl ganolog i'r cam o adolygu os yw gweithio'n hybrid yn llwyddiant. Yn dilyn o hynny bydd yna ystyried yr angen i addasu'r swyddfeydd er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd ar gael i staff.

ng) **RECRIWTIO A PHENODI**

Gweler isod fanylion ystadegol ynglŷn â'r nifer o swyddi a hysbysebwyd gan y Cyngor yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf ynghyd â'r nifer ceisiadau a dderbyniwyd ac hefyd y nifer o swyddi a ail hysbysebwyd. Mae dadansoddi'r manylion hyn eto yn cyfrannu at ein gallu i adnabod meysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yng nghyswllt datblygu arbenigeddau a chynllunio'r gweithlu i'r dyfodol.

Blwyddyn	Nifer o swyddi a hysbysebwyd	Nifer ceisiadau	Nifer o swyddi a ail hysbysebwyd	Nifer ceisiadau yn dilyn yr ail hysbysebu
2017 / 2018	472	2312	47	179
2018 / 2019	555	3281	57	240
2019 / 2020	586	2726	101	249
2020 / 2021	486	2112	77	227
2021 / 2022	515	2394	114	369

Addaswyd ein trefniadau recriwtio yn sgil y pandemig a bydd angen dilyn trywydd gwahanol eto o hyn ymlaen, gan gynnwys teilwra trefniadau recriwtio i gyd-fynd â meysydd gwaith unigol os yn bosib, a hefyd datblygu ymhellach ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Rydym eisoes yn cryfhau cysylltiadau â sefydliadau addysgol er mwyn gwella ein gallu i ddenu staff ieuengach i mewn i'r gweithlu.

CASGLIADAU

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hon, o'i dadansoddi yn ofalus yn gymorth i reolwyr a'r swyddogion hynny sydd yn eu cynghori, i gynllunio gwasanaeth ac adnabod yn amserol y materion hynny sydd angen ymchwilio a gweithredu ymhellach arnynt. Daw hyn yn gynyddol bwysig o fewn diwylliant gwaith sydd angen seilio penderfyniadau ar sail tystiolaeth bendant.

Mae'r wybodaeth hefyd yn rhoi blas o'r camau sydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â rhai meysydd blaenoriaeth a hefyd i baratoi ar gyfer y camau nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio galluoedd a gwybodaeth ein gweithlu i'r eithaf.

Mae yma negeseuon pwysig, sy'n greiddiol ar gyfer sicrhau parhad ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae'n hanfodol ein bod yn rhoi'n egni ac yn buddsoddi amser i gymryd camau er mwyn cyfarch yr holl faterion hyn, nid yn unig er mwyn cynnal gwasanaethau ond hefyd i wella'n barhaus ein gallu i gyflawni ar ran ein cymunedau.

Mae'r prif negeseuon yn cwmpasu'r canlynol:

- Cynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol, i gynnwys recriwtio, penodi a chreu llwybrau gyrfa – mae angen gwneud hynny o fewn cyd-destun o farchnad gyflogi sydd yn un heriol tu hwnt ar hyn o bryd.
- Parhau i hyrwyddo lles meddyliol a iechyd staff yn gyffredinol, er mwyn gofalu am ein staff.
- Parhau i greu trefniadau gwaith sydd yn addas i bwrpas ar gyfer y 'normal newydd', gan adeiladu ar y manteision sydd yn dod o hynny, ond gan sicrhau mai'r gwasanaeth i drigolion y Sir ydi'r flaenoriaeth.
- Parhau i ddatblygu ein diwylliant gwaith a'r ymddygiadau sy'n ddisgwyliedig o staff y Cyngor, gan gynnwys adolygu a datblygu'r amodau gwaith lleol.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg pwysig o sefyllfa cyflogaeth a staffio o fewn yr Cyngor. Nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

Pennaeth yr Adran Gyllid:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa gyflogaeth Cyngor Gwynedd yn 2021/22. Mae'r Adroddiad Blynyddol Cyflogaeth yn cynnwys gwybodaeth defnyddiol a phwysig fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gynllunio ar gyfer heriau'r dyfodol, ond ni fyddai mabwysiadu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol.

Atodiad 1 - Proffil Oedran Adrannau Unigol

Bandiau Oedran	Addysg (Canolog)	Amgylchedd	Cefnogaeth Gorfforaethol	Cyllid	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Tai ac Eiddo	Tîm Arweinyddiaeth	Ymgynghoriaeth	Ysgolion	GWE	Cefnffyrdd	Bwrdd Uchelgais Econ G.Cym	**Cyfanswm**
Hyd at 19	0.0%	0.0%	0.0%	0.5%	0.0%	0.3%	0.3%	1.1%	0.0%	0.0%	1.8%	0.8%	0.0%	2.4%	0.0%	**0.6%**
20-24	1.5%	2.5%	6.5%	8.7%	3.3%	4.1%	5.2%	5.1%	6.3%	0.0%	8.2%	6.5%	0.0%	1.4%	10.5%	**5.1%**
25-29	4.6%	7.4%	8.3%	14.1%	6.5%	6.7%	12.5%	3.7%	8.2%	7.7%	10.0%	11.1%	1.4%	5.7%	5.3%	**8.6%**
30-34	6.7%	4.9%	9.5%	11.2%	9.2%	8.2%	18.3%	8.2%	4.8%	11.5%	5.5%	11.2%	2.8%	12.4%	5.3%	**9.7%**
35-39	6.8%	11.7%	13.0%	10.7%	9.2%	8.4%	14.3%	8.1%	10.6%	11.5%	18.2%	12.3%	5.6%	18.7%	21.1%	**10.9%**
40-44	10.5%	12.9%	11.8%	11.7%	9.8%	10.2%	17.1%	9.0%	9.7%	7.7%	15.5%	13.4%	15.3%	13.9%	15.8%	**12.2%**
45-49	12.9%	12.9%	15.4%	10.2%	15.0%	13.1%	9.8%	12.1%	10.1%	7.7%	11.8%	14.3%	18.1%	12.0%	21.1%	**13.2%**
50-54	18.8%	22.1%	14.8%	17.0%	9.8%	14.1%	13.1%	15.2%	17.4%	7.7%	10.9%	13.9%	25.0%	13.9%	15.8%	**14.9%**
55-59	17.6%	16.0%	12.4%	11.2%	10.5%	17.6%	5.8%	18.1%	15.9%	26.9%	7.3%	9.7%	20.8%	12.0%	5.3%	**12.9%**
60-64	15.5%	6.7%	7.1%	4.9%	18.3%	12.4%	3.7%	14.1%	11.6%	11.5%	10.0%	4.9%	8.3%	7.2%	0.0%	**8.7%**
65-69	4.3%	3.1%	1.2%	0.0%	7.2%	3.8%	0.0%	4.2%	4.3%	7.7%	0.9%	1.6%	2.8%	0.5%	0.0%	**2.5%**
70 ac uwch	0.9%	0.0%	0.0%	0.0%	1.3%	1.2%	0.0%	1.1%	1.0%	0.0%	0.0%	0.4%	0.0%	0.0%	0.0%	**0.6%**
	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	100%	**100%**

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**13 o Fedi 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Menna Jones**
Swyddog Cyswllt:	**Geraint Owen**
Rhif Ffôn Cyswllt:	**01286 679335**
Teitl yr Eitem:	**Adroddiad Blynyddol - Iechyd Diogelwch a Llesiant**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyaeth o'r adroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae cyflwyno'r adroddiad hon gerbron y Cabinet yn flynyddol yn ran o drefniadau rheoli iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Mae'n hanfodol fod gan aelodau'r Cabinet drosolwg llawn o sefyllfa'r Cyngor yn y maes pwysig yma.

3. CYFLWYNIAD

Bwriad yr adroddiad yma yw amlinellu y prif faterion a gododd yn y maes iechyd, diogelwch a llesiant yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Am yr ail flwyddyn yn olynnol, bu i COVID a'r gofynion cyfreithiol caeth gan y Llywodraeth fod yn flaenllaw iawn o ran agenda iechyd a diogelwch pob Adran ac wedi gorfod bod yn flaenoriaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Lleisiant yn gorfforaethol. Cafwyd blwyddyn arall ble roedd gofyn cyfreithiol i staff a allai fod yn gweithio o gartref fod yn gwneud hynny, a llu o gyfyngiadau a gofynion ar sectorau eraill y Cyngor, megis Addysg a Gofal. Gwelwyd hefyd gyfraddau uchel o COVID yn y Sir tros y Gaeaf (yr uchaf yng Nghymru ar un pwynt) a hynny ar amser ble roedd ysgolion wedi ail agor. Felly bu 2021/22 yn flwyddyn heriol arall eto o ran cadw staff a phobl Gwynedd yn ddiogel.

Ffigyrau damweiniau

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o ffigyrau digwyddiadau a damweiniau RIDDOR am y 5 mlynedd ddiwethaf. Rhain yw'r digwyddiadau mwyaf difrifol yn ymwneud a staff o fewn y Cyngor yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd anafwyd ar safle'r Cyngor a phle bu'n rhaid eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID). Y llynedd, ychwanegwyd gofyniad o fewn y rheoliadau yma i adrodd ar achosion o staff yn dal COVID yn y gwaith (ble roedd sail rhesymol i gredu hynny), a dyna yw'r rheswm am y cynnydd sylweddol yn y ffigyrau dros y ddwy flynedd diwethaf.

Adroddwyd ar 113 achos o aelodau staff wedi dal COVID yn eu gwaith yn ystod 21/22 o'i gymharu a 73 y flwyddyn blaenorol. Wrth gwrs, nid yw'n bosibl cadarnhau yr union nifer achosion yn bendant. Yn hytrach, mae'r gofyn i adrodd pan fo sail rhesymol i ddod i gasgliad y gallent fod wedi ei ddal yn y gwaith e.e. un a'i trwy aelod o staff positif yn rhoi gofal i glaf positif neu yn cydweithio gyda hefo staff arall sy'n bositif, neu blant positif mewn dosbarth ble fo athro wedyn yn datblygu'r haint. Mae'r gwahanol donnau o COVID oedd yn taro y Sir i'w gweld yn glir yn y tabl isod yn y linellau glas a melyn.



O roi ffigyrau COVID i'r neilltu, gellir adrodd bod cynnydd hefyd yn y nifer o ddigwyddiadau adroddwyd fel arall o dan RIDDOR y llynedd o'i gymharu â'r flwyddyn blaenorol. Fodd bynnag, o ystyried bod y mwyafrif o Wasanaethau wedi'u hadfer (ble roedd nifer ar gau y flwyddyn flaenorol) ni ellir dod i unrhyw gasgliadau cadarn o hynny. Nid oes unrhyw batrwm chwaith yn y rheswm am y cynnydd, ag eithrio bod patrwm cyson o ran y Cyngor hwn ac yn genedlaethol ers nifer o flynyddoedd, sef mai codi a thrin pwysau, a llithro a baglu yw'r ddau brif achos am ddamweiniau. Mae'r digwyddiadau sydd wedi eu categoreiddio fel 'arall' yn amrywio o ymosodiadau corfforol yn erbyn staff, cyflyrau iechyd sydd wedi eu hachosi gan y gwaith a damwain cerbyd.

Mae'r siart isod yn amlinellu niferoedd yr achosion RIDDOR sydd wedi eu hadrodd i AGID tros y 5 mlynedd ddiwethaf.



Dylid nodi fod gwaith dwys yn parhau yn y maes symud a thrin pwysau, ac yn benodol felly yn y meysydd gwaith ple bo cyfraddau absenoldeb yn uwch oherwydd anafiadau symud a thrin, megis o fewn y Gwasanaeth Gwastraff . Mae modiwlau e ddysgu mewnol wedi eu datblygu a'r gobaith yw gallu rhannu rhain gyda staff o bob adran i gefnogi ac atgyfnerthu gwaith yr Hyfforddwr Symud a Thrin sydd a galw uchel iawn am ei hamser ac yn gorfod blaenoriaethu ei gwaith.

Gorfodaeth a chydymffurfiaeth

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) wedi cynnal sawl archwiliad ar adeiladau a safleoedd y Cyngor yn gwirio am gydymffurfiaeth gyda rheolau COVID. Mae hyn wedi cynnwys gwiriad ar nifer o ysgolion yn ogystal â'r prif swyddfeydd. Ar bob achlysur roedd yr Arolygwyr yn fodlon gyda'r trefniadau oedd mewn lle.

Bu un archwiliad arall yn ystod y flwyddyn gan AGID, a hynny yn ymweliad ag Ysgol Friars. Roedd hyn yn ran o raglen genedlaethol gan AGID i archwilio ysgolion uwchradd ar gyfer cydymffurfiaeth ar reolaeth deunyddiau ymbelydrol mewn labordai gwyddoniaeth. Nid oedd unrhyw gamau gorfodaeth yn deillio o'r ymweliad.

Yn ystod mis Awst 2021, cafwyd archwiliad cydymffurfiad risg ar draws yr Awdurdod gan Zurich fel ein yswirwyr ar gyfer Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd y Cyhoedd. Yn gyffredinol roedd yr adroddiad a dderbyniwyd yn galonogol iawn. Nid dderbyniwyd gorchymyn gwella ac nid oedd unrhyw fater brys oedd angen sylw. Yn hytrach, gwnaed dau argymhelliad gwella. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chynllunio strategol ar gyfer amcanion iechyd a diogelwch sydd eisoes wedi ei adnabod fel blaenoriaeth gwella yng Nghynllun y Cyngor. Roedd yr ail argymhelliad yn ymwneud â chynnal gwiriadau iechyd ar ddarpar staff cyn eu cyflogi.

Rhaglen waith

Mae COVID wedi cael effaith sylweddol ar raglen waith y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant am yr ail flwyddyn yn olynnol wrth i ganllawiau y Llywodraeth newid yn gyson yn ystod y flwyddyn a phle bod angen sefydlu trefniadau newydd dros nos bron iawn. Roedd gofyn sefydlu trefniadau gwaith ein hunain mewn rhai amgylchiadau, ac roedd ysgolion yn un enghraifft o hynny ble bu i'r Cyngor, trwy waith y Grwp Gwyliadwriaeth COVID, sefydlu hicynnau ble roedd dosbarthiadau yn symud i drefn o ddysgu rhithwir os oedd nifer penodol o achosion positif wedi eu hamlygu mewn unrhyw un dosbarth. Roedd hon yn drefn a wnaeth ddenu diddordeb Siroedd eraill a bu mewn lle hyd nes bu i gyfraddau ddisgyn yng Ngwanwyn 2022.

Oherwydd y gwaith uchod, dim ond nifer cymharol fychan o archwiliadau rhagweithiol sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn a rheiny yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn cynnal eu achrediad BSI (British Standards Institution). Mae nifer cyfyngedig o gyrsiau Iechyd a Diogelwch wedi eu cynnal yn rhithiol – yn bennaf rheoli safle yn ddiogel. Wrth sefydlu'r normal newydd, mae llawer o waith hefyd wedi bod ynghlwm a'r elfennau iechyd a diogelwch sy'n deillio o hynny,

megis asesiadau gweithfan i staff sy'n gweithio adref yn llawn amser (neu am ran o'u wythnos waith) ac i'r perwyl hwnnw mae adnodd ychwanegol wedi ei ychwanegu i'r tîm canolog am gyfnod o flwyddyn, nid yn unig i helpu gyda'r gwaith hwn, ond hefyd i helpu i ddal i fyny gyda swmp gwaith sylweddol i adfer yr holl ffrydiau gwaith yn ogystal a'r hyfforddiant oedd ar waith cyn COVID sy'n ymdrin â llu o risgiau eraill sydd wirioneddol angen sylw erbyn hyn.

Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll yn barod, mae prosiect wedi ei gytuno arno i gynnal adolygiad llawn o drefniadau a rheolaeth Iechyd a Diogelwch ar draws y Cyngor ac mae wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor. Er i'r briff gael ei gytuno arno y llynedd, mae'r gwaith ynghlwm ag o wedi llithro i flwyddyn 22/23 oherwydd yr amgylchiadau a amlinellir uchod.

Mae'r cyfarfodydd pythefnosol a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, rhwng y cyflogwr a'r Undebau Llafur, er mwyn trafod yr holl faterion iechyd a diogelwch oedd yn codi o'r pandemig wedi parhau yn ystod y flwyddyn ac wedi bod yn gadarnhaol a ffrwythlon iawn.

Achrediad IOS 45001 gan BSi

Yn ystod y flwyddyn, mae dwy Adran o'r Cyngor, sef YGC a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi llwyddo i gael achrediad i safon newydd ISO 45001 ar iechyd a diogelwch. Roedd y ddwy Adran yn dal achrediad cynt, ond mae'r safon newydd yn un rhyngwladol (International Standards Organsiation) ac yn fwy cadarn ac heriol.

Iechyd Galwedigaethol

Mae'r tîm Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn ganolog i gefnogi gweithlu bregus y Sir dros gyfnod y pandemig. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda mwy na 600 aelod o staff bregus i drafod eu cyflyrau meddygol gan gynnig argymhellion ar sut orau i'w gwarchod yn y gwaith. Bu hyn yn arbennig o heriol am gyfnod yn ystod y flwyddyn, yn enwedig gyda staff mewn ysgolion ble roedd cyfraddau uchel o'r haint. Mae'r Uned wedi cadw mewn cyswllt cyson gyda'r staff hynny er mwyn cynnig cefnogaeth a cheisio cynnal eu iechyd meddwl.

Erbyn hyn, mae'r Uned wedi adfer ei waith yn llawn ac wedi ail gychwyn y rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd wedi i AGID atal y rhaglen yn genedlaethol dros gyfnod COVID. Rhain yw'r profion sy'n ofyniad cyfreithiol i staff eu derbyn os yr ydynt yn ymdrin a risgiau iechyd yn y gwaith e.e. profion clyw / anadl neu ddirgryniad. Yma eto felly, mae gwaith "dal i fyny" sylweddol i'w wneud a sgyrsiau wedi'u cynnal gyda Adrannau rheng flaen ynglŷn â sut orau i hwyluso hynny. Fel enghraifft, mae ymrwymiad i fuddsoddi mewn 'booth' audiometry i ardal Dwyfor fel fod profion clyw yn gallu cael eu cynnal yno. Mae hyn yn ychwanegol i'r 'booths' yn Nolgellau a Chaernarfon sydd eisoes mewn lle. Y gobaith yw y gellir cynnal y profion yn yr ardaloedd heb yr angen i dynnu staff i Gaernarfon i'w cynnal.

Mae'r gynhaliaeth llesiant i staff wedi parhau yn ystod y cyfnod ac mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld rhai o'r lefelau uchaf o gyfeiriadau at y Gwasanaeth Ffisiotherapi a'r Gwasanaeth Cwnsela gan Medra ers eu sefydlu. Mae'r ffigyrau wedi gwastadu erbyn diwedd y flwyddyn fodd bynnag. Bellach mae gwaith yn

mynd rhagddo i ail afael â gwaith rhagweithiol yn y maes iechyd meddwl yn benodol, ac mae Cynllun Cyfathrebu bellach mewn lle ar gyfer cyfathrebu rhaglen llesiant staff er mwyn ceisio sicrhau fod pob un o staff rheng flaen y Cyngor yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae'r Uned hefyd yn ran o dîm ehangach sydd wedi ei sefydlu i fynd i'r afael â lefelau salwch trwy sawl dull ymyrraeth gwahanol.

Mae'r tabl isod yn arddangos y cyfeiriadau i'r Uned dros y bedair mlynedd diwethaf a bu bron i 100 cyfeiriad yn fwy eleni na blynyddoedd blaenorol a hynny yn bendol oherwydd hanner cyntaf y flwyddyn. Mae straen yn parhau i fod y prif reswm am absenoldeb, gyda straen oherwydd y pandemig yn benodol gyfrifol am y cynnydd a fu ar ddechrau'r flwyddyn. Mae cyfeiriadau am broblemau cyhyrsgerbydol hefyd yn un o'r prif resymau ple bo angen sylw. Mae'r Uned yn gweld llawer o gyfeiriadau sydd ynghlwm ag ôl-effaith COVID, boed yn 'long covid' neu broblemau iechyd meddwl ynghlwm â'r pandemig, a rhai o rheiny yn hynod ddwys.



4. SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

Sylwadau'r Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn esbonio fod y Cabinet a rôl o fewn ein fframwaith iechyd a diogelwch. Mae'n briodol ei fod yn derbyn y wybodaeth sydd yma er yn rhoi sicrwydd ynglŷn a'n trefniadau yn y maes pwysig yma.

Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

Mae'r adroddiad yn cyfleu gwybodaeth i'r Cabinet a nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad	13 Medi 2022
Arweinydd Lleol	Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswllt Lleol	Alun Gwilym Williams, Uwch Reolwr Busnes
Arweinydd / Uwch-Swyddog Cyfrifol Rhanbarthol:	Alwyn Jones a Jane Trowman (Cyd-Gadeiryddion y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol)
Swyddog Cyswllt Rhanbarthol:	Sarah Bartlett / Catrin Perry
Pwnc:	Adroddiad Drafft O Sefydlogrwydd Marchnad Gogledd Cymru 2022

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Darparu trosolwg o Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gogledd Cymru 2022 , [ASM] (Atodiad 1) sydd wedi'i lunio fel gofyn dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.2 Fe gofiwch yr asesiad anghenion poblogaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2022 oedd yn edrych ar y galw ar y gwasanaethau hyd rhanbarth y gogledd. Mae'r adroddiad hwn yn ddilyniant o hynny ac yn asesu'r ochr gyflenwi, h.y. a yw'r farchnad bresennol yn gallu cwrdd â'r galw adnabuwyd yn yr asesiad hwnnw.

1.3 Rhaid llunio un Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar gyfer pob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) a Bwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol.

1.4 Disgwyliwyd i asesiad o'r farchnad gofal gael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi erbyn mis Mehefin 2022. Mae drafft o'r adroddiad hwn wedi'i rannu â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fe'i gwnaed yn glir iawn i Lywodraeth Cymru mai drafft cynnar yw hwn nad yw wedi'i gymeradwyo eto gan Gynghorau llawn pob Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r broses gymeradwyo hon yn cael ei chynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2022 gyda fersiwn derfynol yr ASM yn mynd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2022 cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rhaid cyhoeddi'r ASM terfynol ar holl wefannau'r awdurdodau lleol, gwefan y bwrdd iechyd a gwefan y bartneriaeth ranbarthol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Mae'r ASM Rhanbarthol Llawn yn ddogfen hir a bydd adroddiadau cryno, crynodeb gweithredol a fformatau hygyrch hefyd ar gael er mwyn gwneud y cynnwys a'r negeseuon allweddol yn fwy hygyrch a defnyddiol.

2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ceisio cefnogaeth y Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyo Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru. Cyflwynwyd yr adroddiad drafft i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 7 Gorffennaf 2022 a chafodd ei gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor.

3 Argymhelliad

3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru 2022 i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth.

4 Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Cod Ymarfer ar gyfer paratoi Adroddiadau Sefydlogrwydd Marchnad i gefnogi'r gofyniad hwn a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

4.2 Mae Cod Ymarfer ASM yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio mewn partneriaeth i baratoi a chyhoeddi adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yn seiliedig ar ddata ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn ogystal â fersiwn agregedig ar ôl troed y BPRh. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi:

"Mae'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd marchnad, fel y'i nodir yn Neddf 2014, yn eistedd gyda phob awdurdod lleol, ond mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni'r swyddogaeth hon ar ôl troed rhanbarthol ac mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol, fel y bydd un adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r saith ardal BPRh ledled Cymru" [CY Adran 3.11]

4.3 Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod adroddiad sefydlogrwydd marchnad hefyd yn cynnwys asesiad o'r farchnad ar gyfer gofal a chymorth ym mhob ardal awdurdod lleol yn ogystal ag ar draws ardal BPRh yn ei chyfanrwydd [CY Adran 3.13]

4.4 Fel hyn, bydd yr adroddiad yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau rhanbarthol a lleol ynghylch comisiynu gofal a chymorth (yn enwedig, ond nid yn unig, gwasanaethau rheoledig), gan fwydo i mewn i'r cynllun ardal strategol ar gyfer ardal BPRh a helpu i lunio strategaethau comisiynu lleol a rhanbarthol [CY Adran 3.14].

4.5 Wrth baratoi eu hadroddiadau sefydlogrwydd marchnad, rhaid i awdurdodau lleol gynnal, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol a phartneriaid eraill y BPRh, asesiad o ddau agwedd:

a) **digonolrwydd y gofal a'r cymorth i ddiwallu anghenion** a galw am ofal cymdeithasol fel y nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, a

b) **sefydlogrwydd y farchnad** ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir sy'n darparu gofal a chymorth [CY Adran 4.2].

4.6 Mae'r asesiad o sefydlogrwydd y farchnad yn canolbwyntio ar wasanaethau rheoledig. Y rhain yw:

- gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- gwasanaethau llety diogel (ar gyfer plant)
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau mabwysiadu
- gwasanaethau maethu
- gwasanaethau lleoli oedolion ('bywydau a rennir')
- gwasanaethau eiriolaeth
- gwasanaethau cymorth/gofal cartref

4.7 Mae Cod Ymarfer ASM hefyd yn nodi, er nad yw gwasanaethau ataliol yn wasanaethau a reoleiddir, ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol nodi ystod a lefel y gwasanaethau ataliol y bydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac asesu sut y gall argaeledd gwasanaethau ataliol hefyd gael effaith fawr ar yr angen am wasanaethau rheoledig. Felly, rhaid ystyried gwasanaethau ataliol fel rhan o'r ASM.

4.8 Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn nodi themâu eraill y mae'n rhaid eu hystyried yn yr ASM gan gynnwys:

a) Gwerth Cymdeithasol

b) Y Gymraeg

c) Gweithlu

d) Taliadau Uniongyrchol a darpariaeth a ariennir ei hun

4.9 Er bod yr ASM yn ofyniad statudol, nid dyma'r prif reswm dros wneud y gwaith. Mae'r ASM yn ddogfen hanfodol sy'n darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi sefydliadau a gwasanaethau ar draws y rhanbarth, yn benodol mae i'w defnyddio ar gyfer cynllunio strategol sy'n sail i integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

4.10 Mae swyddogion wedi treulio llawer o amser yn cynhyrchu papurau gwaith lleol, dadansoddiad data ac ymchwil i lywio'r adroddiad rhanbarthol. Mae'r papurau gwaith hyn, er nad ydynt wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad rhanbarthol, yn ddogfennau cynllunio gwerthfawr. Mae'r dull a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer y gwaith hwn wedi'i nodi yn Ffigur 1 isod.

Ffigur1 – Dull Gogledd Cymru o ddatblygu'r AAP&ASM



4.11 Bydd y dogfennau AAP ac ASM yn cael eu defnyddio i gynllunio cynllun cyflawni lleol a rhanbarthol a chynlluniau datblygu gwasanaethau wrth symud ymlaen. Mae'r negeseuon lleol allweddol yn Adran 5 y papur hwn.

4.12 Mae hefyd yn hanfodol bod y ddwy ddogfen yn cael eu diweddaru a'u bod yn cael eu defnyddio fel dogfen fyw ar gyfer cynllunio parhaus. Felly, bydd Grŵp Llywio AAP-ASM [gweler Ffigur 1] yn parhau i gyfarfod i gynnal yr adolygiad diweddaru a pharhaus hwn o'r ddwy ddogfen ac i weithio gyda'r timau lleol ar ddatblygu'r cynlluniau gweithredu/cyflawni rhanbarthol a lleol.

4.13 Mae'r gofyniad i lunio adroddiad hygyrch, rhanbarthol mewn cyfnod amser mor fyr wedi cyfyngu beth a ellir ei gynnwys. Mae'r gwaith wedi'u paratoi yn ystod cyfnod heriol iawn yn sgil pwysau a heriau capasiti ad draws y sefydliadau partneriaeth. Mae wedi golygu cryn dipyn o ymdrech gan swyddogion i wneud yn siŵr bod dogfen ystyrlon yn cael ei chreu.

4.14 Dylid nodi nad yw rhai o'r ffynonellau data cenedlaethol ar y farchnad gofal ar gael ac felly yr ydym wedi dibynnu'n drwm ar wybodaeth gomisiynu leol a rhanbarthol.

4.15 Nid yw'r ddogfen ASM terfynol felly yn berffaith ac rydym yn argymell diweddaru wrth i ddata cenedlaethol newydd ddod ar gael a bod mwy o waith yn cael ei wneud yn lleol e.e. effaith Covid, heriau ariannol ac effaith ail-gydbwyso gofal cymdeithasol ar y farchnad gofal. Byddwn yn datblygu proses barhaus i wella a diweddaru'r ASM fel ei fod yn parhau'n ystyrlon ac yn gyfredol. Bydd hyn hefyd yn helpu i'w wneud yn broses fwy hylaw.

4.16 Mae’r ASM wedi’i greu ar y cyd ac wedi’i arwain gan waith ymgysylltu. Cynhaliodd swyddogion arweiniol lleol a rhanbarthol ddadansoddiad o’r data, adolygiadau o’r llenyddiaeth gefndir, adolygiadau o wasanaethau a gwaith ymgysylltu ychwanegol a oedd yn canolbwyntio ar faterion penodol. Mae’r materion allweddol a’r themâu a nodwyd yn seiliedig ar ymgynghoriad ac adborth gan staff, sefydliadau partner, cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a’r Bwrdd Iechyd Lleol, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd, i nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o strategaethau comisiynu blaenorol ac asesiadau o anghenion.

4.17 O’r herwydd mae ein dull cydgynhyrchu yn golygu bod gennym ni ddogfen ASM sy’n ystyrlon ac yn seiliedig ar wybodaeth gan gynnwys amrywiaeth eang o bobl, o gymharu â dogfen wedi’i chreu ar ei phen ei hun yn ystod ymarfer pen desg, sef y dull a ddefnyddiwyd gan ardaloedd eraill yng Nghymru.

5 Negeseuon Lleol Allweddol

5.1 Preswyl a nyrsio

- Mae'r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn debygol o gynyddu
- Rydym yn parhau i ddatblygu unedau dementia yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor
- Mae galw am ofal arbenigol dementia; nid oes darpariaeth nyrsio/dementia yn Meirionnydd na Llŷn
- Mae diffyg lleoliadau arbenigol preswyl a nyrsio ar gyfer pobl hŷn sydd ag anabledd dysgu ac sydd hefyd ag anghenion iechyd corfforol a dementia
- Mae angen ffioedd cartrefi gofal sydd yn gynaladwy a digonol
- Mae diffyg gweithwyr cefnogol yn y gymuned yn maes anabledd dysgu
- Nid oes darpariaeth iechyd meddwl arbenigol gan gynnwys ar gyfer awtistiaeth neu salwch meddwl difrifol
- Mae bwlch mewn gofal preswyl a nyrsio ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion corfforol a synhwyraidd

5.2 Byw gyda chefnogaeth

- Mae'r galw am dai gofal ychwanegol yn fwy na'r ddarpariaeth, ac mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu rhagor
- Mae'r berthynas gyda darparwyr tai â chefnogaeth yn dda, a rhwng darparwyr â'i gilydd yn dda hefyd, gyda darparwyr yn cydweithio er mwyn llenwi rotas

5.3 Gofal cartref

- Amcangyfrifir y bydd 1050 o bobl yng Ngwynedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda thasgau byw yn annibynnol erbyn 2040, sef cynnydd o 20%
- Nid oes digon o ofal cartref i gwrdd â'r galw, yn enwedig yn ardaloedd Eifionydd a Phwllheli

- Rydym yn datblygu model gofal cartref newydd yng Ngwynedd, a fydd yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ac yn teilwra'r gofal o gwmpas hynny

5.4 Gwasanaethau preswyl i blant a theuluoedd

- Mae diffyg darpariaeth yng Nghymru, ac hefyd yn Lloegr, gyda darparwyr felly yn gweithredu yn ddewisol ac yn osgoi derbyn lleoliadau plant sydd ag anghenion dwys
- Mae'r diffyg darpariaeth yn gwthio ffioedd yn uwch
- Mae angen rhagor o ddarparwyr sy'n gallu darparu gwasanaethau ddrwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae 10/16 (63%) o leoliadau preswyl plant Gwynedd wedi eu gwneud tu allan i ogledd Cymru
- Mae'r cynnydd ym mhrisiau stoc dai Gwynedd yn gwneud achos busnes yng Ngwynedd yn llai atyniadol
- Mae diffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion ymddygiadol ac emosiynol cymhleth

5.5 Maethu

- Mae cynnydd wedi bod ym mhlant Gwynedd sy'n cael eu lleoli gyda rhieni maeth yng Ngwynedd
- Mae angen tua 20 lleoliad maeth newydd bob blwyddyn er mwyn gwella darpariaeth
- Mae diffyg cyllid yn aml yn arwain at ddefnyddio darparwyr all sirol sydd yn ei dro yn arwain at gostau uwch

5.6 Gofalwyr

- Mae rhai gofalwyr sydd angen cefnogaeth yn ei chael yn anodd i gael gofal arall ac yn mynd am gyfnodau hir heb saib
- Mae ystod eang o gefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl yn cael ei gyllido drwy grantiau byr dymor a all arwain at ansefydlogi rhai gwasanaethau

5.7 Gweithlu

- 57% o'r gweithlu gofal sydd yn siaradwyr rhugl Cymraeg
- Mae recriwtio staff yn broblem ar draws y sector

5.8 Dylid nodi bod y data lleol a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer yr ASM yn newid yn barhaus a’n bod yn ystyried hynny wrth gynllunio ein gwasanaethau.

5.9 Fel y nodir uchod bydd y papurau gwaith a’r ddogfen ASM lawn yn cael eu defnyddio'n lleol i gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol, yn enwedig wrth adfer ar ôl y pandemig. Bydd yn ddogfen allweddol i hysbysu’r Cynllun Lles lleol. Bydd hefyd yn bwydo i mewn i ddogfennau eraill, yn cynnwys y Strategaeth Gymunedol, cynlluniau Trechu Tlodi a chynlluniau Tai/Cefnogi Pobl.

6 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

6.1 Fel a fanylir y Ffigur 1, sefydlodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru grŵp llywio rhanbarthol i arwain ar y gwaith ar gyfer grwpiau technegol, ymgysylltu data a themâu eraill, er mwyn arwain ar dasgau penodol. Mae aelodaeth o grwpiau o bob awdurdod lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartïon eraill gyda diddordeb yn yr asesiad o anghenion megis swyddogion a gyfer y BGC.

6.2 Roedd ymgysylltu â'r ASMyn cynnwys: holiadur ar gyfer sefydliadau sy'n gofyn am eu barn a'u tystiolaeth; ymgysylltu â gwahanol ddarparwyr sector e.e. y trydydd sector a hefyd gweithdai lleol gyda darparwyr. Mae hyn wedi darparu data ansoddol cyfoethog i lywio'r ASM. Mae canfyddiadau pellach ar gael ar y gronfa ddata ymgysylltu cydweithredu rhanbarthol, sy'n brosiect parhaus i wella'r gwaith o gydgysylltu gweithgareddau ymgysylltu ar draws y rhanbarth a galluogi gwell defnydd o'r canfyddiadau.

7 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

7.1 Mae'r asesiad o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth a reoleiddir yn yr ASM yn ychwanegu at asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth a gynhwysir yn y AAP. Mae'r dogfennau AAP a'r ASM yn cyfrannu at gylchoedd cynllunio strategol rhanbarthol a lleol, o ganlyniad bydd hyn yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol yr awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ei phoblogaeth breswyl.

7.2 Rhaid llunio Asesiad Llesiant fel un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ystyriodd yr asesiad poblogaeth anghenion gofal a chymorth y boblogaeth tra bod yr Asesiad Llesiant yn cwmpasu ffyniant, iechyd, gwydnwch, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb byd-eang a chymunedau cydlynol. Mae gorgyffwrdd rhwng y ddau felly mae tîm prosiect yr ASM yn cysylltu â swyddogion ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch cynnydd yr asesiadau o anghenion ac asesiadau lles ac yn rhannu gwybodaeth lle bo angen.

7.3 Yn ogystal â llywio ein cynlluniau lleol, bydd cam nesaf y prosiect hefyd yn cynnwys defnyddio'r asesiad poblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd y farchnad i ddatblygu cynllun ardal ar gyfer y rhanbarth. Gall gwaith ar y cynllun ardal yn y dyfodol gynnwys ymchwil ac ymgynghori pellach i archwilio meysydd blaenoriaeth yn fanylach cyn cytuno pa feysydd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwaith rhanbarthol. Bydd y cynllun ardal yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi yn 2023.

8 Goblygiadau o ran Adnoddau

8.1 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru wedi defnyddio'r staff presennol i gefnogi datblygiad y ASM. Ariannwyd costau cysylltiedig, megis cyfieithu ac ar gyfer ymgysylltu arbenigol hefyd gan y bartneriaeth.

8.2 Bu cost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff ac adnoddau i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad. Cynhaliwyd mwyafrif y gwaith hwn rhwng mis Ebrill 2021, a mis Mehefin 2022 ar gyfer yr ASM.

8.3 Wrth symud ymlaen, bydd yr ASM yn nodi blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, ac efallai caiff ei nodi bod angen lefel o fuddsoddi ar y blaenoriaethu hyn, ar lefel ranbarthol neu leol.

9 Risgiau ac Asesiad o Effaith

9.1 Ni fu'n bosibl cael cymeradwyaeth gan bob un o'r chwe chyngor a Bwrdd BIPBC erbyn y dyddiad gwreiddiol a roddwyd yng nghod ymarfer MSR ym mis Mehefin 2022 oherwydd yr amser sydd ei angen i gasglu data a chynnal dadansoddiad o'r farchnad yn ogystal ag amserlen cyfarfodydd llywodraethu pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd. Er mwyn lliniaru hyn, rydym wedi cysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru ynghylch amserlenni diwygiedig ac rydym hefyd wedi anfon drafft cynnar o'r ddogfen atynt er gwybodaeth.

9.2 Rhoddir yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 2.

Papurau Cefndir	Lleoliad	Gwybodaeth Gwefan
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014): Cod Ymarfer		http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance/

Barn y swyddogion statudol:

Swyddog Monitro

Cynhyrchir Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn unol a gofyn statudol yn Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hefyd yn ofynnol fod yr adroddiad yn cael ei pharatoi ar sail rhanbarthol. Yn unol ag arweiniad statudol ar baratoi yr adroddiad mae gofyn fod y Cabinet yn cyflwyno yr adroddiad i'r Cyngor Llawn er cymeradwyaeth.

Swyddog Cyllid Statudol

Mae'n amlwg fod datblygu'r Adroddiad Sefydlogrwydd wedi golygu buddsoddiad sylweddol o ran amser swyddogion a'r costau ariannol cysylltiedig eraill. Wedi dweud hynny, mae casglu data a gwybodaeth amserol, perthnasol a dibynadwy yn allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau a chynllunio at y dyfodol.

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu wrth ddatblygu'r gwasanaethau a ddisgrifir, ac mae'r ymdrech barhaus i adnabod, chofnodi a monitro'r risgiau hyn yn rhan bwysig o drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Atodiad 3: Strwythur Llywodraethu Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gogledd Cymru



Strwythur Rheoli Prosiectau



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru

Drafft 0.4 (Mehefin 2022)

Cysylltwch â ni

Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: northwalescollaborative@denbighshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 712432

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4

2. Crynodeb 9

3. Gwasanaethau Preswyl (oedolion) 14

4. Gwasanaethau gofal cartref 52

5. Gwasanaethau preswyl (plant) 91

6. Gwasanaethau maethu 121

7. Gwasanaethau mabwysiadu 146

8. Gofalwyr di-dâl 149

9. Gwasanaethau eirioli 157

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu asesiad ar y cyd o ddigonolrwydd a gynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol. Mae'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad wedi ei lunio gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021a). Dyma Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf i gael ei lunio ac mae'n ystyried canfyddiadau o Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Gogledd Cymru 2022.

1.2 Pwrpas yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad

Mae'r adroddiad yn ein helpu ni i ddeall y farchnad gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, fel y gallwn gomisiynu a chefnogi darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth yn effeithiol.

Bydd yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yn asesu:

- Digonolrwydd gofal a chymorth o ran bodloni anghenion a gofynion ar gyfer gofal cymdeithasol, fel y nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth
- sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau rheoli

Gwasanaethau rheoli yw'r rhai a restrir yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiad) a Gwasanaethau Rheoli (Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021. Ar hyn o bryd, y rhain yw:

- gwasanaeth cartref gofal (oedolion a phlant)
- gwasanaeth llety diogel (i blant)
- gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd
- gwasanaeth mabwysiadu
- gwasanaeth maethu
- lleoliadau oedolion
- gwasanaeth gofal cartref

- gwasanaeth eirioli

Yr asesiad yw'r sail y dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei defnyddio i wneud penderfyniadau i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth at y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau ardal lleol, strategaeth comisiynu strategol a datganiadau sefyllfa'r farchnad.

Mae'r asesiad wedi'i wneud ar y cyd gan y chwe chyngor lleol sydd yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Y chwe chyngor lleol yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Nod yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yw gwella ein dealltwriaeth o'r farchnad gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, a sut fydd hyn yn datblygu a newid dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y canfyddiadau o fewn yr asesiad hwn yn cynorthwyo pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn y rhanbarth i ddarparu gwasanaethau gwell a digonol i'n trigolion sydd angen gofal a chymorth.

1.3 Dulliau ymchwil

Mae'r dulliau ymchwil yn cynnwys:

- Dadansoddi setiau data lleol a chenedlaethol i ddod o hyd i dueddiadau.
- Tystiolaeth gan yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd.
- Tystiolaeth o ymchwil lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Blaenoriaethau o bolisïau / strategaethau / cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Ymatebion i'r arolwg rhanbarthol ac ymarferion ymgynghori eraill gan drigolion, sefydliadau, staff a darparwyr.

1.4 Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021a) yn datgan fod rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i ymgysylltu â dinasyddion. Fel rhagflaenydd i'r adroddiad sefydlogrwydd y farchnad, mae asesiad o anghenion y boblogaeth wedi cyflawni ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu rhanbarthol ar raddfa fawr yn seiliedig ar egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru ac

egwyddorion cyd-gynhyrchu. Rhoddodd yr ymarfer hwn fewnwelediad o effaith uniongyrchol sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol ar bobl gydag anghenion gofal a chymorth, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn yr asesiad o les y boblogaeth.

Roedd darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig yn ymgysylltu trwy arolwg darparwr rhanbarthol. Anfonwyd gwahoddiad i holl ddarparwyr cofrestredig ar draws y rhanbarth i gwblhau'r arolwg trwy'r comisiynwyr. Derbyniwyd 63 ymateb.

Yn ogystal, mae timau lleol hefyd wedi gwneud gwaith ymgysylltu eu hunain lle nad oedd hynny'n cael ei wneud yn rhanbarthol. Cafodd penodau drafft hefyd eu rhannu gyda phartneriaid ar gyfer adborth a sylwadau.

1.5 Llywodraethu'r prosiect

Gofynnodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Fwrdd Comisiynu Gogledd Cymru oruchwylio'r prosiect. Fe wnaethant sefydlu grŵp llywio rhanbarthol i gydlynu datblygiad yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r chwe awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd trefniadau rheoli'r prosiect yn sicrhau bod cysondeb ar gyfer yr holl bartneriaid wrth lunio adroddiad rhanbarthol. Lluniwyd adroddiadau prosiect rheolaidd ac fe gawsant eu rhannu â'r byrddau rhanbarthol yn ôl yr angen.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gymeradwyo gan y chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Diagram 1: Trefniadau llywodraethu'r prosiect



1.6 Cyfyngiadau, gwersi a ddysgwyd a chyfleoedd

Mae paratoi un asesiad hygyrch o anghenion y boblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd marchnad ar draws chwe awdurdod lleol ac ardal un bwrdd iechyd o fewn y terfynau amser wedi bod yn broses heriol. Roedd pwysau ychwanegol Covid-19 yn cyfrannu at hynny. Diolch i ymdrechion tîm y prosiect, grŵp llywio'r prosiect a oedd yn cynnwys arweinwyr lleol, yr is-grŵp data, y grŵp ymgysylltu, timau

sefydliadau partner, pobl sy’n defnyddio gwasanaethau a darparwyr fe gyd-gynhyrchwyd yr adroddiad hwn.

Un o’r prif heriau oedd cael gafael ar ddata o ansawdd da am y boblogaeth a'r farchnad gofal cymdeithasol. Ni fydd data Cyfrifiad 2021 yn cael ei gyhoeddi mewn pryd i’w gynnwys yn yr asesiad ac nid oedd nifer o ddangosyddion ar gael oherwydd newidiadau i’r modd mae data’n cael ei gasglu ers yr asesiad diwethaf a gan fod rhywfaint o waith casglu data wedi’i ohirio oherwydd Covid-19.

Argymhellir bod grŵp llywio’r y grwp llywio ar y cyd asesiad o anghenion y boblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd marchnad yn parhau i drefnu cyfarfodydd rheolaidd i oruchwylio’r diweddariadau a gwneud rhagor o argymhellion ynglŷn â sut i wella ansawdd, argaeledd a chydlyniant y data i lywio asesiadau o anghenion yn y dyfodol.

2. Crynodeb

Crynodeb o flaenoriaethau rhanbarthol

Mae gofal cartref (gofal yng nghartrefi'r bobl eu hunain) yn farchnad flaenoriaethol sydd wedi'i dynodi gan gomisiynwyr, gan nad yw darparwyr presennol yn y sector preifat wedi gallu cwrdd â'r galw ers cryn amser bellach o ganlyniad i heriau o ran staffio. Oherwydd hyn, dynodwyd bod tyfu a datblygu gwasanaethau, yn cynnwys gofal cartref cyffredinol ac arbenigol, yn gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae comisiynwyr yn awyddus i gydweithio â darparwyr i gynyddu capasiti gofal er mwyn cwrdd ag anghenion y boblogaeth. Y prif themâu a blaenoriaethau i ddarparwyr a chomisiynwyr ym mhob maes iechyd a gofal cymdeithasol yw:

- Recriwtio staff. Mae'r farchnad gyflogaeth yn gystadleuol dros ben ac mae angen cynnig cyfraddau tâl a buddion cyflogaeth cystadleuol er mwyn denu pobl.
- Prosiect recriwtio Gofal Cartref Integredig rhwng awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd a datblygu rolau a llwybrau gyrfa integredig ar draws sefydliadau.
- Telerau ac amodau. Mae angen i'r rhain adlewyrchu a chydnabod gwerth rolau gofal cymdeithasol, a'u pwysigrwydd yn y system iechyd a gofal, yn ogystal ag adlewyrchu'r ffaith bod y rolau hyn yn rhai crefftus at ei gilydd.
- Mae'r cyfraddau cadw staff yn wael oherwydd y telerau ac amodau gwael yn y sector gofal cymdeithasol. Mae effaith yr argyfwng costau tanwydd a chostau byw yn cael ei theimlo bellach yn y sector lle mae darparwyr yn gweld mwy o staff yn profi tlodi mewn gwaith. Mae staff yn gadael y sector hefyd oherwydd amodau gweithio ymestynnol a diffyg parch at y gwaith y maent yn ei wneud a'r lefelau o gyfrifoldeb sy'n gysylltiedig. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio a'u gorweithio.
- Nid yw staff sy'n newydd i'r sector yn aros yn y sector yn y tymor hir am eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan ddwysedd y rolau, yn enwedig y rheini sy'n cynorthwyo pobl sydd ag anghenion cymhleth ac ymddygiadau heriol. Mae angen i ddarparwyr a chomisiynwyr roi gwell cymorth i staff i gwrdd â'r heriau o weithio yn y sector gofal cymdeithasol.

- Rhoddir blaenoriaeth i raglenni trawsnewid gwasanaethau a dylai'r rhain ganolbwyntio'n gynt ar hwyluso hyblygrwydd wrth ddefnyddio oriau gofal a gomisiynwyd, lle gellir ymddiried mewn darparwyr i ystwytho'r pecyn o oriau gofal mewn partneriaeth â'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Er cydnabod y cyfyngiadau sydd ar gyllidebau pawb, bydda'r hyblygrwydd hwn yn gwella ansawdd ac yn arbed costau drwy leihau costau gweinyddu.
- Nodwyd bod datblygu gweithio drwy bartneriaeth wirioneddol rhwng comisiynwyr a darparwyr yn faes allweddol.
- Mae darparwyr yn cydnabod budd y taliadau COVID ychwanegol ac mae addasrwydd parhaus y sector yn cael ei gydnabod yn flaenoriaeth allweddol oherwydd y gwaith pwysig y mae darparwyr gofal cartref yn ei wneud wrth gadw pobl yn iach yn eu cartrefi eu hunain, wrth roi'r gallu i ryddhau cleifion o'r ysbyty ac wrth atal ymweliadau â'r ysbyty sydd heb eu cynllunio.
- Datblygu partneriaethau â darparwyr cartrefi gofal er mwyn darparu gwasanaethau gofal / seibiant preswyl lefel isel i leddfu'r pwysau ar ddarpariaethau gofal cartref.
- Datblygu cyfleoedd o ran micro-gomisiynu a thaliadau uniongyrchol fel dewis yn lle'r model gofal cartref traddodiadol.
- Cynyddu'r cymorth i ofalwyr di-dâl er mwyn lleddfu'r pwysau ar y gwasanaeth gofal cartref ac edrych ar ddulliau o weithredu sy'n cael eu harwain gan ofalwyr, fel darparu mwy o seibiant i ofalwyr.
- Cynyddu nifer y lleoliadau arbenigol sydd ar gael mewn cartrefi gofal i bobl hŷn, oedolion ag anghenion iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl â dementia.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o lety argyfwng a thymor hwy sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn cynnwys anghenion o ran iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anghenion emosiynol ymddygiadol.

Crynodeb o themâu lleol

Ynys Môn

- Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid gwasanaethau ac mae moderneiddio yn faes y byddwn yn canolbwyntio arno gyda mwy o uchelgais i ddatblygu opsiynau llety, gan ategu gwaith y rhaglen drawsnewid.

- Mae’r gweithlu gofal yn Ynys Môn yn heneiddio, felly mae angen denu a chadw staff gofal cymdeithasol newydd.
- Rydym am gydweithio â darparwyr i sicrhau sefydlogrwydd, yn enwedig mewn perthynas â chostau staffio, cyflenwi, dewis, gwasanaethau a chyflawni.

Gwynedd

- Mae problemau’n codi’n rheolaidd mewn perthynas â recriwtio a chadw staff, ac mae’r holl wasanaethau yn rhoi gwybod am brinder a phryder gwirioneddol.
- Diffyg cymorth ariannol. Mae’r holl wasanaethau wedi codi pryderon ynghylch y gallu i gynnal gwasanaethau o ansawdd da ag adnoddau cyfyngedig. Yn aml, o ganlyniad i ddiffyg cyllid, rydym yn gorfod defnyddio darparwyr y tu allan i’r sir. Mae hyn yn arwain at gostau uwch sydd, yn eu tro, yn dwysáu’r broblem.
- Prinder sylweddol o ran y gofal preswyl sydd ar gael yn y sir i blant sydd â’i angen, o’i gymharu â gwasanaethau eraill sydd ar gael i blant. Mae darpariaeth gymharol dda o deuluoedd maeth o fewn y sir ac mae nifer mawr o adnoddau a gwasanaethau o fewn y sir i gynorthwyo plant anabl. Mae’n ymddangos bod anghysondeb yn y ddarpariaeth.

Conwy

- Recriwtio a chadw staff ar draws y sector, yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, staff gofal a staff nyrsio. Mae hyn yn gysylltiedig â thâl ac amodau ond nid hynny’n unig.
- Gwasanaethau preswyl plant. Mae angen brys am ddarparu llety ar gyfer lleoliadau argyfwng a lleoliadau tymor hwy ac rydym yn ystyried nifer o wahanol opsiynau i gynyddu’r ddarpariaeth yn y sir a lleihau’r ddibyniaeth ar drefniadau dros dro costus a lleoliadau y tu allan i’r sir sy’n bell oddi wrth y teulu.
- Darparu gwasanaethau gofal cartref, gan nad yw darparwyr presennol yn y sector preifat wedi gallu cwrdd â’r galw ers cyfnod hir bellach.

Sir Ddinbych

- Rydym am gynyddu'r capasiti gofal i gwrdd ag anghenion y boblogaeth o fewn Sir Ddinbych, yn cynnwys gofal preswyl ar gyfer plant, pobl ifanc, pobl ag anableddau cymhleth, pobl hŷn (yn cynnwys y rheini ag anghenion iechyd meddwl), gofal maeth, gofal cartref ac ailalluogi.
- Rydym wedi ymrwymo i wella cyfathrebu mewnol ar draws gwasanaethau / timau a chyfathrebu â sefydliadau ein partneriaid, ac i rannu arferion da.
- Mae cynyddu'r ddarpariaeth o lety seibiant dros nos sydd ar gael yn flaenoriaeth yn Sir Ddinbych.

Wrecsam

Y prif flaenoriaethau mewn Gwasanaethau Plant yn Wrecsam yw:

- Gwneud lleoliadau'n fwy sefydlog, lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal drwy wasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar a dileu elw yn y farchnad lleoliadau plant
- Darparu llety argyfwng i bobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl
- Uwchgyfeirio mwy o anghenion a phryderon iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Datblygu cartrefi plant newydd
- Gwella ansawdd ymarfer a pherfformiad ar draws Gwasanaethau Plant
- Y prif flaenoriaethau mewn Gwasanaethau Oedolion yn Wrecsam yw:
- Tyfu a datblygu gwasanaethau, yn cynnwys Gofal Cartref (sy'n cynnwys gofal cartref/ailalluogi; byw ac ymadfer yn y gymuned)
- Gwasanaethau dydd a chyflogaeth
- Lleoliadau argyfwng

Sir y Fflint

Rhoddir blaenoriaeth i'r farchnad Gofal Cartref yn Sir y Fflint er mwyn helpu i adfer cydbwysedd yn y sector gofal. Mae darparwyr gofal annibynnol yn parhau i gydweithio'n greadigol â'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod y nifer lleiaf posibl o bobl yn aros am ofal yn eu cartrefi.

Yn Sir y Fflint, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu rhai pwysau critigol a phroblemau allweddol ym meysydd y gweithlu, comisiynu a meini prawf ariannu.

Oddi ar Ionawr 2022 yn Sir y Fflint, mae'r meysydd lle mae pwysau'n parhau yn cynnwys:

- gofal gan ddau aelod staff
- darparu gofal mewn ardaloedd gwledig
- darparu gofal i gleifion sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty
- darparwyr yn dychwelyd pecynnau gofal o ganlyniad i heriau o ran staffio
- costau busnes uwch – biliau cyfleustodau ac yswiriant
- costau tanwydd uwch, yn cael eu hysgwyddo gan y staff gofal eu hunain gan mwyaf.

Ers y pandemig, mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl i oedolion wedi troi'n ansefydlog dros ben ac mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at argaeledd y ddarpariaeth mewn cartrefi gofal annibynnol. Mae'r cyngor yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, a model newydd o ofal camu i lawr i ategu'r rhaglen rhyddhau i asesu ac ymadfer a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd.

Mae hanner y plant mewn gofal preswyl o Sir y Fflint yn cael eu lleoli y tu allan i'r wlad yn Lloegr a'r Alban. Mae gofal preswyl mewnol yn cael ei ddatblygu i adfer cydbwysedd y farchnad yn Sir y Fflint.
Dros y cyfnod nesaf o bum mlynedd, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad ar gyfer gwasanaethau preswyl i blant, mae'r cyngor yn bwriadu:

- Cydweithio â darparwyr presennol a newydd a'u helpu i weithredu modelau gofal a fydd yn cwrdd ag anghenion plant.
- Cydweithio â darparwyr presennol a newydd a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn ffordd a fydd, yn ogystal â gwella canlyniadau i'n plant, yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Cydweithio â darparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am blant ag anghenion mawr lluosog ac sy'n gallu darparu llety amgen yn lle darpariaeth les ddiogel.
- Dynodi darparwyr a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â ni yn ystod cyfnodau pontio, yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwr maeth neu ailymuno â'r teulu.
- Mae'r diwylliant Cymreig yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac rydym am gael mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

3. Gwasanaethau Preswyl (oedolion)

Trosolwg o’r boblogaeth

Mae’r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal yn debygol o gynyddu

Mae’r asesiad o’r boblogaeth yn dangos fod y nifer o bobl dros 65 oed yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 17% rhwng 2010 a 2020 a rhagwelir y bydd cynnydd pellach o 20% dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hyn yn debygol o gynyddu’r galw am wasanaethau cartrefi gofal. Mae’r tabl isod yn dangos y newid a ddisgwylir ym mhob sir, a disgwylir mai yng Nghonwy fydd y cynnydd mwyaf a Gwynedd y cynnydd lleiaf.

Tabl 1: Y nifer a amcangyfrifir o bobl dros 65 oed yn 2020 a’r nifer a ragwelir yn 2040.

Cyngor lleol	2020 nifer	2040 nifer	Newid nifer	Newid canran
Ynys Môn	18,650	22,500	3,850	17.2%
Gwynedd	28,550	34,300	5,700	16.7%
Conwy	32,950	43,500	10,550	24.3%
Sir Ddinbych	23,500	30,400	6,900	22.6%
Sir y Fflint	33,300	42,400	9,150	21.5%
Wrecsam	27,750	34,500	6,750	19.6%
Gogledd Cymru	164,700	207,600	42,900	20.7%
Cymru	668,600	850,750	182,150	21.4%

Ffynhonnell: Amcangyfrifiad o’r boblogaeth yng nghanol blwyddyn 2020, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; ac amcanestyniadau poblogaeth wedi eu seilio ar 2018, Llywodraeth Cymru

Nid y cynnydd ym mhoblogaeth pobl hŷn yw’r unig ffactor sy’n effeithio ar y galw. Mae yna hefyd newidiadau mewn disgwyliadau a pholisi sy’n golygu ei bod yn bosibl na fydd y galw yn cynyddu ar yr un gyfradd â chyfanswm y boblogaeth. Er enghraifft, fe all y galw newid wrth i bobl gael eu cefnogi i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy, neu gymryd llety gofal ychwanegol i gadw eu hannibyniaeth gyda’r dewis o dderbyn cefnogaeth fel bo angen.

Mae pobl yn tueddu i symud i ofal preswyl yn hŷn a phan fo'u hanghenion yn fwy cymhleth, er enghraifft, o ganlyniad i ddementia. Roedd yr asesiad o'r boblogaeth yn amcangyfrif cynnydd o 65% rhwng 2017 a 2035 yn y nifer o bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, tua 7,000 yn fwy o bobl. Nid yw'r cynnydd blaenorol wedi bod mor uchel â'r disgwyl gan fod y gyfradd o bobl sy'n datblygu dementia wedi gostwng, efallai o ganlyniad i welliannau mewn iechyd a mwy o flynyddoedd wedi eu treulio mewn addysg (Matthews *et al.*, 2016). Ond mae'n parhau yn debygol y bydd y duedd o ran bod angen cefnogaeth cartref nyrsio a phreswyl sy'n gynyddol arbenigol ar gyfer iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn parhau.

Trosolwg y farchnad

Mae yna tua 220 o gartrefi gofal preswyl a 60 o gartrefi nyrsio yng Ngogledd Cymru, sy'n darparu tua 4,100 o leoliadau gofal preswyl a 2,500 o leoliadau nyrsio.

Tabl 2: Y nifer presennol o **gartrefi gofal oedolion** (18 oed a hŷn) yn ôl math ac ardal

Cyngor lleol (a, b, c)	Preswyl	Preswyl gydag iechyd meddwl	Nyrsio	Nyrsio gydag iechyd meddwl	Cyfanswm (d)
Ynys Môn	12	7	3	2	24
Gwynedd	14	9	7	3	33
Conwy	43	12	13	5	73
Sir Ddinbych	46	13	5	5	69
Sir y Fflint	22	12	7	2	35
Wrecsam	16	10	9	2	37
Gogledd Cymru	153	63	44	19	271

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.
(a) Yn Ynys Môn mae gan y rhan fwyaf o gartrefi rai gwelyau iechyd meddwl ac felly nid yw'r rhain wedi eu gwahanu.
(b) Mae gan Sir Ddinbych 26 o gartrefi preswyl arbenigol i bobl gydag anableddau dysgu.
(c) Mae gan Sir y Fflint 8 o gartrefi arbenigol i bobl gydag anableddau dysgu sydd wedi eu cynnwys yn y categori preswyl.
(d) Mae gan Sir y Fflint nifer o gartrefi sydd â chofrestriad deuol. Nid yw cyfanswm y rhifau yn adio.

Tabl 3: Y nifer presennol o leoliadau cartref gofal parhaol sydd ar gael i bob **oedolyn 18 oed a hŷn**

Cyngor lleol (a, b, c)	Preswyl	Preswyl gydag iechyd meddwl	Nyrsio	Nyrsio gydag iechyd meddwl	Cyfanswm
Ynys Môn	341	98	115	64	618
Gwynedd	351	199	353	175	1,078
Conwy	671	226	441	144	1,482
Sir Ddinbych	802	0	321	0	1,123
Sir y Fflint	416	261	179	44	900
Wrecsam	223	490	526	108	1,347
Gogledd Cymru	2,804	1,274	1,935	535	6,548

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.
Nodiadau:
(a) Mae'r categorïau o ofal wedi dod yn fwy amhendant ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 felly nid yw'r categorïau hyn ond yn darlunio'r rhaniad rhwng mathau o ofal.
(b) Yn Ynys Môn mae gan y rhan fwyaf o gartrefi rai gwelyau iechyd meddwl ac felly nid yw'r rhain wedi eu gwahanu.
(c) Mae gan Sir y Fflint 50 o leoliadau arbenigol i bobl gydag Anableddau dysgu sydd wedi eu cynnwys yn y categori preswyl.

Ffioedd cartref gofal

Cafodd yr angen am ffioedd cartref gofal cynaliadwy a digonol ei amlygu yn yr ymgynghoriad ar gyfer Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad. Caiff lefelau ffioedd eu seilio ar fethodoleg Gogledd Cymru gyda phob cyngor yn cymryd i ystyriaeth benderfyniadau lleol ac ystyriaethau fforddiadwyedd. Mae yna drafodaethau parhaus yn ymwneud â sut y caiff y sector ei ariannu, gan gydnabod breuder y sector, gan gynnwys y gwaith ailgydbwyso gofal a'r Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ef (Llywodraeth Cymru, 2021c).

Lleoedd gwag mewn cartrefi gofal

Yn ystod y pandemig mae nifer o gartrefi gofal wedi bod â lefelau uwch o leoedd gwag nag yn flaenorol. Byddai lefelau'r lleoedd gwag ar gyfartaledd fel arfer tua 10%, a chredir fod hynny'n gynaliadwy ar gyfer y sector (Laing, 2020). I rai roedd hyn o ganlyniad i absenoldebau staff neu swyddi gwag o ganlyniad i faterion recriwtio, tra roedd eraill angen defnyddio ystafelloedd ychwanegol ar gyfer storio cyfarpar diogelu personol (PPE) neu ar gyfer mannau byw ychwanegol er mwyn lleihau maint grwpiau o breswylwyr a oedd yn rhannu cyfleusterau. O bryd i'w gilydd mae yna gyfyngiadau wedi bod ar dderbyniadau o ganlyniad i achosion o Covid-19 hefyd.

Roedd lleoedd gwag mewn cartrefi gofal hefyd yn cynyddu yng Nghonwy cyn y pandemig o ganlyniad i gyflwyno timau ailalluogi a oedd yn gweithio i gadw pobl hŷn yn eu cartrefi am gyfnod hwy. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn llai effeithiol yn ystod y pandemig gan fod llai o weithwyr gofal cartref wedi bod allan yn y gymuned.

Tabl 4: Y ganran o leoliadau cartref gofal gwag, 31 Mawrth 2021

Cyngor lleol	Wedi'u meddiannu	Heb eu meddiannu	Cyfanswm y lleoliadau	Canran y rhai nad ydynt wedi eu meddiannu
Ynys Môn	548	65	613	11%
Gwynedd	933	122	1,055	12%
Conwy	1,337	115	1,452	8%
Sir Ddinbych	1,161	249	1,410	18%
Sir y Fflint	748	152	900	17%
Wrecsam	1,059	288	1,347	21%
Gogledd Cymru	5786	991	6777	15%

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.

Lleoliadau cartref gofal a gaiff eu hunan ariannu

Nid yw cyfanswm y bobl sy'n ariannu eu lleoliadau cartref gofal eu hunain ar draws Gogledd Cymru gael oherwydd polisi gwahanol y Cynghorau. Roedd gan Sir y Fflint 194 o bobl yn hunan-ariannu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar 1 Chwefror 2022.

Daeth amcangyfrifon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) i'r casgliad fod tua 36.7% o drigolion cartrefi gofal a oedd yn ariannu eu gofal eu hunain rhwng 2019 a 2020.

Trosolwg o'r farchnad yn Ynys Môn

Mae Ynys Môn wedi nodi'r anghenion canlynol.

- Mae angen mwy o ofal dementia.
- Fe all arwahanrwydd cymdeithasol fod yn risg benodol i bobl hŷn yn Ynys Môn o ganlyniad i natur wledig y sir, diffyg cludiant, a'r pellter y mae nifer yn byw oddi wrth eu teuluoedd.
- Mae angen gwasanaethau arbenigol ychwanegol ar Ynys Môn.
- Nid oes digon o welyau preswyl a nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn Ynys Môn.
- Mae yna lai o alw am welyau preswyl cyffredinol.
- I bobl hŷn gydag anabledd dysgu sydd hefyd ag anghenion iechyd corfforol a dementia, mae yna ddiffyg lleoliadau preswyl a nyrsio arbenigol.

Trosolwg o'r farchnad yng Ngwynedd

Mae Gwynedd wedi nodi'r meysydd canlynol lle ceir hi'n anodd i fodloni'r gofyn:

- Diffyg lleoliadau preswyl a nyrsio arbenigol ar gyfer pobl hŷn gydag anabledd dysgu sydd hefyd ag anghenion iechyd corfforol a dementia.
- Diffyg gweithwyr cymorth y gymuned a phreswyl yn arbennig Tan y Marian ac o fewn darpariaeth ddydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddechrau gwasanaeth ar gyfer unigolion newydd ac mae nifer o unigolion yn derbyn llai o ddyddiau / oriau cefnogi yn y gymuned.
- Mae'n anodd i gynnal a datblygu gwasanaeth wedi ei deilwra i'r unigolyn sydd angen gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn 'Cefnogi Ymddygiad Personol' a Chefnogaeth Weithredol.
- Y galw am ofal arbenigol dementia (preswyl a nyrsio). Ar hyn o bryd nid oes yna ofal nyrsio dementia yn ardal Meirionnydd / Llŷn.
- Nid oes yna unrhyw ddarpariaeth iechyd meddwl arbenigol gan gynnwys ar gyfer awtistiaeth a salwch meddwl difrifol yng Ngwynedd. Conwy yw'r lleoliad agosaf ond nid yw'r ddarpariaeth yn y Gymraeg.

- Rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am ofal preswyl dros dro o ganlyniad i brinder gofal yn y cartref.
- Nid ydym yn gallu llenwi gwelyau gwag yn rhai o gartrefi'r Cyngor o ganlyniad i lefel dibyniaeth uchel preswylwyr.
- Fe all rhyddhau yn amhriodol o'r ysbyty heb ddigon o amser i wella arwain at gynnydd mewn dibyniaeth.
- Mae absenoldeb salwch a recriwtio yn broblem.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae yna gynlluniau i gynyddu darpariaeth breswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) drwy addasu unedau yng nghartrefi preswyl y cyngor.

Ar hyn o bryd mae yna 33 o ddarparwyr cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio pobl hŷn yng Ngwynedd. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu 11 o gartrefi preswyl ar gyfer pobl hŷn yn uniongyrchol.

Tabl 5: Lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn Gwynedd

	Cyfanswm y lleoliadau cofrestredig	Y nifer o leoliadau dementia
Plas Maesincla	23	23
Plas Ogwen	27	-
Plas Pengwaith	31	-
Plas Hedd	28	7
Plas Hafan	30	8
Plas y Don	30	-
Plas Gwilym	27	-
Hafod Mawddach	25	8
Bryn Blodau	41	17
Cefn Rodyn	22	-
Llys Cadfan	33	15

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Mae'r canlynol yn rhoi'r diweddaraf o ran ein hymdrechion i ehangu darpariaeth gofal i bobl gyda dementia:

- Plas Hedd. Ni all un gwely seibiant agor o ganlyniad i adeiladu. Datblygiad newydd ar y gweill. Cynllun i newid uned 8 gwely arall i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.
- Plas Hafan. Yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.
- Bryn Blodau. 9 gwely i bobl sy'n byw gyda dementia, o ganlyniad i'r sefyllfa staffio ni ellir cefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia, ond cynigir gwasanaeth gwahanol.
- Hafod Mawddach. Fe fydd datblygiad newydd yn cynyddu lleoedd cofrestredig i 30 gydag 8 gwely i bobl sy'n byw gyda dementia. I'w gwblhau Medi 2022.
- Cefn Rodyn. Nid yw 5 gwely ar y llawr cyntaf yn cael eu defnyddio o ganlyniad i faterion yn ymwneud â diogelwch tân ac arhosir am lifft newydd. Datblygiadau newydd wedi eu cwblhau yn 2021. Mae un ystafell wedi ei datblygu ar gyfer defnydd bariatrig, y lleill ar gyfer pobl gydag anghenion preswyl mwy dwys.
- Llys Cadfan. Yn cael ei ddefnyddio i gapasiti llawn, 1 gwely seibiant ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia ac 1 gwely seibiant preswyl.

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cynyddu'r nifer o welyau preswyl iechyd meddwl i bobl hŷn yn eu cartrefi mewnol. Yn wreiddiol roedd yna 38 o welyau rhwng Plas Maesincla ac unedau Bryn Blodau a Llys Cadfan. Nawr mae yna unedau ym Mhlas Hafan, Plas Hedd, uned ychwanegol yn Llys Cadfan a Bryn Blodau. Mae rhagor o waith ar y gweill i greu ail uned ym Mhlas Hedd ac uned newydd yn Hafod Mawddach gyda'r gobaith o agor yn ddiweddarach eleni. Tra bod hyn yn gynnydd sylweddol mae angen gwneud mwy i newid cydbwysedd gwelyau iechyd meddwl pobl hŷn yn y sir a bodloni anghenion. Mae costau refeniw sylweddol yn gysylltiedig â phob uned wedi'i newid o leoliadau preswyl i leoliadau iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM).

Nodwyd y bylchau canlynol:

- Gofal Arbenigol Dementia (preswyl a nyrsio) yn ardal Meirionnydd - ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofal nyrsio dementia yno.
- Gofal preswyl / nyrsio ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion corfforol a synhwyraidd.

Ar gyfer y dyfodol mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd darpariaeth breswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn cael ei greu ym Mhlas Gwilym a Phlas Pengwaith. Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Llywodraeth Cymru i ddatblygu safle Penrhos, Pwllheli. Y bwriad yw i gyflwyno achos busnes i Gabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer datblygu cartref gofal ar y safle. Mae'r nifer o unigolion sydd â dementia yn cynyddu, ac rydym yn adolygu'r angen yn rheolaidd ac yn ceisio addasu cartrefi'r cyngor i fod yn hyblyg ac addas i fodloni'r angen yn y dyfodol.

Trosolwg o'r farchnad yng Nghonwy

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yng Nghonwy yn cael eu comisiynu gan ddarparwyr cartref gofal preifat sy'n darparu 98% o'r gwelyau yn y sir. Mae'r ddarpariaeth ar hyd yr arfordir yn rhesymol, ond mae yna brinder lleoedd yn ne / ardaloedd gwledig y sir ac mae pryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae gwasanaeth y sir yn dda o ran lleoedd preswyl a nyrsio, ond mae yna brinder darpariaeth iechyd meddwl arbenigol ar gyfer anghenion preswyl a nyrsio, yn arbennig ar gyfer y rhai hynny sydd angen gofal arbenigol iawn. Mae mwyafrif yr adeiladau a gaiff eu defnyddio fel Cartrefi Gofal yn hŷn ac yn aml maent yn anheddau preswyl sydd wedi eu haddasu. Ar y cyfan maent yn cael eu cynnal yn dda gan y darparwyr, ond fe all atgyweiriadau a'u cynnal a'u cadw fod yn gostus. Roedd cynllun ffisegol nifer o gartrefi o'r fath yn ei gwneud yn anodd iawn i ddarparwyr reoli'r achosion o Covid yn ystod y pandemig, tra ar yr un pryd fe welodd y cartrefi oedd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol fod ganddynt well adnoddau i reoli achosion o'r fath.

Trosolwg o'r farchnad yn Sir Ddinbych

Caiff dros 90% o leoliadau cartref gofal eu comisiynu gan ddarparwyr allanol. Mae yna ddau gartref gofal mewnol. Fe gaeodd y cyngor un o'r tri chartref preswyl oedd

ganddo yn 2019. Mae'r safle yn Rhuthun nawr yn cael ei ddatblygu i ddarparu mwy o randai gofal ychwanegol.

Mae yna ostyngiad bach wedi bod yng nghapasiti'r sector cartrefi gofal yn gyffredinol yn Sir Ddinbych yn y blynyddoedd diweddar. Mae yna lai o alw am ofal preswyl heb gefnogaeth ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl neu anghenion corfforol cymhleth.

Mae mwyafrif y cartrefi gofal yn Sir Ddinbych yn adeiladau hŷn sydd wedi eu haddasu. Mae rhai achlysuron wedi bod lle na fu'n bosibl darparu lle ar gyfer pobl gydag anghenion bariatrig o ganlyniad i strwythur yr adeiladau - maint y drysau neu gynllun y coridorau. Hefyd ychydig o gartrefi gofal sydd â gofod ar gyfer teclynnau codi o'r to ar gyfer codi a symud neu welyau mwy. Mae'r gofyniad am fwy o fewnbwn gan staff hefyd yn rhwystr.

Ychydig o leoedd gwag sydd yna ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae tua 18 o oedolion wedi eu lleoli mewn cartref gofal gan nad oes digon o gefnogaeth ar gael i'w galluogi i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain.

Ers Mai 2021 mae yna 32 o leoliadau iechyd meddwl preswyl pobl hŷn (HaSM) y tu allan i'r sir a 29 o leoliadau nyrsio. Mae yna 33 o leoliadau y tu allan i'r sir yn Sir Ddinbych ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion iechyd meddwl, yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg lleoliadau lleol addas.

Mae gan Sir Ddinbych 282 o leoedd ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal anghenion dysgu arbenigol. Maent wedi nodi'r tueddiadau canlynol:

- **Demograffeg:** Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd angen cefnogaeth yn cynyddu, ac mae pobl ag anableddau dysgu yn byw yn hirach. Mae'r tueddiadau hyn o ran demograffeg yn dueddol o barhau.
- **Agweddau a disgwyliadau** Mae'r rhan fwyaf o unigolion a'u teuluoedd eisiau / yn disgwyl cael lefel uwch o annibyniaeth a bod yn rhan allweddol o'u cymuned.
- **Cyllid** Mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi bod yn cynyddu ond rydym nawr yn wynebu cefnogi mwy o bobl gyda llai o arian (o ganlyniad i leihau setliadau awdurdodau lleol, cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol a chyfyngiadau'r Grant Cymorth Tai).

- **Darpariaeth bresennol** Caiff cefnogaeth ei darparu'n gyffredinol drwy deulu agos a / neu staff gofal cyflogedig hirdymor. Gwneir llai o ddefnydd o asedau anffurfiol wedi eu lleoli yn y gymuned.

Trosolwg o'r farchnad yn Sir y Fflint

Mae yna gynnydd cyffredinol wedi bod mewn darpariaeth breswyl yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i ailagor tri o gartrefi ac ehangu Tŷ Marleyfield ym Mwcle. Mae un cartref mawr wedi newid o ddarparu gofal nyrsio i ddarparu gofal preswyl sydd ar yr un pryd wedi cynyddu capasiti gofal preswyl a lleihau'r capasiti gofal nyrsio. Fe gaeodd cartref nyrsio cyffredinol yn Nhreffynnon yn 2019 ac un arall ym Mawrth 2022 a leihaodd leoliadau nyrsio cyffredinol o 75. Mae yna waith atgyweirio yn digwydd mewn un cartref gofal ar hyn o bryd sydd wedi lleihau capasiti'r farchnad dros dro.

Mae Marleyfield, Croes Atti, a Llys Gwenffrwd yn gartrefi gofal sydd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol a sy'n eiddo i'r Cyngor ac wedi eu lleoli yn nhrefi Bwcle, Y Fflint a Threffynnon. Dim ond ychydig o ailwampio neu adnewyddu sydd ei angen ar yr adeiladau. Mae Llys Gwenffrwd yn wahanol yn y ffaith fod y ddarpariaeth yn cael ei darparu dros dri llawr, sy'n golygu fod angen newid mewn lefelau staffio i gefnogi pobl gyda dementia yn greadigol ar y llawr uchaf.

Yn hanesyddol mae yna brinder wedi bod o ran lleoliadau sydd wedi arwain at leoliadau y tu allan i'r sir.

Hefyd mae cymhlethdod yr angen a diffyg lleoliadau yn lleol yn arwain at oedi o ran trosglwyddo gofal o'r ysbyty. Roedd hyn yn amlwg yn ystod y pandemig ac ar un pwynt, o ganlyniad i achosion gweithredol mewn cartrefi nyrsio, nid oedd yna unrhyw leoliadau nyrsio ar gael yn Sir y Fflint y gellid rhyddhau pobl iddynt o'r ysbyty.

O fewn y sector Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol, o ganlyniad i'r dewis bychan o ddarparwyr lleol a natur arbenigol y gefnogaeth, mae'n bosibl y bydd angen i rai o'r lleoliadau preswyl hyn fod y tu allan i'r sir a gall hynny arwain at gostau ychwanegol. Mae hyn yn cael effaith ar unigolion ac yn cynnal cysylltiadau gyda theulu a ffrindiau.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Cartrefi newydd sy'n hygyrch i bawb:

- Mae gan Marleyfield a Croes Atti unedau ar wahân ar gyfer y rhai hynny sydd ag anghenion cysylltiedig â dementia.

Cefnogi pobl i fyw gartref am gyfnod hirach:

- Mae Llys Gwenffrwd yn gartref i leoliadau adsefydlu ac mae'r tri chartref yn darparu nifer o leoliadau seibiant, camu i fyny / camu i lawr a lleoliadau asesu yn hytrach na phreswyl parhaol.
- Mae gan Marleyfield a Croes Atti ddarpariaeth gofal dydd cydffiniol a fyddai'n cael eu heffeithio gyda rhai o'r dewisiadau sy'n cael eu cyflwyno.
- Disodli Croes Atti gyda chartref gofal newydd ar gyn safle Ysbyty Fflint. Fe fydd gan y cartref gofal newydd 25 o welyau ychwanegol, bydd 12 ohonynt yn hygyrch i'r Bwrdd Iechyd, wedi eu clustnodi i ddarparu model newydd o ofal camu i lawr i gefnogi'r rhyddhau i raglen asesu ac adfer a ddatblygwyd o fewn y Bwrdd Iechyd.

Darpariaeth ar gyfer pobl gydag anableddau cymhleth

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi amlygu'r angen am i welyau corfforol a synhwyraidd arbenigol fod ar gael yn lleol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi nodi ei bod yn anodd i fodloni'r galw am ofal preswyl a nyrsio ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion corfforol a synhwyraidd.

Nododd Cyngor Sir Ddinbych ddiffyg capasiti ar gyfer llety preswyl i bobl gydag anableddau cymhleth (anableddau corfforol a dysgu), sy'n golygu fod nifer o bobl yn mynd allan o'r sir, i ffwrdd oddi wrth deulu a ffrindiau. Ar hyn o bryd mae yna 13 o leoliadau y tu allan i'r sir a all arwain at gostau uwch. Mae hyn hefyd yn effeithio ar deuluoedd sy'n ymweld a'r cyswllt â'r unigolyn.

Yn Sir Ddinbych gan fod unigolion gydag anghenion cymhleth wedi symud ymlaen o leoliadau iechyd i gael eu cefnogi yn y gymuned, mae angen gwaith parhaus i ymgorffori methodoleg Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol ymhellach wrth ddarparu

cefnogaeth. Fe fydd hyn yn sicrhau fod y sgiliau a'r wybodaeth ar gael ac yn cael eu cynnal o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod

Mae tai gofal ychwanegol yn cynnwys eiddo hunangynhwysol sydd wedi eu dylunio'n arbennig ar gyfer oedolion hŷn gyda gofal a chefnogaeth ar gael ar lefel ddigonol i alluogi pobl i aros gartref er gwaethaf llesgedd, cyfnodau o salwch neu anableddau ac yn aml heb yr angen i symud i ofal preswyl.

Gyda byw â chymorth neu byw yn y gymuned mae pobl fel arfer yn byw fel tenantiaid mewn tai a rennir, gyda chefnogaeth ffurfiol y telir amdani yn cael ei darparu gan asiantaeth gofal cartref cofrestredig.

Mae tai gwarchod hefyd yn cynnwys eiddo hunangynhwysol ar gyfer oedolion hŷn ac fel arfer mae'n cynnwys cymorth gan reolwr cynllun (warden) neu staff cymorth.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Ynys Môn

Mae dau ddatblygiad gofal ychwanegol yn Ynys Môn, Hafan Cefni a Phenucheldre, sy'n darparu cyfanswm o 118 o unedau gofal ychwanegol ar hyn o bryd, pob un ohonynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ym mis Mawrth 2022, ymrwymodd y Cyngor i symud cynllun newydd yn ei flaen yn ardal Aethwy a bydd hyn yn darparu 40 o unedau ynghyd â 15 o ystafelloedd gofal preswyl arbenigol.

Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn awgrymu bod darpariaeth gofal ychwanegol ar y trywydd iawn i fodloni'r galw hyd at 2025 a bod angen 127 o unedau ychwanegol erbyn 2035 i fodloni'r galw a ragwelir. Ar hyn o bryd mae 12 o bobl ar y rhestr aros am dai gofal ychwanegol.

Mae tystiolaeth o ymgynghoriad lleol yn cefnogi symudiad tuag at ddarparu gofal ychwanegol a darpariaeth tai â chymorth ac i ffwrdd o gartrefi gofal preswyl traddodiadol.

Mae 71 uned o lety â chymorth ac mae pob un yn cael ei feddiannu ar hyn o bryd. Darperir y rhain gan 7 darparwr gofal yn ogystal â gwasanaeth mewnol. Mae'r galw ar hyn o bryd yn drech na'r capasiti o ran Gofal Ychwanegol a Llety â Chymorth.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yng Ngwynedd

Mae yna dri chynllun tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd sy'n darparu cymysgedd o randai hunangynhwysol 1 a 2 ystafell wely.

- Cae Garnedd, Bangor: y 42 uned i gyd wedi eu meddiannu a 37 o ymgeiswyr ar y rhestr aros.
- Awel y Coleg, Bala: 30 uned, 1 heb ei feddiannu a 3 o ymgeiswyr ar y rhestr aros.
- Hafod y Gest, Porthmadog: 40 o unedau, i gyd wedi eu meddiannu a 21 ar y rhestr aros.

Mae unedau gofal ychwanegol hefyd yn rhan o'r sgwrs ynglŷn â datblygiad Canolfan Lleu – y canolbwynt iechyd a gofal ym Mhenygroes gyda Grŵp Cynefin a datblygiad safle Penyberth ym Mhenrhos, Pwllheli gyda Clwyd Alyn.

Mae'r galw ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad ac mae yna gynlluniau i ddatblygu mwy.

Mae yna 412 uned o dai gwarchod yng Ngwynedd, gyda dim ond 30 uned â warden llawn amser. Maent i gyd wedi eu poblogi ac yn gyffredinol mae'r galw yn uwch na'r cyflenwad yng Ngwynedd, yn arbennig ar gyfer pobl hŷn nad ydynt un ai angen gwasanaethau cefnogol warden neu nad ydynt yn gymwys am hynny, sef y prif faen prawf ar gyfer tai gwarchod.

Mae yna 78 o leoliadau byw â chymorth, 39 o rai trydydd sector (50%), 32 o rai'r sector preifat (40%) a 7 o rai mewnol (10%).

Yn hanesyddol mae'n anodd i gael staff mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft de Gwynedd, ac mae darparwyr tai â chymorth wedi cael trafferth gyda hyn. Mae llety â chymorth yn flaenoriaeth ar gyfer y maes anabledd dysgu gyda 75 o unigolion wedi eu nodi fel rhai sydd angen llety. Fe fydd cyfran uchel o'r unigolion hyn angen model tai â chymorth ac felly rydym yn rhagweld angen am hyblygrwydd y farchnad.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn wynebu'r un math o heriau pan ddaw i recriwtio a chynnal timau staff. Fodd bynnag, dros y misoedd diwethaf rydym wedi cyflwyno nifer o unigolion yn llwyddiannus i leoliadau tai â chymorth newydd ac mae darparwyr yn adrodd eu bod mewn sefyllfa i gyflwyno ceisiadau tendro ar gyfer prosiectau newydd. Mae rhai darparwyr allanol yn symud ymlaen i ddatblygu llety

newydd ac yn cefnogi cyfleoedd yn ne Gwynedd. Cyn y pandemig roedd darparwyr wedi ymrwymo i edrych ar ddarparu gwasanaeth yn wahanol, fel grwpiau yn rhannu cymorth, ond mae'r cyfyngiadau wedi cael effaith ar y datblygiad hwn.

Mae darparwyr sy'n gweithio o fewn y modelau cefnogi gweithredol a 'Chefnogi Ymddygiad Personol' wedi eu heffeithio'n negyddol gan y pandemig o ganlyniad i gyfyngiadau staff a phrinder staff ac felly mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â hyn ar frys gyda'n darparwyr i sicrhau hyfforddiant a mentora i hyrwyddo'r dull hwn o weithio a sicrhau ymagwedd ataliol a seiliedig ar ganlyniadau.

Mae darparwyr yn gyffredinol yn gweithio'n agos gyda'r timau amlddisgyblaethol i ymateb i'r galw os oes yna newid mewn anghenion, i ymateb i argyfwng ac yn y blaen. Rydym wedi gweld enghreifftiau o gydweithio a blaenoriaethu gyda darparwyr yn ymrwymo i weithio'n hyblyg i sicrhau fod unigolion yn derbyn gwasanaeth gofal a chefnogaeth sy'n bodloni eu hanghenion.

Fel arfer caiff angen o fewn y gwasanaeth ei fodloni gan becynnau wedi eu teilwra ar gyfer unigolion a darpariaeth ar raddfa fach, nad yw o reidrwydd yn ddeniadol nac yn gynaliadwy i ddarpar ddarparwyr. Mae recriwtio yn anodd ac yn ddibynnol ar y boblogaeth leol gan fod pobl yn annhebygol o symud i'r rhanbarth ar gyfer y gwaith o ganlyniad i gyfraddau isel cyflogau a'r gofynion ieithyddol. Rydym yn ymwybodol nad yw rhai o'r darparwyr presennol ar y fframwaith ac felly fe allai ailagor y broses dendro ar gyfer darparwyr newydd posibl fod yn fanteisiol. Rydym yn rhagweld cynnydd yn yr angen am dai â chymorth o fewn y blynyddoedd sydd i ddod yng Ngwynedd. Mae angen i ni ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio ymagwedd KeyRing (Keyring, 2022) ac edrych ar gomisiynu neu ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen o fewn yr ardaloedd clwstwr. Mae ystyriaeth wedi ei gwneud yn y gorffennol, ond mae angen ystyriaethau pellach mewn ymgynghoriad gydag unigolion/teuluoedd/darparwyr.

Mae pob darparwr yn wahanol gyda rhai yn cael mwy o anghenion cymorth nac eraill. Mae'r pwysau arnynt o bryd i'w gilydd yn golygu nad ydynt o bosibl mewn sefyllfa gref i ymateb i gyfleoedd tendro neu i gynnig tendr ar gyfer y Cytundeb Tai â Chymorth. Mae darparwyr sy'n cefnogi unigolion gydag anghenion difrifol a chymhleth yn cysylltu â'r Cyngor yn rheolaidd i adrodd nad yw'r lefel o gynnydd chwyddiannol a gynigir gan y Cyngor yn ddigonol.

Mae darparwyr yn gyffredinol yn sefydlog ac yn gallu cynnal y lefelau gofynnol o wasanaeth i ddarpariaeth tai â chymorth presennol. Mae'n anodd dweud a ydynt mewn sefyllfa i fodloni'r galw a'r cynnydd mewn angen gan fod sefyllfa pob darparwr yn wahanol. Mae darparu oriau ychwanegol drwy wasanaethau cefnogi wedi bod yn anodd ac yn heriol gyda dim digon o staff profiadol ar gael. Mae hyn wedi rhoi pwysau ar ofalwyr ac rydym wedi gorfod gweithio gyda'n gilydd fel 'gofal estynedig' gyda nifer o ddarparwyr i fodloni anghenion.

Angen cydweithio agos rhwng gweithwyr cymdeithasol, unigolion a theuluoedd i sicrhau fod yr holl ddewisiadau yn cael eu harchwilio. Mae'r gwaith yn barhaus drwy brosiect llety i nodi anghenion unigol a chynllunio ymlaen i edrych ar y model mwyaf priodol o gefnogaeth / cadw o fewn eu cymunedau ac mor agos â phosibl i'w teulu. Mae rhai unigolion yn derbyn cefnogaeth gan fwy nag un darparwr neu gyfuniad o daliadau uniongyrchol a darpariaeth wedi ei chomisiynu.

Y berthynas rhwng y comisiynydd a'r darparwr

- Mae perthnasoedd yn dda yn gyffredinol.
- Cryfhaodd trefniadau cyswllt dros y pandemig.
- Mae darparwyr yn mynychu Grŵp Trawsnewid AD bob deufis lle gallant fwydo i mewn i'r agenda.
- Cyswllt rheolaidd rhwng y darparwyr / Tîm AD ar wahanol lefelau i leisio unrhyw faterion sy'n codi fel eu bod yn cael sylw amserol.
- Mae darparwyr yn ganolog i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr nawr yn cysylltu gyda'n Gwasanaeth Lles - grwpiau rhithiol ac wyneb yn wyneb.
- Dros y 18 mis diwethaf mae strwythur y Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi newid - mae yna fwy o bwyslais ar yr ardaloedd - cryfhau darpariaeth drwy gael arweinydd ar gyfer De Gwynedd ac Arfon. Mae hyn wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng y comisiynydd / darparwr.

Y berthynas o ddarparwr i ddarparwr

Yn gyffredinol mae'r berthynas yn ymddangos yn un dda er fod yna lai o gyd gynllunio wedi bod mae'n debyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Rydym wedi gweld enghreifftiau lle mae darparwyr wedi camu i sefyllfa o argyfwng i gefnogi darparwr arall drwy gynnig staff i lenwi'r bylchau. Er enghraifft, mewn un achos lle dirywiodd sefyllfa un unigolyn ac roedd angen cefnogaeth bedair awr ar hugain, fe ddaeth hyd at 4 darparwr gyda'i gilydd i ffurfio rota i'w gefnogi

mewn llety dros dro. Mewn achos arall lle cafodd darparwr anawsterau wrth gynnal rota wrth gyflwyno unigolyn i gartref newydd, fe ddaeth darparwr arall i'r adwy a chytunodd y ddau ddarparwr i weithio gyda'i gilydd dros dro i alluogi i anghenion gael eu bodloni. Fe aethom ati i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad mewn perthynas â'r cytundeb.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yng Nghonwy

Mae yna bedwar cynllun tai gofal ychwanegol yn sir Conwy, sy'n darparu cyfanswm o 185 o fflatiau. Hafan Gwydir yn Llanrwst, Hafod y Parc yn Abergele, Llys y Coed yn Llanfairfechan a Than y Fron yn Llandudno. Yn Ebrill 2022, roedd yna 62 o bobl ar y rhestr aros ac roedd 10 o'r rhain o du allan i'r sir (dau o Sir Ddinbych ac wyth o rannau eraill o'r DU ond gyda chysylltiadau teuluol â'r ardal).

Mae yna 46 o brosiectau byw â chymorth sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat amrywiol, cymdeithasau tai a'r cyngor.

Dim ond darparu ar gyfer nifer o bobl o fewn bob prosiect y mae'r mwyafrif o brosiectau byw â chymorth, ac felly er bod yna 46 prosiect dim ond lleoedd ar gyfer 136 o bobl sydd yna. Nid yw hyn yn gyfran uchel, yn enwedig o ystyried poblogaeth Conwy. Dim ond tua 8 o leoedd gwag sydd yna ar hyn o bryd ac mae yna alw mawr am leoedd gwag. Nid oes yna unrhyw brosiectau byw â chymorth yn ne'r sir.

Mae cyflenwad safleoedd byw â chymorth yn isel iawn ac mae'r cyngor yn ei chael yn anodd i ddod o hyd i ddigon o lety ar gyfer cleientiaid.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Sir Ddinbych

Mae yna dri chynllun tai gofal ychwanegol yn Sir Ddinbych ac un a fydd yn agor yn fuan yn Ninbych. Fe fydd cartref gofal a gaeodd yn Rhuthun yn ddiweddar yn cael ei ddefnyddio fel gofod i ehangu cynllun tai gofal ychwanegol a gaiff ei redeg gan gymdeithas dai. Roedd yna leoedd gwag yn achlysurol o ganlyniad i'r pandemig ond fel arall mae'n anarferol iawn i gael lle gwag mewn cynllun tai gofal ychwanegol. Er y bydd y nifer o fflatiau tai gofal ychwanegol yn cynyddu yn sylweddol dros y flwyddyn, y disgwyl yw y bydd y galw yn parhau i gynyddu ac yn mynd y tu hwnt i'r cyfanswm o fflatiau sydd ar gael.

Yn Sir Ddinbych mae'r rhan fwyaf o bobl gydag anableddau dysgu yn byw mewn tai â chymorth (byw yn y gymuned).

Caiff y rhan fwyaf o leoliadau cartref gofal newydd eu hystyried fel mesur dros dro hyd nes y daw tenantiaeth addas ar gael o fewn lleoliad Byw yn y Gymuned. Fodd bynnag, mae yna nifer gymharol uchel o bobl hŷn gydag anableddau dysgu sy'n byw mewn cartrefi gofal o hyd. Mae hyn yn hanesyddol ac yn rhannol yn ganlyniad i gau Ysbyty Gogledd Cymru. Ni ystyrir y byddai symud yr unigolion hyn yn ymarferol nac er y lles gorau iddynt.

Gyda Byw yn y Gymuned mae pobl fel arfer yn byw fel tenantiaid mewn tai a rennir, gyda chefnogaeth ffurfiol y telir amdani yn cael ei darparu gan asiantaeth gofal cartref cofrestredig drwy gytundeb bloc gyda Sir Ddinbych. Yn Sir Ddinbych ni chaiff y gwasanaeth cefnogi ei ddarparu gan (ac nid yw'n gysylltiedig â'r) landlord. Caiff gwasanaethau cefnogi ar gyfer pob cynllun Byw yn y Gymuned newydd eu comisiynu drwy broses dendro y cytunwyd arni.

Ym Medi 2021, roedd yna 57 eiddo Byw yn y Gymuned yn Sir Ddinbych, a gaiff eu darparu rhwng 11 o ddarparwyr. Dim ond 2 o'r eiddo hyn a gaiff eu gweithredu gan y Cyngor. Hefyd mae yna gyfuniad o ddarparwyr lleol, darparwyr lleol llai a darparwyr lleol a chenedlaethol gyda statws elusennol. Caiff contractau eu tendro drwy'r fframwaith rhanbarthol neu eu comisiynu drwy daliadau uniongyrchol.

Mae 125 o bobl yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd (y capasiti yw 136 o bobl), y rhan fwyaf gyda dros 20 awr o gefnogaeth yr wythnos, un ai yn cael ei rannu neu un i un. Mae gan y rhan fwyaf o unigolion gytundeb tenantiaeth fel sy'n digwydd fel arfer o ran Byw â Chymorth.

Mae yna ddarparwyr sy'n gallu cynnig ystod o gefnogaeth o lefel isel i anghenion mwy cymhleth a chefnogaeth bedair awr ar hugain.

Mae recriwtio staff wedi bod yn broblematig i ddarparwyr yn ystod y pandemig ac mae wedi cael effaith ar y nifer o leoedd a gaiff eu cynnig yn rheolaidd.

Mae nifer o gontractau presennol Byw yn y Gymuned wedi eu hymestyn y tu hwnt i'w cyfnod gwreiddiol a nawr mae yna bwysau sylweddol am i'r cynllun cyfan gael ei aildendro yn unol â rheoliadau. Mae'r darparwyr a staff y cyngor yn teimlo fod hyn yn cyflwyno risg sylweddol i unigolion, darparwyr a'u staff ar hyn o bryd. Ar y gwaethaf fe allai aildendro olygu y byddai nifer o ddarparwyr yn colli busnes a niferoedd mawr

o staff yn gadael y sector ar adeg pan fo hi bron yn amhosibl i recriwtio. Fe allai unrhyw ansicrwydd arwain o bosibl at nifer o staff yn gadael, hyd yn oed os yw Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth (TUPE) yn weithredol. Fe allai'r ansicrwydd hwn gael effaith ddinistriol ar farchnad y darparwr gofal cymdeithasol lleol a'r dinasyddion y maent yn eu cefnogi. Mae'n bosibl y byddai rhai darparwyr yn rhoi eu contractau yn ôl ac na fyddent yn dymuno cynnig am fwy. Yn arbennig gyda nifer mor fawr o gontractau, yn y pen draw fe allai hyn ddadsefydlogi marchnad y darparwr gofal cymdeithasol ymhellach yn Sir Ddinbych.

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Sir y Fflint

Mae Gofal Ychwanegol yn parhau i fod yn ddewis hynod o boblogaidd o ran tai i bobl hŷn yn Sir y Fflint, sy'n cynnig y cyfle iddynt i fyw yn annibynnol tra bod ganddynt gefnogaeth tîm gofal a chefnogaeth ar y safle, os a phan fo angen hynny. Mae hyn yn ei dro yn rhyddhau capasiti ac amser mewn gofal cartref wedi ei leoli yn y gymuned.

Mae manteision byw mewn cyfleuster Gofal Ychwanegol yn cynnwys:

- Aros yn annibynnol am gyfnod hirach gyda chefnogaeth ar y safle, yn eich gofod byw eich hun.
- Fe ellir cynyddu neu leihau'r gefnogaeth yn seiliedig ar eich anghenion.
- Mae cefnogaeth mewn argyfwng ar gael, gan gynnwys yn ystod y nos.
- Mae'n galluogi cyplau, pan fo un partner yn ddibynnol iawn, i barhau i fyw gyda'i gilydd.
- Cyfleoedd i gymdeithasu gyda phreswylwyr eraill mewn lleoliad cymunedol.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor bedwar cyfleuster Gofal Ychwanegol, Llys Eleanor (Glannau Dyfrdwy), Llys Jasmine (Yr Wyddgrug), Llys Raddington (Y Fflint) a Phlas yr Ywen (Treffynnon) sydd newydd dderbyn preswylwyr, gyda chyfanswm o 238 o unedau gofal ychwanegol.

Fel ag ar Awst 2021, mae yna gyfanswm o 60 eiddo Byw â Chymorth yn Sir y Fflint, yn cael eu darparu rhwng 10 darparwr. Caiff 16 o'r eiddo hyn eu gweithredu gan y Cyngor. Hefyd mae yna gyfuniad o ddarparwyr cenedlaethol, darparwyr lleol llai a darparwyr lleol a chenedlaethol gyda statws elusennol. Caiff contractau eu tendro drwy'r fframwaith rhanbarthol neu eu comisiynu drwy daliadau uniongyrchol.

Caiff 139 o bobl eu cefnogi, y rhan fwyaf gyda dros 20 awr o gefnogaeth yr wythnos, un ai yn cael ei rannu neu un i un. Mae gan y rhan fwyaf o unigolion gytundeb tenantiaeth fel sy'n digwydd fel arfer o ran 'Byw â Chymorth'.

Mae yna ddarparwyr sy'n gallu cefnogi o lefel isel i anghenion mwy cymhleth ar y Fframwaith.

Wrth ailgomisiynu gwasanaethau presennol mae yna bosibilrwydd o drosglwyddo staff (Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth) i'r cwmni newydd. Ar gyfer gwasanaethau newydd, mae'n rhaid i'r darparwr recriwtio a all effeithio ar amserlenni a denu staff o ddarparwyr presennol sydd wedyn yn gorfod llenwi'r swyddi .

Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Wrecsam

Mae yna ddau gynllun tai gofal ychwanegol yn Wrecsam gyda chyfanswm o 116 uned. Mae gan Plas Telford 56 uned ac roedd 5 lle gwag yma ddiwedd Mawrth 2022. Mae gan Maes y Dderwen 60 uned ac roedd 10 lle gwag yma ddiwedd Mawrth 2022.

Mae'r galw ar gyfer y rhai hynny gydag anghenion cymwys yn isel, mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ail lansio cynllun i ddenu mwy o geisiadau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd yn gwerthuso eu model o dai gofal ychwanegol ar gyfer datblygu'r gwasanaeth ymhellach i sicrhau ei gynaliadwyedd wrth ddiwallu anghenion newidiol a chynyddol. Mae'n anodd rhagweld y galw gan ei bod yn ymddangos nad yw'r model presennol yn gallu ymateb i anghenion canolig ac uchel. Mae ystadegau'r boblogaeth a thystiolaeth o ddyheadau pobl hŷn yn awgrymu y dylai fod yna alw cynyddol am dai gofal ychwanegol. Y flaenoriaeth yn y tymor byr i ganolig yw i sicrhau model cynaliadwy o dai gofal ychwanegol, sy'n darparu gwerth am arian a gwasanaethau o ansawdd sy'n cynnig dewis gwirioneddol wahanol i ofal preswyl.

Yn ogystal â chynllun tai gofal ychwanegol Wrecsam, mae Adran Tai CBSW yn darparu rhaglen dreigl o ailfodelu i ddarparu llety gwell a chynyddol hygyrch i bobl hŷn ar draws y Gwasanaeth Tai Gwarchod mewnol.

Ar adeg llunio'r adroddiad, roedd 126 o bobl gydag ystod o anghenion cymorth cymhleth a lefel isel yn cael eu cefnogi yn y sector annibynnol gan 9 o ddarparwyr byw â chymorth - cymysgedd o sefydliadau elusennol a phreifat. Mae yna 19 o bobl gydag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain gan wasanaeth

byw â chymorth mewnol y cyngor ar draws 10 eiddo. Mae mwyafrif y gwasanaethau hyn yn rhai pedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos, er mae rhai ar gyfer cefnogaeth yn ystod y dydd yn unig, lle mae staff ar gael i gefnogi pobl i ddod yn fwy annibynnol.

Caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn bennaf gan y Gwasanaeth Anabledd sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu er bod yna nifer o bobl sy'n byw gydag angen am gefnogaeth iechyd meddwl sy'n cael eu cefnogi gan Wasanaeth Adfer y cyngor ei hun - caiff 10 o bobl eu cefnogi mewn eiddo gyda thenantiaid a gaiff ei ariannu gan ofal cymdeithasol.

Fe gydnabyddir y gall ail dendro contractau amharu ar fywydau dinasyddion a gaiff eu cefnogi o fewn y model hwn ac felly caiff contractau hirdymor o 7+3 mlynedd eu defnyddio, gydag adolygiadau ansawdd a lles rheolaidd yn ystod cyfnod y contract. Mae Fframwaith Byw â Chymorth Gogledd Cymru nawr mewn grym ac mae wedi ei ddefnyddio ar gyfer comisiynu contractau newydd. Mae recriwtio a chadw wedi profi i fod yn heriol i ddarparwyr, yn arbennig ar gyfer staff sy'n gallu gyrru a defnyddio cerbyd symudedd unigolyn a gefnogir.

Sefydlogrwydd y Farchnad

Heriau Rhanbarthol

Mae yna rai heriau cyffredin ar draws Gogledd Cymru a Chymru gyfan sy'n effeithio ar sefydlogrwydd y sector a restrir uchod.

- Cadw a recriwtio staff gofal a nyrsio.
- Mae angen i ffioedd cartrefi gofal gael eu gosod ar raddfa gynaliadwy. Mae nifer gynyddol o ddarparwyr yn adrodd fod ffioedd heriau ariannol presennol yn annigonol ac maent yn gweithio gyda chomisiynwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn.Galw cynyddol am wasanaethau gyda chyllidebau sy'n lleihau.
- Cymhlethdod cynyddol o ran anghenion gofal. Mae pobl yn aros adref yn hirach gyda phecyn cefnogi ac felly pan mae angen lleoliad cartref gofal arnynt, mae eu hanghenion yn fwy cymhleth ac mae mwy o gyfranogiad.
- Ymhlith yr elfennau cadarnhaol a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad oedd cyllid Llywodraeth Cymru, sydd

wedi helpu gyda lleoedd gwag yn y sector preswyl, yn ogystal â gwaith i hyrwyddo'r sector a chyllid i geisio cael cyflog byw gwirioneddol.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Ynys Môn

Cau cartref

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf ym mis Mawrth 2022, caeodd Cartref Preswyl Caledonia (15 gwely).

Galw am leoedd

Gostyngodd y galw am leoedd mewn cartrefi gofal yng nghyfnod cynnar y pandemig yn ystod 2020, ond gwelwyd cynnydd yn 2021-22 wrth i effeithiau cynnar Covid ddechrau mynd heibio ac o ganlyniad i ddiffygion yn y sector gofal cartref. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl oedd yn cyflwyno ac angen asesiad, ond roedd y sector gofal cartref preifat yn bennaf ar yr un pryd yn colli staff ac yn gorfod trosglwyddo pecynnau gofal presennol yn ôl.

Recriwtio

Yr her fwyaf sy'n wynebu'r sector fu recriwtio a chadw staff ar bob lefel. Mae llawer o gartrefi gofal wedi adrodd am swyddi gwag sydd wedi effeithio ar eu gallu i gymryd lleoliadau newydd. Mae'r diffyg staff wedi'i waethygu gan staff nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd bod ganddynt Covid. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth sylweddol ar asiantaethau staffio. Rydym hefyd wedi nodi nifer o newidiadau ar draws y sector o ran staff rheoli.

Chwyddiant

Ers dechrau 2022, mae cyfradd chwyddiant wedi cynyddu'n gyflymach ac yn uwch na chyfradd y cynnydd yn y ffioedd a delir i ddarparwyr cartrefi gofal. Mae costau cyfleustodau, tanwydd ac yswiriant hefyd wedi cynyddu'n aruthrol. Mae hyn yn profi'n heriol iawn i lawer o ddarparwyr, sydd, ar ôl ymdopi drwy'r pandemig, yn ei chael hi'n anodd amsugno'r costau hyn ar adeg pan mae cymorth ariannol y llywodraeth ar gyfer Covid wedi dod i ben.

Sefydlogrwydd y farchnad yng Ngwynedd

Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn

Gyda'r cynnydd yn y galw mae yna bryder na all y farchnad ymateb yn ddigonol ac yn ddigon cyflym i alw o ystyried yr argyfwng staffio presennol.

Mae yna gynnydd wedi bod yn y nifer o ddarparwyr sy'n adrodd fod ffioedd preswyl a nyrsio pobl hŷn yn annigonol. Mae darparwyr yn rhwystredig pan maent yn adrodd am gynnydd mewn cost a phan na chynigir taliadau uwch iddynt. Mae yna gynnydd mewn ffioedd atodol ar gyfer gofal preswyl a nyrsio. Hefyd mae yna arafwch yn nifer y gweithlu sy'n cofrestru.

Mae'r trothwy ar gyfer hunan-ariannu wedi bod yn cynyddu ac mae ar hyn o bryd ar £50,000 sy'n golygu fod llai o bobl yn hunan-ariannu. Mae gan y rhai sy'n ariannu eu gofal eu hunain yr hawl i gael eu gofal wedi ei gomisiynu drwy'r cyngor sydd â goblygiadau o ran gallu cartrefi gofal i ofyn am ffioedd uwch gan y rhai sy'n ariannu eu hunain.

Anabledd corfforol, iechyd meddwl ac anabledd dysgu

Mae pob darparwr yn wahanol gyda rhai â mwy o anghenion cymorth nac eraill. Mae'r pwysau arnynt o bryd i'w gilydd yn golygu na allant fod mewn sefyllfa gref, er enghraifft, i ymateb i gyfleoedd tendro neu i gynnig tendr ar gyfer y Cytundeb Tai â Chymorth. Mae darparwyr sy'n cefnogi unigolion gydag anghenion difrifol a chymhleth yn cysylltu â'r Cyngor yn rheolaidd i roi gwybod nad yw'r lefel o gynnydd chwyddiannol a gynigir gan y Cyngor yn ddigonol.

Effaith Covid-19

Mae rhai darparwyr nyrsio wedi gwneud y gorau o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael, fel lleoedd gwag, cefnogaeth gyffredinol gyda chynaliadwyedd, cefnogaeth ar gyfer staff a phrofi ymwelwyr. Nodir fod y darparwyr mwyaf yn cynnig am gymorth, gyda darparwyr llai yn dueddol o holi yn hwyrach ac yn ei chael yn anodd i ddilyn y canllawiau diweddaraf a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ymwneud â'r canllawiau. Mae yna bryder yn ymwneud â'r effaith y bydd dod â'r gefnogaeth ariannol i ben yn ei gael.

Hyblygrwydd y farchnad
Mae yna botensial ar gyfer addasu o fewn cartrefi gofal y Cyngor. Potensial i addasu rolau / tasgau o fewn cynllun gofal cartref, ond mae angen cefnogaeth gan y darparwr i'w gweithredu. Mae staffio yn broblem fawr ar hyn o bryd ar gyfer darparwyr gofal cartref a chartrefi gofal.

Achosion o fethiant posibl o ran busnes a chynllunio wrth gefn
Caiff pryderon eu nodi un ai drwy wybodaeth a rennir gan Arolygiaeth Gofal Cymru neu fel rhan o gyswllt wythnosol y Tîm Sicrwydd Ansawdd. Mae'r tîm yn darparu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth os oes yna unrhyw faterion yn codi yn ymwneud â hyfywedd busnesau. Cafodd cefnogaeth ariannol ddiweddar (Cronfeydd COVID-19), fel cefnogaeth ar gyfer gwelyau gwag ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig, eu diwallu gan y Gronfa Galedi a chafodd cefnogaeth gyffredinol gyda chynaliadwyedd y farchnad ei gynnig drwy gronfa adferol a hynny drwy gronfa adfer y llywodraeth. Nid oedd yna unrhyw gronfeydd o'r fath ar gael yn uniongyrchol gan y cyngor cyn y pandemig ac eithrio fel dewis olaf neu fesur brys ac mae'r cymorth ariannol COVID-19 presennol yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2022.

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn dymuno meithrin ymagwedd Cyfrifo Llyfr Agored gyda chartrefi gofal er mwyn deall eu rhwymedigaethau/cyfyngiadau ariannol ei gilydd yn well er mwyn sefydlu p'run ai yw'r rhain yn feysydd lle gallwn gynnig cefnogaeth boed yn ariannol neu drwy gynnig cefnogaeth i'r cartrefi gofal i symleiddio eu gweithdrefnau.

Cartrefi gofal yn cau
Mae yna 4 cartref wedi cau yng Ngwynedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dau gartref preswyl (Llwyn ym Mai 2018 a Foelas yn Ebrill 2022) a dau gartref nyrsio (Penisarwaun ym mis Gorffennaf 2018 a Penrhos yn Rhagfyr 2020). Yn gynyddol, mae'n anodd i gartrefi gofal annibynnol bach fod yn ariannol hyfyw a gallai hyn gyfrannu at gau pellach yn y dyfodol.

Sefydlogrwydd y farchnad yng Nghonwy

Cartrefi yn cau
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae dau gartref wedi cau yn y sir. Roedd un yn ddarparwr llai ac roedd costau cynnal a chadw'r adeilad hŷn a oedd wedi ei drawsnewid yn uwch na'r incwm posibl gan breswylwyr. Fe brofodd y perchnogion y farchnad ar gyfer gwerthu ond ni chafwyd unrhyw gynigion. Ystyriwyd addasu i ofal

nyrsio neu ofal iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) ond nid oedd y cartref o faint digonol ac nid oedd y cynllun yn ddigonol i roi'r enillion oedd eu hangen ar fuddsoddiad a chaewyd y cartref. Roedd yr ail gartref a gaeodd yn fwy ac yn llwyddiannus. Nid oedd yna unrhyw broblemau gyda gwelyau gwag nac ansawdd y gwasanaeth, ond wedi gwneud ymholiadau am gyfnod hir o amser nid oedd yna unrhyw brynwyr ar gyfer y busnes pan oedd y perchennog yn barod i ymddeol, ac felly caeodd y gwasanaeth. Yn y ddau achos cafodd preswylwyr y cartrefi hyn eu hadleoli'n llwyddiannus i gartrefi eraill yn y sir.

Galw am leoedd

Fe ostyngodd y galw am leoedd mewn cartrefi gofal yng nghyfnodau cynnar y pandemig yn ystod 2020, ond fe fu cynnydd sylweddol yn 2021-22 wrth i effeithiau cynnar Covid ddechrau pasio ac o ganlyniad i ddiffygion yn y sector gofal cartref. Fe welsom gynnydd sylweddol yn y nifer o bobl a oedd yn cyflwyno ac angen asesiad, ond roedd y sector gofal cartref a oedd yn breifat yn bennaf ar yr un pryd yn colli staff ac yn gorfod rhoi pecynnau gofal presennol yn ôl. Roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd ar yr arfordir ym Mae Colwyn, Llandudno a'r ardaloedd o amgylch ar gyfer lleoliadau preswyl a nyrsio. Nid oes yna ddata ar gael eto ar y galw am ofal iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM), galw yr ydym ni'n teimlo sydd hefyd wedi cynyddu.

Mae'r nifer o leoliadau y tu allan i'r sir wedi gostwng yn raddol.

Recriwtio

Recriwtio a chadw staff ar bob lefel yw'r her fwyaf sydd wedi wynebu'r sector. Mae bron i bob cartref gofal wedi nodi swyddi gwag ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd, uwch gynorthwywyr gofal iechyd, nyrsys a staff domestig ac maent wedi dweud fod hyn wedi cael effaith ar eu gallu i gymryd lleoliadau newydd. Gwaethygwyd y sefyllfa o ddiffyg staff gan y ffaith nad oedd rhai aelodau o staff yn gallu gweithio gan fod Covid arnynt. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth uchel ar asiantaethau staffio sydd mewn rhai achosion wedi bod yn darparu 20% i 50% o'r staffio ar gyfer rhai darparwyr. Rydym hefyd wedi nodi nifer o newidiadau ar draws y sector mewn staff rheoli. Mae ymgynghoriad gyda darparwyr wedi nodi nifer o resymau posibl a allai fod yn gyfrifol am yr her o ran recriwtio.

- Mae ymadael â'r UE wedi cael ychydig o effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol ond mae wedi cael effaith sylweddol ar sectorau eraill hefyd fel manwerthu a lletygarwch sy'n sectorau mawr iawn yn sir Conwy.

- Cystadleuaeth o fanwerthu a lletygarwch. Mae cartrefi gofal yn adrodd fod staff yn gadael i ymuno â'r ddau sector hwn sydd wedi cynyddu tâl ac amodau i ddenu staff newydd. Caiff y gwaith yn aml ei ystyried fel gwaith lle mae llai o straen a gydag oriau mwy rhesymol.
- Ymddeoliad cynnar. Mae nifer o ddarparwyr yn dweud fod aelodau o staff wedi cymryd ymddeoliad cynnar yn ystod y pandemig.
- Cystadleuaeth gan swyddi sy'n talu yn well gyda'r bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol ac asiantaethau recriwtio.

Chwyddiant

Ers dechrau 2022, mae graddfa chwyddiant wedi cynyddu yn gynt ac yn uwch na'r ffioedd a gaiff eu talu i ddarparwyr cartrefi gofal. Mae costau cyfleustodau, tanwydd ac yswiriant wedi cynyddu ddwywaith ac weithiau deirgwaith o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Ar ôl ymdopi drwy'r pandemig, nid yw nifer o ddarparwyr yn gallu llyncu'r costau hyn ar adeg pan fo cymorth ariannol y llywodraeth ar gyfer Covid wedi dod i ben.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir Ddinbych

Mae yna ffocws cynyddol wedi bod ar gefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud nad ydynt eisiau byw mewn cartref gofal preswyl os oes yna ddewis i aros yn annibynnol. Mae Sir Ddinbych yn defnyddio sgyrsiau "Beth sy'n Bwysig" gyda phobl er mwyn ein galluogi ni i gytuno ar ganlyniadau priodol eu gofal a'u cymorth. Rydym yn defnyddio'r olwyn adnoddau i sicrhau ein bod yn cynnwys cefnogaeth y mae pobl yn ei gael gan deulu, ffrindiau a chymunedau wrth drafod sut i weithio tuag at y canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Mae yna sylfaen ddarparwyr amrywiol yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer gofal preswyl a nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn gyfyngedig.

Mae'r farchnad yn amrywiol gyda chartrefi o faint amrywiol, mewnol ac annibynnol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn gartrefi gofal bach, annibynnol mewn adeiladau hŷn nad ydynt wedi eu hadeiladu'n bwrpasol.

Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu yn gweithio'n agos gyda darparwyr ac yn cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen.

Mae yna ddiffyg staff nyrsio sydd wedi eu hyfforddi wedi bod ar gael yn ne'r sir, sy'n golygu fod Llangollen Fechan wedi wynebu ffioedd asiantaeth afresymol ac felly penderfynwyd dod â chofrestru deuol i ben ar gyfer gofal preswyl a nyrsio, gan ganolbwyntio ar welyau preswyl yn unig. Mae hyn yn golygu fod yna lai o welyau nyrsio yn y de.

Fe ddaeth darparwr llai, Chesterton, i'r casgliad nad oedd yn ariannol hyfyw ac felly fe gaewyd y cartref dan reolaeth gyda chyfarfodydd wythnosol rhwng staff y cyngor a rheolwyr y cartref. Cafodd yr holl breswylwyr eu hadleoli mewn dull diogel a derbyniol.

Mae'r pandemig wedi amlygu problemau hyfywedd economaidd cartrefi gofal bach ac annibynnol. Mae trafferthion recriwtio a chadw staff, diffyg hyblygrwydd o ran cynllun a chyfleusterau i gyd wedi dangos y gallai fod yna symudiad yn y dyfodol tuag at adeiladau mwy a mwy modern neu rai wedi eu hadeiladu'n bwrpasol lle mae arbedion maint yn rhoi mwy o wytnwch.

Bylchau mewn gwasanaethau / cefnogaeth:

- Staff cefnogi sy'n siarad Cymraeg (yn bennaf yng ngogledd y sir)
- Mentrau cymdeithasol a darparwyr annibynnol sydd wedi eu lleoli yn ne'r sir.
- Ymyriadau tymor byr, sy'n canolbwyntio ar gynnydd gyda chanlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Dewisiadau eraill i wasanaethau traddodiadol (gan gynnwys seibiant a gweithgareddau dydd)
- Mae'r gofrestr anableddau dysgu a data anghenion tai yn dangos nad yw niferoedd yn newid yn sylweddol ond mae cymhlethdod yr angen yn cynyddu.

Yn arolwg y darparwr ar gyfer yr adroddiad hwn, adroddodd darparwyr Sir Ddinbych fod angen deiliadaeth o 85% ar gyfartaledd ar gyfer cynaliadwyedd. 78% yw'r ddeiliadaeth bresennol ar gyfartaledd. Ar adeg yr arolwg roedd yna gyfradd lleoedd gwag o 25% yn Sir Ddinbych, roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol o 20%.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod gwerth meithrin a chefnogi darparwyr o ansawdd da - er enghraifft, yn ystod Covid-19 fe gymrwyd camau i osgoi methiant darparwr yn rhagweithiol. Ar yr un pryd mae pwysau cyllidebol yn golygu na all comisiynwyr bob amser ymateb i geisiadau yn ymwneud â ffioedd yn y modd yr hoffai darparwyr iddynt wneud hynny. Yn gyffredinol mae gennym ni berthynas dda

gyda'r rhan fwyaf o ddarparwyr. Fe all hyn fod yn fwy anodd i'w gynnal pan fo angen i ni leisio pryderon gyda darparwr (e.e. yn ymwneud ag ansawdd neu ddiogelu) a phan fo'r ffi negodi yn cynyddu neu ddatgomisiynu gwasanaeth. Yn ystod y pandemig fe geisiom sicrhau fod darparwyr (er enghraifft gwasanaethau dydd allanol) yn gallu goroesi yn ariannol a hefyd fe fuom yn gweithio'n agos gyda darparwyr i helpu i gadw pobl yn ddiogel ac iach.

Fe wellhaodd y berthynas rhwng darparwyr yn ystod y pandemig ac roedd yna enghreifftiau da o gefnogaeth cymheiriaid a chyfeillgarwch rhwng darparwyr. Un enghraifft dda hirdymor yw Cartref Gofal lleol a arweiniodd ar gymuned o gefnogaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, gyda nifer o ddarparwyr gofal, gofal yn y cartref yn bennaf, yn mynychu - pob un yn rhannu arfer da yn ymwneud ag ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gyda siaradwyr gwadd yn siarad am fentrau newydd yn Sir Ddinbych. Mae perthnasoedd yn y cyfarfod hwn yn gefnogol.

- Yr heriau eraill a nodwyd yw:
- Recriwtio a chadw
- Absenoldeb salwch uchel
- Sicrhau fod digon o leoedd yn yr ardal leol, gallu bodloni lefel angen yr unigolyn tra'n parhau i gefnogi dewis a rheolaeth ac atal derbyn i ysbytai acíwt a chymunedol.
- Diffyg llety seibiant dros dro addas y gellir ei archebu ymlaen llaw - mae gofalwyr di-dâl yn ei chael yn anodd i geisio dod o hyd i gartrefi preswyl/nyrsio sy'n fodlon derbyn pobl am un tro neu ar sail achlysurol, yn arbennig os oes ganddynt anghenion uwch neu eu bod yn arddangos ymddygiad heriol. Fe all hyn fod o ganlyniad i ariannu, staffio neu rywbeth arall. Mae yna fflat seibiant yng Nghorwen ond ni chaiff ei ddefnyddio'n dda yn bennaf oherwydd diffyg argaeledd pecynnau gofal. Nid oes gan staff mewn cartref gerllaw y capasiti i lenwi er nad ydynt yn bell i ffwrdd. Mae llety seibiant i bobl gydag anableddau cymhleth yn gyfyngedig iawn - Alexandra House yn unig. Trafodaethau parhaus gydag Alexandra House a CBS Conwy.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir y Fflint

Mae gan Sir y Fflint sail darparwr amrywiol lle na ddibynnir ar un darparwr ond mae lleoliadau

nyrsio cyfyngedig ac lleoliadau nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM). Mae'r farchnad yn amrywiol gyda chartrefi o faint amrywiol, mewnol ac annibynnol, a gaiff eu rhedeg gan deulu neu fel rhan o sefydliad mwy. Mae'r cyngor yn symud ymlaen gyda chynyddu capasiti mewn darpariaeth breswyl fewnol. Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu yn gweithio'n agos gyda darparwyr ar fynediad a gadael i sicrhau fod y broses yn rhedeg yn llyfn, gan gynnig unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen. Er bod y farchnad yn gadarn a bod gan bob darparwr gynlluniau wrth gefn mewn grym i fynd i'r afael â'r mwyafrif o faterion, mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno amgylchiadau eithriadol ac nid oedd darparwyr wedi cynnwys hyn yn eu cynlluniau. Mae'r rhain ers hynny wedi eu diweddaru.

Nododd adolygiadau busnes diagnostig a gynhaliwyd gyda 18 cartref yn 2017 y materion canlynol yn ymwneud â sefydlogrwydd.

- Roedd gan gartrefi gofal a oedd yn eiddo i grŵp gefnogaeth cefn tŷ a gweinyddiaeth ganolog a ymddangosai fel pe bai'n lleihau pwysau amser a llwyth gwaith o'i gymharu â chartrefi annibynnol llai.
- Ni nodwyd unrhyw wahaniaethu rhwng cleifion preifat a'r rhai a ariannwyd gan yr awdurdod lleol ond roedd darparwyr yn gofyn am ffioedd atodol gan awdurdodau lleol o ganlyniad i bwysau ariannol.
- Recriwtio a chadw: yn cael ei effeithio gan faint y cartref a'r ffordd y caiff ei reoli, mae'n helpu i fod ar y prif lwybr bws, rhai pryderon am ddelwedd y sectorau, cyflogau a chystadlu gyda'r GIG am staff.
- Mae'r cyfraddau salwch ac absenoldeb yn uwch ac mae polisïau mewn grym. Achos mwyaf cyffredin absenoldeb yw salwch a dolur rhydd.
- Mae nifer o gartrefi mewn adeiladau hŷn gydag effeithlonrwydd ynni gwael ac mae'n anodd eu haddasu. Roedd yna fwy o ofod i ehangu a gwell gofod y tu allan mewn cartrefi gwledig, ond mae'r rhain hefyd yn llai cyfleus i'w cyrraedd. Roedd costau gwresogi yn bryder mawr ac awgrymodd rhai cartrefi y byddai polisi caffael ar y cyd o bosibl yn helpu i roi gwell grym gwario iddynt. Byddai cartrefi yn gwerthfawrogi cyngor ar bolisi gwastraff hefyd.
- Nid oedd ganddynt safbwynt clir ar yr isafswm o breswylwyr sydd eu hangen i wneud cartref yn hyfyw, ond roeddent yn ymwybodol o p'run ai a oeddent yn colli arian neu beidio.

- Gwerthfawrogiad o grant diweddar ar gyfer prynu ased ac argymhelliad ar gyfer llyfrgell asedau lle gellir benthyg offer drud, a ddefnyddir yn achlysurol yn hytrach na'i brynu yn gyfan gwbl.
- Mae cyllid yn heriol ac yn golygu fod angen ychwanegu at ffioedd awdurdod lleol a chyfran o gleifion preifat i oroesi. Mae'r cynnydd yn y cyflog byw, gostyngiad cyffredinol yng nghyfraddau diweithdra, cynnydd mewn cyflogaeth ac effaith anhysbys Brexit yn awgrymu y bydd y gronfa o ymgeiswyr yn mynd yn llai. Mae maint yr elw yn dynn a bydd unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn ogystal â chynnydd mewn costau cyffredinol eraill fel cyfraddau busnes, costau tanwydd a chostau bwyd yn cael effaith ar gynaliadwyedd hirdymor y sector.

Ers y pandemig mae'r farchnad wedi dod yn hynod o ansefydlog o ganlyniad i:

- Gartrefi preswyl a nyrsio yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.
- Gartrefi preswyl a nyrsio yn cael eu cymryd drosodd gan arwain at ansefydlogrwydd a newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau
- Diffyg staff gan fod rhai yn ymddeol neu'n gadael y busnes.
- Nifer isel o leoliadau nyrsio a dim darparwyr gyda lleoliadau agored i sicrhau sefydlogrwydd y lleoliad.
- Diffyg cyllid i geisio cynorthwyo'r darparwyr mewn cyfnod anodd.
- Cartrefi Gofal yn cau, gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau fel ffactorau ariannol neu ddiffyg staff cymwys.
- Mae recriwtio o fewn y sector Gwasanaethau Cymdeithasol yn bryder parhaus, mae hyn yn cael effaith ar gynaliadwyedd darpariaethau.

Amlygodd trafodaethau gyda'r Unigolion Cyfrifol y materion canlynol:

- Newidiadau cyflym mewn canllawiau
- Cynnydd mewn costau byw
- Y Gronfa Galedi yn lleihau
- Recriwtio a chadw
- Gofalwyr da nad ydynt yn wybodus o ran TG ac nad ydynt yn awyddus i uwchsgilio ac ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar gyfer cofrestru.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Wrecsam

Mae gan holl gartrefi gofal Wrecsam gyflenwyr allanol ac maent ar hyn o bryd yn gwerthuso hyfywedd tymor canolig i dymor hirach y farchnad breswyl breifat ac maent yn ystyried sut y gallent ddarparu datrysiadau gofal tymor byr canolradd yn y tymor canolig i'r tymor hirach gan ei bod yn ymddangos fod gan y farchnad hon rai cyfyngiadau o ran darparu yn y cyd-destun hwn.

Mae'r fethodoleg gosod ffioedd, cyllidebau a diffyg cytundeb yn rhanbarthol ar y Cytundeb Cyn Lleoli sy'n gosod y telerau a'r amodau trosfwaol hefyd yn rhwystro comisiynu gofal preswyl sy'n ymatebol ac yn hyblyg.

Mae'r rhwystrau i fynediad i'r farchnad yn cynnwys cyfleusterau ac eiddo addas a'r costau sy'n rhan o ddatblygu eiddo posibl. Hefyd y farchnad recriwtio sydd eisoes yn anodd/prinder staff mewn cyfleusterau sydd wedi'u sefydlu. Mae syniadau am ffyrdd y gallai'r cyngor lleol gefnogi yn cynnwys cymorth i ganfod eiddo addas, mentrau ariannol, benthyciadau i gynorthwyo gyda sefydlu, cymorth recriwtio posibl. Fe all y diffyg hyblygrwydd mewn fframweithiau rhanbarthol i ailagor fod yn rhwystr hefyd. Fe allai'r cyngor weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i alluogi prosesau cofrestru cyflymach a chodi cyllideb er mwyn ymateb i chwyddiant.

Mae'r holl gontractau yn destun monitro rheolaidd o dan y telerau a'r amodau a dylai hyn godi unrhyw broblemau/materion yn gynnar i alluogi i fesurau ataliol a/neu fesurau brys gael eu rhoi mewn grym i geisio osgoi argyfwng. Y prif ddangosyddion fyddai anawsterau a adroddwyd o ran recriwtio, cadw staff - nifer fawr o unigolion yn gadael, wastad wedi cael anawsterau mewn cadw staff yn y diwydiant yn ei gyfanrwydd, colledion ariannol, dim cronfeydd wrth gefn, o bosibl y llety ddim yn addas ar gyfer y dyfodol a dim arian i wneud newidiadau.
Proses uwchgyfeirio pryderon gan gynnwys ymgysylltu gyda chynghorau comisiynu eraill.

Uwchgyfeirio pryderon

Mae nodi pryderon i'w huwchgyfeirio o fewn cartrefi gofal yn rhan o broses sicrwydd ansawdd y cyngor gyda'r broses yn arwain at welliannau ym mherfformiad ac ansawdd y gwasanaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar staff. Fe all y wybodaeth hon newid yn gyflym ond mae ciplun wedi ei gynnwys isod.

- Ynys Môn: Nid oes darparwyr ar hyn o bryd o dan y broses uwchgyfeirio pryderon (Mai 2022).
- Gwynedd: Un cartref lle mae pryderon wedi eu huwchgyfeirio am resymau yn ymwneud â busnes/rhesymau ariannol. Fel ag ar Fawrth 31 2021, roedd yna dri darparwr yn y broses uwchgyfeirio pryderon, gyda phryderon ar fin cael eu huwchgyfeirio yn ymwneud ag un arall. Fe ellir crynhoi'r rhesymau dros weithredu'r broses uwchgyfeirio pryderon gyda'r pedwar cartref hwn fel rhesymau'n ymwneud ag arweinyddiaeth, rheoli a goruchwylio.
- Conwy: Un darparwr o dan y broses uwchgyfeirio pryderon pan ysgrifennwyd yr adroddiad ac un darparwr arall yn ystod y pandemig. Mae yna berthynas dda rhwng y darparwyr a'r awdurdod lleol ar y cyfan o ran y meysydd o bryder a nodwyd yn gynnar ac a ddatryswyd heb yr angen am weithdrefnau ffurfiol.
- Sir Ddinbych: 2 ddarparwr ar hyn o bryd o dan y broses uwchgyfeirio pryderon (Mai 2022) ond roedd hyd at tua 6 pan oedd y pandemig yn ei anterth. Yn ystod y pandemig polisi Cyngor Sir Ddinbych oedd i ddefnyddio'r broses uwchgyfeirio pryderon pan oedd achosion mewn unrhyw gartref gofal. Roedd hyn yn sicrhau fod yna ymagwedd strwythuredig i gyfarfodydd ac roedd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnwys.
- Sir y Fflint: 5 o gartrefi gofal wedi eu gosod o dan y broses uwchgyfeirio pryderon rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2021. Hysbysiad diffyg cydweithredu/hysbysiad gweithredu brys wedi ei gyhoeddi i 3 cartref gofal rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 (nid yw'n cynnwys 3 darparwr gyda pherchnogion newydd).
- Wrecsam: Tri cartref gofal wedi eu gosod o dan y broses uwchgyfeirio pryderon yn ystod cyfnod yr adroddiad hyd at Fawrth 2021, gyda dau o'r cartrefi hynny wedi cwblhau'r broses o fewn y terfynau amser. Arhosodd un cartref yn y broses wedi ei gefnogi gan gydweithwyr gofal iechyd ac iechyd tan fis Ebrill 2021.

Cartrefi gofal yn cau

Gwersi a ddysgwyd o gartrefi gofal yn cau

Beth weithiodd yn dda

Mae profiad o gartrefi yn cau'n ddiweddar yn amlygu'r canlynol.

- Perthynas waith dda rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru, y cyngor a'r bwrdd iechyd gyda chydweithwyr o Ofal Iechyd Parhaus ac arweinwyr nyrsio cymunedol yn

cael eu cynnwys ochr yn ochr â staff uwch y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion contractau a chomisiynu.

- Cysylltu ag eiriolaeth
- Darparu rhestr o leoedd gwag yn y sector ar hyn o bryd.
- Cydweithwyr iechyd yn gweithio gyda staff gofal cymdeithasol mewn Timau Adnoddau Cymunedol gan greu perthnasoedd cryfach, byrhau'r amser hyd at gyflawni canlyniadau a gwella'r profiad i breswylwyr.
- Staff uwch y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion contractau a chomisiynu yn gweithio'n fwy agos i wella deialog a chydweithio ar draws timau gweithredol a chefnogi busnes.
- Gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws yr holl dimau.
- Cyfathrebu rheolaidd gyda darparwyr
- Pwysigrwydd cychwyn trafodaethau cyn gynted â phosibl i hwyluso cydgynllunio a chydweithio.
- Tîm dynodedig o staff y cyngor i gefnogi pobl gyda'u pacio a chyfrifo ar gyfer eu heiddo, yn ogystal â darparu presenoldeb gan y cyngor yn y cartref.

Heriau

- A allai methiant y darparwr fod wedi ei ragweld, neu wedi ei asesu o ran risg cyn i'r hysbysiad gael ei roi? Anodd rhagweld yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael. Efallai y gallai proses ar y cyd gael ei datblygu yn seiliedig ar brofiadau i arwain sefyllfaoedd yn y dyfodol.
- Sicrhau fod digon o leoedd yn yr ardal leol, gallu bodloni lefel angen yr unigolyn, tra'n parhau i gefnogi dewis a rheolaeth. Hefyd atal derbyn i ysbytai acíwt a chymunedol.
- Rheoli disgwyliadau ac emosiynau staff a phreswylwyr yn ystod y broses.
- Deall perchnogaeth offer - beth sy'n perthyn i'r cartref, y Bwrdd Iechyd, Storfeydd, Llywodraeth Cymru fel cyfarpar diogelu personol (PPE) a sicrhau fod yr offer yn cael ei symud i leoliad newydd gyda'r preswylydd.
- Gweithio gyda thrydydd parti fel gweinyddwyr. Safbwyntiau a chanlyniadau a ddisgwylir yn wahanol, cywirdeb gwybodaeth, dealltwriaeth o bolisi Cymreig.
- Cynnal lefel ddiogel o staff yn y lleoliad sy'n cau.
- Cael mynediad i ffeiliau staff i hwyluso cyflogaeth o ran cyflogwyr newydd.
- Cymhlethdodau darparwr newydd yn dod yn gyfrifol am y cartref fel busnes gweithredol. Yn benodol, os oes yna gyfyngiadau wrth iddynt gofrestru.

Cefnogodd Sir Ddinbych ddarparwyr i ddiweddaru cynlluniau wrth gefn yn ystod y pandemig pan brofwyd anawsterau newydd ac eithriadol. Mae staff Cyngor Sir Ddinbych wedi gweithio ochr yn ochr â darparwyr pan fo staff wedi bod yn amhosibl i'w gael fel arall. Wedi dod â darparwyr ynghyd i feithrin gwell perthnasoedd a rhannu arfer orau, er enghraifft, yn ymwneud â rheoli haint. Nid yw ymweliadau monitro yn ôl yn llawn eto ers y pandemig, ond ymwelwyd â'r holl gartrefi gyda risgiau posibl ac roedd mesurau dros dro yn cynnwys galwadau ffôn. Mae cyfarfodydd ymgysylltu â darparwyr nawr yn fisol, ond ychydig sy'n eu mynychu.

Mae Sir y Fflint hefyd wedi canfod fod symud oddi wrth ymweliadau monitro systematig blynyddol tuag at ymagwedd datblygu ymarfer wedi helpu i ddatblygu perthnasoedd adeiladol a phroffesiynol effeithiol gyda darparwyr, sydd wedi bod yn hanfodol er mwyn eu galluogi i ymdrin â heriau'r pandemig gyda'i gilydd.

Adborth gan breswylwyr cartrefi gofal

Mae gan bob sir systemau mewn grym i ymgynghori ac ymgysylltu gyda phreswylwyr cartrefi gofal. Mae crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd isod.

- Adborth cadarnhaol, yn canolbwyntio'n benodol ar staff yn darparu cymorth. Cawsant eu disgrifio fel rhai gofalgar iawn, oedd ag amser i bobl ac yn cefnogi gyda holl agweddau gofal personol ac anghenion cysylltiedig. Cafodd rheolwyr a staff swyddfa eu crybwyll hefyd o ran ei bod yn hawdd mynd atynt a'u bod yn datrys problemau wedi iddynt gyrraedd. Dywedodd pawb hefyd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr adeiladau.
- Codwyd rhai materion gan unigolion, ddim yn aml ond roeddent yn bwysig, gan gynnwys hyfforddiant a nodiadau atgoffa i staff yn ymwneud â materion fel cnocio ac aros wrth ddrysau, y defnydd o ffonau symudol a sut y mae eu hymagwedd tuag at denantiaid yn bwysig. Er enghraifft peidio â brysio, eu trin fel oedolion.

Adborth gan ddarparwyr

- Dinasyddion yn profi dirywiad cyflym neu ddigwyddiadau sy'n newid bywyd fel strôc ac yna colli galluedd meddyliol gydag arian. Yn aml nid oes unrhyw Atwrneiaeth Oes mewn grym. Fe allai fod o gymorth i hyrwyddo Atwrneiaeth Oes yn fwy ac fe allai hyn leihau rhestr aros dirprwyaeth y cyngor a'r llwyth gwaith.
- Mae cludiant yn broblem fawr i bobl hŷn, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig. Mae gwasanaethau bws

yn gyfyngedig iawn, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, ac yn aml nid yw cludiant cyhoeddus yn gwbl hygyrch neu'n gyfeillgar i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae Deialu a Theithio yn rhagorol ond dim ond yng ngogledd y sir y mae'n weithredol ac nid yw'n rhad. Mae tacsis yn ddrud ac nid ydynt bob amser ar gael neu'n hygyrch. Roedd angen ffôn symudol i archebu lle ar y bws Fflecsi newydd - mae hyn nawr wedi ei ddiwygio.

- Mae'r capasiti o ran y Gymraeg yn broblem.
- Pwysau yn ymwneud â recriwtio a chadw gyda staff yn gadael y sector yn dilyn straen Covid a gallu'r sector i dalu cyflog cystadleuol (o'i gymharu â sectorau eraill fel manwerthu). Gofynion rheoliadol. Diffyg sgiliau yn ymwneud ag ysgrifennu cynigion a deall gofynion y broses dendr.

Effaith y prosesau comisiynu ar y farchnad

Mae gan bob cyngor systemau mewn grym i gefnogi a chydgysylltu gyda darparwyr, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau gyda darparwyr a chefnogaeth gydag hyfforddiant ac adnoddau. Mae enghreifftiau yn cynnwys Rhaglen 'Cynnydd i Ddarparwyr' mewn Cartrefi Gofal yn Sir y Fflint sy'n adnodd hunan-asesu i reolwyr ei ddefnyddio gyda'u staff i wirio sut maent yn dod ymlaen o ran darparu cefnogaeth bersonol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Byw â Chymorth

Fe weithiodd comisiynwyr Gogledd Cymru o'r chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd gyda'i gilydd i ddatblygu Fframwaith Byw â Chymorth a aeth yn fyw ar 1 Ebrill 2020. Mae nifer o ddarparwyr gwasanaeth eisoes wedi eu derbyn i'r cytundeb fframwaith yn dilyn y gwiriadau diwydrwydd dyladwy ac ansawdd gofynnol. Mae hyn yn galluogi comisiynwyr i gomisiynu gwasanaethau gan fabwysiadu'r cytundeb fframwaith a all symleiddio prosesau tra'n parhau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Rheolau Gweithdrefn Gontractau yr awdurdod lleol.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych 41 o gontractau byw â chymorth sydd i ddod i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae'r rhain wedi bod mewn grym ers sawl blwyddyn ac maent wedi eu hymestyn nifer o weithiau gyda bwriad i ail dendro. Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd yn ymwneud â sut fyddai orau i ail dendro. Y pryder yw y gallai ail-dendro gael effaith a fyddai'n dadsefydlogi'r farchnad leol gan ddwysáu problemau cyfredol o ran cadw staff a chreu risg fod darparwyr yn rhoi contractau cyfredol yn ôl

yn hytrach na chynnig am fwy. Mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â pha ddull i'w fabwysiadu.

Y Gymraeg

Mae tua 24% o staff gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru yn gallu cyfathrebu yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018b) (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018). Ar draws Gogledd Cymru mae 20% o reolwyr cartrefi gofal cofrestredig yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae'r ganran uchaf yng Ngwynedd lle mae 57% o siaradwyr Cymraeg rhugl.

Nododd ymgysylltu yn Sir Ddinbych fod derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn flaenoriaeth uchel yn ardal Dinbych ac nad oes digon o ofal yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ne'r sir. Mae gan nifer o staff rai sgiliau o ran y Gymraeg ond mae yna ddiffyg hyder ac felly mae prosiect mewnol yn edrych ar ffyrdd o wella hyn. Nododd arolwg o gartref gofal Cysgod y Gaer yng Nghorwen ym Mawrth 2022 fod y gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Gweithredol' o ran y Gymraeg a'i fod yn rhagweld, nodi ac yn bodloni anghenion y bobl leol sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio o ran y Gymraeg a'u hanghenion diwylliannol .

Gwerth cymdeithasol a gwasanaethau ataliol

Mae'r cysyniad o werth cymdeithasol yn cynnwys y canlynol.

- Y gwerth a brofir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan ddarparu 'beth sy'n bwysig' a chyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda phobl sy'n eu defnyddio.
- Y gwerth cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd ychwanegol y gall contract ei ddarparu sydd y tu hwnt i'r gofynion craidd.
- Y ddyletswydd sydd gan gynghorau lleol i hyrwyddo gofal cymdeithasol a gwasanaethau ataliol a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan y defnyddiwr, a'r trydydd sector (Llywodraeth Cymru, 2014).
- Mae Canolfan Cydweithredol Cymru (2021) wedi llunio canllawiau i godi ymwybyddiaeth o fodelau menter gymdeithasol a menter gydweithredol posibl yn y sector cartrefi gofal.

Rydym eisiau hyrwyddo ‘modelau cyflenwi gwerth cymdeithasol’ sy’n:

- Cyflawni canlyniadau lles.
- Gweithio yn gydgynhyrchiol - gan roi llais cryf a gwir reolaeth i ddefnyddwyr.
- Bod â gogwydd ataliol a lleihau dibyniaeth.
- Ymgorffori cydweithio, cydweithrediad a phartneriaeth.
- Ychwanegu gwerth - cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Yn ogystal ag i hyrwyddo gweithgareddau sy’n cynnal neu’n cryfhau lles gofalwyr di-dâl a chapasiti cymunedol tu hwnt i’r farchnad - heb hynny ni all y farchnad fod yn sefydlog.

Mae pob sir yn cefnogi ystod o wasanaethau ataliol a all helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac osgoi’r angen am ofal preswyl neu nyrsio. Mae hyn yn cynnwys prosiectau rhanbarthol a gaiff eu hariannu drwy’r Gronfa Gofal Integredig gan gynnwys prosiectau atal cwympiadau a gofal cam i fyny/cam i lawr. Mae ‘cam i fyny’ yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o’r cartref/lleoliadau cymunedol i atal derbyniadau ysbyty acíwt diangen neu dderbyniadau cynamserol i ofal hirdymor. Mae ‘cam i lawr’ yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o ofal acíwt ar gyfer adfer ac i gefnogi rhyddhau amserol o’r ysbyty.

Mae prosiectau yn cynnwys asiantwyr cymunedol, llyw-wyr a phrosiectau presgripsiynu cymdeithasol sy’n cysylltu pobl gyda’r gefnogaeth a’r gweithgareddau sydd ar gael yn eu cymuned leol. Maent hefyd yn cynnwys gwasanaethau cyfeillio, eiriolaeth a seibiant.

Mae’r prosiectau Gofal Micro ac Catalyddion Cymunedol yn darparu cefnogaeth i ficro ddarparwyr i fynd i mewn i’r marchnadoedd gofal. Caiff taliadau uniongyrchol eu defnyddio i helpu pobl i gael mynediad i ofal personol a byw mor annibynnol â phosibl.

Mae yna ragor o wybodaeth am y gwasanaethau ataliol sydd ar gael yng Ngogledd Cymru yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Y Gweithlu

Mae’r tabl isod yn dangos nifer y rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig oedd yng Ngogledd Cymru ar 1 Ebrill 2020. Mae dadansoddiad o’r data yn dangos:

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe adawodd 46 o reolwyr y gofrestr ac fe ymunodd 31, trosiant o 14%.
- Mae'r gymhareb merched i ddynion yn 6:1 ac mae 230 dros 51 oed.
- Mae gan tua thraean o reolwyr cofrestredig ychydig o sgiliau o ran y Gymraeg ac mae 20% yn rhugl.

Tabl 6: Nifer y rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig, 31 Mawrth 2020

Cyngor lleol	Rheolwyr cartrefi gofal
Ynys Môn	30
Gwynedd	61
Conwy	67
Sir Ddinbych	66
Sir y Fflint	39
Wrecsam	47
Gogledd Cymru	310

Ffynhonnell: Gofal Cymdeithasol Cymru, rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig

Nododd arolwg rhanbarthol a luniwyd ar gyfer Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad fod 1 o bob 5 swydd gweithiwr gofal yn wag ar draws y rhanbarth, gan gynnwys swyddi uwch weithwyr gofal a gweithwyr gofal.

Ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mae yna rai pryderon fod gan fwy o gartrefi yn cynnig gofal preswyl a gofal preswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) i'll dau heb o reidrwydd ddarparu cyfleusterau ar wahân ar gyfer preswylwyr gwahanol ac o bosibl heb fod â setiau sgiliau a threfniadau mewn grym.

Mae yna gynnydd mewn anghenion hyfforddi o ganlyniad i'r diffyg hyfforddiant oedd ar gael ac yn cael ei gynnig yn ystod y pandemig, sy'n cynnwys hyfforddiant sylfaenol fel hyfforddiant sefydlu a chodi a symud yn gorfforol.

Mae yna rai pryderon y gallai staff fod wedi symud oddi wrth yr ethos ailalluogi o ganlyniad i bwysau yn ystod y pandemig. Er enghraifft, unigolion wedi eu datgyflyru

o ganlyniad i ddiffyg gweithgarwch a staff ddim yn hyrwyddo ffurfiau syml o annibyniaeth, fel mynd i'r toiled heb gymorth.

Dywed awdurdodau lleol ei bod yn dod yn fwy anodd recriwtio rheolwyr cartrefi gofal. Hwyrach y bydd gan ddulliau eraill megis 'Tyfu Eich Hun' y potensial i greu'r amodau ar gyfer datblygu gweithlu cynaliadwy.

4. Gwasanaethau gofal cartref

Trosolwg o’r boblogaeth

Amcangyfrifir y bydd y nifer o bobl 65 oed a hŷn sy’n cael anawsterau gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd yn cynyddu 25% erbyn 2040.

Bydd mwy o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain

Gall cyfansoddiad aelwydydd effeithio hefyd ar y galw am wasanaethau i gefnogi annibyniaeth. Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod 44,000 o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain, sy’n 59% o’r holl aelwydydd 65 oed a hŷn. Canfu ymchwil gan Gyngor Gwynedd bod perthynas gref rhwng y nifer o bobl 65 oed a hŷn sy’n byw ar eu pen eu hunain a nifer y cleientiaid sy’n derbyn pecyn gofal cartref mewn ardal (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Ar ben hynny, mae gan tua 28% o bobl yng Nghymru incwm mor isel fel nad ydynt yn cyfrannu at gost eu gofal cartref (AGGCC, 2016). Rhagwelir bod gan 30% o bobl ddigon o gyfalaf i ariannu eu gofal eu hunain, yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal (AGGCC, 2016)

Tabl 7: Nifer y bobl 65 a hŷn y rhagwelir eu bod yn cael anhawster gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd

Cyngor lleol	nifer 2020	canran 2020	nifer 2040	canran 2040	Newid yn y nifer	Newid yn y ganran
Ynys Môn	5,100	27%	6,550	29%	1,500	23%
Gwynedd	8,000	28%	10,050	29%	2,050	20%
Conwy	9,450	29%	13,050	30%	3,600	27%
Sir Ddinbych	6,450	27%	8,800	29%	2,400	27%
Sir y Fflint	9,150	27%	12,350	29%	3,250	26%
Wrecsam	7,550	27%	10,000	29%	2,450	24%
Gogledd Cymru	45,700	28%	60,900	29%	15,150	25%
Cymru	185,300	28%	248,900	29%	63,600	26%

Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu felly mae’n bosibl na fyddant yn cyfansymio

Ffynhonnell: Daffodil, Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a rhagolygon y boblogaeth yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

Digonolrwydd y farchnad

Trosolwg o'r farchnad

Mae nifer yr oriau cyfartalog o ofal cartref fesul wythnos a gomisiynir gan bob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

Tabl 8: Oriau gofal cartref cyfartalog a gomisiynir gan yr awdurdod lleol/bwrdd iechyd fesul wythnos

Sir	Person hŷn	Anabledd dysgu	Iechyd meddwl person hŷn	Anabledd corfforol	Cyfanswm
Ynys Môn	3644	390		582	3,643
Gwynedd					11,144
Conwy	8024	5523	382		13930
Sir Ddinbych	-	-	-	-	5150
Sir y Fflint (a, b)	6,047	913	22	1,160	8,142
Wrecsam	559	638	1196	955	8388
Gogledd Cymru					44558

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Cymorth lle bo'r angen (nid mewn llety tai â chymorth)
(b) Iechyd meddwl person hŷn – sector annibynnol, ond darperir y mwyafrif o'r cymorth gan dîm iechyd meddwl mewnol)
(c) Learning disability floating support (not in supported living accommodation)
(d) Older person mental health - independent sector, but majority of support provided by in house mental health team

Yn nhermau cydbwysedd y farchnad, ar gyfartaledd mae mwy na 70% o'r farchnad gofal cartref yng Nghymru yn cynnwys darparwyr y sector annibynnol gyda'r gweddill yn gymysgedd o ddarparwyr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae gan Wynedd 44% o ofal cartref sy'n cael ei ddarparu'n fewnol ar hyn o bryd a 56% drwy'r sector annibynnol, ond yn Sir y Fflint mae'r awdurdod lleol yn darparu tua 10% o'r ddarpariaeth gofal cartref ar hyn o bryd.

Tabl 9: Canran amcangyfrifedig y farchnad o'r sector gofal cartref yn ôl math

Sir	Mewnol	Sector annibynnol
Ynys Môn (a)	18.5	81.5
Gwynedd	44	56.0
Conwy	9.7	90.3
Sir Ddinbych	10	90.0
Sir y Fflint	10.5	89.5
Wrecsam	3	97

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Dylai fod yn ddarparwr mewnol/allanol (sector annibynnol a thrydydd sector) wedi'i rannu'n 30/70%

Tabl 10: Nifer y darparwyr sy'n gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol

Sir	Nifer y darparwyr
Ynys Môn	1
Gwynedd	1
Conwy	3
Sir Ddinbych	6
Sir y Fflint	6
Wrecsam	4
Rhanbarthol (a)	52

Ffynhonnell: Rhwydwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru
(a) Mae'r darparwyr a nodwyd ar gyfer pob sir yn ddarparwyr sydd ond yn darparu gwasanaethau yn y sir honno. Darparwyr rhanbarthol yw'r rhai sy'n gweithio mewn mwy nac un sir yng Ngogledd Cymru.

Tabl 11: Cyfradd gyfartalog fesul awr gofal cartref yn ôl grŵp poblogaeth (£)

Sir	Person hŷn	Anabledd dysgu	Iechyd meddwl pobl hŷn	Anabledd corfforol
Ynys Môn	17.83	16.04	17.83	17.83
Gwynedd	19.13	19.13	19.13	19.13
Conwy (a)	20.60	20.60	20.60	20.60
Sir Ddinbych (a)	19.53	19.53	19.53	19.53
Sir y Fflint (b, c)	18.67	16.84	-	18.67
Wrecsam	20.33	16.90	20.58	20.28

Ffynhonnell: data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Y gyfradd gyfartalog ar draws pob grŵp o'r boblogaeth
(b) Byw â chymorth
(c) Mae'r mwyafrif o ofal iechyd meddwl pobl hŷn yn cael ei gefnogi'n fewnol, ni ddarparwyd cyfartaledd.

Trosolwg o'r farchnad ranbarthol

Mae gofal cartref yn farchnad flaenoriaeth a nodwyd gan gomisiynwyr, ac nid yw darparwyr presennol y sector preifat yn gallu cyflawni'r galw am swm sylweddol o amser yn awr. O ganlyniad i hyn, mae twf a datblygiad gwasanaethau, gan gynnwys gofal cartref cyffredinol (sy'n cynnwys gofal cartref, ail-alluogi, byw yn y gymuned ac adferiad) wedi'u nodi fel cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Trosolwg o'r farchnad ar Ynys Môn

Ar Ynys Môn, mae'r galw yn uwch na'r cyflenwad ar hyn o bryd (Mawrth 2022) oherwydd prinder staff yn y darparwyr gofal cartref.

Trosolwg o'r farchnad yng Ngwynedd

Yng Ngwynedd, ni fu digon o ofal cartref i gyflawni'r angen ar draws Gwynedd, yn arbennig yn ardal Eifionydd a Phwllheli ar hyn o bryd.

Yng Ngwynedd, mae diffyg argaeledd gofal cartref ar hyn o bryd, ac mae natur y trefniadau presennol yn golygu y gall darparwyr wrthod rhoi gofal, neu ddychwelyd

pecynnau. Gall argyfyngau mynych ddigwydd, lle mae darparwyr yn adrodd nad ydynt yn gallu darparu gofal mwyach o ganlyniad i broblemau staffio.

Ar hyn o bryd, nid oes llawer o ddewis i bobl yn y maes. Mae sicrhau unrhyw ofal yn her, heb sôn am gael dewis. Gall pobl ddewis derbyn Taliadau Uniongyrchol i drefnu eu gofal eu hunain, ond nid yw'n hawdd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal. Mae prosiect gyda 'Catalyddion Cymunedol' wedi dechrau, i annog pobl i sefydlu cwmni bychan i ddarparu gofal, gyda'r gobaith y bydd hyn yn gwella'r sefyllfa.

Trosolwg o'r farchnad yng Nghonwy

Mae nifer y bobl sy'n derbyn pecynnau gofal cartref yng Nghonwy wedi lleihau yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, fel y dangosir yn y tabl isod.

Bu rhai rhesymau sylfaenol am hyn, effaith COVID a gweithwyr gofal yn gadael y sector ac nid yw'r sector yn gallu recriwtio staff newydd.

Fel y gellir gweld, yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r nifer o ddinasyddion sy'n derbyn gofal cartref wedi lleihau'n ddramatig ac mae tystiolaeth gan ddarparwyr yn dangos mai diffyg gofal cartref sy'n gyfrifol am hyn. Yn y cyfnod o fis Mai i fis Tachwedd 2021 mae tua 950 awr o becynnau gofal cartref wedi'u dychwelyd am na allai asiantaethau'r sector preifat gyflawni'r galw.

Tabl 12: Nifer y bobl sy'n derbyn pecynnau gofal cartref yng Nghonwy

Blwyddyn	Cyfanswm y cleientiaid
2017/18	898
2018/19	818
2019/20	799
2021/22	717

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

O'r wythnos hon, 2 Ebrill 2022, mae 698 o becynnau yn cael eu darparu i bobl hŷn ar draws Conwy.

Mae’r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer y pecynnau ac oriau sy’n cael eu cyflawni, wythnos 2 Ebrill 2022. Dangosir yr ardaloedd yn y tabl hwn fel ardaloedd y Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC).

Tabl 13: Cyfanswm nifer y pecynnau a’r oriau gofal cartref sy’n cael eu darparu yng Nghonwy (Ebrill 2022)

Ardal TAC	Pecynnau	Oriau	Oriau cyfartalog fesul pecyn
Abergele	146	1,709	11.7
Colwyn	206	2,251	10.9
Llandudno	172	2,217	12.9
Arfordirol	91	1,166	9.0
Gwledig	83	747	9.0
Cyfanswm	698	8,091	11.6

Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu felly mae’n bosibl na fyddant yn cyfansymio
Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Gellir gweld mai’r ardal TAC Colwyn sydd â’r nifer fwyaf o becynnau a’r ardal Wledig sydd â’r nifer leiaf. Mae’n ddiddorol gweld hefyd nad ardaloedd Llandudno ac Arfordirol sydd â’r nifer fwyaf ond bod yr oriau cyfartalog fesul pecyn uwch nac mewn unrhyw ardal arall, mae’n debyg mai oedran cyfartalog y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn sy’n gyfrifol am hyn a’r ffaith bod angen pecynnau cymorth mwy dwys arnynt.

Trosolwg o’r farchnad yn Sir Ddinbych

Roedd 585 o bobl yn derbyn gofal cartref yn Sir Ddinbych yn ystod 2020-21. Mae’r nifer hwn wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Tabl 14: Demograffeg y bobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir Ddinbych

Grŵp oedran	Canran y Ddarpariaeth
18-24	1%
25-64	19%
65-74	11%
75-84	24%
85+	45%

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Nid oes gan Sir Ddinbych ddigon o ddarparwyr i roi dewis gwirioneddol i bobl neu i roi elfen o gystadleuaeth yn y farchnad. Nid yw comisiynwyr wedi llwyddo i gyflawni'r galw ac nid ydynt wedi gallu darparu gofal cartref ar gyfer pob cais. Er enghraifft, ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd 116 o bobl yn aros am becynnau gofal cartref, yr oedd 26 ohonynt yn derbyn cymorth dros dro. Swyddogaeth y Tîm Cymorth Dros Dro yw darparu gofal cartref a chymorth am gyfnod byr o amser tra bydd y pecynnau gofal yn cael eu sicrhau drwy'r sector darparwyr. Mae heriau penodol yn bodoli yn ne'r sir oherwydd nifer fach iawn o ddarpariaeth annibynnol sydd ar gael. Dim ond yn y de y mae ein tîm mewnol yn gweithio ac mae eu hymyrraeth yn aml yn datblygu i fod yn hirdymor oherwydd diffyg darpariaeth amgen. Ar ben hynny, mae'r timau ail-alluogi, yn y gogledd a'r de, yn canfod eu bod yn derbyn pecynnau gofal brys yn rheolaidd ac mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar ein gallu i gynnig gwasanaethau ail-alluogi.

Mae'r ystod o anghenion gofal yn eang ac mae'n cynnwys:

- bregusrwydd o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran
- anableddau corfforol
- anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth
- namau synhwyraidd
- salwch cronig
- cyflyrau iechyd hirdymor
- dementia
- iechyd meddwl, gan gynnwys iselder, gorbryder
- camddefnyddio sylweddau

- gofal lliniarol

Rydym yn gweithio gyda'r Catalyddion Cymunedol i sicrhau bod trigolion Sir Ddinbych yn gallu cael mynediad at y math o ofal a chymorth sy'n eu gweddu orau. Yn ychwanegol, ma Catalyddion Cymunedol yn cefnogi dinasyddion sy'n dymuno derbyn cymorth i'w dderbyn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw hwy.

Catalyddion Cymunedol

Mae Catalyddion Cymunedol yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio ar hyd a lled y DU i geisio gwneud yn siŵr bod pobl sydd angen gofal a chymorth i fyw eu bywydau yn gallu cael y cymorth hwnnw mewn ffyrdd, ar adegau ac mewn lleoedd sy'n addas iddyn nhw, gyda dewis gwirioneddol o opsiynau lleol deniadol. Maent yn helpu pobl ar draws y DU i ddefnyddio eu hegni a'u talentau i sefydlu 'micro-fentrau cymunedol'. Mae micro-fentrau cymunedol yn fusnesau neu'n fentrau bach iawn neu'n grwpiau sy'n gallu cynnig cymorth gyda gofal neu iechyd neu lesiant pobl leol yn eu hardal.

Mae gan Gatalyddion Cymunedol lawer o brofiad ac arbenigedd a gallant gynnig cyngor ac arweiniad arbenigol i bobl sy'n dymuno dechrau menter gofal newydd, er mwyn iddynt allu gwneud hyn yn ddiogel a llwyddiannus.

Yn Sir Ddinbych, mae Catalyddion Cymunedol wedi'u comisiynu gan y Cyngor i ddefnyddio ei arbenigedd i helpu i fynd i'r afael â heriau gofal cymdeithasol.

Symud gydag Urddas / Gofal Addas

Ers blynyddoedd lawer, mae wedi bod yn arfer sefydledig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sydd angen cael eu codi, neu ofalu amdanynt yn y gwely, i gael pecyn gofal gyda dau o bobl er mwyn cynorthwyo a chyflawni'r gofal.

Nid yw'n hysbys lle neu sut y sefydlodd yr arfer hwn, ond gydag arloesedd offer symud a thrin a symud i ddull gofalu a chefnogi sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, mae'r gofyniad hwn yn cael ei gwestiynu a'i herio'n gynyddol.

Amcangyfrifir y gallai o leiaf 37% o ddinasyddion Sir Ddinbych dderbyn cymorth gan un gofalwr (yn hytrach na dau) gyda'r manteision ychwanegol o gynnal urddas a chyfforddusrwydd gyda'r hyblygrwydd uwch sy'n gysylltiedig â darparu dim ond un gofalwr. Mae offer symud a chodi mwy arbenigol yn cael eu cynllunio a'u gweithgynhyrchu er mwyn hwyluso gofal gan un person sy'n galluogi i anghenion gofal ein Dinasyddion gael eu cyflawni gyda'r lefel isaf o gymorth ac ymyrraeth.

Mae Sir Ddinbych wedi bod yn hyrwyddo'r ffordd hon o weithio ar draws gofal Iechyd a Chymdeithasol a hyfforddi staff er mwyn iddynt fod yn fwy cyfarwydd ag offer arbenigol symud a chodi a'u bod felly'n teimlo'n fwy hyderus i gefnogi ein Dinasyddion i gael eu hanghenion gofal wedi'u cyflawni gyda'r lefel isaf o ymyrraeth.

Mae'r prosiect Symud gydag Urddas yn ymgorffori hyrwyddo annibyniaeth a thechnegau codi a symud priodol ar gyfer darparu gofal. Gan ddefnyddio caredigrwydd a dull ysgafn a thosturiol mae'n cynnwys edrych ar y nifer o ofalwyr sydd eu hangen i roi sylw i anghenion person, wrth gael eu codi, eu trosglwyddo neu eu symud gan ddefnyddio technegau ac eitemau o offer penodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd 5 sesiwn gyda Therapyddion Galwedigaethol i ddiweddaru sgiliau defnyddio systemau rheoli gwelyau. O ganlyniad, mae'r system rheoli gwelyau Nordig yn stoc graidd erbyn hyn a gellir eu harchebu'n uniongyrchol gan ein Gwasanaeth Offer Cymunedol sydd wedi golygu llai o oedi rhwng yr asesiad cychwynnol a darparu gwelyau i ddinasyddion.

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ffurfiol gyda 22 aelod o staff gofal o'n tîm mewnol Annibyniaeth yn y Cartref. Yn dilyn ymlaen o'r hyfforddiant, mae'r tîm yn gweithio i sicrhau yn awr bod pecynnau gofal ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu hystyried o fewn ethos Symud gydag Urddas cyn trosglwyddo gofal i ddarparwyr gofal cartref allanol.

Cyflwynwyd prosiect peilot gydag un asiantaeth Gofal Cartref, lle bydd y Rheolwr a'r hyfforddwr Symud a Chodi yn derbyn sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth i drafod ethos Symud gydag Urddas, y maent yn ei gyflwyno yn awr gyda'u tîm gofal. Y nod yw, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, y gwneir gwaith i adolygu'r pecynnau gofal gan ddau berson.

Cwblhaodd arweinydd ein prosiect Symud gydag Urddas sesiwn hyfforddiant gyda hyfforddwyr Symud a Chodi bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBP) i drafod gofal gan un person.

Mae Tîm Ar Ffiniau Gofal newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn cyd-fynd â'n gweledigaeth strategol ar gyfer dull mwy modern ac effeithiol o ddarparu cymorth gofal cymdeithasol sy'n atgyfnerthu gwytnwch unigol a chymunedol. Mae'r tîm Ar Ffiniau Gofal yn unigryw yn y ffaith ei fod yn seiliedig yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac mae'n recriwtio, yn hyfforddi ac yn adleoli Gwirfoddolwyr.

Mae'r Rheolwr yn Weithiwr Cymdeithasol cymwys ac yn fentor sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau. Mae dau Gydgysylltydd Ar Ffiniau Gofal yn cynorthwyo'r Rheolwr i gyflawni'r prosiect.

Mae'r Tîm wedi dangos sut y gall y prosiect gael effaith gadarnhaol ar lwybrau gofal cynlluniedig, yn cefnogi dinasyddion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, gweithio'n agos gyda'n Timau Adnoddau Cymunedol i gyflawni dull gweithredu 'tîm o amgylch yr unigolyn', lleihau'r galw am ofal cynlluniedig traddodiadol. Er enghraifft; mae gennym wirfoddolwyr sy'n darparu gofal seibiant i ofalwyr, ac rydym yn paru'r 'rhai sy'n derbyn gofal a gwirfoddolwyr' yn ofalus a bwriadol, ac mae hyn wedi creu profiad ystyrlon a phleserus i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn y gofal. Mae gennym enghreifftiau pan fydd dinasyddion wedi parhau 'ar ffiniau' gofal cynlluniedig a gofal heb ei gynllunio, er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl, lleoliadau Gofal Cartref a gofal cartref traddodiadol, gan alluogi dinasyddion i aros yn y gymuned.

Trosolwg o'r farchnad yn Sir y Fflint

O ran demograffeg y bobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir y Fflint, y grwp mwyaf yw pobl 85 oed a hŷn, gweler y tabl isod.

Tabl 15: Demograffeg pobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir y Fflint

Grŵp oedran	Canran y ddarpariaeth
18 i 24	1%
25 i 64	17%
65 i 74	12%
75 i 84	27%
85 a hŷn	43%

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

O'r rhai o dan 65 oed, mae cyfran debyg o bobl yn derbyn cymorth ar gyfer anabledd dysgu â'r gyfran â nam corfforol neu synhwyraidd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd y newidiadau i'r boblogaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf yn cael effaith ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth. Gallai'r cynnydd hwn yn y nifer o bobl sy'n byw yn y gymuned sydd â dementia ac anghenion cymhleth gynyddu'r galw am wasanaethau gofal cartref, yn arbennig 'pecynnau gofal staffio

dwbl'. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r awdurdod ei ystyried er mwyn parhau i gefnogi unigolion i fyw yn eu cartrefi am gyfnod hwy.

Mae Gwasanaeth Cymorth Cymunedol Mewnol Sir y Fflint yn darparu gofal a chymorth i oedolion ag angen wedi'i asesu yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth wedi'i rannu'n dair ardal ddaearyddol ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy dîm o staff gofal sy'n gweithio ar draws Sir y Fflint. Mae'r tair ardal hyn yn atgynhyrchu'r gwaith cymdeithasol a'r timau iechyd yn lleol ac mae hyn yn cynorthwyo gyda pharhad gofal a datblygu perthnasoedd gwaith ar draws gwahanol broffesiynau. Y tair ardal yw:

- Ardal y Gogledd-ddwyrain – ardal Glannau Dyfrdwy
- Ardal y De – ardaloedd Yr Wyddgrug / Bwcle
- Ardal y Gogledd-orllewin – ardaloedd Treffynnon / Y Fflint

Mae ethos y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn un o ail-alluogi a chefnogi pobl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn darparu gwasanaethau i bobl 18 oed a hŷn yr aseswyd bod ganddynt angen gofal cymdeithasol ac sy'n byw yn Sir y Fflint. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn darparu cymorth ar gyfer ystod o anghenion iechyd a gofal, gan gynnwys:
Mae'r ystod o anghenion gofal yn eang ac mae'n cynnwys:

- bregusrwydd o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran
- anableddau corfforol
- anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth
- namau synhwyraidd
- salwch cronig
- cyflyrau iechyd hirdymor
- dementia
- iechyd meddwl, gan gynnwys iselder, gorbryder
- camddefnyddio sylweddau
- gofal lliniarol

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn cefnogi pobl drwy dri model/dull gweithredu gofal a chymorth gwahanol, sy'n amrywio yn ôl yr unigolyn a beth sy'n bwysig iddynt hwy.

Ail-alluogi – cynlluniwyd hyn i gynorthwyo pobl i adennill, gwella a chynnal eu sgiliau byw o ddydd i ddydd a sicrhau'r lefel uchaf o annibyniaeth wrth iddynt barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Gwasanaeth tymor byr yw hwn y gellir ei ddarparu am hyd at chwe wythnos. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau agos gyda thimau rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac mae ganddo rôl bwysig yn ceisio lleihau derbyniadau ac ail-dderbyniadau mewn ysbytai ac mae'n gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Ffisiotherapyddion a Nyrsys Ardal. Mae gan y gwasanaeth rôl bwysig hefyd yn gweithio gyda phobl i gyflawni eu nodau personol eu hunain a helpu i ymgartrefu'n ôl i'w hamgylchedd eu hunain yn eu cartref ac yn y gymuned leol. Y nod yw cynorthwyo pobl i sicrhau'r lefel uchaf o annibyniaeth cyn gynted â phosibl a sicrhau, os bydd angen gofal a chymorth parhaus ar bobl, bod hyn ar y lefel briodol.

Byw'n Dda – mae hyn yn darparu gofal a chymorth hyblyg i bobl sy'n byw gyda dementia. Cynlluniwyd y gwasanaeth i alluogi pobl i fyw'n annibynnol a cheisia gynorthwyo pobl i barhau i fod yn egnïol yn eu cartref ac yn eu cymunedau cyhyd ag y bo'n bosibl. Mae'r gofal a'r cymorth wedi'i deilwra o amgylch yr unigolyn. Mae gofal, cymorth a gweithgareddau yn cael eu datblygu dros amser wrth i'r staff feithrin perthynas gyda'r person a'u bod yn deall beth sydd ei angen arnynt. Mae'r dull hwn yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac mae'n cyfrannu i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda dementia yn llwyddo i gynnal eu hannibyniaeth cyhyd ag y bo'n bosibl.

Mae pobl ag anghenion gofal cymhleth hirdymor yn derbyn cymorth i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cymorth byw dyddiol, helpu i gyflawni nodau a nodwyd, cefnogaeth gyda meddyginiaeth yn ogystal â gofal diwedd bywyd / gofal lliniarol yn ôl yr angen. Wrth gefnogi pobl ag anghenion cymhleth, mae'r gwasanaeth yn cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd, a gall hynny helpu pobl i oresgyn argyfwng yn ôl yr angen.

Yn ogystal â darpariaeth gofal mewnol yr Awdurdod Lleol ei hun, mae'r Comisiynwyr yn Sir y Fflint yn defnyddio 28 o ddarparwyr yn weithredol o Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru. Mae yna nifer fach sy'n cyflawni gwasanaeth byw â chymorth hefyd yn benodol o dan fframwaith amgen.

Mae gwasanaethau'r sector annibynnol a gwasanaethau'r Awdurdod Lleol yn cyflawni tua 7500 awr o ofal cartref yr wythnos ar hyn o bryd. Mae darpariaeth fewnol Cyngor Sir y Fflint yn cyflawni tua 12% o'r farchnad hon, ond mae'n anelu at gynyddu'r gwasanaethau a gyflawnir yn yr ardal hon i gynorthwyo mwy o bobl i fyw adref, yn unol â Chynllun y Cyngor. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys darparu Gofal Ychwanegol, lle mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni tua 370 awr o ofal yr wythnos.

Trosolwg o'r farchnad yn Wrecsam

Mae gan Wrecsam boblogaeth o ychydig dros 135,000 yn ôl cyfrifiad 2017. Mae mwy na 45% (58,359) o'r boblogaeth honno dros 45 oed. Mae 23% pellach (31,700) o'r boblogaeth yn 60 oed a hŷn. Mae 19,000 (14%) mewn iechyd gweddol, ac mae 6,500 (5%) mewn iechyd gwael a 1,800 (1%) mewn iechyd gwael iawn. Darperir y ddarpariaeth gofal cartref yn Wrecsam drwy fodel ardal leol.

O'r rhain, mae yna nifer sy'n darparu gwasanaethau gofal i'r rhai mewn angen ac sy'n gwneud hynny'n ddi-dâl. Dadansoddir y rhain fel a ganlyn: mae 8,900 yn darparu 1 i 19 awr o ofal di-dâl yr wythnos; mae 2,200 yn darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos ac mae 4,000 yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos. Mae'n debygol, dros gyfnod o bum mlynedd, y bydd angen i bob un o'r bobl hyn gael mynediad at wasanaethau ar ryw lefel.

Sefydlogrwydd y farchnad

Heriau rhanbarthol

Mae bwlch yn bodoli yn y gwasanaethau o ran ymweliadau byr i'r cartref i ddarparu cymorth gyda meddyginiaeth. Nid yw'r gwasanaethau iechyd na gwasanaethau cymdeithasol yn darparu ymweliadau ar gyfer meddyginiaeth yn unig, ond mae angen y gofal hollbwysig hwn ar bobl hŷn â phroblemau gyda'u cof (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae'r sefyllfa economaidd bresennol, gyda'r cynnydd mewn chwyddiant a'r costau tanwydd uwch, a chost ehangach pwysau byw ar ddechrau 2022 yn creu ansefydlogrwydd i ddarparwyr gofal cartref a'u staff, er enghraifft mewn tlodi gwaith.

Gallai gostyngiad mewn cyllidebau gyflwyno heriau pellach o ran lefel y gwasanaethau y gellir eu comisiynu a'u darparu. Ar draws Gogledd Cymru, mae

darparwyr wedi gwerthfawrogi'r cyllid cymorth a dderbyniwyd ar hyd y pandemig Covid-19. Er enghraifft, £1 filiwn ar gyfer gofal cartref sydd wedi darparu sefydlogrwydd yn ystod y pandemig. Mae pryder ynglŷn ag effaith diwedd y flwyddyn ariannol.

Sefydlogrwydd y farchnad ar Ynys Môn

Yn dilyn y pandemig, mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn broblem, gyda chyfradd trosiant y staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu yn 2021/22.

Mae galw cynyddol am wasanaethau ond mae cyllidebau, ynghyd â phwysau chwyddiant yn cael anhawster i gyflawni'r galw.

Sefydlogrwydd y farchnad yng Ngwynedd

Mae Gwynedd wedi dechrau sefydlu model gofal cartref newydd yn ddiweddar ac mae'r dangosyddion cynnar yn gadarnhaol iawn, gyda darparwyr yn sicrhau mwy o lwyddiannau recriwtio. Bydd dechrau'r broses dendro ar gyfer gofal cartref ar ddechrau mis Ebrill 2022 yn rhoi cyfle i gomisiynwyr sefydlu'r model newydd ar draws y Sir, gyda'r gobaith o sicrhau llawer mwy o sefydlogrwydd yn dilyn hynny. Y gobaith yw y gellir recriwtio mwy o staff, cyflawni mwy gyda'r un lefel staffio a chyflawni mwy o arbedion (llai o deithio a llai o fiwrocratiaeth) sy'n arwain at fwy o amser i ofalu a chanlyniadau gwell i bobl (drwy ganolbwyntio ar beth sy'n gwneud gwahaniaeth i'r unigolyn a theilwra'r gofal yn briodol), drwy fabwysiadu'r model newydd. Y bwriad yn y model newydd yw cynnal y rhaniad 50:50 rhwng y sectorau mewnol ac allanol ar gyfer y ddarpariaeth. Mae cynnwys y contract newydd ar gyfer darparwyr allanol yn golygu bod gennym y rhyddid i addasu'r gymhareb hon yn ystod oes y cytundeb. Ceir argyfyngau rheolaidd wrth ddarparu gofal cartref, pan fydd darparwyr yn adrodd nad ydynt yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth mwyach oherwydd problemau staffio. Wrth i'r trefniadau newydd ddod i rym, bydd angen cyfnod pontio, gan gynnwys prosesau cysgodi effeithiol a hyfforddiant.

Sefydlogrwydd y farchnad yng Nghonwy

Nid yw marchnad y sector Annibynnol wedi gallu cyflawni gofynion gofal cartref Conwy ers y pandemig. Ar hyn o bryd mae gan Gonwy (Ebrill 2022) 900 a mwy awr o ofal heb ei froceru na all y farchnad ei gyflawni (60+ o becynnau). Mae hyn wedi bod yn gyson am fwy na 12 mis ac mae'n cael ei ddarparu'n fewnol a thrwy ddarpariaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae trafodaethau gyda

Darparwyr yn awgrymu mai problemau staff / recriwtio yn y sector sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r sefyllfa yn gwella yn raddol ond yn rhy araf i gyflawni'r cynnydd yn y galw am y ddarpariaeth.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir Ddinbych

Mae ethos darpariaeth fewnol Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar ail-alluogi ac mae'n cefnogi pobl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn darparu gwasanaethau i bobl 18 oed a hŷn yr aseswyd bod ganddynt ofal angen gofal cymdeithasol ac sy'n byw yn Sir Ddinbych.

Mae darpariaeth fewnol Sir Ddinbych yn cynnwys Gweithwyr Ail-alluogi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Tîm Cymorth Dros Dro – bwriedir i'r holl wasanaethau fod yn ymyriadau tymor byr.

Swyddogaeth y Tîm Cymorth Dros Dro yw darparu gofal cartref a chymorth am gyfnod byr o amser tra bydd pecynnau gofal yn cael eu sicrhau drwy'r sector darparwyr yn Ne Sir Ddinbych. Gwelir yn gynyddol bod holl elfennau'r ddarpariaeth fewnol yn cynnal achosion am gyfnodau hwy oherwydd y diffyg gofal cartref sydd ar gael. Oherwydd y nifer isel o ddarparwyr sy'n gallu darparu gofal yn ne Sir Ddinbych, mae yna ymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth fewnol.

Gwelwyd lefelau uchel o absenoldebau staff hefyd ar draws y ddarpariaeth gofal cymdeithasol ac mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â lefelau uchel o straen a gorbryder yn dilyn y pandemig.

Mae comisiynwyr yn cael anhawster i sicrhau pecynnau gofal, yn benodol yn ne Sir Ddinbych. Y prif reswm am hyn yw diffyg argaeledd staff gofal. Mae hyn yn broblem tymor hir sy'n gwaethygu. Dychwelodd darparwyr gofal cartref tua 600 awr o becynnau gofal yn 2021 oherwydd diffyg argaeledd staff.

Mae yna ystod dda o ddarparwyr yn Sir Ddinbych, er nad yw pob un ar y fframwaith yn gwneud ceisiadau gweithredol am becynnau. Mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar y sector gofal cartref yn y Sir. Yn benodol, mae sicrhau pecynnau gofal dau berson yn her, yn ogystal â'r diffyg argaeledd darpariaeth gofal yn ardal ddeheuol y Sir ac mewn ardaloedd gwledig. Rydym hefyd yn ymwybodol bod gwasanaethau gofal cartref mewn lleoliadau gwledig yn ddrutach – mae ymchwil yn awgrymu ei fod 20% yn uwch, ac mae'r gyfradd gyfartalog fesul awr hyd at 11% yn uwch. Mae costau cynyddol tanwydd trafnidiaeth yn her i bob darparwr.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth gofal cartref well i ddinasyddion â lefelau uwch o anghenion gofal a chymorth. Byddai'n rhaid i'r model fod yn hyblyg (yn hytrach nac 'amser a thasg'), er mwyn cefnogi'r staff gofal i feithrin perthnasoedd a gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac ennill sgiliau uwch drwy hyfforddiant a chwarae rôl allweddol yn cynllunio gofal a chymorth i ddinasyddion. Yn y pen draw, byddai gan y ddarpariaeth ffocws clir ar ganlyniadau, a byddai llwyddiant yn cael ei fesur yn erbyn y canlyniadau hynny.

Mae Sir Ddinbych yn gobeithio cynnal cynllun peilot sy'n cynnwys cerbydau trydan er mwyn darparu gofal yn ystod 2022.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir y Fflint

Yn Sir y Fflint, mae'r farchnad yn fodel cymysg gyda gofal cartref mewnol yn cael ei ehangu. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor er mwyn helpu i ail-gydbwyso'r sector gofal. Mae darparwyr gofal annibynnol yn parhau i weithio mewn dulliau creadigol gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod y nifer o bobl sy'n aros am ofal yn y cartref mor isel â phosibl. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn heriol yn ystod dwy flynedd ddiwethaf y pandemig COVID.

Rydym yn dechrau gweld datrysiadau creadigol yn awr gan gynnwys defnyddio Cerbydau Trydan i gefnogi staff gofal cartref drwy gynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru. Cânt eu defnyddio i gefnogi staff gofal cartref na allant yrru.Cael mynediad at gynllun Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu profion gyrru ar gyfer gweithwyr gofal cartref sy'n aros am ddyddiad ar gyfer prawf. Mae Sir y Fflint yn parhau i ehangu Micro-ofal i gefnogi unigolion. Mae'r farchnad yn parhau i fod yn heriol, ond mae'r holl randdeiliaid yn parhau i weithio mewn partneriaeth i oresgyn yr heriau hysbys a wynebir ar draws y DU ar hyn o bryd.

Yn Sir y Fflint, wrth ystyried darparwyr annibynnol yn unig, nid oes gan unrhyw ddarparwr gyfradd sy'n fwy na 12% o'r farchnad annibynnol yn yr ardal wrth ystyried oriau a gyflawnir, gyda'r cyfartaledd fesul darparwr yn 4.5%.

O ran cydbwysedd y farchnad yn Sir y Fflint, mae'r mwyafrif helaeth (12 o'r 18) yn lleol, ac yn darparu gwasanaethau naill ai'n gyfan gwbl yn Sir y Fflint, neu yn Sir y Fflint a'r awdurdodau cyfagos. Mae 4 darparwr arall yn gweithio ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, ac mae gennym 2 ddarparwr cenedlaethol hefyd.

Yn Sir y Fflint, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu pwysau critigol a materion allweddol ym meysydd y gweithlu, comisiynu a meini prawf cyllido. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried sut i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn drwy adolygu rolau gwaith cymdeithasol, gwella'r llwybrau gyrfa ym maes gofal cymdeithasol a chynnig mwy o eglurder am y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer ffrydiau cyllido penodol.

Mae yna heriau eraill y mae ffrydiau gwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn gobeithio mynd i'r afael â hwy, megis recriwtio gyda Gofalwn Cymru a lleoliadau plant, fodd bynnag mae'n bwysig nodi bod y rhain yn parhau i gyflwyno pwysau critigol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn Sir y Fflint.

O fis Ionawr 2022 yn Sir y Fflint, mae'r meysydd o bwysau parhaus yn cynnwys:

- gofal staff dwbl
- ardaloedd gwledig
- rhyddhau o'r ysbyty
- darparwyr yn dychwelyd pecynnau o ganlyniad i heriau staffio
- costau busnes uwch – biliau cyfleustodau ac yswiriant
- costau tanwydd uwch, yn effeithio ar y staff gofal eu hunain.

Mae angen yn drech na'r cyflenwad yn Sir y Fflint. Oherwydd yr hinsawdd ariannol heriol a'r angen i annog mwy o bobl i ymuno â'r diwydiant gofal, mae ffyrdd eraill o ddarparu yn cael eu hystyried, er enghraifft micro-ofal.

Mae yna her o ddiffyg gweithwyr gofal, mae'r rhai sydd angen yn profi anawsterau oherwydd bod llai o staff gofal ar gael. Mae gan asiantaethau gofal mawr gostau eiddo a gorbenion a buddsoddwyr/cyfranddalwyr i'w bodloni, felly mae costau gofal fesul awr yn uwch.

Yn y gwasanaethau i bobl hŷn, mae sylfaen amrywiol o ddarparwyr, ac nid oes dibyniaeth ar un darparwr neu sector. Fodd bynnag, yn y gwasanaethau anableddau dysgu ac anableddau corfforol, nifer fach o ddarparwyr sydd ar gael i ddewis ohonyn nhw ac mae dibyniaeth arnynt i gyflawni anghenion y gwasanaeth.

Mae yna ystod eang o wasanaethau ar gael yn ôl yr hyn y mae'r unigolyn yn ei ddymuno, er enghraifft gofal cartref traddodiadol, Micro-ofal a Thaliadau Uniongyrchol.

Sefydlogrwydd y farchnad yn Wrecsam

Ar hyn o bryd (Ebrill 2022) mae prinder sylweddol ym mhob maes o ofal cartref a'r farchnad iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yn Wrecsam na welwyd yn ffigurau Ebrill 2021 ac sy'n debygol o ddeillio o heriau ehangach, cenedlaethol yn ymwneud â'r gweithlu a'r adferiad yn dilyn Covid.

Mae datrysiadau cylchol a datrysiadau seibiant eraill hefyd yn cyflwyno heriau sylweddol. Mae diffyg capasiti i gyflawni gofal seibiant rheolaidd a hyblyg a seibiannau byr yn parhau i fod yn faich ar ofalwyr di-dâl sydd eisoes yn teimlo cynnydd yn eu rôl ofalu o ganlyniad i Covid a heriau eraill yn ymwneud â'r gweithlu.

Ardaloedd mwy gwledig y sir sy'n profi'r anhawster mwyaf wrth gyflawni gwasanaethau gofal cartref cynaliadwy. Ers mis Ebrill 2021, mae capasiti micro-fenter wedi cynyddu ac mae Wrecsam wedi cysylltu gyda Lloegr i gefnogi'r galw ond nid yw cynaliadwyedd y dulliau hyn wedi'i werthuso.

Ychydig iawn o hyblygrwydd sy'n bodoli yn y farchnad bresennol (Ebrill 2022) oherwydd heriau sylweddol y gweithlu a'r adferiad yn dilyn Covid ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Er y gwelwyd gostyngiad o 30% yn y rhestrau aros am ofal cartref ers Ebrill 2021, mae'n parhau i fod yn uchel iawn ac nid yw datrysiadau tymor byr i'r tymor canolig wedi'u gwerthuso a'u profi eto yn nhermau eu sefydlogrwydd tymor hwy yn y farchnad. Cefnogodd cyllid adfer Covid a chyllid caledi lawer o'r adferiad hwn yn ystod 2021-22 gyda sefydlogrwydd ariannol tymor hwy yn parhau i fod yn her.

Gall cofrestru gofal cartref lesteirio hyblygrwydd y prosesau comisiynu a chyflawni gwasanaethau hefyd. Gall gofynion RISCA, er eu bod yn ceisio gwella ansawdd, fod yn rhwystr i rai sefydliadau a staff pan mae recriwtio eisoes yn her iddynt. Yn ogystal, fel tref ar y ffin, rydym yn dibynnu ar ddarparwyr o Loegr mewn rhai ardaloedd. Mae darparwyr wedi'u cyfyngu o ran nifer y bobl y gallant eu cefnogi y tu allan i gofrestriad AGC, a all fod yn hir iawn..

Adborth gan ddinasyddion a darparwyr

Er bod gofal brys yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn sy'n disgyn ac sy'n cael eu hanafu, mae angen gwasanaeth ymateb ar gyfer pobl sy'n disgyn ac nad ydynt yn cael eu hanafu a gofal cartref y tu allan i oriau arferol. Ar hyn o bryd, os oes angen

cymorth ychwanegol ar unigolyn hŷn oherwydd digwyddiad annisgwyl, er enghraifft eu gofalwr yn mynd yn sâl, nid oes ganddynt unrhyw fynediad at gymorth (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

“Mae darparwyr gofal cartref annibynnol wedi dweud wrthym eu bod wedi llwyddo i ddechrau darparu gofal o fewn y 48 awr ond mae wedi bod yn anodd. Yr heriau a’r oedi mwyaf yw trefnu gofal ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth” (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2019a)

“Dywedodd darparwyr annibynnol gofal cartref wrthym ynglŷn â darparu gofal i bobl nad ydynt wedi gallu manteisio ar gyfnod o ail-alluogi pan nad oes unrhyw gapasiti yn y tîm ail-alluogi. Canfuom mai’r rheswm yn aml am hyn yw bod rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth ail-alluogi oherwydd mae’r gwasanaeth yn darparu’n bennaf ar gyfer pobl sy’n cael eu rhyddhau o’r ysbyty ag anghenion lefel isel, sydd angen cyfnod ymadfer” (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2019a)

Mae adborth o’r arolwg Darparwyr Rhanbarthol [Chwefror 2022] yn nodi’r heriau a wynebir gan ddarparwyr fel a ganlyn:

- Recriwtio staff. Mae’r farchnad gyflogaeth yn gystadleuol iawn ac mae’n rhaid i ni allu cynnig pecyn ariannol i weithwyr gofal, sy’n gystadleuol ac sy’n teilyngu’r rôl.
- Cadw staff oherwydd telerau ac amodau gwael yn y sector gofal cartref. Mae costau tanwydd a’r argyfwng costau byw yn dechrau cael eu teimlo yn y sector yn awr, lle mae darparwyr yn gweld mwy o staff yn dioddef tlodi mewn gwaith.
- Staff yn gadael y sector oherwydd amodau gwaith gwael a diffyg parch am y gwaith a wnânt a’r lefelau o gyfrifoldeb sy’n gysylltiedig â hyn. Mae staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi a’u bod yn cael eu gorweithio.
- Cadw staff sy’n newydd i’r sector na allant ddelio â natur ddwys y swydd o gefnogi pobl gyda chyflyrau fel awtistiaeth, pobl sydd angen gofal personol ac yn y blaen. Mae angen cefnogaeth well ar staff i gyflawni heriau’r rôl hon.

Cafwyd awgrymiadau hefyd gan y darparwyr ar ffyrdd i wella’r sector ac ansawdd y gofal, gan gynnwys:

- Galluogi hyblygrwydd wrth ddefnyddio oriau gofal wedi'u comisiynu. Er eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau cyllidebol sy'n wynebu pawb, gall fod yn rhwystredig pan na all darparwyr dibynadwy fod yn hyblyg gydag oriau ac yn y blaen. Treulir mwy o amser yn cyfiawnhau unrhyw amrywiaeth, yn hytrach nac ar allu 'bancio'r oriau hyn er mwyn cyflawni canlyniadau pobl a gwella ansawdd yn sgil hynny. Weithiau hyblygrwydd yw'r ffordd orau i gefnogi rhywun (gwneud y gorau o hwyliau neu gymhelliant penodol).
- Datblygu gwaith partneriaeth gwirioneddol gyda darparwyr.
- Strwythur cyflog cyfartal i bob darparwr er mwyn rhwystro pobl rhag symud o un i'r llall ar gyfer cyfraddau gwell.
- Cydnabod costau *gwirioneddol* darparu gwasanaethau gofal er mwyn galluogi darparwyr i barhau i ddarparu gwasanaethau o safon a denu / cadw staff o safon.
- Mwy o bwyslais ar ddefnyddio darparwyr lleol yn hytrach na chwmnïau cenedlaethol gyda swyddfeydd lleol.
- Rhannu adnoddau rhwng darparwyr, er enghraifft hyfforddi staff.

Ffactorau sefydlogrwydd eraill yn y farchnad

Ystyried safon y farchnad

Mae Sir y Fflint yn defnyddio *Cynnydd i Ddarparwyr* mewn cartrefi gofal, sy'n offer hunanasesu y gall rheolwyr ei ddefnyddio gyda'u staff i wirio eu cynnydd yn cyflawni cymorth wedi'i bersonoli i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae 'Cymorth wedi'i Bersonoli' yn un o nodau allweddol polisi cenedlaethol ac mae'n golygu teilwra cymorth i'r unigolion, a'u galluogi i gael cymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl dros eu gwasanaeth, yn hytrach na chefnogi pawb yn yr un ffordd. Mae'r rhaglen wedi'i ehangu i gynnwys gofal cartref a gwasanaethau gofal ychwanegol yn 2020/21.

Yn Sir Ddinbych, mae comisiynwyr wedi cydnabod yr angen i weithio gyda darparwyr gofal cartref i fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Gwneir gwaith pellach ar y cyd gyda darparwyr yn y dyfodol.

Yng Ngwynedd, mae comisiynwyr wedi gweithio gyda'u cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd ar brosesau 'Diwydrwydd Dyladwy'. Mae'n rhaid i bob darparwr sy'n gwneud cais i fod yn rhan o fodel cyflawni newydd y Cyngor gyflawni rhai gofynion penodol.

Effaith arferion comisiynu ar y farchnad

Croesewir y ffaith bod y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Cyllid Trawsnewid yn symud i raglen pum mlynedd y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, fodd bynnag rydym yn parhau i weithio drwy'r canllawiau ac effaith y newidiadau. Oherwydd gwerth y cyllid hwn, mae'n hollbwysig bod unrhyw newidiadau i'r meini prawf yn cael eu cyfleu ymlaen llaw er mwyn i Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill ystyried a chynllunio gwasanaethau gyda hyn mewn cof.

Pan fydd angen comisiynu'n uniongyrchol gyda darparwr, mae arfer Caffael presennol wedi bod yn rhwystr yn aml i'r angen i weithredu'n gyflym. Mae prosesau caffael wedi bod yn feichus ac yn anneniadol i rai darparwyr, yn arbennig yn y trydydd sector, sydd yna'n llesteirio'r nifer o gyflenwyr sy'n cyflwyno ceisiadau tendro.

Mae Timau Contractau a Chomisiynu ym mhob Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr gofal preswyl, gofal cartref a darparwyr Byw â Chymorth. Er bod y cyfarfodydd hyn wedi'u cynnal cyn y pandemig, mae eu hamlder wedi cynyddu. Mae'r cymorth a'r rhwydweithio yn adnodd hanfodol i ddarparwyr. Cafodd y cyfarfodydd eu mynychu hefyd gan gydweithwyr o'r Tîm Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch a swyddogion BIPBC er mwyn i bartneriaid allu rhoi cyngor a chymorth pan fyddai angen.

Ochr yn ochr â'r cyfarfodydd hyn, sefydlwyd cyfeiriad e-bost penodedig lle gallai darparwyr holi cwestiynau ac ymholiadau ynglŷn â Covid-19 a gellid ymateb iddynt mewn dull amserol.

Roedd y tîm mewn cysylltiad dyddiol dros y ffôn gyda darparwyr i gasglu data, holi ynghylch cyflenwadau PPE, trafod unrhyw faterion a oedd yn codi neu fod yn glust i wrando a rhoi cefnogaeth yn y cyfnod anodd hwn.

Mae Sir Ddinbych yn defnyddio Cyllidebau Cymorth wedi'u Gweinyddu gan Drydydd Parti. Yn yr achos hwn trosglwyddir arian gan yr Awdurdod Lleol yn uniongyrchol i drydydd parti a allai fod yn darparu rhywfaint o ofal a chymorth y person yn uniongyrchol neu ddarparu gwasanaeth cyfrif wedi'i reoli. Caiff yr arian ei wario ar

beth bynnag y cytunir arno yng nghynllun gofal a chymorth yr unigolyn i'w cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau cytunedig. Yn y trefniant hwn trydydd parti sy'n gyfrifol am y gyllideb yn gyfrifol am dalu darparwyr neu wasanaethau a phryniannau unigryw a chyd-gynhyrchu gydag ymarferwyr.

Bydd Sir Ddinbych hefyd yn parhau i gomisiynu rhywfaint o ofal a chymorth tymor hir gan gynnwys gofal cartref a gofal preswyl i'r rhai sydd ei angen.

Darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gwybodaeth yn PNA2022 yn datgan bod llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal cartref yn cael anhawster i ddarparu siaradwyr Cymraeg. Mae angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn a chefnogi staff i wella eu Cymraeg. Mae angen i hyn gynnwys cyfleoedd i'r rhai sy'n newydd i'r iaith a'r rhai sydd angen meithrin hyder. Mae llawer o sefydliadau yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'w staff, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Cyrsiau a gynigir gan y cyngor lleol neu'r bwrdd iechyd.
- Grwpiau siarad Cymraeg amser cinio.
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn cynnal gweithdai i'w cyfoedion di-Gymraeg.

Yn yr Arolwg Darparwyr (Chwef 2022) mae'r darparwyr yn datgan ei bod yn her recriwtio siaradwyr Cymraeg yn eu lleoliad, ac y byddai cymorth i hysbysebu/cyfieithu yn ddefnyddiol i gwmnïau llai.

Mae darparwyr yn ymdrechu'n weithredol i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg, ond ei bod yn anodd cynnal unrhyw ddysgu pan nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigon aml (ar lefel bersonol yn ogystal ag i'r sefydliad).

Mae Sir y Fflint yn nodi, fel rhan o'r fframwaith Mwy Na Geiriau, mae'r Cyngor yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn derbyn y Cynnig Gweithredol. Er y manteisiwyd ar hyn ar gyfer rhai asesiadau gwaith cymdeithasol, mae unigolion a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r prinder staff gofal ar hyn o bryd ac nid ydym wedi derbyn ceisiadau i ofal gael ei ddarparu gan ofalwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol iawn o hyn ac ar hyd y pandemig diweddar maent wedi gweld cynnydd yn y nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n ail-afael yn eu sgiliau Cymraeg blaenorol nad ydynt wedi'u defnyddio ers blynyddoedd lawer

o bosibl. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n Sefydliadau Addysg Bellach lleol i ddarparu cyrsiau'r iaith Gymraeg ar bob lefel er mwyn cyflawni anghenion unigol.

Mae Sir Ddinbych yn sicrhau bod preswylwyr yn derbyn y Cynnig Gweithredol pryd bynnag y byddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth. Mae diffyg capasiti cyffredinol yn y rhwydwaith darparwyr ac mae diffyg argaeledd gwasanaethau gyda siaradwyr Cymraeg yn broblem iddynt. Defnyddir offer defnyddiol megis symbolau Cymraeg ar ffeiliau fel nodiadau atgoffa amserol i staff. Fodd bynnag, mae'r argyfwng recriwtio yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gosod hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg lleol, er enghraifft Y Bedol.

Cyflwynir y sefyllfa yng Ngwynedd yn nhermau siaradwyr Cymraeg yn y tabl isod.

Mae gan Wynedd weithlu gofal cartref sylweddol sy'n gallu siarad Cymraeg, ac mae cyfran ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae Gwynedd wedi buddsoddi'n helaeth yn hyrwyddo a datblygu sgiliau'r iaith Gymraeg ymhlith staff gofal ac wrth recriwtio staff gofal sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n barod i wella eu sgiliau Cymraeg. Yn nhermau tasgau gofal, mae sgiliau Cymraeg llafar yn bwysicach wrth gyfathrebu â dinasyddion a rhoi gofal yn eu dewis iaith iddynt.

Tabl 16: Staff Gofal sy'n Siarad Cymraeg yn narpariaeth gofal cartref Gwynedd (Ebrill 2020)

Swydd	% sydd wedi cofrestru sy'n 'rhugl' yn y Gymraeg	% sydd wedi cofrestru sydd â 'rhywfaint' o sgiliau'r iaith Gymraeg	% sydd wedi cofrestru nad oes ganddynt unrhyw sgiliau'r iaith Gymraeg
Gweithwyr Gofal Cartref	51.2	23.0	9.8
Rheolwyr Gofal Cartref	56.4	17.9	12.8

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan Gyngor Gwynedd

Cynaliadwyedd y ddarpariaeth

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cyflogi Swyddog Cynllunio a Datblygu yn ddiweddar i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol annibynnol i oedolion drwy'r pandemig Covid-19 diweddar, ac i ddod yn hyderus a chydnerth er mwyn cyflawni anghenion cymorth pobl hŷn yn Sir y Fflint i'r dyfodol. Bydd y swyddog yn gweithio'n agos gyda'r sector gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn cynorthwyo cynaliadwyedd ac adferiad yn dilyn y pandemig. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi gyda chynlluniau cynaliadwyedd ac ymgyrchoedd recriwtio yn fewnol ac ar draws y sector.

Ychydig iawn o ddewis a roddir i bobl mewn gwirionedd. Mae sicrhau unrhyw ofal yn her, heb sôn am gael dewis. Gall pobl ddewis derbyn Taliadau Uniongyrchol i drefnu eu gofal eu hunain, ond nid yw'n rhwydd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal.

Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad

Mae gan ddarparwyr gofal mewnol ac annibynnol swyddi gwag sylweddol oherwydd mae gofalwyr presennol yn gadael y sector gofal am lawer o wahanol resymau. Mae hyn yn peri pryder o ran sefydlogrwydd y farchnad, ac yn benodol y gallu i gyflawni gofal, yn benodol mewn ardaloedd anos eu cyrraedd.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth i gyflawni'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal uniongyrchol, bydd hyn yn cael effaith ar gywasgiad tâl a'r gallu i recriwtio / darparu datblygiad gyrfa i rolau uwch. Gallai hyn gael effaith ar sefydlogrwydd y farchnad wrth i'r flwyddyn ariannol nesaf ddechrau.

Mae costau busnes, y tu hwnt i gyflogau hefyd yn cynyddu gyda chwyddiant, ac mae costau tanwydd yn benodol yn cynyddu'n sylweddol. Ym maes Gofal Cartref mae hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar ddengarwch y rôl a hyfywedd ariannol modelau busnes presennol.

Nododd ymarfer ymgynghori gyda darparwyr [mewnol ac allanol] a gynhaliwyd gan Sir y Fflint y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau canlynol i'r farchnad. Rhennir y themâu hyn ar draws y rhanbarth.

Cryfderau

- Perthnasoedd Broceru da gyda darparwyr a chyfathrebu rhagorol rhwng y tîm a'r darparwyr.

- Cymorth gan gyfarfodydd darparwyr gyda chyfarfodydd rhithwir a chynrychiolaeth yr uwch arweinwyr.
- Mae'r comisiynwyr ar ben arall y ffôn i gynnig cymorth a chyngor.
- Mae'r darparwyr yn cydweithio ac nid oes gwrthdaro na chystadleuaeth.
- Mae cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer Unigolion Cyfrifol yn gadarnhaol a defnyddiol er mwyn cael cymorth gan gyfoedion.
- Cydweithio agored – datblygu rhwydwaith cymorth
- Mae cael llyfr agored ar gyllid a chael sgyrsiau onest yn galluogi i benderfyniadau gwybodus gael eu gwneud.
- Mae'r comisiynwyr yn deall y sefyllfa "ar lawr gwlad"

Gwendidau

- Gweinyddu ymatebion i alwadau, er enghraifft, os yw'r gofalwr yn hwyr
- Parhau i ddefnyddio tasg ac amser
- Mae diweithdra yn yr economi gyffredinol yn isel sy'n creu cystadleuaeth am staff, megis swyddi manwerthu tymhorol
- Gall disgwyliadau'r dynasyddion fod yn heriol ar gyfer tasgau y tu hwnt i'r cynllun gofal
- Colli staff i sectorau economaidd eraill, i'r bwrdd iechyd ac i rolau eraill yn y sector gofal cymdeithasol er enghraifft cartrefi gofal / Byw â Chymorth
- Gofalwyr nad ydynt yn gallu defnyddio TG
- Mae angen cefnogaeth well ar ddarparwyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru
- Nid yw'r cyflogau y gallwn eu cynnig i staff yn ddigon cystadleuol ar gyfer y gwaith a wneir mewn gofal cartref

Cyfleoedd

- Mae gofal cymdeithasol ar yr agenda wleidyddol - ni all y rhai sy'n gwneud penderfyniadau anwybyddu gofal cymdeithasol mwyach
- Hyblygrwydd o fewn bandiau amser a thasgau
- Gellir datblygu'r ymgysylltiad â chomisiynwyr a'r rhwydwaith o ddarpariaeth fframwaith
- Mae angen i ddarparwyr ymgysylltu â darpar gyflogeion wyneb yn wyneb a dangos iddynt beth yw'r gwaith
- Dealltwriaeth well o gost rhedeg asiantaeth gofal cartref – edrych ar y ddogfen "Unfair to Care"

- Asesiad realistig o'r cyfrifoldebau yn y rôl ofalu o gymharu â rolau eraill, er enghraifft swyddogion heddlu
- Angen clywed mwy gan y defnyddwyr gwasanaeth a buddiannau'r cymorth hwn
- Hysbysebu rolau drwy gyfryngau niferus, nid dim ond ar-lein, er enghraifft radio, bysiau, hysbysfyrddau.
- Cyfle am fwy o gydweithio gyda'r gwasanaethau iechyd i sicrhau bod gan bobl mewn ysbytai fynediad at therapyddion er mwyn cynorthwyo i'w rhyddhau o'r ysbyty.

Bygythiadau

- Nid yw pobl ifanc yn cael eu denu gan ofal cartref neu ofal yn gyffredinol
- Gweithlu sy'n heneiddio a dim cynllunio olyniaeth
- Mae'r Telerau ac Amodau yn y sector yn wael ar gyfer y math o waith a wneir a'r cyfrifoldebau cysylltiedig
- Nid yw gofal yn cael ei werthfawrogi na'i ystyried yn bwysig o gymharu â sectorau eraill, er enghraifft gwasanaethau brys ac iechyd
- Mae'r fframweithiau cofrestru a chymwysterau yn rhwystr i bobl, yn arbennig y rhai â heriau llythrennedd a rhifedd
- Mae'r sector gofal yn agos at fethu'n llwyr
- Nid yw'r sector Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd gofal cartref
- Mae rôl gofalwyr yn heriol a gofynnir iddynt ymgymryd fwyfwy â thasgau mwy cymhleth – mae angen meithrin perthynas gryfach gyda nyrsio ardal
- Telerau ac amodau gwell mewn rolau gofal Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn arwain at ddad-sefydlogi
- Mae cyfyngiadau Budd-daliadau'r Wladwriaeth yn creu anfantais i weithwyr gofal ac yn creu tlodi mewn gwaith

Gwasanaethau Ataliol

Un flaenoriaeth hirdymor yw parhau i gynorthwyo pobl i adennill eu hannibyniaeth, lleihau dibyniaeth ar y sector gofal statudol. Gwneir hyn drwy ddarparu mynediad effeithiol at wasanaethau presgripsiynau cymdeithasol / trydydd sector drwy'r Un Pwynt Mynediad yn ogystal â rheoli derbyniadau yn effeithiol i sefydlu / rhyddhau gwelyau.

Rhai o'r enghreifftiau Lleol o ddulliau ataliol cymunedol yw:

Cymunedau Oed-gyfeillgar – Mae Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud a chan bwy, er mwyn sicrhau bod Sir y Fflint yn lle da i heneiddio.

Mae prosiect tymor byr i sefydlu prawf cysyniad ar gyfer presgripsiynau cymdeithasol yn cael ei redeg hefyd gan FLVC ar ran y Bwrdd Iechyd.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a BIPBC yn comisiynu gwasanaeth seibiant gofalwyr i ofalwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth eistedd a gofal cartref yn Sir y Fflint. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Crossroads. Mae'r seibiant ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y rhai sydd â rolau gofalu heriol iawn, ac mae hyn yn cynnwys gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia. Cynigir y gwasanaeth hwn am gyfnod o 12 wythnos ac yna cyfeirir pobl at SPOA er mwyn archwilio opsiynau seibiant parhaus.

Llyw-wyr Cymunedol - Defnyddir Presgripsiynau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych gan Y Groes Goch Brydeinig ac Age Connects. Mae'r Llyw-wyr Cymunedol yn rhan o'r pedwar Tîm Adnoddau Cymunedol. Maent yn defnyddio 'Pwyntiau Siarad' yn Llyfrgelloedd Sir Ddinbych fel lle i bobl gwrdd, er na fu hyn yn bosibl yn ystod y pandemig Covid-19 a darparwyd llawer o'r cymorth dros y ffôn yn ystod y cyfnod hwn. Maent yn ffynhonnell wybodaeth gyfredol, gywir ac amserol ynghylch yr ystod o gymorth sydd ar gael yn y gymuned. Maent yn hollbwysig er mwyn cysylltu pobl, lleihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Yn ystod 2020-21, fe wnaeth y Llyw-wyr Cymunedol 2,424 o drigolion Sir Ddinbych.

Mae Sir Ddinbych yn ceisio comisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr sy'n:

- Cynnal sgyrsiau ystyrlon gyda phobl
- Cysylltu pobl gyda'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- Gweithio gyda phobl i gael rheolaeth dros eu bywydau
- Adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl i adnabod datrysiadau unigol

Mae Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynharach, cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned a helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod pobl yn ganolog yn y penderfyniadau a wneir ynghylch y math o wasanaethau cymorth cymunedol maent yn eu cael. I lawer o bobl, bydd hyn yn golygu y gellir rhoi cyllideb cymorth iddynt reoli eu gofal eu hunain a chymorth i gyflawni canlyniadau cytunedig. Gallai hyn fod ar ffurf Taliad Uniongyrchol, Cyllideb

Cymorth a Reolir gan Drydydd Parti neu Gyllideb Cymorth a Reolir gan Awdurdod Lleol ar gyfer yr unigolyn. Bydd cyllidebau cymorth yn gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol llai cyfyngol, ac un sy'n cefnogi arloesedd. Yn Sir Ddinbych gwneir y gwaith canlynol.

- Sied Dynion – Mae Cymdeithas genedlaethol Siediau Dynion y DU yn darparu lle i ddynion rannu'r offer a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i weithio ar brosiectau o'u dewis hwy ac ar eu cyflymder eu hunain ac mewn lleoliad diogel, cyfeillgar a chynhwysol. Maent yn lleoliadau i rannu sgiliau a dysgu gweithgareddau unigol a phrosiectau cymunedol, o ddiben, cyflawniad a rhyngweithio cymdeithasol. Mae sied dynion lleol yn gweithredu yn Ninbych.

- Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru yn cynnig 'Gofal Gwalia' sy'n cyflawni rolau'r gofalwr er mwyn iddynt allu cael rhywfaint o seibiant. Gall hyn fod yn rheolaidd neu ar sail ad hoc a chodir tâl am y gwasanaeth hwn.

- Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru (ACNEW) – Mae ACNEW yn rhan o raglenni cenedlaethol Age Connects Cymru, menter gymdeithasol sy'n darparu cymorth i bobl 50+ oed. Yn lleol, mae'r gwasanaethau'n darparu cymorth tai tymor byr, torri ewinedd traed, gwasanaeth glanhau a siopa a gweithgareddau cymdeithasol.
- Addysg a Dysgu – Mae llawer o brosiectau lleol yn atgyfeirio pobl at Brifysgol y Drydedd Oes (U3A). Mae U3A yn darparu cyfleoedd i bobl sydd wedi ymddeol ac sydd wedi lled-ymddeol i ddod at ei gilydd a dysgu, nid ar gyfer cymwysterau, ond 'am ei wobr ei hun'.
- DEWIS – Mae Dewis Cymru yn wefan sy'n ceisio helpu pobl gyda'u llesiant, naill ai eu llesiant eu hunain neu lesiant aelod o'u teulu neu ffrind. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth a all helpu pobl i feddwl beth sy'n bwysig iddyn nhw ac mae'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau a all ddarparu cymorth. Gall sefydliadau ar draws Cymru lwytho eu gwybodaeth eu hunain i'r safle.

- Asiantau Cymunedol – yn Wrecsam mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan Gynghorau Cymuned a'i reoli ganddynt Gall Asiantau Cymunedol ddefnyddio gwasanaethau'r trydydd sector o amgylch y sir i gefnogi pobl yn eu cymunedau. Mae meddygon teulu yn cysylltu pobl â'r Asiantau Cymunedol.

Yn Wrecsam maent yn cefnogi gwasanaethau canlynol y trydydd sector.

- NEWCIS: Gwybodaeth, cyngor, cymorth a gwasanaethau seibiant i ofalwyr

- Cymorth Alzheimer's: Y brif thema yng nghynllun gweithredu dementia Llywodraeth Cymru yw galluogi pobl sy'n byw gyda dementia (gan gynnwys dementia cynnar) i gynnal eu hannibyniaeth a pharhau i fyw gartref pan fydd hynny'n bosibl, gan osgoi derbyniadau diangen yn yr ysbyty neu ofal preswyl ac oedi pan fydd rhywun yn barod i gael eu rhyddhau o ofal neu'r ysbyty.
- Catalydd Cymunedol: Sefydlu a chefnogi cyfeirlyfr ar-lein o fentrau gofal cymdeithasol yn Wrecsam er mwyn galluogi mynediad haws at wybodaeth i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Darparu gwerth 6 diwrnod o gymorth i ddatblygu sefydliadau'r trydydd sector sydd â diddordeb mewn datblygu darpariaeth gofal cartref.
- Cymorth golwg: Diben y gwasanaeth yw galluogi oedolion sy'n ddall neu sydd â nam ar eu golwg i gyflawni eu gweithgareddau dyddiol gyda hyder, drwy ddarparu hyfforddiant proffesiynol mewn sgiliau byw'n annibynnol newydd a/neu addasol, yn ogystal â chofrestru unigolion yr aseswyd eu bod wedi colli eu golwg, nam difrifol ar y golwg, fel yr argymhellwyd gan Offthalmolegydd ymgynghorol drwy'r broses Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI). Bydd y Darparwr yn meddu ar nifer fach o ddarnau o offer arbenigol y gellir eu benthyca i unigolion i'w cefnogi gyda'u nam gweledol.
- Rhwydwaith Cymorth Pobl Fyddar: Diben y gwasanaeth hwn yw darparu cymorth ymarferol, gwybodaeth a chyngor i blant ac oedolion sy'n fyddar (yn aelod o'r Gymuned Ddiwylliannol Fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu hiaith gyntaf), sy'n colli eu clyw neu sy'n Fyddar Ddall (nam deuol ar y synhwyrau). Yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol, disgwylir i'r darparwr llwyddiannus atgyfeirio unigolion at wasanaethau eraill a allai gynorthwyo'r unigolyn. Disgwylir i'r darparwr feddu ar nifer fach o ddarnau o offer arbenigol y gellir eu benthyca i unigolion i'w cefnogi gyda'u hanghenion cyfathrebu / colli clyw.
- Delta (Teleofal): Mae Teleofal yn wasanaeth a all helpu i'ch cadw'n ddiogel yn eich cartref a'ch galluogi i alw am gymorth mewn argyfwng. Gall Teleofal eich helpu i fyw'n annibynnol yn eich cartref, gan ddarparu tawelwch meddwl i chi y bydd rhywun yn cael eu hysbysu'n awtomatig os bydd angen cymorth arnoch neu os bydd argyfwng.
- Y Groes Goch Brydeinig: Gweithiwr Cyswllt y Trydydd Sector a ddarperir i weithio gyda Phwynt Mynediad Unigol Wrecsam i sicrhau bod gwybodaeth am ddarpariaeth y trydydd sector ar gael yn gyfleus i weithwyr proffesiynol perthnasol. Cefnogi dinasyddion Wrecsam i gael mynediad at fathau anstatudol

o gymorth, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'w galluogi i gynnal eu hannibyniaeth ac osgoi cynnydd mewn angen.

- Hafal (partneriaeth gyda'r gwasanaethau tai): Llety â Chymorth a chymorth lle bo'r angen i'r rhai â chyflyrau Iechyd Meddwl
- Gwasanaeth Adferiad: Llety â Chymorth a chymorth lle bo'r angen i'r rhai â chyflyrau Iechyd Meddwl
- Cerrig Camu: Cwnsela, cymorth a gwaith grŵp arbenigol unigol ar gyfer goroeswyr (oedolion) cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys cymorth cwnsela i unigolion cyn, yn ystod ac ar ôl achos llys. Mae hwn yn faes cwnsela arbenigol a bwriedir iddo gyflawni anghenion yr unigolyn/unigolion, gydag ymrwymiad i gefnogi'r unigolion cyhyd ag y bydd angen, gan gydnabod bod llawer o bobl yn agored iawn i niwed ac y gallent hunan-niweidio neu gael teimladau hunanladdol ar adegau.

Ystyriaethau eraill sy'n effeithio ar y farchnad

Gwerth cymdeithasol

Mae'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 yn nodi: "Cyd-gynhyrchu a gwerth cymdeithasol: Wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn mae'n rhaid ystyried barn y boblogaeth. Dylai fod gan bobl hŷn lais i ddylanwadu ar y gwasanaethau y gallant eu defnyddio. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyhoeddi papur sy'n esbonio sut y gellir comisiynu gwasanaethau, fel gofal cartref, drwy fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r ddarpariaeth ac yn canolbwyntio ar les yn ogystal ag unrhyw angen brys." (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae Sir y Fflint wedi symud at fodelau cyflawni Micro-ofal ac mae ganddynt raglen beilot i fod yn rhan o'r cynnig Gwasanaethau Cymdeithasol parhaus. Er mwyn cyflawni'r galw cynyddol am ofal, sefydlwyd y Prosiect peilot Micro-ofal i ehangu'r cyflenwad o ofal a'r dewisiadau sydd ar gael i bobl ar draws Sir y Fflint. Mae mentrau micro-ofal yn fusnesau bach sy'n amrywio o unig fasnachwyr i fusnesau sy'n cyflogi 5 o bobl sy'n cynnig gofal a gwasanaethau cymorth hyblyg ac wedi'u personoli i bobl sy'n agored i niwed, ac sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion unigol. Y nod yw annog pobl i ddod yn ficro-ofalwyr sydd â:

- Diddordeb mewn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn ond nad oes ganddynt unrhyw brofiad o bosibl
- Yn gweithio yn y sector gofal yn awr ond sydd â diddordeb mewn bod yn fos eu hunain
- Yn cefnogi pobl yn weithredol yn eu cymunedau lleol
- Eisiau gwneud rhywbeth sy'n cynorthwyo eraill ac sy'n gwneud gwahaniaeth.

Mae'r tîm Micro-ofal yn gweithio gydag unigolion i:

- Eu cefnogi i ddatblygu eu busnes neu syniad
- Darparu gwybodaeth am hyfforddiant, cyllid a mathau eraill o gymorth ac adnoddau sydd ar gael
- Cefnogi unigolion i ddatblygu a chyflawni gwasanaeth o safon yn unol â deddfwriaethau a rheoliadau presennol Llywodraeth Cymru
- Darparu cysylltiadau i rwydwaith o ddarparwyr micro-ofal eraill er mwyn cefnogi ei gilydd

O fis Chwefror 2022, roedd 27 o ficro-ofalwyr yn masnachu yn Sir y Fflint. Mae Tîm Micro-Ofal Sir y Fflint hefyd wedi creu tudalennau gwe micro-ofal i'w defnyddio gan y micro-ofalwyr a'r bobl sy'n chwilio am ficro-ofalwyr. Mae'n darparu gwybodaeth allweddol i bobl sy'n ystyried gweithio fel micro-ofalwr. Mae hefyd yn darparu esboniadau i'r cyhoedd ynghylch micro-ofal ac yn rhestru micro-ofalwyr a'u manylion cyswllt. Bydd hyn yn cefnogi ein nod o ddatblygu cynaliadwyedd parhaus yn y prosiect. Mae'r wefan ar gael yn www.careatflintshire.co.uk Mae'r rhaglen hon yn symud allan o'r cam 'peilot' yn awr ac mae wedi'i hymgorffori yn ein cynnig.

Hefyd yn Sir y Fflint, dechreuwyd ar y gwaith o **recriwtio gwirfoddolwyr** ddechrau mis Ebrill 2021, a ysgogwyd gan ein cydweithwyr yng Nghyngor Gwirfoddol Sir y Fflint (FLVC). Mae Tîm Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint, gyda chefnogaeth FLVC, wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol i wirfoddolwyr, ynghylch diogelu, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, cydsyniad, diogelu data, urddas, egwyddorion gofal a chyfrinachedd. Erbyn diwedd Ebrill 2020, yn dilyn yr hyfforddiant a'r gwiriadau DBS gofynnol, roedd grŵp o 64 o wirfoddolwyr ar gael i'w lleoli mewn cyfleoedd gwirfoddoli ar draws y sir.

Mae Sir y Fflint yn elwa o bresenoldeb cadarn a rhwydweithiau'r trydydd sector ac mae perthynas gadarnhaol rhwng y Cyngor a Chyngor Gwirfoddol Sir y Fflint (FLVC). Mae'r Tîm Llesiant yn FLVC a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) yn cefnogi'r trydydd sector a'u partneriaid statudol mewn nifer o ffyrdd:

- Hyrwyddo sefydliadau, gwasanaethau a gweithgareddau'r trydydd sector i bartneriaid statudol
- Cynrychioli'r trydydd sector mewn grwpiau cynllunio a phartneriaeth strategol
- Ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymgynghoriadau ac ymgysylltiadau ynghylch iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Hyrwyddo gwaith partneriaeth o fewn y trydydd sector ac ar draws sectorau
- Cyfeirio at neu ddarparu cymorth a chyllid busnes
- Darparu hyfforddiant i sefydliadau er mwyn gwella eu capasiti a'u heffeithiolrwydd
- Esbonio natur gymhleth comisiynu a chaffael
- Helpu i sicrhau bod y gwasanaethau yn gyfredol gyda'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf, a'ch tywys drwy'r newidiadau i strwythurau'r GIG ac awdurdodau lleol
- Helpu i ddechrau gwasanaethau neu grwpiau newydd
- Cynorthwyo'r trydydd sector yn Sir y Fflint a Wrecsam i gael mynediad at wasanaethau FLVC ac AVOW.

Comisiynir Catalyddion Cymunedol fel prosiect drwy Gronfa Trawsnewid Cymunedol Llywodraeth Cymru yn Wrecsam. Nod y prosiect yw cefnogi datblygiad micro-fentrau i gefnogi'r cynnig gofal cartref yn Wrecsam. Ni fwriedir i'r mentrau hyn ddisodli'r cynnig gan asiantau Gofal Cartref ond yn hytrach eu bwriad yw cefnogi sefydlogrwydd a chaniatáu dewis a rheolaeth i ddinasyddion. Mae'n cefnogi'r opsiynau taliad uniongyrchol i ddinasyddion. Mae gennym 37 o ficro-fentrau ar hyn o bryd sydd wedi cwblhau'r safonau gwneud yn dda ac sydd ar ein cofrestr o ddarparwyr yn Wrecsam.

Mae Gwynedd yn datgan bod 44% o ofal cartref yn cael ei ddarparu'n fewnol heddiw. Mae yna nifer o gwmnïau bach annibynnol sy'n lleol i Wynedd a rhai cwmnïau mwy. Nid oes gan y farchnad yng Ngwynedd lawer o gydweithredwyr a mentrau cymdeithasol, ond maent yn datblygu. Mae darparwyr y trydydd sector yn y sir ond nid yw'n bresenoldeb cyson yr hoffai'r awdurdod lleol ei weld ym mhob rhan

o Wynedd. Mae Comisiynwyr yn cael anhawster mawr i sicrhau darpariaeth mewn ardaloedd gwledig. Mae gan rai ardaloedd rwydwaith cymunedol anffurfiol cryf ar waith.

Mae Gwynedd yn cynnig datblygu Mentrau Cymdeithasol drwy hybiau cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr elfennau llesiant a hefyd datblygu darpariaeth asesu offer arbenigol – tŷ technegol. Mae gan Wynedd 15 o Ddarparwyr y Trydydd Sector sy'n gweithredu yng Ngwynedd.

Fel yr esboniwyd uchod, ychydig iawn o ddewis o ddarpariaeth gofal cartref sydd gan bobl yng Ngwynedd. Mae sicrhau gofal yn her, heb sôn am gael dewis. Gall pobl ddewis trefnu eu gofal eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol, ond nid yw'n hawdd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal. Mae prosiect wedi dechrau gyda 'Chatalyddion Cymunedol', i annog pobl i sefydlu cwmnïau bach i ddarparu gofal, a'r gobaith yw y bydd hyn yn gwella'r sefyllfa.

Taliadau uniongyrchol

Mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo Taliad Uniongyrchol trwy amlygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n adlewyrchu llais, dewis a rheolaeth trwy rymuso unigolion i fod mor annibynnol â phosibl yn eu cymuned leol.

Rhai o fanteision dewis Taliadau Uniongyrchol yw:

- Mae unigolion yn dewis pwy sy'n darparu eu gofal a chymorth
- Mae unigolion yn dewis pryd y darperir eu gofal i weddu i'w bywyd bob dydd
- Mae taliadau uniongyrchol yn hyblyg i fodloni gofynion unigol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i ddatblygu'r gwasanaeth drwy ymgynghori'n rheolaidd ag arbenigwyr taliadau uniongyrchol (dinasyddion) ac i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn addas i'r pwrpas.

Mae ein gweledigaeth a'n ffordd o weithredu newid wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau ac mae ei lwyddiant wedi arwain at 243 o unigolion yn cymryd rheolaeth o'u pecyn gofal ac yn dewis derbyn cymorth trwy daliadau uniongyrchol ar yr ynys o gymharu â 35 o unigolion yn 2015.

Bydd Sir Ddinbych yn parhau i ddatblygu a defnyddio Taliadau Uniongyrchol, lle bydd unigolion, neu'r person cyfrifol a ddewisir ganddynt, yn derbyn arian yn uniongyrchol gan y cyngor i ariannu eu hanghenion gofal a chymorth cytunedig yn y ffordd o'u dewis. Gallai hyn gynnwys recriwtio cynorthwyydd personol neu dalu am wasanaethau asiantaeth neu sefydliad o'u dewis.

Ar hyn o bryd nid oes digon o ddarparwyr i roi dewis i bobl neu gyflwyno elfen o gystadleuaeth. Mae Catalyddion Cymunedol yn cynorthwyo darparwyr lleol bach (Micro ddarparwyr) i lansio gwasanaethau ond ychydig iawn ohonynt sy'n barod i ddarparu gofal personol, a dyna lle mae'r bwlch mwyaf yn bodoli. Er y bydd gostyngiad o bosibl yn y gofal a'r cymorth sydd ei angen ar unigolion oherwydd ein hymyriadau a'n gwaith ataliol cynharach, rydym yn rhagweld y bydd cynnydd yn y nifer o bobl ag anghenion mwy cymhleth, er enghraifft dementia. Mae Sir Ddinbych wedi recriwtio i ddwy swydd cynghorwyr byw'n annibynnol. Rhan o'u rôl yw cydgysylltu pethau a chynnig cyngor cyson a defnyddiol i deuluoedd, er enghraifft ynghylch Taliadau Uniongyrchol, Micro ddarparwyr a'r mathau eraill o gymorth sydd ar gael i ddinasyddion a gofalwyr.

Yn Sir y Fflint mae Taliadau Uniongyrchol yn ddull pwysig i bobl allu arfer dewis, llais a rheolaeth a phenderfynu sut i gyflawni eu hanghenion ar gyfer gofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol. Yn Sir y Fflint, mae'r dulliau gweithredu yn canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau, gan geisio galluogi dinasyddion i gynnal ymreolaeth dros eu bywyd, eu cefnogaeth, eu hunan benderfyniad a'u hymreolaeth yn ogystal â defnydd effeithlon o adnoddau.

Yn y blynyddoedd diweddar mae Gwasanaethau Cymorth Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi'u trawsnewid yn llwyr ac maent bellach yn darparu gwasanaeth mwy cyfannol sy'n fuddiol i Ddinasyddion, gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid y trydydd sector Sir y Fflint. Rhai o fanteision allweddol y gwasanaeth yw:

- Llawer mwy o reolaeth dros y gwasanaeth a sut mae'n cyflawni blaenoriaethau'r adran.
- Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â thimau gwaith cymdeithasol i ymgorffori'r arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Systemau a rennir, dulliau cyfathrebu gwell a mynediad gwell at y gwasanaeth.

- Proses Atgyfeirio sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr hyn i'w gyflawni ac sy'n cefnogi cydweithrediad gyda'r unigolyn i fod yn berchen ar y canlyniad a datblygu datrysiadau pwrpasol.
- Mewn sefyllfa well i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector.
- Ymreolaeth i ddatblygu, profi ac ymgorffori arloesedd yn unol ag uchelgeisiau a blaenoriaethau'r adran.
- Dull llawer mwy cyfannol, sy'n canolbwyntio ar anghenion y dinasyddion yn yr achos cyntaf, ond hefyd anghenion ymarferwyr, cymunedau, partneriaid ac yn y blaen.
- Ystyriaeth o'r farchnad Cynorthwywyr Personol yn nhermau safonau, ansawdd, hyfforddiant a chyfleoedd i wneud cynnydd.
- Cymorth sy'n gymesur. Yn bwysicaf, nid ydym eisiau cefnogi pobl yn ormodol, ond yn hytrach eu galluogi i reoli eu trefniadau eu hunain.

Yn ystod Chwarter 2 (Gorffennaf i fis Medi) derbyniodd 498 o bobl Daliad Uniongyrchol yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cynrychioli'r nifer fwyaf o dderbynwyr y pen o'r boblogaeth mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Taliadau Uniongyrchol yn cynrychioli 39% o'r gwasanaethau a ddarperir yn y cartref.

Tabl 17: Taliadau uniongyrchol Sir y Fflint yn ôl categori Ch2 2021/22

Categori Gwasanaeth	Nifer y taliadau uniongyrchol
Anableddau dysgu	169
Nam corfforol / ar y synhwyrau	104
Plant ag anableddau	78
Pobl hŷn	65
Gwasanaethau plant	49
Iechyd meddwl	24
Oedolion agored i niwed	9
Cyfanswm	498

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Gan weithio mewn partneriaeth â chwmni ffilm lleol (Follow Films) Mae derbynwyr Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi cael cymorth i adrodd straeon unigryw o'u

bywydau a sytTaliadau Uniongyrchol Sir y Fflint i adrodd eu hanesion unigryw o'u bywydau a sut mae taliadau uniongyrchol wedi eu helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a phrofiadau bywyd gwell. Mae effaith y ffilmiau hyn a'r adborth iddynt wedi bod yn arwyddocaol ac mae'r ffilmiau yn cael eu defnyddio yn awr gan awdurdodau lleol a sefydliadau ymhell ac agos.

Y Gweithlu

Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth o Weithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru, mae'r sector o dan bwysau sylweddol o ganlyniad i:

- Newidiadau i ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Fframwaith cymhwyster newydd
- Strwythurau cyflog cystadleuol gyda sectorau eraill
- Cystadleuaeth gan sectorau eraill

Mae yna flaenoriaeth frys i sicrhau bod gweithlu digonol ar gyfer cyflawni gwasanaethau cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol. Mae recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a gweithwyr gofal uniongyrchol yn her benodol erbyn hyn ar draws Gogledd Cymru.

Mae Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru yn profi cyfnod o newidiadau digynsail, lle mae angen iddynt gyflawni gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol, gyda phwyslais ar atal, diogelu, ymyrryd, gweithio mewn partneriaeth a gweithio integredig, cyd-gynhyrchu a grymuso, sy'n galw am bwyslais gwahanol ar sgiliau a hyfforddi'r gweithlu.

Mae llawer wedi'i ysgrifennu ar y materion sy'n gysylltiedig â recriwtio a dethol yn y gweithlu Gofal Cartref. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil ar y 'Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a dethol gweithwyr gofal cartref ac i'r graddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref' (Atkinson, Crozier a Lewis, 2016). Roedd gwaith ymchwil gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion yn ceisio nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad pobl i 'ddewis a pharhau i weithio fel gweithwyr gofal cartref'.

Mae yna tua 17,000 aelod o staff gofal cartref sy'n cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal cartref sydd wedi'u comisiynu yng Nghymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a). Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Gweithlu Gofal Cartref (Llywodraeth Cymru, 2016) yn argymell bod y rhai sy'n gweithio yn y sector yn derbyn cydnabyddiaeth fel gweithwyr proffesiynol medrus. Mae'n rhaid herio'r ddelwedd negyddol o'r sector ac annog pobl i ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Y prif ffactorau a ddaeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriad hwn oedd:

- Cyflogau isel
- Pwysau gwaith
- Oriau anghymdeithasol
- Telerau ac amodau gwael
- Contractau 'dim orau' neu 'oriau heb eu gwarantu' sy'n atal pobl rhag ymuno â'r sector, am nad oedd unrhyw oriau wedi'u gwarantu
- Nid yw amser rhai ymweliadau yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn
- Diffyg hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gyrfa
- Yn cael ei ystyried fel swydd statws isel o gymharu â gofal iechyd

Mae Awdurdodau Lleol wedi ehangu eu Rhaglenni Carefirst a rhaglenni eraill Cymorth i Gyflogeion i'r gweithlu allanol [nid yr awdurdod lleol]. Mae Rhaglenni Carefirst/Cymorth i Gyflogeion yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, ar-lein neu drwy'r rhif rhadffôn. Mae'r gwasanaeth am ddim i bob cyflogai allu cael mynediad ato pryd bynnag y bydd ei angen arnynt.

Gellir gwella'r gofal a ddarperir gan ofalwyr cartref i'r rhai ag anghenion iechyd meddwl drwy sicrhau bod staff yn cael eu hannog i weithio yn y maes y maent yn fwyaf galluog ynddo. Mae angen hyfforddiant arbenigol ac amser ychwanegol i gwblhau tasgau ar y rhai sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Mae yna ddiffyg gweithwyr gofal sydd wedi'u hyfforddi mewn dementia, a gallai'r awdurdodau lleol fynd i'r afael â hyn. Mae comisiynwyr yn awyddus i sicrhau bod yr asiantaethau a gyflogir ganddynt i ddarparu gofal dementia yn cyflawni eu rhwymedigaethau ac yn dilyn cynlluniau gofal yn ofalus. Mae angen codi proffil y

proffesiwn er mwyn denu staff o safon uchel. (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae Gwynedd yn datgan bod potensial i addasu rolau / tasgau o fewn eu cynlluniau gofal cartref ond bod angen cymorth gan ddarparwyr i'w gweithredu. Mae staffio yn broblem fawr ar hyn o bryd i ofalwyr gofal cartref a chartrefi gofal.

Yn Sir y Fflint, mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithio hefyd gyda Mind Gogledd Ddwyrain Cymru i ddarparu cymorth ychwanegol i weithwyr gofal cymdeithasol. Roedd gwybodaeth, therapïau siarad a gweithgareddau a gynlluniwyd i gefnogi llesiant yn ystod y cyfnod anodd hwn ar gael.

Mae darparwyr yn Sir y Fflint wedi datgan ei bod yn anodd defnyddio ffair swyddi Cymru Gyfan a bod y TG yn drwsgl, yn arbennig os nad oes gennych unrhyw gefnogaeth TG.

Mae Sir y Fflint wedi gweithio mewn partneriaeth â Dinasyddion i gynllunio a gweithredu llwyfan unigryw sy'n cefnogi cyflogwyr taliadau uniongyrchol a Chynorthwywyr Personol. Mae Porth Cymhorthydd Personol Sir y Fflint yn galluogi cyflogwyr taliadau uniongyrchol i chwilio am Gymorthyddion Personol sydd ar gael yn eu hardal eu hunain ac i Gymorthyddion Personol hyrwyddo eu hunain a'u hargaeledd i weithio. Mae Cymorthyddion Personol yn cwblhau proffil i ddisgrifio eu hunain, eu profiad, eu gallu ac yn y blaen a gall darpar gyflogwyr taliadau uniongyrchol chwilio drwy'r gronfa ddata ac ymgysylltu â'r bobl maent yn credu y gallent helpu i gyflawni eu hanghenion a/neu gyflawni canlyniadau llesiant personol. Yn ddiweddar maent wedi ychwanegu tudalen swyddi gwag sy'n galluogi dinasyddion i bostio eu gofynion h.y. yr anghenion/canlyniadau i'w cyflawni, gan wneud y system yn broses ddwy ffordd.

Mae cynllun taliadau uniongyrchol Sir y Fflint wedi mynd ati'n fwriadol i newid y cymorth sydd ar gael ar gyfer y gweithlu arwyddocaol hwn, ond sydd weithiau'n ddatgysylltiedig. Rhai o'r mentrau hyd yma yw:

- Cydgysylltydd Cymorthyddion Personol yn ymgysylltu â'r gweithlu. Cymorth bugeiliol ar gyfer Cymorthyddion Personol sy'n gweithio mewn swyddi cymhleth/ynysedig yn cael ei ymgorffori yn y rôl.

- Datblygu a gweithredu Cod Ymddygiad Cymorthyddion Personol. Mae hyn wedi helpu'r Cymorthyddion Personol i ddeall eu rôl, eu swyddogaethau a beth yw'r disgwyliadau ohonynt.
- Mae Tystysgrif Sefydlu Cymorthyddion Personol Sir y Fflint wedi'i datblygu ar sail 7 modiwl craidd ac sydd wedi'i chynllunio'n benodol o amgylch y rôl Cymorthyddion Personol. Ers ei chyflwyno, mae 11 CP wedi cwblhau eu tystysgrif ac mae 35 arall yn gweithio tuag at y dyfarniad. Ar gyfer CP sydd wedi cofrestru ar y cynllun, mae yna 50 o fodiwlau hyfforddiant pellach y gallant gael mynediad atynt yn eu hamser eu hunain. Dyma'r fenter gyntaf o'i bath ac rydym yn trafod potensial hyn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer dull gweithredu Cenedlaethol.
- Datblygwyd Porth Cymorthyddion Personol i helpu cyflogwyr taliadau uniongyrchol i recriwtio ac i hyrwyddo cyfleoedd gwaith i ddarpar CP.

Mae recriwtio staff gofal a chymorth wedi bod yn anodd yn hanesyddol oherwydd y gronfa fach o weithwyr yn y maes, diffyg ymwybyddiaeth neu gydnabyddiaeth o'r rolau a'r risg o ddad-sefydlogi'r farchnad breifat. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o'n dulliau recriwtio a lansiad mentrau newydd sy'n cynnwys yr ymgyrch Gofalwn Cymru a'r gwaith recriwtio ar sail gwerthoedd, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o ymgeiswyr newydd ac ymgeiswyr sy'n dychwelyd i'r proffesiwn.

5. Gwasanaethau preswyl (plant)

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal preswyl i blant a phobl ifanc. At ddibenion yr asesiad hwn, mae'r bennod yn cynnwys rhai rhwng 0 ac 18 oed yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys am wasanaethau nes eu bod yn 25 oed, megis pobl anabl a'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae gwasanaethau preswyl yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal (Plant) - gofal mewn cartref â staff cyflogedig
- Llety Diogel - lle diogel a saff
- Gwasanaethau Preswyl Teulu - llety ble mae rhieni a phlant yn aros gyda'i gilydd i gael eu hasesu / cael gofal

Mae penodau ar wahân ar wasanaethau maethu a mabwysiadu.

Trosolwg o'r boblogaeth

Rhagwelir y bydd gostyngiad yn nifer y plant

Yn 2020, roedd tua 123,700 o blant rhwng 0 a 15 oed yng Ngogledd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021b). Ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd yn nifer y plant rhwng 2015 a 2020 ar draws Gogledd Cymru neu ym mhob sir. Amcangyfrifir y bydd nifer y plant yn gostwng 7% yng Ngogledd Cymru yn ystod y 15 mlynedd nesaf (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r lefel yn amrywio ar gyfer pob awdurdod lleol o ostyngiad o 2% yng Ngwynedd i 12% yn Wrecsam, fel y dangosir yn y siart isod. Mae hwn yn batrwm cenedlaethol, ac amcangyfrifir y bydd gostyngiad o 5% yng Nghymru gyfan.

Siart 1: Amcanestyniadau poblogaeth, plant 15 oed ac iau (seiliedig ar 2018)



Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru yn seiliedig ar 2018 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Mae nifer y plant sy'n cael gofal a chymorth wedi cynyddu

Yn 2020, roedd bron i 2,900 o blant yn cael gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn 2,300 i bob 100,000 o blant yn y boblogaeth, sydd ychydig is na'r gyfradd i Gymru gyfan, sef 2,550 i bob 100,000 o blant yn y boblogaeth. Mae'r niferoedd yn amrywio ar draws Gogledd Cymru a thros amser ac nid oes patrwm clir.

Yn 2018-19 roedd 575 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Ngogledd Cymru. Er bod y niferoedd yn amrywio o yn flwyddyn i'r llall ar gyfer pob awdurdod lleol, mae'r lefel wedi parhau'n debyg yn gyffredinol dros Ogledd Cymru, gyda gostyngiad bychan o 3% (15 o blant). Oherwydd bod y niferoedd mor fach, nid yw'n bosibl dynodi patrymau clir oherwydd, er enghraifft, gallai newid dramatig o un flwyddyn i'r llall ddigwydd oherwydd bod un teulu wedi symud i ardal neu o ardal.

Nid oes disgwyl i nifer y plant sy'n derbyn gofal barhau i gynyddu

Er bod y ffigurau cyffredinol ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal wedi dangos cynnydd cyson o un flwyddyn i'r llall hyd yma, ni ddisgwylir i hyn barhau yn y dyfodol (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019).

Roedd plant sydd wedi profi gofal yn fwy diamddiffyn yn ystod y pandemig

Amlygodd yr Adolygiad Cyflym o Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2020) effaith y pandemig ar blant sydd wedi profi gofal, ac roedd yn cynnwys unigedd ac unigrwydd a tharfu ar fynediad at wasanaethau. Yng Ngogledd Cymru, cafwyd gostyngiad cychwynnol mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant ond wedyn, cododd y cyfraddau yn ôl i’r lefel ddisgwyliedig. Cynhaliwyd mwy o ymweliadau monitro i aelwydydd ble roedd plant ar y gofrestr amddiffyn plant - ymweliadau wythnosol yn hytrach na’r amserlen 10 diwrnod.

Mae cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal o’r newydd

Yn 2021 roedd 1,470 o blant a phobl ifanc lleol yn derbyn gofal gan awdurdod lleol Gogledd Cymru, sy’n debyg i’r darlun cenedlaethol yng Nghymru gyfan. Mae nifer y plant sy’n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 350 yn ystod yr amser a ddangosir yn y tabl isod. Mai llai o blant yn derbyn gofal fesul 100,000 o’r boblogaeth yng Ngogledd Cymru na gweddill Cymru, ond mae amrywiadau sylweddol ar draws y rhanbarth, o 800 yn Sir y Fflint i 1,300 yn Wrecsam. Mae’n bwysig nodi bod y nifer yn newid yn sydyn ar hyn o bryd gyda chynnydd sylweddol mewn pobl ifanc sydd newydd gael llety.

Tabl 18: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o blant sy'n derbyn gofal (dan 18 oed) gan awdurdod lleol, 2017 a 2021

Cyngor lleol	2017 Nifer	2017 Cyfradd	2021 Nifer	2021 Cyfradd	Newid Nifer
Ynys Môn	140	1,039	160	1,214	20
Gwynedd	220	927	280	1,210	65
Conwy	180	829	215	1,015	35
Sir Ddinbych	160	825	180	923	20
Sir y Fflint	210	654	255	795	45
Wrecsam	215	736	375	1,304	160
Gogledd Cymru	1,120	805	1,470	1,063	350
Cymru	5,960	949	7,265	1,153	1,305

Ffynhonnell: StatsCymru

Trosolwg o'r farchnad

Er gwaetha'r ymrwymiad ar y cyd i atal ac ymyrryd yn gynnar, bydd cyfran fach o blant sy'n derbyn gofal angen lleoliadau preswyl bob amser. Yn dibynnu ar anghenion gofal, gall hyn fod mewn:

Cartrefi Gofal Preswyl â staff gofal cyflogedig
Uned Llety Diogel
Uned Breswyl Teulu

Rhoddodd y Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019) ddadansoddiad o ddarpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd Cymru. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 70 o blant Gogledd Cymru yn byw mewn cartref gofal. Cynyddodd cyfanswm y plant oedd yn byw mewn cartref gofal 133% yng Ngogledd Cymru rhwng 2016 (30 o blant) a 2020 (70 o blant). Mae'r tabl isod yn dangos bod y ffigwr hwn wedi mwy na dyblu i 158 rhwng 2020-2021.

Tabl 19: Ciplun o nifer y bobl ifanc mewn lleoliadau preswyl ar 31 Mawrth 2021.

Sir	Preswyl
Ynys Môn	10
Gwynedd	21
Conwy	37
Sir Ddinbych	20
Sir y Fflint	39
Wrecsam	31
Gogledd Cymru	158

Ffynhonnell: Casglu data awdurdodau lleol

Nodiadau: Mae preswyl yn cynnwys cartrefi gofal, gwasanaethau preswyl teulu, lleoliadau ysgol preswyl

Cyfran o'r farchnad

Roedd 17 darparwr annibynnol gofal preswyl i blant yn rhedeg 42 o sefydliadau ac yn darparu 180 o leoliadau cofrestredig ('gwely') ar draws Gogledd Cymru.

Oherwydd y ddarpariaeth gyfyngedig o leoliadau mewnol yn y rhanbarth, mae'n rhaid i awdurdodau dalu i sefydliadau allanol a elwir yn 'ddarparwyr'. Mae mwy o wybodaeth ar y gwaith i gynyddu capasiti preswyl mewnol yn yr adran ar y Rhaglen Drawsnewid i Blant.

Llety diogel

Nid oes darpariaeth llety diogel yng Ngogledd Cymru. Mae cartref diogel cenedlaethol, pwrpasol i blant yn Ne Cymru. Mae lle i 18 o blant a phobl ifanc o bob rhyw rhwng 12 a 17 oed yn Hillside.

Rhoddir plant mewn llety diogel drwy orchymyn llys ac mae'r niferoedd yn isel iawn, rhwng 0 a 2 fesul awdurdod bob blwyddyn heb unrhyw batrwm clir. Nid oes cynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth hon yng Ngogledd Cymru.

Trafodir darpariaeth cam i lawr o lety diogel a lleoliadau lles diogel yn yr adran llety brys.

Digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad

Mae lleoliad yn y sir neu gerllaw yn bwysig i blant a bobl ifanc gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol sefydledig gyda theulu (rhieni, brodyr a chwiorydd ac eraill) a'r ysgol – sy'n eu helpu i ddatblygu eu hunaniaeth ac aeddfedrwydd emosiynol (NICE, 2021).

Mae'r tabl isod yn dangos mai yng Nghonwy a Gwynedd mae'r gyfradd uchaf o leoliadau y tu allan i Ogledd Cymru. Mae dros hanner y lleoliadau preswyl ar draws y rhanbarth y tu allan i Ogledd Cymru.

Tabl 20: Nifer y lleoliadau preswyl y tu allan i'r sir

Sir	Cyfanswm y lleoliadau	Lleoliadau y tu allan i Ogledd Cymru	% y lleoliadau y tu allan i Ogledd Cymru
Ynys Môn	16	5	31%
Gwynedd	16	10	63%
Conwy	16	12	75%
Sir Ddinbych	10	5	50%
Sir y Fflint	31	17	55%
Wrecsam	18	8	44%
Gogledd Cymru	107	57	53%

Ffynhonnell: Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019)

Mae prinder darparwyr preswyl lleol

Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adroddiad oedd yn archwilio'r achos dros ail-gydbwyso darpariaeth gofal cymdeithasol mewn Gwasanaethau Plant (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2020). Nododd yr adroddiad anghydbwysedd grym sylweddol yn y farchnad gofal preswyl plant, sy'n effeithio ar leoliadau a dewis, y gallu i wneud y dewis gorau ar gyfer anghenion plentyn, y llwyth gwaith a'r canlyniadau i blant. Heb ail-gydbwyso, bydd dibyniaeth barhaus ar ddarparwyr preifat, mewn rhai achosion gyda chostau uchel ac amheuaeth o werth

am arian, mwy o ansefydlogrwydd a chanlyniadau gwael i blant. Rhaid i nod unrhyw ail-gydbwyso fod i ddatblygu marchnadoedd sefydlog, cryf, sy'n cynnig opsiynau a dewis, gofal o ansawdd, llai o leoliadau'n methu a chanlyniadau da i blant.

Mae galw cynyddol am leoliadau preswyl a diffyg cyflenwad o ddarparwyr preswyl lleol wedi arwain at 'farchnad darparwyr'. Mae darparwyr yn gallu dewis a dethol pa bobl ifanc maent yn eu derbyn, sy'n gallu golygu ei bod yn fwy anodd dod o hyd i leoliad i rai ag anghenion a heriau ymddygiad mwy cymhleth. Gall hyn fod oherwydd sgiliau/arbenigedd y darparwr, pryder am sut gallai'r ymddygiad amharu ar breswylwyr eraill a'r gymuned leol, a phryder y gallai hyn i gyd gael effaith ar ganlyniadau'r gwasanaeth.

Ochr yn ochr â'r pwysau ariannol, mae pwysau hefyd ar amser staff. Os bydd gwely'n dod yn rhydd, mae'n bosibl y bydd nifer o wasanaethau lleol yn ceisio ei sicrhau, gan arwain at gystadleuaeth.

Mae'r galw uchel hwn yn rhoi pwysau ar gyllideb awdurdodau lleol, ac mae darparwyr yn gallu pennu cost y ddarpariaeth. Mae perygl y bydd gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir yn cynyddu wrth i gostau lleoliadau gynyddu mewn marchnad sy'n cael ei harwain gan alw.

Ar hyn o bryd, mae Gogledd Cymru yn dibynnu ar y sector annibynnol ar gyfer darpariaeth gofal preswyl plant. Mae'r Rhaglen Drawsnewid i Blant a Chyllid Gofal Integredig wedi cael eu defnyddio i gynyddu'r ddarpariaeth fewnol ac ariannu gweithgarwch ataliol. Mae awdurdodau lleol yn parhau i archwilio cyfleoedd i hwyluso dull gwahanol i helpu i leihau'r ddibyniaeth ar leoliad y tu allan i'r sir sy'n arwain at bwysau ariannol anghynaladwy i wasanaethau cymdeithasol ac addysg.

Mae prinder darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiad cymhleth

Yn 2019, roedd dros hanner y plant a roddwyd mewn gofal preswyl yn cael gofal yn bennaf oherwydd anghenion emosiynol ac ymddygiad ac roedd dau draean ohonynt rhwng 13 a 16 oed (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019).

Mae prinder sylweddol o leoliadau arbenigol i bobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiad sylweddol yng Ngogledd Cymru. Mae plant yn cael eu lleoli yn Lloegr yn aml, oddi wrth eu teuluoedd. Mae darpariaeth gyfyngedig yn Lloegr. Mae gweithwyr

cymdeithasol yn ei chael yn anodd lleoli plant ag anghenion dwys gan fod darparwyr yn tueddu i gadw lleoedd i geisio lleoli plentyn ag anghenion llai dwys.

Mae'n bosibl y bydd rhai plant wedi cael eu haddysg yn Gymraeg, ac felly byddant yn ei chael yn anodd ymdopi mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac angen tiwtor neu gymhorthydd i roi cymorth ychwanegol.

Mae pobl ifanc mewn argyfwng yn aml yn mynd i'r Adran Achosion Brys ac yn aros mewn ysbyty mewn sefyllfaoedd brys.

Mae prinder llety brys

Mae gwasanaethau cymdeithasol ar hyd a lled y DU yn wynebu pwysau cynyddol i ddod o hyd i leoliadau mewn achosion brys. Yn lleol, mae rhai sefyllfaoedd yn codi pan na allwn ddod o hyd i leoliad i blentyn. Oherwydd hyn mae'n rhaid datblygu sefyllfa dros dro i ddarparu llety a chymorth nes gellir dod o hyd i leoliad. Gall y sefyllfaoedd hyn godi o anawsterau i leoli pobl ifanc yn dilyn methiant perthnasoedd yn y cartref, trosglwyddo plant pan fydd yr heddlu wedi defnyddio eu grym gwarchod i symud plant a diffyg gwelyau diogel i bobl ifanc ag anghenion a risgiau lles dwys.

Mae'n bwysig pwysleisio mai fel dewis olaf mewn sefyllfaoedd brys y defnyddir y trefniadau hyn, oherwydd amgylchiadau eithriadol ac am gyfnod byr nes gellir dod o hyd i ddarpariaeth sy'n cael ei rheoleiddio. Mae trefniadau diogelu ynghylch lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn cynnwys cymeradwyaeth uwch reolwr, hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru fel ein rheoleiddiwr, cynllun gofal a chymorth, cwblhau ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol, cynnwys Swyddogion Adolygu Annibynnol a goruchwylio gweithwyr cymdeithasol i edrych ar drefniadau / cynlluniau symud ymlaen.

Gall y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi yn eu lle mewn achosion brys fod gyfystyr â lleoliadau heb eu rheoleiddio. Dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n drosedd i rywun ddarparu gwasanaeth wedi'i reoleiddio heb gael ei gofrestru yn gysylltiedig â'r gwasanaeth hwnnw.

Trosolwg o’r farchnad leol

Mae Datganiad Sefyllfa’r Farchnad 2021 yn arfarnu’r farchnad ac yn nodi beth sy’n digwydd, y gwasanaethau preswyl sydd eu hangen i blant yn y rhanbarth a’r dyheadau ar gyfer darparwyr y dyfodol.

- Mae nifer y plant sy’n byw mewn cartref plant wedi cynyddu, gallai rhai o’r plant hyn fyw gyda theulu maeth ond ar hyn o bryd, nid oes digon o ofalwyr maeth gyda’r sgiliau cywir i’w cefnogi.
- Mae rhai o’n plant sy’n byw mewn cartref plant yn byw y tu allan i ffiniau’r awdurdod lleol er gwaethaf capasiti digonol yn yr ardal.

Yr hyn nad oes arnom ei angen:

- Nid ydym yn annog i ddarparwyr annibynnol gofal preswyl i blant nad yw eu gwasanaethau’n cael eu datblygu i fodloni anghenion ein plant, ehangu yng Ngogledd Cymru.
- Nid oes arnom eisiau i ddarparwyr weithredu cartrefi plant heb fodel gofal clir na chyflenwi darpariaeth safonol yn unig.

Yr hyn y mae arnom ei eisiau:

- Mae arnom eisiau gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a’u cefnogi i ddarparu modelau gofal fydd yn bodloni anghenion ein plant.
- Mae arnom eisiau gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a’u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn modd sydd, nid yn unig yn gwella canlyniadau i’n plant, ond hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i’n cymunedau.
- Mae arnom eisiau darparwyr sy’n gallu gofalu’n ddiogel am ein plant sydd ag anghenion dwys lluosog ac sy’n gallu darparu llety amgen i ddiogelu darpariaeth lles.
- Mae arnom eisiau darparwyr fydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda ni yn ystod cyfnodau o drawsnewid yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwyr maeth neu gael eu haduno â’u teulu.
- Mae diwylliant Cymru yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac mae arnom eisiau mwy o ddarparwyr sy’n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

Ynys Môn

Mae 3 adnodd cartref grŵp bychan yn Ynys Môn gyda'r potensial i gynnig 5 gwely i blant sydd angen y gwasanaeth. Mae ein 4ydd eiddo yn cael ei adnewyddu a bydd wedi ei orffen ym mis Awst 2022. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol gynnig 3 gwely posibl arall yn lleol i gyrraedd cyfanswm o 8 gwely.

Mae gwasanaeth cartref grŵp bychan Ynys Môn yn galluogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth i aros gyda'u teulu biolegol mor hir â phosibl. Y nod yw osgoi'r angen am leoliadau preswyl arbenigol 'y tu allan i'r sir' os bydd y teulu'n chwalu.

Mae ein tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol yn cefnogi'r teulu a staff gofal fydd yn gyfrifol am ofal yr unigolyn ifanc o ddydd i ddydd. Mae hyn yn rhoi cysondeb ar draws yr ystod o ofal a chymorth a roddir i unigolion.

Canlyniadau

- Gallu datblygu a chynnig opsiwn cynyddol o 'ofal ar y cyd' i unigolion a theuluoedd rhag i'r teulu chwalu'n llwyr.
- Cyfle i'r unigol ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiadau newydd a allai eu galluogi i symud ymlaen i lety â chymorth arall i fodloni eu hanghenion unigol.
- Gallu darparu gofal tymor hirach a chyfle i weithio mewn partneriaeth yn gynt gyda'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu Oedolion i'w cefnogi drwy'r broses bontio.
- Bod ar gael i fodloni anghenion pobl ifanc eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth cymhleth, yn dibynnu ar yr anghenion a aseswyd.

Gwynedd

Mae diffyg capasiti wedi'i nodi mewn lleoliadau gofal preswyl plant yng Ngwynedd ac yng Nghymru yn ehangach. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn ymdrin â'r angen ac nid oes rhagolwg o ddarpariaeth newydd yn y dyfodol agos. Mae darparwyr presennol yn rhai bach iawn, sy'n golygu fod plant yn gorfod mynd i Loegr, sy'n gallu arwain at broblemau eilaidd, yn enwedig gan nad oes cyflenwad digonol yn Lloegr ychwaith. Mae gweithwyr cymdeithasol yn ei chael yn anodd lleoli plant ag anghenion dwys gan fod darparwyr yn tueddu i gadw lleoliadau i blant ag anghenion llai dwys. Nodwyd ei bod yn bosibl sicrhau lleoliad i bob unigolyn, ond bod angen trafodaethau pellach er mwyn lleoli'r rhai ag anghenion mwy dwys. Mae'r ffioedd hefyd yn uchel iawn.

Codwyd y materion canlynol fel rhwystrau i ddatblygu gofal preswyl:

- Mae stigma o hyd yn gysylltiedig â chartref gofal plant.
- Mae angen i blant sy'n cael eu rhoi gyda'i gilydd mewn lleoliad gofal allu cyd-fyw ac yn aml iawn mae ganddynt anghenion gwahanol neu rai sy'n gwrthdaro, sy'n gallu bod yn gymhleth ac yn frawychus iawn i ddarparwyr newydd oherwydd y risgiau ariannol wrth sefydlu busnes o'r fath.
- Mae'r cynnydd sylweddol ym mhrisiau'r stoc dai yng Ngwynedd yn gwneud achos busnes yng Ngwynedd yn llai deniadol.

Conwy

Mae'r tabl isod yn dangos y mathau a nifer y lleoliadau yng Nghonwy dros y pum mlynedd diwethaf.

Tabl 21: Math a nifer y lleoliadau, Conwy, 2017 i 2021

Sir		2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Lleoliadau maethu	-	249	221	212	203	208
Mabwysiadu/Lleolwyd ar gyfer Mabwysiadu	-	11	16	15	17	22
Byw'n Annibynnol		15	16	23	29	23
Cartrefi Preswyl/Ysgolion/Hostel		30	31	33	37	48
Troseddwyr Ifanc/Llety Diogel		1	2	2		
Lleolwyd gyda Rhiant/Rhiant arall		46	41	38	24	39
Gofal Meddygol/Nyrsio		11	4	1	1	
Canolfan Deulu neu uned Mam a'i phlentyn					1	5
Lleoliad heb ei Reoleiddio dan Gyfarwyddyd y Llys, Adran 38(6)					3	12
Lleoliadau Dros Dro					3	11

Ffynhonnell: Casglu data awdurdodau lleol

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng, mae hyn yn cyd-fynd â buddsoddiad a phwyslais sylweddol ar wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal. Cafodd tîm Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth Conwy 4,400 o atgyfeiriadau rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021. Mae'r tîm wedi cael mwy o atgyfeiriadau. Yn anecdotaidd, mae'r achosion wedi bod yn fwy cymhleth.

Mae'r prif heriau i gynnal darpariaeth yn cynnwys:

- Gweithlu - Mae recriwtio gweithwyr gofal plant, yn enwedig rhai â phrofiad, yn her sylweddol**.** Mae gweithwyr cymdeithasol profiadol yn chwilio am swyddi eraill oherwydd natur y gwaith amddiffyn plant ac effaith hyn ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac iechyd meddwl**.** Mae awdurdodau lleol yn cystadlu ag asiantaethau i ddenu gweithwyr cymdeithasol, sy'n talu cyflogau uwch.
- Ymdrechu i newid statws plant sy'n derbyn gofal drwy Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig (Perthnasau).
- Mae gweithio mewn partneriaethau effeithiol gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn parhau i fod yn anghyson gan fod gan bob asiantaeth safbwyntiau gwahanol a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro - gwaith achos heriol, risg uchel, sy'n cymryd amser.
- Prinder llety brys a dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir / dros dro. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i ni ar hyn o bryd.

Mae costau lleoliadau wedi dyblu bron iawn, o gyfartaledd yr wythnos o £3,500 yn 2017 i rai sy'n gofyn rhwng £6,000 a £7,000 yn 2021/22.

Sir Ddinbych

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych 20 o blant neu bobl ifanc mewn darpariaeth cartrefi gofal, ac mae mwy na'u hanner y tu allan i Gymru. Er bod y plant a'r bobl ifanc hyn wedi cael eu rhoi'n briodol mewn lleoliadau preswyl yn seiliedig ar eu hanghenion, mae diffyg opsiynau lleol wedi golygu bod rhai lleoliadau yn bell iawn o'u cartrefi.

Mae galw am leoliadau preswyl i blant â phroblemau iechyd meddwl sydd ag ymddygiad cymhleth oherwydd trawma. Mae diffyg lleoliadau hefyd sy'n gallu

cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef Camfanteisio Rhywiol neu Gamfanteisio Troseddol.

Sir y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint yn comisiynu 39 o wasanaethau cartrefi gofal plant, mae hanner y plant a phobl ifanc hyn yn cael eu lleoli y tu allan i'r wlad, yn Lloegr neu'r Alban. Mae angen pwyslais ar fentrau a gynlluniwyd i leihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir o'r dechrau. Er bod y plant wedi cael eu rhoi'n briodol mewn lleoliadau preswyl yn seiliedig ar eu hanghenion, ychydig iawn o ddulliau hyfyw eraill oedd ar gael a allai fod wedi arwain at ddad-ddwysau, gan ddileu'r angen am leoliad y tu allan i'r sir.

Mae galw am wasanaethau preswyl i blant sy'n dioddef â'u hiechyd meddwl ac nid oes digon o ofal a chymorth yn ardal yr awdurdod lleol i'w darparu. Mae gwasanaethau y tu allan i'r sir yn cael eu defnyddio, sy'n achosi mwy o oblygiadau o ran cost.

Mae gan nifer o ddarparwyr preswyl lleol hefyd gynlluniau ar gyfer ehangu, sy'n gyfle arall mewn partneriaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion lleol.

Dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y sector, nod y cyngor yw:

- Gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a'u cefnogi i ddarparu modelau gofal fydd yn bodloni anghenion plant.
- Gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn modd sydd, nid yn unig yn gwella canlyniadau i'n plant, ond hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Gweithio gyda darparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am blant sydd ag anghenion dwys lluosog ac sy'n gallu darparu llety amgen i ddiogelu darpariaeth lles.
- Nodi darparwyr fydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda ni yn ystod cyfnodau o drawsnewid yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwyr maeth neu gael eu haduno â'u teulu.
- Mae diwylliant Cymru yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac mae arnom eisiau mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

Wrecsam

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn comisiynu unrhyw ddarpariaeth fewnol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal plant, er bod gennym ni 33 o blant a phobl ifanc wedi'u lleoli mewn lleoliadau y tu allan i'r sir yng Nghymru a Lloegr. Mae angen ffocws ar fentrau sydd wedi'u cynllunio i leihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir o'r cychwyn cyntaf.

Gan ddefnyddio Cyllid Cyfalaf Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, eleni roeddem yn gallu lansio ein Rhaglen Gofal yn Nes at y Cartref a fydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth dros y 4 blynedd nesaf. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar brynu, ailbwrpasu a/neu ailddatblygu eiddo naill ai gan CBSW neu mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu cynlluniau byw â chymorth a chartrefi plant bach yn Wrecsam, gan alluogi pobl i ddychwelyd i'r Fwrdeistref i gwrdd â'u tai a/neu anghenion gofal ac atal yr angen i gomisiynu lleoliadau all-sirol yn y dyfodol. Eleni, fe wnaethom sicrhau tri eiddo ac mae mwy yn y cynllunio o dan gynlluniau grant cyfalaf newydd ac ehangedig Llywodraeth Cymru. Mae galw am wasanaethau preswyl i blant sy'n dioddef o'u hiechyd meddwl, ac nid oes lefel ddigonol o ofal a chymorth yn ardal yr awdurdod lleol i ddarparu hyn. Mae gwasanaethau'n cael eu ceisio y tu allan i'r sir sy'n golygu goblygiadau cost pellach.

Mae gan nifer o ddarparwyr preswyl lleol hefyd gynlluniau ar gyfer ehangu, sy'n rhoi cyfle arall i weithio mewn partneriaeth i alinio'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion lleol. Dros y flwyddyn i ddod, bydd ein blaenoriaethau yn canolbwyntio ar:

- Uchafu cyllid cyfalaf rhanbarthol i ehangu gofal yn nes at y cartref a datblygu datrysiadau gofal lleol dielw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Prosiect fframwaith aduno – defnyddio proses NSCC i wella llwyddiant ailuno.
- Gwella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion gyda chymorth cyfreithiol a gwaith cymdeithasol penodol wedi'i ymrwymo i gynllunio i ryddhau cleifion a darparu Gorchmynion Gofal Rhyddhau.
- Twf parhaus yn y cynnig gwarcheidiaeth arbennig a chefnogaeth.
- Lansio 'Myfyrio' – rhaglen i gefnogi gostyngiad yn nifer y beichiogrwydd cylchol sy'n dod i ben gyda phlant yn cael eu tynnu.

- Gwerthusiad o gyfraddau tâl ar gyfer Gofalwyr Maeth i adlewyrchu costau byw yn well a lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â thlodi.
- Cyflwyno Prosiectau Kickstart a Llety â Chymorth
- Therapi Aml-Systemig – parhau i gyflwyno dull Therapi Aml-systemig ar draws gwasanaethau i gynnwys cymorth symud ymlaen/cam-i-lawr i deuluoedd.
- Proses Sefydlogrwydd Cynnar i'w sefydlu gan flaenoriaethu sefydlogrwydd o'r cychwyn, Rydym hefyd yn anelu at;
- Uchafu'r defnydd o gyllid cyfalaf rhanbarthol newydd a chynyddol i ddatblygu llety/unedau lleoliadau brys newydd i gynyddu'r ddarpariaeth o lety seibiant brys i'r teuluoedd hynny mewn argyfwng.

Darpariaeth cartrefi plant mewnol

Cafodd Gogledd Cymru gyllid grant o £3.8m ar gyfer rhaglen drawsnewid ranbarthol i blant a phobl ifanc yn 2021/22. Mae'r bartneriaeth strategol o awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd ym mhob ardal ddaearyddol yn y rhanbarth yn goruchwylio darpariaeth y rhaglen drawsnewid. Yn ardaloedd y Canol a'r Dwyrain, bydd dwy Ganolfan Asesu Preswyl pwrpasol yn agor yn 2022/23. Byddant yn cefnogi darpariaeth gofal mewnol yn nes at y cartref i blant ag anghenion ymddygiad ac emosiynol cymhleth.

Tabl 22: Capasiti blynyddol ychwanegol a grëwyd gan Gyllid y Rhaglen Drawsnewid 2021/22

Ardal	Lleoliadau Asesu Blynyddol	Lleoliadau Brys Blynyddol	Lleoliadau Cartref Gofal
Gorllewin (Ynys Môn a Gwynedd)			-
Canol (Conwy a Sir Ddinbych)	12	-	12
Dwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam)	12	182	4
Gogledd Cymru	24	182	4

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol
Nodiadau: Asesiadau blynyddol y Dwyrain a'r Canol yn seiliedig ar 4 lleoliad 16 wythnos. Lleoliadau brys blynyddol y Dwyrain yn seiliedig ar 1 lleoliad gydag arhosiad o ddim mwy na 2 noson.

Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd a BIPBC (Gorllewin)

Nid oedd digon o alw i gyfiawnhau comisiynu canolfan breswyl teulu llawn amser. Mae capasiti presennol yn cael ei fodloni'n ddigonol.

Mae'r Tîm Trawsnewid ar Ynys Môn yn wasanaeth newydd fydd yn cynnig darpariaeth aml-asiantaeth o wasanaethau dwys yn Ynys Môn.

Bydd y Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, rhwng 0 a 25 oed, sydd un ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu ble mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel.

Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd ymarfer, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cefnogi. Mae eu pwyslais ar weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae cyflwr niwrolegol yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned.

Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Canol)

Bwthyn y Ddôl

Mae tîm amlddisgyblaethol Bwthyn y Ddôl yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ar ymylon gofal ac mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal.

Bydd y tîm yn canolbwyntio i ddechrau ar gwblhau asesiad holistaidd drwy broses ymgynghori er mwyn argymell rhaglen o ymyriadau.

Mae model gofal newydd yn seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ddatblygu drwy dîm aml-asiantaeth. Mae hwn wedi cael ei deilwra i anghenion pobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu fod yr ymyrraeth wedi helpu pobl ifanc aros gartref yn ddiogel.

Mae dull teulu cyfan sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cynnwys cynnal trafodaethau aml-asiantaeth yn rheolaidd, sydd wedi hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws pob asiantaeth.

Bydd y ganolfan asesu breswyl newydd yn cynnig:

Pedwar lleoliad ar gyfer asesiadau preswyl
Llety 'brys' tymor byr, heb ei gynllunio i ddau o blant a phobl ifanc
Rhagwelir y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2023.

Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Dwyrain)

Bydd Tŷ Nyth, Canolfan Asesu Breswyl a chartref preswyl i blant yn darparu cefnogaeth wedi'i danategu gan y dull Pontio Ymyriadau Teuluol (FIT) Therapi Aml Systemig (MST).

Daeth y Tîm MST (Therapi Aml-Systemig) yn weithredol ym mis Mai 2020 yn ystod y cyfnod cloi COVID, yn cynnwys Goruchwyliwr, pedwar Therapydd a Gweinyddwr. Mae'r tîm Therapi Aml-systemig yn darparu asesiad dwys a chymorth therapiwtig i bobl ifanc ag anghenion sylweddol, yn aml gyda lefelau uchel o ymddygiad heriol ar

draws meysydd lluosog a all gynnwys ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol, cam-drin sylweddau, colli cartref, hunan-niweidio a phatrymau gwahardd o'r ysgol / risg o waharddiad. Mae gan bob teulu becyn gofal pwrpasol wedi'i deilwra i anghenion eu teulu, gan ddefnyddio cryfderau presennol y teulu i roi'r cyfle gorau posibl ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r Tîm Therapi Aml-systemig wedi bodloni'r meini prawf i weithredu model MST UK o dan ofynion trwyddedu llym gan gynnwys cymhwysedd i ymarfer trwy hyfforddiant dwys. Mae MST yn fodel clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gweithio gyda'r holl systemau sy'n ymwneud â'r plentyn, gan gynnwys addysg, dylanwadau cymunedol ac unrhyw oedolion arwyddocaol / eraill yn y teulu. Mae'n meithrin gwydnwch y teulu ac yn cynnig cymorth sy'n hygyrch '24/7'. Cydnabod y gall problemau yn y teuluoedd godi ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Cynhelir apwyntiadau yng nghartref y teulu ar adegau sy'n gyfleus i'r teulu. Mae'r tîm yn gweithredu gydag ethos MST o 'beth bynnag sydd ei angen.' Mae'r Tîm yn darparu cymorth uniongyrchol i feithrin gwydnwch teuluoedd am rhwng 3 a 5 mis. Mae'r ffocws ar atal lleoliad y tu allan i'r cartref trwy ofal neu ddalfa ymhlith pobl ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol gartref, yn y gymuned a/neu yn yr ysgol.

Bydd y gwasanaeth yn darparu;

- 4 lleoliad asesu preswyl ar yr un adeg (hyd arhosiad 12 i 16 wythnos) i bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed.
- Cefnogaeth i ofalwyr pobl ifanc gan y tîm MST FIT i gynyddu sgiliau a chefnogi pontio llyfn i'r cartref.
- Cymorth parhaus i deuluoedd am hyd at 4 mis pellach a gydag asiantaethau allweddol eraill megis gofal cymdeithasol ac ysgolion a rhwydweithiau cefnogi eraill yn y gymuned. Y nod yw gwella annibyniaeth teuluoedd a lleihau dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau statudol.

Hefyd, bydd y gwasanaeth yn darparu:

- 1 lleoliad i blant sydd angen llety brys (arhosiad o ddim mwy na 2 noson)

Bydd Park Avenue yn cynnig 4 lleoliad hirdymor i blant nad yw cymorth mewn lleoliadau mwy yn addas iddynt. Mae'r bartneriaeth strategol yn ceisio ymrwymo i 6 chartref grwpiau bychan dros y 3 blynedd nesaf.

Ystyried ansawdd y farchnad

Rhanbarthol

Mae Consortiwm Comisiynu Plant Cymru yn dîm cenedlaethol i Gymru sy'n gweithio i gefnogi Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Awdurdodau Lleol i gomisiynu a chontractio lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Maent yn rheoli Fframwaith Preswyl Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru.

Mae monitro prosesau Sicrwydd Ansawdd a Rheoli Risg yn y Fframwaith yn nodi patrymau o ran darparwyr a phroblemau.

Ynys Môn

Mae gan Ynys Môn ddau Gartref Grwpiau Bychan cofrestredig – sef "Cartrefi Clyd Môn" – sydd wedi eu cofrestru ac sy'n cynnal Cartref Clyd Bryn Hwfa a Chartref Clyd Llanfairpwll. Mae'r ddau wedi bod yn rhedeg ar gapasiti llawn drwy gydol y flwyddyn, yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion gofal cymhleth sydd wedi dioddef trawma yn ystod eu plentyndod cynnar ac yn brwydro ag anhwylderau ymlyniad.

Yn dilyn llwyddiant y ddau gartref cyntaf, mae Ynys Môn ar fin agor y trydydd o'u Cartrefi Clyd Môn yng Nghaergybi, cartref grŵp bychan arbenigol, fydd yn gyfle am seibiant i blant sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau arbenigol plant.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd pedwerydd cartref y agor, sy'n dal yn y cam cynllunio a chofrestru – Cartrefi Clyd Môn Rhosybol.

Mae prosiect arall yn y cam cynllunio a chofrestru sef Cartrefi Clyd Môn Llangristiolus, fydd yn gyfleuster modern yn arbenigo mewn Gwasanaethau Dydd i'r Gwasanaethau Arbenigol Plant. Oherwydd y bydd y ddau gyfleuster newydd hwn yn agor yn 2022, bydd llai o alw am leoliad y tu allan i'r sir.

Cafodd y cyfleusterau yng Nghartref Clyd Bryn Hwfa a Chartref Clyd Llanfairpwll eu harchwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2020 a dyfarnwyd eu bod yn Rhagorol.

Sir Ddinbych

Mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i welliant parhaus drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, eu gofalwyr a staff cyflogedig a gwrando arnynt drwy arolygon ar gamau allweddol y broses gefnogi er enghraifft, ar ddiwedd lleoliadau.

Mae plant wedi helpu i siapio contractau ar gyfer y Gwasanaeth i Rai sy'n Gadael Gofal a'r Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol drwy'r broses werthuso.

Mae Ymgynghoriad parhaus â Phlant a Phobl Ifanc ar yr iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol wrth drafod ar lafar neu'n ysgrifenedig am fywydau ac amgylchiadau gofal a brofwyd gan blant a phobl ifanc. Mae hyn mewn ymateb i geisiadau gan Voices from Care, Comisiynwyr Ifanc a Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol sydd wedi amlygu'r iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol a'i effaith ar blant a phobl ifanc.

Mae Hyfforddiant Sgyrsiau Cydweithredol wedi galluogi ymarferwyr Gwasanaethau Plant i ystyried sut i feithrin perthnasoedd gwell â phobl. Cafwyd adborth sylweddol gan ymarferwyr fel rhan o ymarfer myfyriol.

Sir y Fflint

Yn ystod mis Ebrill 2021, cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Cymru wiriad sicrwydd i adolygu pa mor dda mae Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gyda phwyslais ar ddiogelwch a lles. Roedd y prif lwybrau ymholi yn canolbwyntio ar bedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac roedd y darganfyddiadau / dyfarniadau'n cyd-fynd â nhw – Pobl – Llais a Rheolaeth, Lles, Partneriaethau ac Integreiddio.

Tueddiadau presennol a'r rhai disgwyliedig

- Heriau wrth gael mynediad at welyau lles diogel a dewisiadau eraill lleol sy'n darparu ymyrraeth mewn argyfwng a dargyfeirio o lety diogel.
- Heriau wrth gael gafael ar leoliadau lleol priodol i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

- Mae angen trefniadau a chyfleusterau tymor byr ychwanegol a phriodol i blant. Mae hyn hefyd yn cynnwys plant ag anghenion ychwanegol ac weithiau eu brodyr a chwiorydd.
- Yn aml mae gan blant dros 16 oed anghenion cymhleth ac ychydig o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau, mae angen dull strategol i gefnogi anghenion llety a chymorth pobl ifanc rhwng 16 – 18 oed a'r rhai sy'n gadael gofal.

Effaith arferion comisiynu ar y farchnad

Defnyddir Fframweithiau Awdurdodau Lleol Cymru gyfan i gomisiynu lleoliadau unigol ar draws ystod o fathau o leoliadau. Mae'r fframweithiau hyn yn darparu partneriaethau lefel strategol â darparwyr mewn gwasanaethau maethu a phreswyl. Defnyddir y fframweithiau un ai pan fo angen comisiynu'n allanol dan Ddyletswydd Digonolrwydd y Rhanbarth neu pan fo'r ansawdd gorau, cyflawni canlyniadau a gwerth am arian yn cael ei gyflawni drwy gomisiynu allanol yn hytrach na darparu'r gwasanaeth yn fewnol. Mae'r Fframweithiau Cymru gyfan yn cael eu rheoli gan yr egwyddorion uchod.

Y dull a ddefnyddir i e-dendro lleoliadau maethu a phreswyl allanol yw'r Adnoddau Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant sy'n cynnig comisiynu tryloyw, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i leoliadau a reolir gan y Fframwaith a'r rhai sydd y tu allan i'r Fframwaith ac mae'n caniatáu cydymffurfio â'r arweiniad a rheoliadau caffael sy'n sylfaen i gomisiynu.

Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg

Nid oes gan y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir (neu wlad) – **IS IT COUNTY OR COUNTRY?** oherwydd diffyg lleoliadau arbenigol, y dewis o gael gwasanaethau gofal yn Gymraeg. Mae hon yn broblem benodol yng Ngwynedd.

Gwasanaethau ataliol

Dynododd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth flaenoriaeth allweddol i gefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc gyda phwyslais ar wasanaethau ataliol. Cafodd hyn ei ddynodi fel maes blaenoriaeth allweddol ar draws y rhanbarth.

Defnyddiwyd y Gronfa Gofal Integredig 2016-22 i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu ymyrraeth gynnar i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Heb y cyllid hwn, mae'n

bosibl y byddai plant a phobl ifanc angen mwy o ymyriadau gan Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Haen 3 a 4 a Heddlu Gogledd Cymru , ac mae'n bosibl na fyddent wedi gallu aros gyda'u teuluoedd.

Dylid defnyddio gwersi a ddysgwyd o brosiectau blaenorol i archwilio datblygiad gwasanaethau ataliol ymhellach drwy'r Gronfa Fuddsoddi Ranbarthol 2022-27.

Ynys Môn

Mae'r gwasanaeth plant a theuluoedd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol fel bod llai o blant a phobl ifanc angen derbyn gofal. Y prif ddarpariaeth ataliol yw'r tîm teuluoedd cryf. Maent yn cynnig cefnogaeth ddwys i deuluoedd ble mae problemau camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a phroblemau iechyd meddwl ymhlith rhieni wedi cael eu nodi ac yn cyfrannu at y risgiau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu gartref. Drwy ddefnyddio ymyrraeth yn seiliedig ar gryfderau ac sydd wedi ei llywio gan seicoleg, mae'r tîm wedi dangos yn gyson bod y rhain yn ffyrdd effeithiol o leihau risg a hwyluso newid sy'n caniatáu i deuluoedd aros gyda'i gilydd. Hefyd, datblygwyd rhaglen mentor cymheiriaid ac er ei bod yn ddyddiau cynnar, rydym yn disgwyl i hon fod yn ychwanegiad effeithiol i'r ddarpariaeth.

Mae'r Tîm Trawsnewid yn wasanaeth newydd a sefydlwyd yn 2021. Byddant yn cynnig darpariaeth aml-asiantaeth o wasanaethau dwys yn Ynys Môn. Mae'r Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, rhwng 0 a 25 oed, sydd un ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu ble mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel. Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd ymarfer, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cefnogi. Mae eu pwyslais ar weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae cyflwr niwrolegol yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned. Yn 2022, bydd y tîm yn cael ei ymgorffori i'r tîm teuluoedd cryf, gan ehangu cylch gwaith a chwmpas y tîm hwnnw.

Nod y gwasanaeth yw darparu'r gwasanaethau ymyrraeth ac atal cynharaf bosibl i deuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys y tîm o amgylch y teulu sydd wedi tyfu'n ddiweddar o 6 i 8 gweithwyr cefnogi. Mae ein gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys gwasanaeth cam-drin domestig GORWEL, lles emosiynol a gofalwyr ifanc

Gweithredu dros Blant, cymorth iechyd meddwl i rieni gan Adferiad, Canolfan Cymorth Cynnar a chyfarfodydd aml-asiantaeth Un Drws Ffrynt.

Gwynedd

Drwy gyllid ICF, mae Gweithredu dros Blant wedi sefydlu gwasanaeth Dychwelyd ac Atal Gwynedd i Blant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu gwasanaeth therapiwtig uniongyrchol i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, yn cynnwys lleihau'r angen a nifer y lleoliadau drud y tu allan i'r sir ac i gefnogi datblygiad darpariaeth gofal lleol o ansawdd uchel i blant Gwynedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn atal achosion o chwalu teulu yn cynnwys lleoliadau mabwysiadu'n methu sy'n arwain at fod angen lleoliad plant sy'n derbyn gofal.

Yr angen mwyaf o atgyfeiriadau yw i sefydlogi lleoliadau maeth, rydym yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy ofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r gefnogaeth i rieni maeth nid yn unig i rieni maeth newydd, ond i ofalwyr profiadol hefyd. Fel bob amser, mae cydweithio'n allweddol i lwyddiant ac yn yr enghreifftiau hyn, mae gweithio mewn partneriaeth agos gyda maethu yn hanfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar hunan-ofal i rieni maeth. Mae'r gwasanaeth Dychwelyd ac Atal wedi parhau i fod ar agor i aelodau grŵp maethu preifat Gwynedd ar Facebook, yn rhannu cyngor a dolenni ar amrywiaeth o bynciau o rianta i faterion yn ymwneud â'r pandemig.

Canlyniadau'r gwasanaeth yw:

- Lleihau nifer y Plant Sy'n Derbyn Gofal.
- Datblygu dull therapiwtig system gyfan i'r teuluoedd sydd mewn perygl o chwalu.
- Atal plant rhag bod angen derbyn gofal drwy ddarparu Therapi'n Canolbwyntio ar Ymlyniad i alluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddeall trawma a'i effaith yn well.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni a chynnal lleoliadau gofal sefydlog drwy gefnogi gofalwyr yn therapiwtig i ddeall a rheoli ymddygiad sy'n herio.
- Cefnogi ac uwchsgilio gofalwyr i ddatblygu ymatebion gofalgar, therapiwtig i ymddygiad, sy'n helpu i sefydlogi lleoliadau a'u hatal rhag methu.
- Darparu gwasanaeth hygyrch, prydlon sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau ac nad yw'n creu stigma.

- Darparu cymorth dwys a mewnbwn therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal sy'n addas i gael eu dychwelyd i'w cymunedau yng Ngwynedd.
- Gweithio gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu i gyflawni lleoliadau sefydlog.
- Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae creadigrwydd a chefnogaeth hyblyg y staff yn sicrhau hyn.

Mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn, gweler un enghraifft isod:

"Hollol wych a chefnogaeth a chyngor amhrisiadwy. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn gymorth gwirioneddol ac yn rhywbeth y mae gennym hyder ynddo a gwybod eu bod yno i ni bob amser fel teulu i'n helpu drwy'r amseroedd gwael ac i ninnau rannu ein rhwystredigaeth hefyd! Mae lefel eu hymrwymiad i ni yn dangos yn eu gofal ohonom ar ôl cyswllt gan wneud yn siŵr ein bod yn iawn neu ar ôl penwythnos gwael. Ni allwn ganmol digon ar y gwasanaeth hwn."

Conwy

Cyfiawnder Ieuenctid

- Gorchmynion Atgyfeirio - ymgysylltwyd â 38 o bobl ifanc yn y 6 mis diwethaf, 4 wedi ail-droseddu
- Gwaith Cyfiawnder Adferol Uwch - 66 atgyfeiriad cychwynnol
- Cefnogwyd 78 o bobl oedd wedi cael niwed ac yna cefnogwyd 44 o'r bobl ifanc (oedd wedi cyflawni'r drosedd) i ymgysylltu ag ymyriadau penodol wedi'u harwain gan safbwynt y dioddefwyr i ddatblygu dealltwriaeth o effaith eu hymddygiad.
- Ni chafodd unrhyw bobl ifanc oedd wedi ymgysylltu â'r prosiect ddedfryd o garchar.

Tabl 23: Atgyfeiriadau Cyfiawnder Ieuenctid Conwy Ebrill i Medi 2021

Math o atgyfeiriad	Nifer
Cardiau melyn	203
Datrysiad cymunedol fflat	13
Atgyfeiriadau atal	44
Datrysiad cymunedol +	24
Rhybudd ieuenctid	0
Rhybudd amodol ieuenctid	6
Cyfanswm	290

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Sir Ddinbych

Yn 2021 sefydlwyd y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol (LIFT) drwy gyllid Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Tîm yn cynnig cefnogaeth gynnar wedi'i thargedu ar gyfer teuluoedd sy'n cael problemau i reoli anawsterau emosiynol ac ymddygiad.

Mae'r Tîm, sy'n cynnwys Llyw-wyr Lles, Therapyddion Galwedigaethol, Arbenigwyr Cymorth Ymddygiad a Seicolegwyr, yn gweithio gyda theuluoedd i ddeall yr ymddygiad heriol a gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth a chefnogaeth i helpu i ddatblygu a gweithredu cynlluniau ymddygiad positif a rhoi ymgynghoriad arbenigol pan fo angen.

Mae'r tîm aml-asiantaeth sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol wedi datblygu model gofal penodol a dull partneriaeth o gefnogi teuluoedd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Maen nhw bellach ar waith ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r rhaglen hefyd wedi uwchsgilio 78 o staff awdurdod lleol mewn therapïau fydd y tîm yn eu defnyddio, mae hyn wedi annog dull cyson ac iaith a rennir, gan roi cysondeb ar draws asiantaethau partner a thimau. Nododd y gwerthusiad annibynnol o'r prosiect;

- Roedd dull partneriaeth cryf ar lefel uchel yn allweddol wrth sefydlu'r gwasanaethau newydd.
- Roedd staff asiantaethau partner wedi eu plesio o ran pa mor gyflym roedd y tîm LIFT yn ymateb i atgyfeiriadau a cheisiadau am gyngor ac arweiniad.

- Cyfleoedd ar gyfer ymgynghoriadau a chydweithio, oedd yn cyfrannu at ddysgu a datblygu ar gyfer y gweithlu plant.
- Mae teuluoedd wedi ymgysylltu'n dda.

Adborth gan rieni:

- "Mae bywyd yn llawer gwell gartref rwan ers i [aelodau staff] wneud y fideo i ni"
- "Mae gan M lawer gwell cyswllt â'i deimladau, fel finnau, ers i'r LIFT ein helpu ni, mae ei ymddygiad wedi gwella hefyd"
- "Mae wedi bod yn hyfryd cael rhywun sy'n gwrando a ddim yn barnu"

Yn ystod y cyfnod ble mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi cael ei darparu i Sir Ddinbych, mae'r cymorth hwn ar gyrion gofal wedi gweithio gyda 122 o deuluoedd (sef 200 o blant).

Rhaglen Integredig Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg
Mae'r rhaglen hon yn darparu ystod o Gefnogaeth i Deuluoedd a Rhieni yn Sir Ddinbych. Ein nod yw darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal i deuluoedd diamddiffyn cyn i broblemau waethygu a sicrhau bod plant yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn cael cymorth ychwanegol.

Yn 2021-22, cafodd ein gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf 302 o atgyfeiriadau. Roedd gennym restr aros fisol o 18 ar gyfartaledd ac amser aros o 26 diwrnod ar gyfartaledd o dderbyn yr atgyfeiriad i ddyrannu gweithiwr. Fe wnaethom gefnogi 369 o deuluoedd ac asesu anghenion 114 o deuluoedd o'r newydd.

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn cydlynu llawer o wasanaethau ac ymyriadau o amgylch teuluoedd unigol, gan sicrhau ymgysylltu, asesu angen a chynllunio cefnogaeth. Yng nghanol materion parhaus ac anghenion anwadal oherwydd Covid-19, hyd yma mae'r Tîm wedi creu 29 o gynlluniau gweithredu yn llwyddiannus gyda theuluoedd. Gan ddefnyddio methodoleg a brofwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi amcangyfrif yr arbedion cost posibl a gyflawnwyd gan y Tîm i wasanaethau eraill. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Ionawr i Rhagfyr 2021 yn dangos arbedion o £122,823.

Tabl 24: Arbedion cost posibl gan y Tîm o Amgylch y Teulu i wasanaethau, Ionawr i Rhagfyr 2021

Maes gwasanaeth	Amcangyfrif o'r arbedion	Materion yr ymdriniwyd â nhw
Trosedd	£52,272	Ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig ac ymddygiad troseddol
Addysg	£22,264	Absenoldeb, gwahardd a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol
Iechyd	£6,187	Camddefnyddio cyffuriau
Iechyd meddwl	£18,052	Materion iechyd meddwl i blant, pobl ifanc ac oedolion
Cyflogaeth	£24,048	Cymorth i gael gwaith
Cyfanswm	£122,823	

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Yn 2021, cefnogodd ein Hymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg 1,182 o blant dan 4 yn y rhannau mwyaf o amddifadedd lluosog ym Mhrestatyn, y Rhyl a Dinbych. Fe wnaethom gefnogi 52 o deuluoedd eraill ar draws y sir drwy Allgymorth. Helpodd ein Therapyddion Iaith a Lleferydd 102 o blant ochr yn ochr â'n tîm Datblygiad Iaith Cynnar, sydd wedi darparu ymyriadau Portage a Chwerthin a Dysgu i 36 o blant. O fis Ionawr i fis Rhagfyr 2021, fe wnaethom ddarparu 31,998 o sesiynau gofal plant di-dâl i 366 o blant, gan ddarparu 1,348 o sesiynau ychwanegol.

Mae ein Hymwelwyr Iechyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddiogelu plant yn Sir Ddinbych. Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021, gwaeth y tîm 218 cyswllt â phlant mewn mesurau Amddiffyn Plant, 135 cyswllt â phlant gyda Chynllun Gofal a Chefnogaeth a 115 gyda Phlant Sy'n Derbyn Gofal. Gwnaethant 639 cyswllt â phlant sydd angen gwasanaeth Dwys Haen 3.

Tabl 25: Gweithgareddau Ymwelwyr Iechyd Sir Ddinbych , 2021

Gweithgaredd	Nifer
Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant	102
Adroddiadau Llys / Datganiadau'r Heddlu	12
Adroddiadau / presenoldeb mewn Cynadleddau Achos	77
Adroddiadau MARAC	26
Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a fynychwyd	29
Asesiadau Diogelu Cyn Geni	97
Cyfarfodydd yn ymwneud â diogelu a fynychwyd	337

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Ym mis Ionawr, fe wnaethom benodi Nyrs Diogelu newydd, sydd wedi mynychu pedair Cynhadledd Achos a chwech cyfarfod gweithwyr proffesiynol (Grwpiau Craidd / Cynlluniau Gofal a Chefnogaeth / Plant Sy'n Derbyn Gofal).

Sir y Fflint

MYFYRIO

Mae'r Gwasanaeth MYFYRIO yn cefnogi merched sydd wedi colli un plentyn neu fwy drwy achosion gofal ac sydd mewn perygl uwch o golli mwy o blant drwy'r un profiad.

Mae'r Ganolfan Cymorth Cynnar yn adnodd help cynnar aml-asiantaeth i blant a theuluoedd sydd â dau neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae partneriaid yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Iechyd, Cyfiawnder Ieuenctid, Tai, Sir y Fflint yn Cysylltu â Chwsmeriaid, Addysg, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cymorth y Blynyddoedd Cynnar a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint.

Cafodd y Ganolfan Cymorth Cynnar 2,641 o atgyfeiriadau rhwng mis Ebrill 2020 a diwedd mis Mawrth 2021 ac mae'r tîm wedi addasu i fodloni anghenion yn ystod y pandemig. Symudodd holl aelodau'r Ganolfan Cymorth Cynnar yn gyflym i gynnal trafodaethau ar-lein ac addasodd asiantaethau'n dda yn ystod y cyfnod clo ac ni chafwyd unrhyw darfu ar gyfarfodydd. Arafodd nifer yr atgyfeiriadau ychydig yn ystod Ebrill/Mai gan gynyddu eto o fis Mehefin.

‘Lleoliad Rhiant a Phlentyn Gyda’i Gilydd’
Mae’r ymgyrch recriwtio ‘Lleoliad Rhiant a Phlentyn Gyda’i Gilydd’ yn dechrau dwyn ffrwyth. Ei nod yn cadw plant gyda’u rhieni mewn lleoliad gofal maeth a aseswyd yn arbennig.

Mae Sir y Fflint yn craffu’n agos ar benderfyniadau a ddylid rhoi pobl ifanc hŷn mewn gofal, ac yn enwedig, pa wahaniaeth y gellir ei gyflawni ar y cam hwyr hwn.

Gwasanaeth Cyfarfod Sir y Fflint
Bwriad Gwasanaethau Cyfarfod Sir y Fflint yw cadw teuluoedd gyda’i gilydd pan fo’n bosibl. Mae teuluoedd yn cael cynnig Cyfarfod Grŵp Teulu cyn gynted â phosibl, i’w hatal rhag cyrraedd argyfwng. Mae Cyfarfodydd Cyfarfod Teuluoedd yn archwilio a fyddai aelodau’r teulu ehangach neu unigolion cysylltiedig yn barod i gynnig cael eu hasesu i ofalu am y plentyn. Mae mwy o gyllid ar gael i atgyfnerthu’r dull hwn. Rydym wedi gweld cynnydd yn yr atgyfeiriadau i’r gwasanaeth, a nodwyd bod teuluoedd angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd effaith COVID-19 a’r straen a’r pwysau cynyddol ar fywyd teuluol. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd cyflym mewn atgyfeiriadau gan wasanaethau statudol, sydd eto’n amlygu’r pwysau y mae’r pandemig wedi’i gael ac yn dal i’w gael ar deuluoedd.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Mae’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth statudol gan yr awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth ddiduedd am ddim i deuluoedd (a’r rhai sy’n gweithio gyda nhw) ar ystod o bynciau ac mewn fformatau gwahanol.

Mae pynciau’n cynnwys iechyd, addysg, hamdden, cyllid a gofal plant cofrestredig. Mae’r gwasanaeth yn prosesu 20,000 o ymholiadau’r chwarter ar gyfartaledd, un ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac e-bost neu ar y wefan a thrwy’r cyfryngau cymdeithasol.

Wrecsam

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Adran wedi gwneud cynnydd cyson o ran datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddwyd y ddogfen Fframwaith Cymorth Cynnar ac Atal, yn dilyn lansiad aml-asiantaeth ynghyd â dogfen Trothwy Gwasanaethau Plant.

Diben y ddogfen Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar yw cynorthwyo pawb wrth gynllunio Gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar. Mae'n cefnogi wrth ystyried pwy sydd angen cymryd rhan, beth yw'r egwyddorion a fydd yn llywio trafodaethau a phenderfyniadau ac i alluogi unigolion i ddatblygu achos busnes clir ar gyfer gwella, ehangu neu ail-bwrpasu gwasanaethau presennol.

Ers datblygu'r Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar, mae Partneriaeth Atal a Chymorth Cynnar newydd wedi'i sefydlu ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu strategaeth a fydd yn helpu i ganolbwyntio'r Cyngor a'i Bartneriaid ar sicrhau bod cymorth i blant a phobl ifanc. ac mae teuluoedd ar gael iddynt cyn i faterion waethygu. Ei nod yw helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i helpu eu hunain yn y lle cyntaf ond pan fydd angen mwy o help, ein nod yw darparu'r cymorth cywir yn llawer cynharach. Bydd datblygiad pellach y Bartneriaeth Atal a Chymorth Cynnar yn parhau trwy gydol y flwyddyn i ddod.

6. Gwasanaethau maethu

Trosolwg o’r boblogaeth

Rhagwelir y bydd nifer y plant yn lleihau

Mae nifer amcangyfrifedig y plant (0-15 oed) yn 2020 a’r rhagamcanion ar gyfer 2040 yn dangos bod disgwyl i nifer y plant yng Ngogledd Cymru leihau yn ystod y blynyddoedd i ddod (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae’r lleihad hwn i’w weld ar draws pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ac eithrio Gwynedd lle rhagwelir y bydd cynnydd bach (1.8%). Yn gyffredinol, disgwylir y bydd gostyngiad o 6.1% yn nifer y plant yng Ngogledd Cymru.

Roedd diweddariad y Datganiad o Sefyllfa’r Farchnad 2021 yn rhoi trosolwg o’r ystadegau allweddol;

- Roedd cynnydd o 34% yn nifer y plant yr oedd angen gofal maeth arnynt yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 (600 o blant) a mis Mawrth 2020 (805 o blant).
- Ar 31ain Mawrth 2020, roedd 805 o blant yng Ngogledd Cymru yn byw gyda gofalwr maeth, roedd 40% (325 o blant) yn byw gyda gofalwr maeth annibynnol - roedd angen lleoliad gofal arbenigol ar y rhan fwyaf o’r plant hynny er mwyn cynnal eu hanghenion, gan nad oedd modd i’r gwasanaethau mewnol wneud hynny.
- Ar hyn o bryd mae 11 o blant yn byw mewn cartrefi plant y gellid gofalu amdanynt gan ofalwyr maeth arbenigol. Nid oes digon o ofalwyr maeth â’r sgiliau cywir i gefnogi proffiliau anghenion ein plant.
- Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a diwedd mis Chwefror 2021, roedd angen lleoliad ac asesiad rhiant a phlentyn ar 34 o blant.

Mae’r galw am ofal maeth wedi cynyddu

Mae nifer y plant sy’n derbyn gofal maeth yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2015 i tua 945 yn 2020. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Wrecsam, gyda nifer y plant yn dyblu. Roedd cynnydd sylweddol yng Ngwynedd hefyd. Mae’r niferoedd mewn awdurdodau lleol eraill wedi amrywio.

Tabl 26: Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth

Cyngor lleol	2015	2017	2018	2019	2020
Ynys Môn	90	100	100	90	110
Gwynedd	145	145	145	165	200
Conwy	120	125	150	140	140
Sir Ddinbych	125	110	110	115	115
Sir y Fflint	135	140	135	150	140
Wrecsam	120	135	170	175	240
Gogledd Cymru	735	755	810	835	945
Cymru	4,250	4,425	4,700	4,840	4,990

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol sydd mewn lleoliadau maeth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y lleoliadau maeth, roedd y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad (2019) yn nodi nad oedd disgwyl cynnydd mawr yn y dyfodol.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio lleoliadau gofal maeth mewnol ac asiantaethau maethu annibynnol i ddarparu gofal. Mae rhai o'r asiantaethau maethu annibynnol yn elusennau neu'n fentrau cydweithredol. Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y mathau gwahanol o ddarpariaeth lleoliadau maeth, yn ôl Awdurdod Lleol.

Tabl 27: Nifer y lleoliadau maeth yn ardal yr awdurdod lleol a gomisiynwyd yn ôl y math o ddarparwr

Cyngor lleol	Mewnol (nifer)	Darparwr annibynnol (nifer)	Cyfanswm (nifer)	Mewnol (canran)	Darparwr annibynnol (canran)
Ynys Môn	37	32	69	54%	46%
Gwynedd	98	31	129	76%	24%
Conwy	82	41	123	67%	33%
Sir Ddinbych	69	19	88	78%	22%
Sir y Fflint	55	13	68	81%	19%
Wrecsam	119	21	140	85%	15%
Gogledd Cymru	460	157	617	75%	25%

Ffynhonnell: Darparwyd gan bob awdurdod lleol

Rhagweld cynnydd yn y galw am rieni maeth

Cyfrifodd y Rhwydwaith Maethu Cenedlaethol fod angen tua 550 o rieni maeth newydd ar draws Cymru bob blwyddyn i ateb y galw. Mae hyn yn awgrymu y bydd prinder lleoliadau maeth yn y blynyddoedd i ddod, o ystyried y galw cynyddol.

Materion yn ymwneud â digonolrwydd ar gyfer rhai plant

Gwelodd y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol, 2019) fod problemau yn ymwneud â digonolrwydd wrth geisio dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol, gan gynnwys:

- Gofal seibiannol
- Troseddwyr ifanc
- Ffoaduriaid, mewnfudwyr, ceiswyr lloches
- Rhieni ifanc
- Grwpiau o frodyr/chwiorydd
- Sefyllfaoedd brys

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn broblem, ac wrth i'r galw am leoliadau gynyddu y disgwyl yw na fydd digon o leoliadau gofal i ateb y galw a ragwelir.

Mae gwefan Maethu Cymru wedi hwyluso'r ffordd i'r 22 Awdurdod Lleol ffurfio rhwydwaith o arbenigedd lleol ym maes maethu. Mae'n ceisio gwneud argraff fwy ar lefel genedlaethol, gan weithio gyda gofalwyr maeth er mwyn adeiladu gwell dyfodol i blant lleol. Mae'n rhannu un brand ac un llais i gryfhau prosesau recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth.

Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) wedi canfod bod plant sy'n byw gyda gofalwyr maeth yn eu hardal eu hunain yn fwy tebygol o ffynnu a bod plant mewn darpariaeth awdurdod lleol yn fwy tebygol o aros yn eu hawdurdod lleol, gan eu galluogi i gadw cysylltiadau pwysig. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cynyddu lleoliadau lleol ac yn lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal.
Yn ôl y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018), mae cynnydd wedi bod yn y galw am faethu cysylltiedig (gyda theulu neu ffrindiau) hefyd. Mae'n nodi hefyd bod lleoliadau awdurdodau lleol yn arwain at gwell ganlyniadau i'r plant. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen i awdurdodau lleol gael y capasiti i hwyluso hyn neu sicrhau bod y plentyn yn cael cyfleoedd i gadw cysylltiadau os bydd yn cael ei roi mewn lleoliad maeth o fath arall.

Trosolwg o'r farchnad

Trosolwg o'r farchnad ranbarthol

Mae'r tabl isod yn dangos manylion y ddarpariaeth faethu yn ôl y math o ddarparwr.

Tabl 28: Lleoliadau maethu, gwelyau a chyfran y farchnad yn ôl y math o ddarparwr.

Math o ddarparwr	Cyfran y farchnad (Canran)	Lleoliadau (nifer)	Lleoliadau gofal (nifer)
Mewnol	62%	776	453
Preifat	37%	469	206
Trydydd sector	1%	16	7
Gogledd Cymru	100%	1261	666

Ffynhonnell: Data CCSR a gyrchwyd 31/05/22

Trosolwg o'r farchnad yn Ynys Môn

Mae'r tabl yn dangos faint o blant yn Ynys Môn sy'n cael eu lleoli fwyfwy y tu allan i'w hawdurdod lleol.

Tabl 29: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth fesul ardal – Ynys Môn

Lleoliad y gofal	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
O fewn yr awdurdod lleol	65	60	70	80	-45
Y tu allan i'r awdurdod lleol (Cymru)	30	30	30	20	50
Y tu allan i Gymru	0	0	0	0	0

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiadau Plant sy'n derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Tabl 30: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth fesul math – Ynys Môn

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	30	25	25	35	5
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	20	20	40	40	20
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	15	15	10	10	-5
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol	5	0	0	0	-5
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	0	0	0	0	0
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	25	25	25	25	0

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Trosolwg o'r farchnad - Gwynedd

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod yn dangos bod plant yn ardal Gwynedd wedi cael eu lleoli fwyfwy mewn lleoliadau maeth o fewn Sir Gwynedd. Mae'r nifer a gafodd eu lleoli y tu allan i Wynedd ond yng Nghymru wedi lleihau. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn nifer y lleoliadau y tu allan i Gymru.

Tabl 31: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal - Gwynedd

Lleoliad y Gofal	2018	2019	2020	2021	Newid Nifer
O fewn yr Awdurdod Lleol	110	120	140	135	25
Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, Cymru	35	40	50	50	15
Y tu allan i Gymru	0	5	5	15	15

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigyrau isod yn dangos bod nifer cynyddol o blant yng Ngwynedd yn derbyn gofal mewn lleoliadau maeth y tu mewn a'r tu allan i Wynedd. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y lleoliadau gyda theulu/ffrindiau.

Tabl 32: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math - Gwynedd

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	35	50	50	45	10
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	70	65	85	85	15
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	0	0	0	0	0
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod	5	10	15	25	20
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	10	15	15	10	0
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	20	20	30	30	10

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae awdurdod lleol Gwynedd ei hun yn adrodd bod "darpariaeth gymharol dda" o leoliadau maeth ar gael yn y sir, o'i gymharu â mathau eraill o ddarpariaeth ond mae'n cydnabod y gall prinder gofalwyr maeth fod yn broblem yn y dyfodol agos. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddai angen tua 10 – 12 lleoliad maeth newydd bob blwyddyn i gynnal hyn ac o leiaf 18 – 20 i wella'r ddarparieth.

Trosolwg o’r farchnad - Conwy

Mae Conwy wedi cynyddu nifer y lleoliadau maeth o fewn yr awdurdod lleol ac mae nifer y lleoliadau y tu allan i Gymru wedi lleihau’n sylweddol. Fodd bynnag, mae nifer y lleoliadau y tu allan i Gonwy ond yng Nghymru wedi cynyddu, gweler y ffigyrau isod.

Tabl 33: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal - Conwy

Lleoliad y Gofal	2018	2019	2020	2021	Newid - nifer
O fewn yr Awdurdod Lleol	95	85	100	100	5
Y tu allan i’r Awdurdod Lleol, Cymru	20	35	35	35	15
Y tu allan i Gymru	35	25	5	5	-30

Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu felly mae’n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Conwy wedi gweld gostyngiad yn nifer y lleoliadau maeth o fewn yr awdurdod lleol a chynnydd bach mewn lleoliadau gydag asiantaethau.

Tabl 34: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math - Conwy

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	25	20	15	20	-5
Gyda’r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	65	60	55	55	-10
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	25	30	35	30	5
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i’r awdurdod lleol	10	10	10	15	5
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i’r awdurdod lleol	0	0	0	0	0
Gydag asiantaeth, y tu allan i’r awdurdod lleol	20	20	20	20	0

Mae’r niferoedd wedi cael eu talgrynnu felly mae’n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Conwy yn dweud bod gwir angen lleoliadau brys a rhai mwy tymor hir ar unwaith. Mae'r awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd lleoliadau lleol i blant, mae'n ystyried amrywiaeth o ddewisiadau i gynyddu'r ddarpariaeth yn y sir a lleihau'r ddibyniaeth ar drefniadau dros dro, costus a lleoliadau y tu allan i'r sir sy'n bell o'r teulu.

Trosolwg o'r farchnad – Sir Ddinbych

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod yn dangos cynnydd yn nifer y lleoliadau ar gyfer plant o Sir Ddinbych o fewn y Sir honno a'r tu allan iddi ond yn dal i fod yng Nghymru.

Tabl 35: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal – Sir Ddinbych

Lleoliad y Gofal	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
O fewn yr awdurdod lleol	85	90	90	90	5
Y tu allan i'r awdurdod lleol, yng Nghymru	15	15	15	20	5
Y tu allan i Gymru	10	10	10	10	0

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Sir Ddinbych wedi gwneud defnydd cynyddol o asiantaethau y tu mewn a'r tu allan i'r ardal ac mae cynnydd hefyd yn nifer y lleoliadau gyda theulu /ffrindiau y tu allan i'r ardal.

Tabl 36: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl math – Sir Ddinbych

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid - nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	20	20	20	20	0
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	60	70	65	65	5
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	0	5	10	5	5
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol	5	10	10	10	5
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	10	5	0	0	-10
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	10	10	10	15	5

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae awdurdod lleol Sir Ddinbych wedi nodi bod angen cynyddu'r capasiti gofal er mwyn ateb anghenion poblogaeth Sir Ddinbych am wasanaethau gofal maeth. Mae hefyd yn cydnabod bod prinder llety seibiannol dros nos ar gyfer plant ag anableddau cymhleth.

Trosolwg o’r farchnad – Sir y Fflint

Yn Sir y Fflint mae plant wedi bod yn cael eu lleoli y tu allan i’r sir, yng Nghymru a’r tu allan i Gymru. Mae’r ffigyrau hefyd yn dangos gostyngiad yn nifer y lleoliadau yn Sir y Fflint.

Tabl 37: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl ardal – Sir y Fflint

Lleoliad y Gofal	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
O fewn yr Awdurdod Lleol	95	95	90	90	-5
Y tu allan i’r Awdurdod Lleol, yng Nghymru	25	35	30	45	20
Y tu allan i Gymru	15	20	15	20	5

Mae’r ffigyrau wedi’u talgrynnu felly mae’n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae’r data yn y tabl isod yn dangos bod cynnydd sylweddol yn y defnydd o asiantaethau gan Sir y Fflint ar gyfer lleoliadau o fewn yr awdurdod lleol a thu hwnt.

Tabl 38: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math – Sir y Fflint

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	35	35	35	30	-5
Gydag awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	60	60	50	55	-5
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	5	5	5	15	10
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i’r awdurdod lleol	15	15	15	15	0
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i’r awdurdod lleol	15	15	10	15	0
Gydag asiantaeth, y tu allan i’r awdurdod lleol	5	15	20	25	20

Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu felly mae’n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Yn ôl Sir y Fflint, ar 31 Mawrth 2021, roedd 109 o blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal maeth o fewn a'r tu hwnt i Ardal yr Awdurdod Lleol (heb gynnwys lleoliadau teulu) ac ar 16 Chwefror 2022, roedd y ffigwr hwn yn 102. Mae'r awdurdod lleol yn dweud y gall ofalu am y rhan fwyaf o blant o dan 8 oed o fewn y gwasanaethau maethu mewnol ar hyn o bryd.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r materion canlynol yn ymwneud â digonolrwydd y farchnad:

- Yr angen i ateb y galw a ragwelir am ofalwyr maeth mewnol
- Rhieni maeth i gynorthwyo plant yn y categorïau oedran 10–14 ac 15+
- Dod o hyd i leoliadau lleol addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth
- Ateb y galw ar gyfer plant y mae angen pecynnau gofal amlasiantaeth cymhleth arnynt neu mae ganddynt gynlluniau rheoli risg heriol, er enghraifft, materion yn ymwneud â rheoli dicter, ymddwyn yn ymosodol yn eiriol neu'n gorfforol tuag at oedolion
- Prinder lleoliadau ar gyfer grwpiau o frodyr/chwiorydd a phlant ag anableddau
- Dim digon o rieni maeth â sgiliau ar gyfer plant ym mhen uchaf y proffil anghenion, sy'n byw mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd
- Oherwydd diffyg lleoliadau mae plant yn cael eu gosod mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio
- Dim digon o ofalwyr sy'n siarad Cymraeg
- Mae prinder lleoliadau rhiant a phlentyn yng Ngogledd Cymru, yn enwedig yn Wrecsam a Sir y Fflint

Trosolwg o'r farchnad - Wrecsam

Mae'r tabl yn dangos cynnydd ym mhob math o leoliadau yn Wrecsam, gan gynnwys plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal.

Tabl 39: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl ardal - Wrecsam

Lleoliad y gofal	2018	2019	2020	2021	Newid - nifer
O fewn yr Awdurdod Lleol	115	120	145	150	35
Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, yng Nghymru	30	40	65	75	45
Y tu allan i Gymru	20	15	20	25	5

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd mawr yn y defnydd o asiantaethau yn Wrecsam, gyda'r cynnydd mwyaf y tu allan i'r awdurdod lleol.

Tabl 40: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl math - Wrecsam

Math o Leoliad	2018	2019	2020	2021	Newid - nifer
Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol	60	70	75	80	20
Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol	65	55	70	70	5
Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol	15	20	25	30	15
Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol	0	0	0	0	0
Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol	20	20	15	15	-5
Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol	15	15	40	55	40

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu Fframwaith 4C a phenodwyd Swyddog Lleoli i reoli cronfa ddata'r Fframwaith yn Wrecsam. Mae'r defnydd a'r disgwyliadau o Fframwaith 4C yn parhau i gael eu hymgorffori mewn ymarfer fel tystiolaeth fel arfer gorau. Rydym wedi profi galw cynyddol am leoliadau sy'n gallu bodloni anghenion pobl ifanc hynod gymhleth. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer a chost

lleoliadau o'r fath. Er mwyn cyflawni yn erbyn yr agenda di-elw, bydd angen buddsoddiad pellach yn natblygiad gofal preswyl awdurdodau lleol.

Mae Wrecsam yn ystyried rhoi blaenoriaeth i geisio lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â dileu elw o'r farchnad lleoliadau plant. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cydnabod bod diffyg lleoliadau dros dro neu dymor byr i blant.

Sefydlogrwydd y farchnad

Heriau rhanbarthol

Mae'r Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad (2019) a 'Maethu Cymru' (2021) wedi nodi heriau sy'n wynebu sefydlogrwydd gwasanaethau maethu yng Ngogledd Cymru a Chymru yn gyffredinol; mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- Problemau recriwtio a chadw staff
- Lleoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol, gan gynnwys; gofal seibiannol, troseddwyr ifanc, ffoaduriaid/mewnfudwyr/ceiswyr lloches, rhieni ifanc, grwpiau o frodyr/chwiorydd a sefyllfaoedd argyfwng
- Amcangyfrifir y bydd angen 550 o rieni maeth newydd yng Nghymru bob blwyddyn i ateb y galw

Sefydlogrwydd y farchnad – Ynys Môn

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod y materion canlynol yn effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth maethu yn y dyfodol:

- Gweithlu – recriwtio a chadw staff, proffil oedran y gweithlu, costau
- Cyflenwad a dewisiadau sydd ar gael
- A all yr argyfwng costau byw effeithio ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ac felly amharu ar yr amcanestyniad o ostyngiad yn y galw?
- Effaith plant sy'n ceisio lloches ar adnoddau gan gynnwys lleoliadau a chymorth sydd ar gael.
- Effaith cyraeddiadau heb eu cynllunio i Borthladd Caergybi.

Sefydlogrwydd y farchad – Gwynedd

Mae Gwynedd wedi nodi sawl ffactor a all ddylanwadu ar sefydlogrwydd maethu:

- Recriwtio a chadw staff
- Prinder posibl o leoliadau maeth, amcangyfrifir y bydd angen 10-12 lleoliad newydd bob blwyddyn i gynnal y ddarpariaeth ac o leiaf 18-20 i'w gwella
- Cyllid – pryderon yn ymwneud â chynnal ansawdd gwasanaethau ag adnoddau cyfyngedig
- Mae diffyg cyllid yn aml yn arwain at ddefnyddio darparwyr y tu allan i'r sir sy'n golygu costau uwch, ac mae hyn yn ychwanegu at y broblem

Sefydlogrwydd y farchad – Conwy

Mae Conwy yn cyfeirio at faterion allweddol yn ymwneud â sefydlogrwydd eu gwasanaeth maeth yn y dyfodol:

- Recriwtio a chadw staff (yn gysylltiedig â thâl ac amodau ond nid yn gyfyngedig i'r materion hyn)
- Mae dirfawr angen lleoliadau brys a mwy hirdymor yn y sir

Sefydlogrwydd y farchnad – Sir Ddinbych

Mae Sir Ddinbych yn cydnabod bod rhai ffactorau allweddol a all effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth:

- Cynnydd yn y capasiti i ateb anghenion y boblogaeth yn Sir Ddinbych
- Materion yn ymwneud â staffio a recriwtio
- Hyfforddiant a gwybodaeth arbenigol
- Problemau ariannu hirdymor posibl
- Anghenion yn dod yn fwyfwy cymhleth
- Nid yw'r cyflenwad o ofal arbenigol yn ateb y galw
- Gofal seibiannol dros nos ar gyfer plant ag anableddau cymhleth
- Diffyg lleoliadau i blant ag ymddygiad heriol/cymhleth

Cynaliadwyedd y ddarpariaeth

- Mae Sir Ddinbych yn cydnabod bod y materion canlynol yn effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth: mae'r pandemig wedi effeithio ar y gwaith o recriwtio gofalwyr maeth mewnol ac mae diffyg ymgeiswyr. Mae hyn wedi arwain at wneud mwy o ddefnydd o Ddarparwyr Maeth Annibynnol.

- Mae’r diffyg lleoliadau sydd ar gael yn golygu nad oes unrhyw leoliadau yn cael eu cynnig neu cynigir lleoliadau sydd gryn bellter i ffwrdd, ac nid yw hyn bob amser er lles yr unigolyn ifanc.
- Mae plant y mae angen lleoliad gofal arnynt, ond ni ellir dod o hyd i ofal maeth ar eu cyfer, yn cael eu rhoi mewn gofal preswyl, ond nid oes digon o leoliadau ac mae’n ymddangos bod amharodrwydd i gynnig lleoliadau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Gall hyn arwain at leoliad gofal sydd cryn bellter i ffwrdd.
- Pwysau penodol os bydd plentyn/unigolyn ifanc yn hunan-niweidio neu’n dangos tueddiadau hunanladdol, mae darparwyr yn amharod i gynnig lleoliadau ac mae’r ddarpariaeth frys yn hynod o gyfyngedig.

Camau ataliol ar gyfer plant ‘ar gyrion gofal’

Yn ystod y cyfnod pan wnaeth y gronfa gofal integredig gynnal y ddarpariaeth ‘ar gyrion gofal’, cafodd 122 o deuluoedd (200 o blant) gymorth, gan gynnwys y canlynol:

Gwnaeth 7 o rieni a 2 ofalwr maeth (19 o blant) fynychu Grŵp Cyfranogi Rhieni newydd (gwaith cydweithredol gyda ‘Parents and Carers against Exploitation’, Heddlu Gogledd Cymru, cydweithwyr Iechyd ac Adran Arweiniol Diogelu Sir Ddinbych). O blith y rhain, nid yw 6 bellach yn bodloni’r meini prawf ar gyfer trosolwg amlasianaeth ym Mhanel Ecsbloetio Sir Ddinbych ac nid yw 2 ohonynt bellach yn cael eu gweld gan yr adran gofal cymdeithasol.

Derbyniodd 2 o blant mewn lleoliadau maeth tymor hir ymyrraeth ddwys a wnaeth sefydlogi eu lleoliad a galluogi’r gofalwr maeth a’r rhiant i gael dealltwriaeth ar y cyd o anghenion pob plentyn unigol.

Gwnaeth 16 aelod staff ar draws Gofal Cymdeithasol, Ymyrraeth Gynnar a Thai fynychu hyfforddiant Sgiliau Therapi Ymddygiadol Dilechdidol (DBT: Dialectical Behavioural Therapy) a bydd y Gwasanaeth Therapiwtig yn mentora’r staff hyn i ddatblygu grwpiau sgiliau DBT ar gyfer Gofalwyr Maeth a Pherthnasau, Plant sy’n Derbyn Gofal, Plant a Phobl Ifanc sy’n Gadael Gofal a Phrosiectau Rhannol-annibynnol a Digartrefedd.

Derbyniodd 1 unigolyn ifanc ymyrraeth ddwys gan y Gwasanaeth Therapiwtig ar ôl i gydweithwyr yr heddlu ddefnyddio Pwerau Amddiffyn yr Heddlu. Roedd angen gofal

maeth tymor byr ar yr unigolyn ifanc a chafodd ei ailgartrefu gyda'i deulu cyn pen 6 wythnos, nid yw bellach yn cael ei weld gan Gofal Cymdeithasol.

Ymgysylltu

Mae Sir Ddinbych yn rhestru'r dulliau canlynol a ddefnyddir er mwyn helpu i wella ansawdd y gwasanaeth:

- Cynhelir gwerthusiad ansawdd gofal gan Wasanaeth Maethu Sir Ddinbych ym mis Ebrill a mis Mai 2022. Bydd holiaduron yn cael eu hanfon er mwyn ceisio barn plant/pobl ifanc, gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau, aelodau'r panel a rhieni, a bydd y canlyniadau yn helpu i wneud gwelliannau lle bo'r angen yn ogystal â nodi arfer da.
- Datblygwyd grŵp Facebook caeëdig ar gyfer gofalwyr maeth gan holi barn gofalwyr maeth ac mae'n cael ei ddiweddaru'n gyson â gwybodaeth newydd. Mae creu'r tudalen/grŵp wedi cynnig ffordd arall o gasglu adborth, mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu ar draws ardal ddaearyddol fwy ac mae'n haws dod o hyd i'r wybodaeth hon.
- Mae dau fforwm plant/pobl ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd. Nid yw wedi bod yn bosibl iddynt gyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond mae staff sy'n rhedeg y fforymau yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd.
- Fforwm Plant a Phobl Ifanc mewn Gofal (Clwb KIC) ar gyfer pobl ifanc 8 - 15 oed sy'n byw gyda gofalwyr maeth. Maent yn cyfarfod ac yn gwneud gweithgareddau yn ystod gwyliau hanner tymor, yn rhannu eu profiadau, yn dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth fyddent yn hoffi ei newid.
- Mae Clwb KWC (Kids who care) yn grŵp o blant/pobl ifanc y mae eu rhieni yn ofalwyr maeth ac maent hefyd yn rhan o'r broses faethu. Maent yn cyfarfod yn ystod gwyliau hanner tymor, yn rhannu profiadau, yn dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth fyddent yn hoffi ei newid.
- Boreau coffi rhithiol i ofalwyr maeth – cafodd gwahoddiadau eu hanfon ynghyd â phecyn yn cynnwys cwdyn te a phecyn o fisgedi. Er mwyn hwyluso'r sgwrs, cafodd gofalwyr maeth eu rhannu'n grwpiau yn seiliedig ar eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol. Cafodd y boreau coffi eu harwain gan y gweithiwr cymorth goruchwyliol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr y Gwasanaeth, Rheolwr y Tîm Maethu a'r Swyddog Comisiynu Lleoliadau/Swyddog Recriwtio yn 'galw heibio' hefyd. Daeth llawer o bobl i'r

digwyddiadau hyn, a chafwyd llawer o chwerthin, trafodaeth ac adborth cadarnhaol iawn gan y rhai oedd yn bresennol.

- Mae'r Gwasanaeth Maethu wedi gwella ei ddulliau o gyfathrebu gyda gofalwyr maeth drwy anfon newyddlen reolaidd, a chynnal Cystadleuaethau Gwasanaeth Maethu Sir Ddinbych lle gofynnir i blant gynllunio cardiau Nadolig, paentio cerrig a thyfu blodyn haul.

Sefydlogrwydd y farchnad – Sir y Fflint

Nododd Sir y Fflint nifer o faterion a oedd yn effeithio ar sefydlogrwydd gwasanaethau maeth:

- Gofalwyr maeth â sgiliau/profiad i gefnogi pobl yn eu harddegau a grwpiau o frodyr/chwiorydd
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc 14, 15 ac 16 oed sy'n dod i mewn i'r system ofal
- Lleoliadau rhiant a phlentyn

Camau a gymerwyd i wella sefydlogrwydd

Mae recriwtio rhieni maeth wedi bod yn broblem yn Sir y Fflint ac mewn ymateb i hyn datblygwyd porth Maethu gyda Sir y Fflint i hyrwyddo rolau Maethu. Mae'r wefan yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth, adnoddau a straeon gan rai o rieni maeth presennol Sir y Fflint. Mae'r awdurdod hefyd wedi targedu ei strategaeth recriwtio i roi sylw i'r galw am rieni maeth â sgiliau a phrofiad i gefnogi plant 12 oed a throsodd.

Rhaglen Mockingbird

Sir y Fflint oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i gyflwyno'r model Mockingbird sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer lleoliadau maeth. Mae'r rhaglen yn meithrin y berthynas rhwng plant, pobl ifanc a theuluoedd maeth gan eu helpu i adeiladu cymuned gadarn a gofalgar sy'n cynnwys rhwng chwech a deg teulu i greu clwstwr. Nod y model yw gwella gofal maeth a chanlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu maethu.

Action for Children – Gwasanaeth Ailgartrefu ac Atal (RAP)

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth therapiwtig dwys ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gyda chefnogaeth gan ofalwyr maeth profiadol. Mae'r gwasanaeth yn bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, iechyd, CAMHS a'r elusen Action for Children.

Nod y gwasanaeth yw:

- Atal lleoliadau rhag chwalu neu sefyllfaoedd rhag mynd yn waeth a chyrraedd pwynt lle bydd angen lleoli pobl y tu allan i'r sir
- Dychwelyd pobl ifanc i leoliadau sefydlog yn eu cartrefi
- Sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael cyfleoedd addysgol
- Gwella cadernid a hyder plant a gofalwyr

Addasiadau i Bolisi Cartrefi Gofalwyr Maeth
Cafodd y polisi 'Addasiadau i Gartrefi Gofalwyr Maeth' ei gyflwyno yn 2020, er mwyn cynorthwyo gofalwyr maeth i wneud yr addasiadau angenrheidiol i'w cartref i ddarparu lle digonol ar gyfer plant/pobl ifanc. Mae'n helpu i ddarparu lleoliadau ar gyfer grwpiau o frodyr/chwiorydd, bodloni anghenion plant ag anableddau lluosog, sicrhau capasiti ychwanegol ar gyfer lleoliadau maeth a bodloni gofynion iechyd a diogelwch a fyddai fel arall yn golygu bod yn rhaid symud plentyn.

Mae'r cyllid yn ategu'r cymorth sydd ar gael ac mae'n gam ymlaen i sicrhau lleoliadau lleol a sefydlog ar gyfer plant. Bydd ceisiadau ar gyfer arian grant yn cael eu hystyried hyd at £36,000, ac £20,000 ar gyfer adleoli i eiddo mwy addas. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y grant, mae'n rhaid i ofalwyr a gweithiwr cymdeithasol sicrhau eu bod wedi ystyried pob dewis/adnodd arall yn gyntaf.

Mae grantiau ar gael ar gyfer y canlynol hefyd: teuluoedd sy'n mabwysiadu neu sy'n ystyried gwneud hynny, teuluoedd a ffrindiau /gofalwyr plant o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a gofalwyr sydd wedi ymrwymo i'w rôl gofalu am y tymor hir, neu o leiaf nes bydd y plentyn yn 18 oed.

Cyfarfodydd sefydlogrwydd lleoliadau – Mae'r rhain yn cael eu trefnu'n fewnol pan fydd problemau yn codi wrth geisio cynnal lleoliad a bydd yr Asiantaeth Faethu Annibynnol yn eu cadeirio yn ôl yr angen.

Cyfarfodydd Tarfu – Bydd y gwasanaeth yn trefnu cyfarfodydd grŵp er mwyn dod â'r teulu a rhanddeiliaid ynghyd ac ystyried y gwersi a ddysgwyd.

Sefydlogrwydd y farchnad - Wrecsam

Nododd Wrecsam y materion canlynol a allai effeithio ar sefydlogrwydd lleoliaddu maethu:

- Yr angen i leihau nifer y plant sy’n derbyn gofal
- Dileu elw o’r farchnad lleoliadau gofal plant
- Lleoliadau dros dro/tymor byr
- Prinder staff
- Diffyg lleoliadau addas

Mae angen gofalwyr i gefnogi pobl ifanc yn eu harddegau a mamau a babanod yn ardal Wrecsam. Er mwyn recriwtio gofalwyr i ddiwallu'r anghenion hyn, mae'r awdurdod lleol wedi;

- Dechreuwyd adolygiad o gyfraddau tâl gofalwyr, gan gynnig cyfradd uwch ar gyfer gofalwyr arbenigol/medrus sy'n gallu gofalu am blant ag anghenion cymhleth.
- Cynnal ymgyrch recriwtio gan ddefnyddio bysiau, hysbysfyrddau a chyfryngau cymdeithasol.

Mae Cynnig Gadawyr Gofal Wrecsam wedi’i ddatblygu drwy gydol y flwyddyn ac mae’r gwaith o ddatblygu llwybrau llety ar gyfer pobl ifanc ar y gweill. Bydd hyn yn darparu graddau amrywiol o gymorth ar eu llwybr i annibyniaeth a'u tenantiaeth eu hunain.

Cyflawnir hyn drwy ddatblygu gwasanaethau mewnol gan gynnwys;

- Gwasanaeth Llety â Chymorth
- Prosiect Kick Start
- Prosiect Cam i Lawr
- Defnyddio fflat hyfforddi.

Mae’r Tîm Gadael Gofal wedi’i leoli mewn ‘siop wybodaeth’ hygyrch gyda’u gweithwyr cymdeithasol a’u cynorthwywyr personol tra’n gallu manteisio ar y ‘siop un stop’ ar gyfer unrhyw feysydd cymorth a nodwyd gan gynnwys mynediad at grantiau cyllid a chymorth cyflogaeth.

Ystyriaeth o ansawdd y farchnad

Roedd yr adroddiad ‘The State of the Nation’ gan yr Asiantaeth Faethu (2021) yn cynnig mewnwelediad i ansawdd gwasanaethau maeth ar draws Cymru, ac roedd y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- dywedodd 44% o ofalwyr maeth annibynnol a 51% o ofalwyr maeth awdurdodau lleol nad oeddynt yn derbyn cymorth i gadw mewn cysylltiad â phlant roeddynt wedi gofalu amdanynt. Roedd gofalwyr maeth yn ystyried bod hyn yn ‘greulon’, ac yn dod â pherthynas bwysig i ben yn achos plant sydd eisoes wedi dioddef llawer o golled yn barod.
- nid yw rhai gwasanaethau maethu yn cynnal cymeradwyaeth gofalwyr maeth, hyd yn oed os ydynt yn bwriadu parhau i faethu. Mae’r sefyllfa hon a’r ffaith bod cymorth ariannol yn dod i ben yn atal pobl ifanc rhag symud ymlaen i’r cam ‘Pan rydw i’n barod / When I am Ready’.
- nid oes gan 20% o ofalwyr maeth annibynnol ac 12% o ofalwyr maeth yr awdurdodau lleol blant yn eu gofal. Argymhellir eu bod yn gwneud gwell defnydd o sgiliau gofalwyr maeth i fodloni anghenion plant.
- roedd gan 57% o ofalwyr maeth awdurdodau lleol gynllun dysgu a datblygu a gytunwyd, nid oedd gan 31% gynllun o’r fath a doedd 12% ddim yn gwybod. Roedd gan 66% o ofalwyr maeth annibynnol gynllun dysgu a datblygu, nid oedd gan 22% gynllun o’r fath a doedd 12% ddim yn gwybod
- roedd cymeradwyaeth maethu gan awdurdodau lleol yn fwy cyfyngedig na chymerawyaeth annibynnol, ac argymhellir bod asesiadau awdurdodau lleol yn defnyddio statws cymeradwyo mwy eang, gweithdrefnau paru cadarn a phrosesau sefydlogi lleoliadau
- mae gofalwyr maeth yn dymuno meithrin perthynas gyda gweithwyr cymdeithasol a phlant yn eu gofal er mwyn cynnig sefydlogrwydd a pharhad o ran y gweithwyr cymdeithasol. Dros y ddwy flynedd flaenorol, roedd 53% o ofalwyr maeth wedi cael un gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, roedd 29% wedi cael dau, roedd 12% wedi cael tri ac roedd 6% wedi cael pedwar neu ragor
- Roedd gofalwyr maeth yn teimlo eu bod yn cael eu ‘diystyru’ a’u ‘hanwybyddu’ ac nad oedd eu rôl yn cael ei gwerthfawrogi gan y gweithlu gofal

cymdeithasol. Mae diffyg parch i'w hymrwymiad, sgiliau a'u hymroddiad yn broblem hirdymor sy'n aml yn cael ei nodi yn y maes maethu

- Mae gofalwyr maeth eisiau lwfansau i dalu am yr holl gostau o ofalu am blentyn a thaliad sy'n adlewyrchu eu gwerth fel aelod o'r tîm o amgylch y plentyn. Mae taliadau digonol yn hanfodol er mwyn denu gofalwyr maeth newydd ymroddedig â'r sgiliau cymwys
- Diffyg dewis o ran lleoliad. Er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu paru â lleoliadau addas, byddai angen i wasanaethau weld cynnydd sylweddol yn y mynediad at leoliadau lleol o ansawdd
- Nid yw lefelau staffio yn ddigonol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer teuluoedd maeth. Mae'r gwasanaethau am weld lefelau staffio a fyddai'n eu galluogi i ddarparu arfer gorau a gwella safonau
- Ymarfer sy'n wybodus am drawma – pryderon ynglŷn â mynediad at hyfforddiant a gwasanaethau ychwanegol ar gyfer pobl sy'n gofalu am blant sydd wedi wynebu trawma. Mae'r gwasanaethau yn dymuno i blant sy'n derbyn gofal gael eu blaenoriaethu i dderbyn gwasanaethau ar draws y sectorau iechyd ac addysg
- Cymorth i ofalwyr maeth gyda gwell gwasanaethau cymorth cymheiriaid a darpariaeth y tu allan i oriau. Roedd y gwasanaethau hynny a oedd yn gallu cynnig y cymorth hwn wedi gwella eu lefelau cadw a sefydlogrwydd

Tueddiadau presennol a'r dyfodol

Prif dueddiadau presennol a'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau maeth yw:

- Cynnydd yn y galw am leoliadau
- Llai o leoliadau ar gyfer plant hŷn
- Llai o leoliadau ar gyfer plant â chynlluniau gofal cymhleth /problemau ymddygiad
- Diffyg rhieni maeth â sgiliau i gefnogi plant ag anghenion cymhleth
- Cynnydd tebygol yn y galw am leoliadau
- Prinder tebygol o leoliadau, nid yw'r cyflenwad yn cyfateb i'r galw

Y Gymraeg

Nodwyd bod prinder rhieni maeth Cymraeg eu hiaith yn Sir y Fflint.

Trafodir y ddarpariaeth o ran y Gymraeg ar draws gweddill Gogledd Cymru yn y bennod ar wasanaethau plant yn yr adroddiad hwn.

Darpariaeth arall

Mae diffyg sylweddol o leoliadau maeth neu breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ymddygiad heriol neu gymhleth.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar y gwaith o recriwtio gofalwyr maeth mewnol ac mae diffyg ymgeiswyr. Mae hyn wedi arwain at mwy o ddefnydd o Ddarparwyr Maeth Annibynnol.

Mae'r diffyg hyn wedi golygu nad oes modd cynnig lleoliadau o gwbl, neu gellir cynnig lleoliadau gryn bellter i ffwrdd yn unig, ac nid yw hyn bob amser er lles yr unigolyn ifanc.

Mae plant y mae angen lleoliad gofal arnynt ond nid yw'n bosibl dod o hyd i ofal maeth ar eu cyfer yn cael eu symud i ofal preswyl, ond nid oes digon o leoliadau ac mae'n ymddangos bod amharodrwydd i gynnig lleoliadau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Unwaith yn rhagor, gall hyn arwain at gynnig lleoliad gryn bellter i ffwrdd.

Mae pwysau pendol os yw'r plentyn /unigolyn ifanc yn dangos tueddiadau hunan-niweidio eu hunanladdol, ac mae darparwyr yn amharod i gynnig lleoliadau i'r garfan hon. Mae'r ddarpariaeth frys yn hynod o gyfyngedig.

Gweithlu

Cyfeiriodd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) at y ffaith bod nifer o aelwydydd sydd wedi'u cymeradwyo i faethu yn cael eu colli o'r system. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen gwneud gwelliannau er mwyn cynyddu ymholiadau, trosiadau, cymeradwyaeth a chadw rhieni maeth.

Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer y rhieni maeth a'r lleoliadau wedi cynyddu rhywfaint ar draws Gogledd Cymru. Fodd bynnag, yng Ngwynedd a Sir Ddinbych gwelwyd lleihad yn nifer y rheini maeth a'r lleoliadau sydd ar gael, ac yn Sir y Fflint roedd lleihad yn nifer y rheini maeth ond cynnydd yn nifer y lleoliadau. Os bydd y lleihad hwn yn nifer y rhieni maeth neu'r lleoliadau yn parhau, gallai hyn arwain at sefyllfa lle na fydd digon o leoliadau i blant yn yr awdurdodau lleol hyn.

Tabl 41: Nifer y lleoliadau maeth a gymeradwywyd ar 31 Mawrth

Cyngor lleol	2016/17	2017/18	2018/19
Ynys Môn	86	69	43
Gwynedd	164	178	198
Conwy	113	130	127
Sir Ddinbych	156	155	149
Sir y Fflint	133	157	156
Wrecsam	161	172	166
Gogledd Cymru	813	861	839
Cymru	4,075	4,170	4,317

Ffynhonnell: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Tabl 42: Nifer y rhieni maeth a gymeradwywyd, ar 31 Mawrth

Cyngor lleol	2016/17	2017/18	2018/19
Ynys Môn	45	38	39
Gwynedd	103	111	120
Conwy	70	84	80
Sir Ddinbych	78	77	74
Sir y Fflint	77	77	76
Wrecsam	100	112	110
Gogledd Cymru	473	499	499
Cymru	2,347	2,443	2,462

Ffynhonnell: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Sgiliau a hyfforddiant sy'n ddymunol ar gyfer gofalwyr:

Gofalwyr sy'n gallu gweithio gyda'n gwasanaethau mewnol ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i ddarparu gofal therapiwtig sy'n wybodus am drawma.

Gofalwyr sy'n ymwybodol o effaith llinellau cyffuriau ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i gefnogi plant sy'n agored i gael eu hecsbloetio gan y gangiau hyn. Mae hyn yn cynnwys y cadernid i weithio gyda phlant sy'n cael eu hecsbloetio gan gangiau, sy'n diflannu'n aml ac sy'n gallu ymddwyn yn ymosodol yn eiriol ac weithiau'n gorfforol.

Gofalwyr sy'n gydnerth ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i weithio gyda thrawma yn ystod plentyndod, plant yn diflannu, ecsbloetio a hunan-niweidio.

Gofalwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant i ddeall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ar y plant maent yn gofalu amdanynt.

Gofalwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn ymyrraeth frys, ac sy'n gallu gweithio'n ddigynnwrf o dan bwysau cynllunio brys.

Gofalwyr sy'n gydnerth pan fyddant yn wynebu bygythiad o niwed corfforol ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i dawelu sefyllfaoedd, ynghyd â chynllunio ar gyfer rheoli ymddygiad cadarnhaol, lleihau'r defnydd o ddulliau atal corfforol.

Gofalwyr sy'n gallu siarad Cymraeg neu sydd wedi ymrwymo i ddysgu'r iaith.

Gwerth cymdeithasol

Mae tri darparwr yn cynnig cyfanswm o 16 gwely mewn 7 lleoliad gofal ar draws y rhanbarth, mae'r rhain yn cyfrif am 1.3% o'r farchnad.

Dileu elw o'r sector gofalu am blant sy'n derbyn gofal

Un o'r amcanion llesiant a sefydlwyd yn Rhaglen Llywodraeth Cymru 2021-2016 yw amddiffyn, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Un flaenoriaeth allweddol yn y maes gwaith hwn yw dileu elw preifat o'r sector gofalu am blant sy'n derbyn gofal.

Gall comisiynu lleoliadau i asiantaethau annibynnol gael effaith ar ddarpariaethau sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol. Mae awdurdodau lleol yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal annibynnol i sicrhau bod y farchnad fewnol a marchnad y sector annibynnol yn gweithredu i ddiwallu anghenion gofal maeth. Amlygwyd hyn fel risg bosibl gan awdurdod lleol Sir y Fflint, a ddywedodd ei fod yn canolbwyntio ar ddefnyddio asiantaethau maethu annibynnol ar gyfer y gwasanaethau hynny roeddynt yn cael trafferth eu darparu drwy wasanaethau'r awdurdod lleol.

Er bod holl awdurdodau lleol Cymru yn talu isafswm y lwfans cenedlaethol neu fwy na hynny, gwelodd yr arolwg o lwfansau gofal maeth o'r Rhwydwaith Maethu (2020)

fod gofalwyr maeth yn teimlo nad yw eu lwfans presennol yn talu am gostau llawn gofalu am blentyn. Mae’r rhwydwaith yn argymell gwneud taliadau maeth yn dryloyw fel bod gofalwyr maeth yn gallu gweld yn union faint yw’r lwfans, faint y mae’n rhaid ei wario ar y plentyn, faint yw’r ffî a faint sy’n daliad am amser a sgiliau’r gofalwr maeth.

7. Gwasanaethau mabwysiadu

Trosolwg ar Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ar ran awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae gweithio'n rhanbarthol yn helpu i ddod o hyd i deuluoedd newydd yn fwy effeithiol, lleoli plant yn gynt a gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Ym mis Ebrill 2014, cafodd ei integreiddio i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r gwasanaethau'n cydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol cyfredol mabwysiadu, yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) ac yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaeth, o fewn yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu. Mae ganddo fframwaith sy'n ceisio ei gwneud yn haws i fabwysiadwyr, plant a phobl ifanc gael cymorth pan mae ei angen.

Mae gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y gwasanaeth mabwysiadu yn cynnwys:

- Paratoi'r plentyn i gael ei fabwysiadu
- Canfod teuluoedd a pharu
- Diogelu Plant
- Darparu cymorth mabwysiadu
- Recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr
- Hyfforddiant paratoi i fabwysiadu (cyn/ar ôl cael cymeradwyaeth)
- Cymorth mabwysiadu (cyn/ar ôl mabwysiadu, system 'bydis', cyswllt ar ôl mabwysiadu)
- Gwasanaeth cwnsela i rieni biolegol
- Babanod sy'n cael eu hildio
- Gwasanaethau i oedolion wedi'u mabwysiadu

Trosolwg o’r boblogaeth

Mae’r tabl isod yn dangos nifer y plant yn derbyn gofal a gafodd eu rhoi i’w mabwysiadu ym mhob awdurdod lleol. Mae hi werth nodi bod y gwasanaeth wedi cael ei drawsnewid yn sylweddol ers 2020, felly mae’n anodd cymharu data lleol ac nid yw’n adlewyrchu’r gwasanaeth erbyn hyn.

Tabl 43: Nifer y plant yn derbyn gofal a gafodd eu rhoi i’w mabwysiadu yn ôl awdurdod lleol 2020/21

Cyngor lleol	Nifer y plant
Ynys Môn	6
Gwynedd	2
Conwy	17
Sir Ddinbych	7
Sir y Fflint	1
Wrecsam	11
Gogledd Cymru	44

Ffynhonnell: Ffigyrau wedi’u darparu gan bob awdurdod lleol

Tueddiadau heddiw a rhagolygon y dyfodol

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu ar gyfer plant:

- Mwyaf o alw am leoliadau i blant o’r Dwyrain
- Nifer uchaf o fabwysiadwyr o’r Dwyrain
- Llai o fabwysiadwyr yn y Gorllewin a phlant angen eu lleoli oddi wrth y Dwyrain
- Yn genedlaethol, mae mwy o blant nag sydd o fabwysiadwyr ar gael
- Ystyriaeth i nifer y siaradwyr Cymraeg (mabwysiadwyr/plant)

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu ar gyfer oedolion:

- Oedolion yn gofyn am eu cofnodion geni i ddod o hyd i'w rhieni biolegol – gwasanaeth wedi'i atal yn ystod y pandemig, ond mae mwyafrif y gwasanaethau wedi ailddechrau, ond mae rhestr hir
- Staffio – 43 o staff, 10 ar fin mynd neu ar gyfnod mamolaeth ac mae'n anodd recriwtio i swyddi cyfnod penodol felly efallai y bydd yn effeithio ar y gallu i asesu yn 2022/23

Adroddiadau ansawdd

Pwysleisiodd Adroddiad Ansawdd Gwasanaethau Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (2020) y meysydd canlynol i wella sefydlogrwydd y farchnad:

- Cynyddu nifer y mabwysiadwyr sy'n cael eu cymeradwyo
- Lleihau nifer y plant sy'n disgwyl am deulu i'w mabwysiadu
- Datblygu'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu
- Recriwtio – gweithwyr sesiynol a seddi gwag ar y panel mabwysiadu

Nododd arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru (2019b) y meysydd hyn i'w gwella:

- Datblygu prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ac asesu i ba raddau mae amcanion y datganiad o ddiben yn cael eu cyflawni a dangos tystiolaeth i brofi sut mae'r rhain yn cefnogi canlyniadau lles i blant
- Argaeledd y 'Cynnig Gweithredol', i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg
- Y datganiad o ddiben a'r pecyn gwybodaeth i fabwysiadwyr yn cynnwys gwybodaeth am y system adolygu annibynnol fel bod mabwysiadwyr yn ymwybodol o hyn
- Dylai ffeiliau canolwyr gynnwys llwybr archwilio clir o waith sydd wedi'i wneud

8. Gofalwyr di-dâl

Trosolwg o’r boblogaeth

Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae gan ofalwyr yr un hawliau â’r rheiny y maent yn gofalu amdanynt ac mae’n ddyletswydd ar gynghorau lleol i asesu eu hanghenion a hyrwyddo eu lles. Mae cefnogi gofalwyr di-dâl yn fesur ataliol ar gyfer y gofalwr unigol yn ogystal ag ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal.

Yn ôl cyfrifiad 2011 ceir oddeutu 79,000 o bobl, o bob oed, yn darparu gofal yn ddi-dâl yng ngogledd Cymru – ac mae disgwyl i’r niferoedd godi wrth i’r galw am ofal a chymorth gynyddu. Daeth mwy o ofalwyr di-dâl atom yn ystod y pandemig i dderbyn cymorth.

Mae’r rhan fwyaf o’r cymorth y mae ar ofalwyr di-dâl ei angen yn cael ei ddarparu i’r unigolyn y maent yn gofalu amdano, felly mae diffyg darpariaeth yn y farchnad ofal yn arwain at alw ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Mae’r asesiad o’r boblogaeth wedi amlygu bod problemau o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach, o ran recriwtio a chadw staff, yn arwain at ofynion ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Yn benodol, mae hyn yn effeithio ar ofal cymhleth, sy’n golygu bod gofalwyr di-dâl yn gyfrifol am ofal unigolion sydd ag anghenion gofal uwch. Mae’r blaenoriaethau eraill a nodwyd yn cynnwys adnabod gofalwyr yn fuan, seibiant i ofalwyr (gofal seibiant), gwella asesiadau gofalwyr di-dâl a chynhwysiant digidol.

Digonolrwydd yn y farchnad

Mae nifer y gofalwyr yn cynyddu. Mae’r twf mwyaf i’w weld yn y rheiny sy’n darparu rhwng 20 a 48 awr o ofal yr wythnos. Mae cynnydd hefyd yn nifer y gofalwyr sy’n darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos; yn Sir Ddinbych mae oddeutu 46% o’r gofalwyr hyn dros 65 oed. Rhain yw’r gofalwyr sy’n debygol o fod â rolau gofalu dwys a gydag anghenion cymorth uwch.

Mae’r tueddiadau demograffig hyn yn cael eu hadlewyrchu gan y nifer cynyddol o bobl sy’n byw gydag anhwylderau hirdymor, yn cynnwys anableddau dysgu,

dementia a chyflyrau iechyd meddwl, yn ogystal â thwf cyffredinol yn y boblogaeth hŷn.

Gwyddom o siarad gyda gofalwyr di-dâl a'r gwaith mapio sydd wedi'i wneud, bod rhai gofalwyr sydd angen cymorth yn ei chael hi'n anodd canfod gofal amgen ac mae llawer yn methu cymryd seibiant am gyfnodau hir, oherwydd effaith pandemig Covid-19.

Yn ôl adroddiad 'Road to Respite' (Gorffennaf 2021) Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru seibiant byr yw unrhyw seibiant sy'n cryfhau a/neu'n cynnal perthynas ofalu anffurfiol ac sy'n gwella lles gofalwyr a'r bobl maent yn gofalu amdanynt.

Yn 2021-22 dyfarnodd Llywodraeth Cymru grant seibiant gofalwyr i awdurdodau lleol, gyda phwyslais ar gefnogi datblygiad seibiant hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na'r gwasanaeth eistedd traddodiadol neu gymorth gofal amgen.

Nododd yr asesiad o'r boblogaeth fod yna ystod eang o wasanaethau ar gael yn y rhanbarth i gefnogi gofalwyr. Mae'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, sy'n arwain ar ofalwyr o fewn y tîm cydweithio rhanbarthol, yn mapio'r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yn y gogledd yn rheolaidd, gan nodi unrhyw faes sy'n cael ei ddyblygu yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio ar draws y chwe chyngor a'r bwrdd iechyd.

Yn ogystal â'r angen am fwy o seibiant i ofalwyr (gofal seibiant) ar draws y rhanbarth, mae'r anghenion lleol canlynol wedi'u hamlygu hefyd:

Mae'r ffactorau canlynol yn effeithio ar ofalwyr di-dâl;

- Bylchau yn y ddarpariaeth gyffredinol mewn gwasanaethau i ofalwyr pobl hŷn a'r unigolion sy'n derbyn gofal
- Rhestrau aros am gefnogaeth gofal cartref ym mhob rhan o Wynedd oherwydd diffyg darpariaeth
- Bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer seibiant tymor byr o ofalu pan fo gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal anghenion na ellir eu diwallu gan gefnogaeth sector gwirfoddol/trydydd sector.
- Mae canolfannau dydd wedi bod ar gau yn ystod cyfnod COVID – rydym wedi bod yn gweithio i ddarparu cymorth amgen ar sail 1:1. Rydym yn ailagor canolfannau dydd yn raddol ac yn y broses o ailfodelu gwasanaethau gofal

dydd i bobl hŷn gan ddatblygu darpariaeth fwy lleol ar gyfer nifer llai o unigolion.

- Daeth gofal seibiant mewn cartrefi preswyl i ben yn ystod y cyfnod COVID o ganlyniad i'r rheoliadau. Mae’r ddarpariaeth hon wedi dechrau eto, ond mae heriau staffio yn bodoli yn un ar ddeg o gartrefi preswyl y Cyngor.
- Mae ardaloedd lle mae canran uchel o fewn y boblogaeth hŷn, a chanran isel o'r boblogaeth oedran gweithio - her recriwtio a chystadlu gyda gwasanaethau lleol eraill/unigolion iau yn gadael yr ardal am gyfleoedd gwaith.
- Mae daearyddiaeth yr ardal yn cyfrannu at y bylchau, gyda nifer yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus am fynediad i gefnogaeth briodol.

Ynys Môn

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi gofalwyr di-dâl trwy gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Meddwl i'r Dyfodol Cynllunio I’r Dyfodol yn o fewn Cynnal Gofalwyr a ariennir gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gael sgyrsiau gyda gofalwr am eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol. Mae cael sgwrs ar y cam cynharaf posibl yn caniatáu amser i nodi a threfnu unrhyw newidiadau neu addasiadau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r person y maent yn gofalu amdano, a hwy eu hunain fel y gofalwr.

Gwynedd

Mae’r gwasanaeth anabledd dysgu wedi llwyddo i barhau i gynnig seibiant i wasanaethau dros gyfnod Covid. Dros y chwe mis diwethaf rydym wedi llwyddo i gynyddu’r ddarpariaeth yma, gan gyflwyno unigolion i seibiant am y tro cyntaf e.e. unigolion oedran pontio, yn ogystal â gallu cynnig arosiadau rheolaidd i unigolion sy’n byw gartref gyda gofalwyr/teulu di-dâl.

Mae’r galw am wasanaethau cwnsela a ddarperir gan y trydydd sector (Cynnal Gofalwyr) yn sylweddol uwch na’r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae cyfleoedd dydd a gwasanaethau cefnogol yn parhau i wynebu her o ran y diffyg staffio/recriwtio felly mae nifer o unigolion yn derbyn llai o ddyddiau/oriau.

Mae defnydd o fyngalo gwyliau (a ddarperir gan Antur Waunfawr) wedi ei ymestyn am chwe mis arall, gyda'r cynnig i unrhyw un sy'n gofalu yng Ngwynedd drefnu arhosiad byr am ddim. Mae nifer o ofalwyr wedi manteisio ar hyn.

Mae rhaglen waith gwydnwch cymunedol Gwynedd yn edrych ar ddatblygu hybiau gwybodaeth/mentrau cymunedol i gwrdd ag anghenion ar lefel leol.

Mae cyfleoedd seibiant i unigolion ag anableddau dysgu ar gael trwy Gynllun Rhannu Bywydau Gwynedd a Môn a Seren Cyf. Mae gwaith yn parhau trwy'r hybiau cymunedol a grybwyllwyd uchod i gynnig cyfleoedd a gweithgareddau yn lleol a hefyd trwy ein Tîm Llwybrau Llesiant.

Sir Ddinbych

Mae galw cynyddol am ddarpariaeth gofal amgen a gofal seibiant mwy hyblyg ar benwythnosau, dros nos neu gyfnodau wedi'u trefnu ymlaen llaw fel 'Respitality' ar gyfer oedolion hŷn a phlant ac oedolion gydag anableddau cymhleth, i atal perthynas y gofalwr a'r unigolyn rhag chwalu, i leihau derbyniadau brys i ofal preswyl ac i roi mwy o ddewis i bobl.

Sir y Fflint

- Mae'r galw am seibiant a chymorth i rieni sy'n gofalu yn cynyddu, oherwydd cymhlethdodau'r cyflyrau iechyd amrywiol sydd gan rai plant, yn ogystal â'r nifer uchel sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol
- Mae canfod seibiant i blant ac oedolion gydag anghenion cymhleth, yn cynnwys anghenion iechyd, yn her barhaus
- Mae canfod cynorthwywyr personol addas yn her ac yn faes sydd arnom ni angen ei ddatblygu yn ogystal ag ehangu cymorth cymunedol i wella gwydnwch a gallu teuluoedd i gynnal eu rolau gofalu. Cefnogi proses recriwtio cynorthwywyr personol

Cafodd cyfleoedd seibiant lleol eu heffeithio'n fawr gan y pandemig, gyda lleoedd brys yn unig yn cael eu cynnig

Wrecsam

Mae ymgysylltu â gofalwyr di-dâl yn Wrecsam wedi amlygu nifer o heriau sylweddol ers y pandemig. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu mewn partneriaeth â gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymorth. Er mwyn gyrru'r agenda yn ei blaen mae cyllid

ar gyfer Swyddog Arweiniol Gofalwyr Di-dâl wedi'i sicrhau o'r Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol 22/23.

Lansiwyd Cynllun Taliad Uniongyrchol Gofalwyr Di-dâl yn 2021/22. Gwnaed 31 o daliadau y llynedd. Roedd hyn yn galluogi gofalwyr di-dâl i brynu atebion seibiant a oedd yn bodloni eu hanghenion yn hyblyg.

Sefydlogrwydd y farchnad

Mae llawer o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yng ngogledd Cymru yn cael ei ariannu drwy grantiau neu'n cael ei gomisiynu i sefydliadau trydydd sector a'r sector gwirfoddol sydd â hanes hir a gwerthfawr o gefnogi gofalwyr. Mae'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn gallu denu cyllid allanol yn effeithiol i ddatblygu gwasanaethau er mwyn i ofalwyr di-dâl ychwanegu gwerth ychwanegol at y ddarpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, mae dibynnu ar gyllid grant yn gallu peryglu sefydlogrwydd rhai gwasanaethau. Mae rhai gwasanaethau i ofalwyr yn cael eu comisiynu'n rhanbarthol neu'n is-ranbarthol i geisio symleiddio'r gofynion comisiynu ac adrodd sydd ar sefydliadau sy'n gweithio ar draws y rhanbarth.

Amlygodd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth fod modd cyflawni modelau cyflenwi gwerth cymdeithasol a gwerth cymdeithasol ychwanegol drwy'r profiad a rennir gyda chyd-ofalwyr, cefnogi'r naill a'r llall a chydgyfnewid. Bydd angen cymorth ar ofalwyr di-dâl i greu trefniadau cydweithredol a bydd angen strategaeth fuddsoddi ar gomisiynwyr sy'n creu gallu y tu hwnt i'r farchnad.

Mae'n bwysig cydbwyso gwasanaethau ataliol sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles gofalwyr a gwasanaethau a gomisiynir sy'n cwrdd ag anghenion asesedig gofalwyr.

Mae comisiynu gwasanaethau wedi'i osod yn erbyn yr angen i ymateb i bwysau cyllidebol a wynebir yn genedlaethol, ac felly mae buddsoddi mewn gwasanaethau cynaliadwy yn allweddol er mwyn cwrdd â'r galw.

Rydym yn comisiynu gwasanaethau sy'n:

- Hyblyg, ar gael ledled y sir ac yn cwrdd ag anghenion unigol gofalwyr
- Cynaliadwy yn yr hirdymor
- Annog ymgysylltu gyda, a mynediad i, weithgareddau cymunedol sy'n cefnogi'r gofalwr a/neu'r sawl sy'n derbyn gofal

- Galluogi gofalwyr i barhau i ofalu, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth gan gymheiriaid, hyfforddiant a seibiant byr o'r rôl ofalu

Gwynedd

Yn gyffredinol, a yw'r farchnad yn debygol o ddarparu a chynnal y lefelau gwasanaeth gofynnol i fodloni'r cyflenwad

Mae'r prosiect gofal cartref yn gweithio i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â gofal a chymorth cartref i unigolion yn y gymuned. Mae'r agenda atal cydnerthedd cymunedol yn edrych ar ddatblygu cymunedau i gefnogi'r agenda ataliol. Rydym hefyd yn addasu cartrefi preswyl y Cyngor i greu mwy o unedau gofal dementia a darpariaeth gofal dydd a seibiant.

Sir Ddinbych

Yn lleol, mae llawer wedi'i gyflawni i foderneiddio cymorth ac i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu comisiynu gyda mewnbwn gofalwyr di-dâl a theuluoedd er mwyn helpu i nodi 'beth sy'n bwysig' a defnyddio dull Sir Ddinbych sy'n seiliedig ar asedau i'w helpu nhw i ganfod datrysiadau.

Rydym ni'n annog pobl i ddefnyddio taliadau uniongyrchol a thalebau pontio'r bwlch yn greadigol i gefnogi dewis unigolion ac i ganiatáu i ofalwyr di-dâl gymryd seibiant neu fwynhau gweithgareddau cymdeithasol a hamdden gyda'r sawl sy'n derbyn gofal a hebddo. Er enghraifft, galluogi gofalwyr di-dâl i fynd i gyngerdd neu briodas neu dalu am aelodaeth campfa, peiriant golchi newydd, cyrsiau hyfforddiant neu wersi gyrru.

Mae'r anghenion dynodedig yn Sir Ddinbych yn cynnwys:

- Mwy o gymorth seibiant arbenigol (penodol i gyflwr) i adlewyrchu'r gwahanol anghenion, e.e. lleoedd sy'n addas i bobl sydd ag anaf i'r ymennydd, strôc, dementia a chyflyrau niwrolegol eraill (mewn argyfwng ac ar gael i'w harchebu ymlaen llaw)
- Gweithgareddau/digwyddiadau cymunedol sy'n darparu gofal seibiant ac o les i ofalwyr, gyda digon o staff/gwirfoddolwr hyfforddedig i barhau i gefnogi pobl gyda chyflyrau cynyddol sydd angen lefelau uwch o ofal
- Amrywiaeth o ddewisiadau hyblyg, yn cynnwys mwy o wasanaethau sesiynol a chymunedol ar draws Sir Ddinbych, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig

- Cymorth mewn argyfwng i helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol gartref ac allan o'r ysbyty, a mwy o ddewisiadau seibiant rheolaidd a chyson sy'n hawdd eu harchebu ymlaen llaw
- Cymorth grŵp/unigol ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau, yn enwedig i ofalwyr sy'n gweithio a methu mynd i grwpiau cymorth neu fanteisio ar wasanaethau eraill yn ystod y dydd
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da am y dewisiadau seibiant amrywiol sydd ar gael

Mae seibiant yn gweithio orau pan fo gofalwyr yn hapus gyda'r trefniadau, sydd wedyn yn helpu i leihau gorbryder. Mae'r argyfwng recriwtio bresennol yn effeithio ar ddarparwyr – sydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff a gwirfoddolwyr gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir i ddarparu seibiant o'r radd flaenaf.

Mae cymorth seibiant sy'n gweithio orau i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal yn cynnwys gweithgareddau ystyrlon sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a'u hobïau. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn hyrwyddo datblygiad Catalyddion Cymunedol / Cyflogwyr Micro a defnyddio gwirfoddolwyr ychwanegol ochr yn ochr â gwasanaethau a gomisiynir. Rydym ni hefyd yn annog mentrau cymdeithasol lleol i gynnal prosiectau arloesol i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Rydym ni'n aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu llety seibiant a chynllun seibiant byr cenedlaethol. Yn lleol gall gofalwyr archebu llety gwesteion mewn cynlluniau gofal ychwanegol a dau eiddo sydd wedi'u haddasu'n ddiweddar yn Rhuthun a Chorwen. Mae Rhannu Bywydau hefyd ar gael, yn bennaf ar gyfer pobl gydag anableddau cymhleth, lle mae unigolion yn cael eu paru gyda theuluoedd Rhannu Bywydau. Mae gan Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) a Chynnal Gofalwyr eiddo seibiant a charafán.

Sir y Fflint

Rydym ni'n croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i wella'r ystod o ddewisiadau seibiant sydd ar gael i ofalwyr er mwyn cwrdd â'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am wasanaethau seibiant yn sgil effaith y pandemig ar iechyd meddyliol a chorfforol gofalwyr.

Rydym ni’n parhau i archwilio dewisiadau seibiant hyblyg i ofalwyr yn seiliedig ar y canlyniadau y mae’r gofalwr yn dymuno eu cyrraedd, ochr yn ochr â gweithgareddau ystyrlon i’r rheiny sy’n derbyn gofal.

Mae ein ffocws ar sicrhau sefydlogrwydd y cymorth i ofalwyr di-dâl yn cynnwys:

- Ystyried sut mae modd i meicro-ofal gefnogi gwasanaethau dydd / seibiant
- Datblygu ein cynnig taliadau uniongyrchol ymhellach i ofalwyr
- Datblygu Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc a’r cerdyn ID ymhellach

9. Gwasanaethau eirioli

Mae eiriolaeth yn golygu derbyn cefnogaeth gan unigolyn arall er mwyn helpu rhywun i fynegi ei safbwyntiau a'i ddymuniadau, a'i helpu i wneud safiad dros ei hawliau.

Mae pob unigolyn yn wahanol. Mae eu hanghenion cymorth yn wahanol, ac yn gallu newid yn ystod eu bywydau. Mae amrywiaeth o wasanaethau eirioli wedi'u datblygu er mwyn cydnabod y gwahaniaethau yma.

Mae'r holl fathau o eirioli yn gyfartal o ran gwerth. Dylai defnydd yr eiriolaeth, a phryd, ddibynnu ar yr hyn sydd orau i'r person sydd ei angen. Un math o eiriolaeth yw Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol sy'n cynnwys eiriolwr hyfforddedig proffesiynol yn gweithio ar sail un-i-un gydag unigolyn i sicrhau bod barn yr unigolyn hwnnw yn cael ei gyfleu'n gywir a'i hawliau'n cael eu cynnal.

Plant a phobl ifanc

Mae eiriolaeth yn garreg sylfaen allweddol i gyflawni ein hymrwymiad i hawliau plant ac mae arnom ni angen gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn derbyn cymorth pan fydd arnynt ei angen a hynny gan bobl a fydd yn gwrando arnynt ac yn cynrychioli eu barn.

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i awdurdodau lleol Cymru fod â gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc ac fe ddylent hefyd wneud cynnig gweithredol o eiriolaeth. Mae Tros Gynnal Plant yn darparu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yn y gogledd.

Pan fydd ar blant a phobl ifanc angen gwasanaethau, weithiau bydd angen eiriolwr i gwrdd â nhw i egluro'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn eu helpu i ddeall beth sydd ar gael a sut mae'r gwasanaeth yn gallu helpu. Dyma yw cynnig gweithredol.

Mae'n rhaid gwneud cynnig gweithredol i:

- Blant mewn gofal
- Bobl ifanc sy'n gadael gofal
- Blant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol

Mae'n gyfrifoldeb statudol ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc, gan gydymffurfio â'r holl reoliadau, safonau,

deddfwriaeth, cyfarwyddiadau, codau ymarfer, fframweithiau canlyniadau ac unrhyw ddiwygiad neu amnewidyn sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mae'r gwasanaeth yn 'wasanaeth eirioli' at ddibenion paragraff 7(1) Atodlen 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac yn unol â hynny yn wasanaeth rheoledig y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r darpariaethau/gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth)
- Canllawiau statudol yn ymwneud â Rhannau 2 i 15 Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

Gofalwyr ifanc

Un o'r pethau a nodir gan ddarparwyr gwasanaethau sydd ei angen ar ofalwyr ifanc yw cymorth eirioli er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.

Mae'r trydydd sector wedi comisiynu cymorth penodol ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc ar draws y gogledd. Mae Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych/Credu wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y siroedd hynny; gyda GOGDdC yn darparu'r gwasanaeth yn Sir y Fflint a Gweithredu dros Blant yn darparu'r gwasanaeth yng Ngwynedd a Môn.

Oedolion

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion unigolion o ran cymorth eirioli wrth ymgymryd â swyddogaethau amrywiol sy'n cynnwys penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar fywyd dyddiol unigolion e.e.

- Asesiad o’r angen am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Paratoi, cynnal neu adolygu cynlluniau gofal a chymorth
- Diogelu eiddo unigolyn sy’n derbyn gofal oddi cartref
- Penderfynu ar allu unigolyn i dalu ffi
- Diogelu a dyletswydd i roi gwybod am blant neu oedolion mewn perygl
- Hyrwyddo integreiddio gofal a chymorth gyda gwasanaethau iechyd
- Derbyn cwynion neu sylwadau am wasanaethau cymdeithasol

Eiriolaeth:

- Diogelu unigolion sy’n ddiamddiffyn, yn profi gwahaniaethu neu y mae gwasanaethau yn ei chael hi’n anodd eu gwasanaethu
- Siarad ar ran unigolion sy’n methu gwneud hynny drostynt eu hunain
- Grymuso unigolion sydd angen llais cryfach drwy eu galluogi i fynegi eu hanghenion a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain
- Galluogi unigolion i gael mynediad at wybodaeth, i archwilio a deall eu dewisiadau, ac i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a’u teimladau
- Cefnogi pobl yn weithredol i wneud dewisiadau gwybodus

Pobl hŷn

Ariannwyd Rhaglen Eiriolaeth y Llinyn Aur gan Lywodraeth Cymru am bedair blynedd rhwng 2016 a 2020 fel cynllun ychwanegol ac ategol i weithredu Rhan 10 (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae’r rhaglen bellach wedi dod i ben ond mae Age Cymru yn parhau i ymrwymo i eiriolaeth yng Nghymru drwy’r prosiect HOPE.

Ynys Môn, Gwynedd a Wrecsam: Mae Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru yn cynnig gwasanaethau eirioli i bobl dros 65.

Conwy a Sir Ddinbych: Mae Canolfan Byw’n Annibynnol DEWIS yn cynnig eiriolaeth i unrhyw un dros 65 oed, neu unrhyw ofalwr.

Pobl sy'n byw gyda dementia (pob sir): Mae Cymdeithas Alzheimer's yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n byw gyda dementia, boed ganddynt alluedd a'r gallu i gyfathrebu neu beidio.

Iechyd Meddwl

Efallai y bydd ar bobl sy'n derbyn gofal iechyd meddwl eilaidd angen cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010) neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Efallai y bydd angen eiriolaeth ar bobl hŷn gyda dementia, sydd wedi colli cysylltiad â ffrindiau a theulu, neu bobl gydag anableddau dysgu difrifol neu broblemau iechyd meddwl hirdymor sydd wedi bod mewn sefydliadau preswyl am gyfnod hir a heb lawer o gysylltiadau allanol.

Efallai y bydd ar bobl eraill gyda chyflyrau iechyd meddwl angen cymorth gan unigolyn arall er mwyn mynegi barn neu ofyn am gyngor ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r sefydliadau canlynol yn darparu cymorth eirioli arbenigol i bobl gydag anghenion iechyd meddwl:

- Gwasanaeth Eirioli Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych (CADMHAS) (Conwy a Sir Ddinbych)
- Gwasanaethau Eirioli Gogledd Ddwyrain Cymru (ASNEW) (Wrecsam a Sir y Fflint)
- Cynllun Adfocatiaeth Iechyd Meddwl (Gwynedd ac Ynys Môn)

Anabledd dysgu

Yn aml iawn mae mynediad pobl gydag anabledd dysgu at wasanaethau gwella iechyd a thriniaethau cynnar yn salach, e.e. gwasanaethau sgrinio cancr, adolygiadau clefyd y siwgr blynyddol, cyngor ar ryw a pherthnasoedd a chymorth gyda dulliau atal cenhedlu(Harris *et al.*, 2016). Mae Gwasanaeth Cyswllt ar gyfer Iechyd Anableddau Dysgu BIPBC yn gweithio ar draws y gogledd i godi ymwybyddiaeth ac i leihau anghydraddoldeb.

Mae eiriolaeth hefyd ynghlwm wrth ganlyniadau lles. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion eiriolaeth unigolion wrth gynnal asesiadau a chynllunio gofal. Efallai y bydd ar bobl gydag anabledd dysgu angen cymorth i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u hawliau'n cael eu cynnal.

Mae Canolfan Byw'n Annibynnol DEWIS yn darparu gwasanaethau eirioli i oedolion diamddiffyn 18 i 64 oed, yn cynnwys pobl gydag anableddau dysgu. Mae Ynys Môn hefyd yn comisiynu Cymdeithas Adfocatiaeth Gogledd Cymru.

Awtistiaeth

Mae eirioli ar gyfer oedolion a phlant awtistig a'u gofalwyr yn sicrhau bod hawliau'r unigolyn yn cael eu cynnal. Gall eiriolaeth ddarparu cymorth mewn sawl ffordd, yn cynnwys i dderbyn diagnosis, goresgyn rhwystrau a defnyddio gwasanaethau.

Hunaneiriolaeth

Yn ogystal, mae Swyddog Hunaneiriolaeth Rhanbarthol wedi'i benodi o ganlyniad i'r angen am ddod â lleisiau newydd i grwpiau hunaneiriolaeth ar draws y gogledd. Mae hyn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Cyswllt Conwy, Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru a Phobl yn Gyntaf Cymru. Mae gan y Swyddog Hunaneiriolaeth anabledd dysgu ac mae wedi'i gyflogi gan Cyswllt Conwy. Ei rôl yw cysylltu gyda sefydliadau a grwpiau lleol ar draws y gogledd i godi ymwybyddiaeth am, a hyrwyddo buddion hunaneiriolaeth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

Cyfeiriadau

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2020) *Rebalancing Social Care: A report on Children's Services at ADSS Cymru*. Ar gael yn: https://www.adss.cymru/en/blog/post/rebalancing-social-care-a-report-on-children-s-services (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Atkinson, P.C., Crozier, D.S. & Lewis, L. (2016) *Ffactorau sy'n effeithiol ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithiwr gofal cartref ac i ba raddau mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref*. Llywodraeth Cymru: Canolfan Pobl a Pherfformiad, Ysgol Fusnes Prifysgol Metropolitan Manceinion. Ar gael yn (Saesneg yn unig): https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/160317-factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers-final-en.pdf (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal Cymru (2019a) 'Archwiliad o Wasanaethau Pobl Hŷn: Cyngor Sir Ynys Môn'. Ar gael yn: https://arolygiaethgofal.cymru/arolygiad-o-wasanaethau-oedolion-hyn-cyngor-sir-ynys-mon (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal Cymru (2019b) 'Adroddiad Arolygu ar Gymdeithas Plant Dewi Sant'. Ar gael yn: https://www.adoptionwales.org/wp-content/uploads/2019/05/Inspection-Report-St-Davids-Children-Society.pdf (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2016) '"Uwchben a Thu Hwnt": Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Cartref yng Nghymru'. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ar gael yn: https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-03/161027aboveandbeyonden.pdf.

Maethu Cymru (2021) 'Fframwaith Maethu Cenedlaethol: Adroddiad Terfynol 2018 i 2021'. Ar gael yn: https://www.adss.cymru/cy/blog/post/national-fostering-framework-final-report-2018-2021 (Defnyddiwyd: 20 Mai 2022)

Harris, J. *et al.* (2016) 'Learning disabilities and autism: a health needs assessment for children and adults in Cheshire and Merseyside'. Canolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl. Ar gael yn: https://www.ljmu.ac.uk/~/media/phi-reports/pdf/2016_01_learning_disabilities_and_autism_a_health_needs_assessment_for_children_and_adults.pdf (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022).

Laing, W. (2020) 'Care Cost Benchmarks, Financial year 2019/20 and projections for financial year 2020/21'. LaingBuisson Healthcare Intelligence.

Matthews, F.E. *et al.* (2016) 'A two decade dementia incidence comparison from the Cognitive Function and Ageing Studies I and II', *Nature Communications, Published online: 19 Ebrill 2016; | doi:10.1038/ncomms11398* [Rhag brint]. doi:10.1038/ncomms11398.

NICE (2021) 'Looked-after children and young people NICE guideline [NG205]'. NICE. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng205 (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (2020) ‘Adolygiad Ansawdd Gofal: Ebrill 2020 – Medi 2020’. Ar gael yn: https://northwalesadoption.co.uk/wp-content/uploads/2021/03/Quality-of-Care-report-2020.pdf (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

ONS (2021) *Care homes and estimating the self-funding population, England*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/carehomesandestimatingtheselffundingpopulationengland/2019to2020 (Defnyddiwyd: 13 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2019) Datganiad o Sefyllfa’r Farchnad ar gyfer gofal preswyl i blant a phobl ifanc, maethu a llety diogel’. Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/comisiynu/ (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2020) *Adolygiad Cyflym Asesiad o Anghenion Poblogaeth.* Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/adolygiad-cyflym/ (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2020) ‘Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru’. Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/ (Defnyddiwyd: 19 Mai 2022).

Gofal Cymdeithasol Cymru (2018a) *Gweithlu gofal cartref, fesul rôl.* Ar gael yn: https://www.socialcaredata.wales/IAS/themes/workforceandqualifications/socialcareworkforce/tabular?viewId=2505&geoId=141&subsetId= (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022).

Gofal Cymdeithasol Cymru (2018b) *Proffil Staff Gofal Cymdeithasol – Iaith.* Ar gael yn: https://www.socialcaredata.wales/ (Defnyddiwyd: 13 Mai 2022).

Canolfan Cydweithredol Cymru (2021) ‘Cartrefi Gofal yng Nghymru: hyrwyddo mentrau cymdeithasol’. Ar gael yn: https://wales.coop/wp-content/uploads/2021/06/Care-Home-Guide-1-final.pdf (Defnyddiwyd: 18 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2014) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents (Defnyddiwyd: 9 Awst 2916).

Llywodraeth Cymru (2016) *‘Gweithlu Gofal Cartref: Gwella’r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref yng Nghymru.* Dogfen Ymgynghori WG27421. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/y-gweithlu-gofal-cartref

Llywodraeth Cymru (2020) ‘Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar gyfer Cymru ar sail-2018’. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2021a) ‘Adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad: cod ymarfer’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/adroddiadau-sefydlogrwydd-y-farchnad-cod-ymarfer (Defnyddiwyd: 17 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2021b) *‘Amcangyfrifon canol blwyddyn o’r boblogaeth’*. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority

Llywodraeth Cymru (2021c) ‘Datganiad ysgrifenedig: Y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso gofal a chymorth – camau nesaf (29 Hydref 2021)’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-papur-gwyn-ar-ailgydbwyso-gofal-chymorth-y-camau-nesaf (Defnyddiwyd: 17 Mai 2022).

KeyRing (2022) *Lle mae KeyRing yn gweithio yng Nghymru*, *KeyRing*. Ar gael yn: https://www.keyring.org/where-we-work/wales (Defnyddiwyd: 30 Mehefin 2022).

The King’s Fund (2006) *Tyfu Rhai Eich Hun*, *The King’s Fund*. Ar gael yn: https://www.kingsfund.org.uk/publications/grow-your-own (Defnyddiwyd: 30 Mehefin 2022)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) (yn cynnwys yr laith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol) Tachwedd 2021

Enw'r Polisi neu'r Ymarfer	Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru		
Swyddog Cyfrifol / Pennaeth Adran (yn gyfrifol am y Polisi neu'r Ymarfer)	Morwenna Edwards and Claire Darlington		
Gwasanaeth / Adran	Cydweithrediad Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru	**Dyddiad Dechrau'r Asesiad**	06/06/22

Enw'r swyddog(ion) (a phartneriaid) sy'n llenwi'r AEC		
Enw(au)	**Teitl(au) Swydd**	**Llofnod(ion)**
Catrin Perry	Rheolwr Busnes Rhanbarthol – Comisiynu a Gweithlu	
Sarah Bartlett	Rheolwr Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru	
Natalie Pryor	Rheolwr Prosiect –Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella	
	Rheolwr Comisiynu, Contractau a Thrawsnewid - Cyngor Gwynedd	
	Rheolwr Gwasanaeth Safonau Ansawdd a Comisiynnu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	
	Swyddog Ansawdd a Pholisi – Cyngor Sir Ddinbych	
	Swyddog Cynllunio a Datblygu - Cyngor Sir y Fflint	

	Swyddog Cynllunio a Chomisiynu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	
	Cyngor Sir Ynys Môn	
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
	Iechyd Cyhoeddus Cymru	

*Ystyriwch ddefnyddio teitlau swydd yn unig wrth gyhoeddi

Fersiwn y Ddogfen	Dyddiad Adolygu	Disgrifiwch y Newidiadau'n Fras		AEC wedi'i Gymeradwyo gan Swyddog Cyfrifol / Pennaeth Adran / Gwasanaeth / Pwyllgor	
				Dyddiad y Cwblhawyd yr AEC	
				Enw	
				Teitl Swydd	
				Llofnod Llofnod	

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn declyn aml-ddefnydd sy'n sicrhau y gweithredir camau priodol i gydymffurfio â deddfwriaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn cymryd camau priodol i gydymffurfio efo gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Adran 44: Mesur yr Gymraeg (Cymru) 2011) i ystyried effaith penderfyniadau strategol a pholisi ar yr iaith.

Wrth gynllunio i gyflwyno polisi neu ymarfer newydd, neu adolygu un sy'n bodoli eisoes, newid neu dorri gwasanaeth neu wneud penderfyniadau strategol, mae gofyn i ni ystyried a fydd y penderfyniad yn effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig neu a fyddai'n medru creu canlyniadau anghyfartal yn sgil anfanteision economaidd-gymdeithasol. Os yw'n debygol y bydd hyn yn digwydd, rhaid i ni weithredu'n briodol. Nid ein hatal rhag gwneud pethau yw bwriad y broses AEC, ond yn hytrach sicrhau ein bod wedi ystyried yr effaith. Mae'n ein helpu i ganolbwyntio ar y camau y gallwn eu gweithredu i ddileu a/neu liniaru unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol a chyflwyno mesurau i weld cynnydd mewn cyfleoedd cyfartal.

I gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, rhaid rhoi 'sylw ddyledus' (neu ystyried yr angen yn gydwybodol) i: ddileu gwahaniaethu, gweld cynnydd mewn cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasau da a'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Po fwyaf perthnasol a phosib yw'r effaith, po fwyaf yw'r gofyn i ystyried y ddyletswydd. Bydd y Ddyletswydd Gyffredin yn fwy perthnasol i rai swyddogaethau nag eraill ac fe allant hefyd fod yn fwy perthnasol i rai nodweddion gwarchodedig nac eraill. Rhaid cyflawni'n dyletswydd yn fanwl, gyda meddwl agored a rhaid ei hystyried ar adeg y bydd yn gwneud gwahaniaeth i'n penderfyniadau. Rhaid asesu effaith polisïau sydd o berthnasedd uchel bob amser, megis penderfyniadau cyllidebol strategol, rhaglenni grantiau, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth (yn cynnwys atal neu ad-drefnu gwasanaethau), a pholisïau recriwtio neu dâl. Gweler Canllawiau Asesu Effaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) a'r am arweiniad pellach. Ni ellir dirprwyo ein dyletswydd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

Dylai'r ffurflen hon ddangos pa gamau a gymerwyd i gynnal yr asesiad yn cynnwys gwaith ymgysylltu/ymgynghori perthnasol, y wybodaeth a gafodd ei hystyried, canlyniadau'r asesiad ac unrhyw benderfyniadau a wnaed yn sgil y canlyniadau hynny. Dylid cyhoeddi'r AEC os yw'n dangos y bydd effaith sylweddol (neu debygol) ar ein gallu i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol.

Manteision cynnal AEC:

- Cael gwell dealltwriaeth o'r bobl fyddai'n cael eu heffeithio gan y polisi neu'r ymarfer
- Medru diwallu anghenion gwahanol yn well a bod yn fwy hygyrch a chynhwysol
- Galluogi cynllunio i lwyddo - mae'n nodi'r peryglon posib a chanlyniadau anfwriadol cyn gwneud unrhyw ddifrod
- Galluogi gwell cynllunio fydd yn gwneud penderfyniadau rhagweithiol yn hytrach na rhai adweithiol, gan osgoi gorfod dadwneud penderfyniadau fyddai â goblygiadau ar gostau ac ar enw da
- Dangos fod penderfyniadau wedi cael eu gwyntyllu'n llawn ac wedi ystyried barn y bobl fydd yn cael eu heffeithio
- Ein galluogi ni i reoli disgwyliadau wrth egluro'r cyfyngiadau yr ydym yn gweithio oddi mewn iddynt (e.e. cyllideb)
- Helpu i osgoi risgiau a gwella canlyniadau i unigolion
- Gwneud i ffwrdd ag ymarferion amhriodol neu newidiol a dileu gwahaniaethu sefydliadol
- Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn ymddangos yn un hir, ond yn ogystal â chynnwys camau angenrheidiol y broses, mae hefyd yn cynnwys nodiadau canllaw yn y meysydd allweddol i'ch cynorthwyo wrth gynnal AEC. Ceir dolenni ychwanegol i wybodaeth bellach hefyd i'ch cynorthwyo. Ceir mwy o wybodaeth ar GIG/CLILC PSED/ AEC fan hyn.

Camau Asesu Effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Cam 1 - Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer
Cam 2 - Data, Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith
Cam 3 - Caffael a Phartneriaethau
Cam 4 - Ymdrin ag Effaith Andwyol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

Cam 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen
Cam 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro'r Canlyniadau ac Adolygu Data
Cam 7 - Cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Nodyn Pwysig i'r Swyddog/ion sy'n cynnal yr asesiad:
Mae'n bwysig fod yr AEC yn cael ei gwblhau pan fo'r polisi neu'r ymarfer yn cael ei ddatblygu er mwyn medru defnyddio darganfyddiadau'r AEC i ddylanwadu ar y polisi neu'r ymarfer a'i siapio. Argymhellir fel isafswm i'r asesiad gael ei gwblhau gan swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am y polisi neu'r ymarfer, arbenigwr yn y maes a chyfaill beirniadol gydag o leiaf un person sydd wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol ar AEC. Fel rhan o'r broses wneud penderfyniadau, mae angen cyflwyno'r ddogfen hon i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ynghyd â drafft o'r polisi neu'r ymarfer.

Os ydych yn datblygu strategaeth neu gynllun lefel uchel nad yw'n cynnwys digon o fanylion i ddangos sut y bydd yn effeithio ar unigolion neu grwpiau (h.y. pan fydd cynlluniau a gweithrediadau'n gorwedd o dan y strategaeth fydd yn penderfynu hyn), dylech barhau i gynnal yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn. Efallai y bydd angen i chi gwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb eraill ar y cynlluniau a'r camau gweithredu sydd o dan y strategaeth lefel uchel. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn dangos eich bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Os yw eich polisi neu ymarfer yn deillio o gyfarwyddyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu Awdurdod Lleol, dylech barhau i asesu effaith hyn yn lleol i nodi unrhyw effaith wahaniaethol yn sgil gwahaniaeth lleol.

Dylech ystyried p'un ai yw digwyddiadau eraill, megis Covid-19, Brexit, Black Lives Matter ac ati wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau neu wedi eu dwysáu sy'n gofyn i chi roi sylw iddynt wrth i chi weithio trwy'r AEC.

Tud. 127

CAM 1 - Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Beth sy’n cael ei asesu? *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi’i dicio’ fel sy'n briodol)*

☐ Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu sy’n cael eu hadolygu (sy'n addasu darpariaeth gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

☐ Adolygiad gwasanaeth neu gynigion ad-drefnu sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff, e.e. darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal, addysg

☐ Cynigion effeithlonrwydd neu arbedion, e.e. sy'n arwain at newid cyfleusterau cymunedol, cyfleoedd cefnogaeth neu gyflogaeth

☐ Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

☐ Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach yn cynnwys comisiynu/digomisiynu neu adolygu gwasanaethau

☐ Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu ar hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig, e.e. gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol, symud i wasanaethau ar-lein, hunanwasanaeth, newid lleoliad

☐ Digwyddiadau Cyhoeddus Mawr

☐ Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol (cyfeiriwch at unrhyw AEC cenedlaethol ac ystyried effaith leol)

☐ Cyfarwyddeb a bwriad strategol, yn cynnwys y rhai y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu datblygu sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus

☐ Cynlluniau tymor canolig i'r tymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, darparu gwasanaeth a chynlluniau gwella)

☐ Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth Iaith Gymraeg)

☐ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr

☐ Penderfyniadau sy'n effeithio ar y gallu (yn cynnwys gan bartneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau yn y Gymraeg

☐ Eraill, eglurwch yn y bocs isod:

Er mwyn sicrhau bod yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn tynnu ar ganfyddiadau’r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth gyda’r bwriad o adlewyrchu anghenion yr holl bobl sydd ag angen cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol a thynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth i’r unigolion hynny yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.

Mae'r holl gamau gweithredu sy'n deillio o'r asesiad hwn yn adlewyrchu'r anghenion a nodwyd ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig ac yn tynnu sylw at fylchau mewn gwasanaethau a fydd yn atal anghydraddoldeb wrth darparu gwasanaethau yn y dyfodol trwy strategaethau comisiynu a chynlluniau ardal.

2. Beth yw nodau, amcanon a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Mae’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) Gogledd Cymru yn asesu’r cyflenwad a’r digonolrwydd yn y farchnad gofal cymdeithasol. Y nod yw tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau a rhoi gwybodaeth er mwyn hyrwyddo marchnad gofal cymdeithasol sy’n fwy cynaliadwy ac fe’i defnyddir fel adnodd gan gomisiynwyr i ddadansoddi’r cyflenwad a’r galw ochr yn ochr â’r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB). Pwrpas yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yw sicrhau bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gynhwysol.

Gyda’i gilydd, mae adroddiadau’r AAB a’r ASF yn tynnu sylw at feysydd lle mae anghydraddoldebau mewn darpariaeth gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol, er mwyn cyfrannu at strategaeth, polisi, cynllunio ac ymarfer gofal cymdeithasol.

Mae’r ASF yn tynnu sylw at effeithiau negyddol o brinder cyflenwad yn y farchnad gofal cymdeithasol, ac bydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig a fydd yn cael ei gwireddu drwy Gynlluniau Ardal Leol, sef cynlluniau comisiynu a fydd yn pennu gweithgarwch a fydd yn effeithio ar y rheini sy’n wynebu’r risg fwyaf o anghydraddoldeb.

Bydd yr ASF yn darparu

- Gwell dealltwriaeth o ddarlun presennol y ddarpariaeth o wasanaethau ledled y rhanbarth
- Modd i ddatblygu gwasanaethau ar sail angen gwirioneddol
- Am fod yr asesiad yn cael ei wneud ar sail ranbarthol, mae’n haws i pobl â nodweddion gwarchodedig gymryd rhan ac gall ddatblygu ymateb rhanbarthol i’r asesiad a all ddod â buddion ariannol, osgoi dyblygu, ac yn y blaen.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Noder: Ystyriwch gymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd (lle mae pobl wedi'u grwpio efo'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu oherwydd lle maen nhw'n byw)

- Darparwyr gofal cymdeithasol rheoleiddiedig, yn cynnwys darparwyr preifat, darparwyr y trydydd sector a darparwyr mewnol awdurdodau lleol

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Dinasyddion sy'n derbyn gofal a chymorth

Yn ogystal â'r naw nodwedd warchodedig, aseswyd anghenion y grwpiau poblogaeth iechyd canlynol yn yr AAB. Mae cysylltiad cryf rhwng y grwpiau hyn a rhai nodweddion gwarchodedig.

- Plant a phobl ifanc (Oed)
- Pobl hŷn (Oed)
- Iechyd, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau (Anabledd)
- Anabledd dysgu (Anabledd)
- Awtistiaeth (Anabledd)
- Iechyd meddwl (Anabledd)
- Gofalwyr di-dâl (Anabledd)

4. Ydi'r polisi'n ymwneud â, wedi'i ddylanwadu gan, neu wedi'i effeithio gan bolisïau neu feysydd gwaith eraill (mewnol neu allanol), e.e. AEC strategol os yw hwn yn AEC gweithredol neu i'r gwrthwyneb?

Noder: Ystyriwch hyn o ran gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau (partneriaeth) rhanbarthol, polisïau cenedlaethol, diwygio lles.
Sylwer: Ystyriwch hyn yn nhermau gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau (partneriaethau) rhanbarthol, polisïau cenedlaethol, diwygiadau lles.

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyflwynodd ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu asesiad ar y cyd o ddigonolrwydd a chynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol.
- Mae'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad wedi ei gynhyrchu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021).
- Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn dylanwedu ar flaenoriaethau strategol lefel uchel wedi'u seilio ar ddadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw mewn Cynlluniau Ardal Leol, a fydd yn eu tro yn cyfrannu i Cynlluniau Comisiynu Strategol a Datganiadau o Sefyllfa'r Farchnad.

- Hwn yw'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf a luniwyd ac mae'n rhoi sylw i ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022, sy'n darparu data a mewnwelediad gan yr holl randdeiliaid, yn cynnwys y rheini sy'n cael gofal a chymorth er mwyn cyfrannu i'r asesiad effaith hwn.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Plant 1989
- Deddf Gofal Plant (2006)
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2015
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Datganiad Llywodraeth Cymru o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Troseddau Difrifol
- Deddf Tai (Cymru) 2014

CAM 2 - Data, Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

Wrth lenwi'r adran hon, rhaid i chi ystyried a oes gennych ddigon o wybodaeth i lenwi'ch AEC, neu a oes angen cwblhau cyfnod o ymgysylltu/ ymgynghori cyn parhau. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r broses AEC yn gofyn i chi **ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli budd y sawl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a'u cynnwys yn y broses *a'r* sawl sydd â buddiant yn y modd yr ydych yn cyflawni eich swyddogaethau**. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn gofyn i ni **ystyried lleisiau'r bobl yn y gymuned yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi byw â phrofiad o anfantais economaidd-gymdeithasol**. Dylech ymgysylltu gyda chymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd i ddeall a yw'ch cynigion yn effeithio mwy arnynt neu yn eu rhoi dan fwy o anfantais. Mae angen i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r ymarfer sy'n cael ei asesu. Cofiwch y gall budd-ddeiliaid hefyd gynnwys ein staff ein hunain yn ogystal â sefydliadau partner.

Cyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu penodol, dylech yn gyntaf ddefnyddio'r data o waith ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio diweddar. Gall hyn fod ar bolisi perthnasol diweddar neu asesiadau diweddar a gynhaliwyd gan gydweithwyr neu ffynonellau eraill, e.e. A yw Cymru'n Decach?, Dogfen Data Cefndirol Gogledd Cymru, InfoBase Cymru, MALIC. Gall hyn helpu i fagu hyder ymysg grwpiau a chymunedau ein bod yn gweithredu ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddweud. Os nad oes gennych fawr o wybodaeth, neu ddim hyd yn oed, o ymgysylltu blaenorol sy'n berthnasol i'r AEC hwn, dylech ymgymryd â rhywfaint o waith ymgysylltu gyda'ch budd-ddeiliaid a chyda grwpiau cynrychioli perthnasol i sicrhau nad ydych yn anghofio anghenion pob grŵp gwarchodedig heb yn wybod i chi. Yn arferol nid yw hi'n dderbyniol i nodi'n y bydd polisi yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb yn gyffredinol, ac felly bydd unigolion yn cael eu heffeithio'n gyfartal waeth beth fo'u nodweddion. Dylai'r dadansoddiad hwn fod yn fwy cadarn na hyn, yn dangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac wedi rhoi sylw i unrhyw fylchau neu wahaniaethau. Efallai y bydd angen camau penodol i ymdrin ag anfantais sy'n bodoli neu i ddiwallu gwahanol anghenion.

Gall **Egwyddorion Gunning**, a sefydlwyd o achosion llys blaenorol, helpu i sicrhau ein bod yn defnyddio tegwch wrth ymgysylltu ac ymgynghori:

Egwyddor 1: Rhaid ymgynghori pan fo'r cynigion dal yn cael eu ffurfio. Ni ddylech fod wedi penderfynu yn barod.
Egwyddor 2: Rhaid cyflwyno rhesymau digonol i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. Ydi'r bobl wedi cael y wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?
Egwyddor 3: Rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o gofio'r amgylchiadau?
Egwyddor 4: Rhaid mynd ati'n gydwybodol i ystyried cynnyrch yr ymgynghori wrth benderfynu'n derfynol.

5. Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac a ydych wedi derbyn digon o wybodaeth i fynd ymlaen?

Do X Naddo ☐ ***(dileer fel sy'n briodol X)***

6. Os do, pa weithgarwch wnaethoch chi ei gynnal a gyda phwy?

Mae'r ASF yn tynnu ar y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a wnaed yn ystod yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Arolwg a gwblhawyd gan fwy na 350 o unigolion, sefydliadau a phartneriaid. Mae adroddiad manwl ar yr ymgynghoriad yn darparu rhagor o fanylion am y dulliau a'r broses.
- Chwiliad llenyddiaeth cynhwysfawr a gynhaliwyd mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.
- Canfyddiadau o ymchwil berthnasol, deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau eraill o anghenion, datganiadau o sefyllfa ac adroddiadau ar ymgyngoriadau.

- Roedd gwaith gan yr is-grŵp cyfathrebu i Grŵp Llywio'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad wedi arwain ar lunio Arolwg o Ddarparwyr Cofrestredig. Anfonwyd gwahoddiad at yr holl ddarparwyr cofrestredig gan gomisiynwyr awdurdodau lleol. Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion.
- Roedd timau lleol wedi cynnal eu gweithgareddau ymgysylltu eu hunain lle nad oedd hyn wedi'i gynnwys ar lefel ranbarthol, yn cynnwys cyfarfodydd un-i-un â darparwyr cofrestredig.

7. Os mai Na yw eich ateb, efallai y byddwch yn dymuno ystyried atal y gwaith er mwyn i chi gynnal gweithgarwch ymgysylltu (pellach) y gallwch ei gynnwys yn y cynllun gweithredu isod. Cynhwyswch unrhyw wybodaeth a gafwyd o'r gweithgarwch ychwanegol hwn yn y bocsys yng nghwestiwn 8.

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Gwybodaeth wedi'i hychwanegu i'r AEC ( )

8. Pa wybodaeth sydd gennych am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r ystyriaethau/dyletswyddau statudol a ganlyn o'ch profiad chi o'r ddarpariaeth gwasanaeth fel mae'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, adc o'r gwaith ymgysylltu neu ymgynghori diweddar? Cynhwyswch unrhyw ddata perthnasol ychwanegol; gwybodaeth o ymchwil a rheoli perfformiad; arolygon; astudiaethau gan Lywodraeth, corff proffesiynol neu sefydliad; Data Cyfrifiad; A yw Cymru'n Decach? (Data CCHD[1]); gwybodaeth o sgrinio cychwynnol; cwynion/clod; data ac adborth defnyddwyr gwasanaeth; arolygon/archwiliadau; data economaidd-gymdeithasol yn cynnwys data WIMD[2]. Efallai y byddwch yn dymuno cynnwys isdeitlau i ddangos o ble y daw pob elfen o'ch data, e.e., data cenedlaethol, data lleol, data'r sefydliad, ymarferion ymgysylltu cyffredinol neu benodol ac ati.

Ystyriwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn cynnwys tueddiadau mewn data, daearyddiaeth (materion trefol neu wledig), demograffeg, materion mynediad, rhwystrau ac ati. Cynhwyswch hefyd unrhyw feysydd eraill lle ceir canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol neu unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan gymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd (h.y. lle

mae budd-ddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth, staff, cyrff cynrychioladol, ac ati wedi eu grwpio gyda'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu oherwydd lle maen nhw'n byw) ac unrhyw faterion a nodwyd ar gyfer pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol a /neu economaidd llai ffafriol.

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	**Data Perthnasol**	**Effaith gadarnhaol a/neu negyddol**	**Prompt** (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
Hil	Mae cyfraddau marwolaeth uwch o ganlyniad i'r coronafeirws ymysg grwpiau o Bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol. (AAB, tudalen 22) Roedd anghenion iechyd meddwl wedi cael effaith anghymesur ar iechyd meddwl cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol o ganlyniad i'r pandemig. (AAB, tudalen 214) Roedd cymunedau Du ac ethnig lleiafrifol wedi dweud wrthym fod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn faes lle'r oedd angen gwelliant. (AAB, tudalen 211) Bydd plant a oedd â'r cyrhaeddiad addysgol isaf cyn y pandemig wedi colli mwy o dir o'u cymharu â'u cyfoedion, yn cynnwys plant mewn grwpiau ethnig penodol (AAB, tudalen 22)	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Sut mae eich cynnig yn ystyried: Ethnigrwydd Cenedl Sipsiwn / Teithwyr Iaith: darparu cyfieithydd Ffoaduriaid / Ceiswyr Lloches Mudwyr Gweithredu Cadarnhaol Digwyddiadau ymwybyddiaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar Sail Hil (UNCERD) Ystyriwch faterion croesdoriadaeth Cyd-gynhyrchu

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	Mae diffyg ymchwil ynghylch pobl mewn grwpiau Du ac ethnig lleiafrifol sydd â phrofiad o Awtistiaeth. Oherwydd hyn, gall fod yn anoddach byth iddynt gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae angen i ni ddeall profiadau pobl a theuluoedd awtistig o wahanol gefndiroedd a diwylliannau a helpu i greu cymdeithas sy'n gweithio i'r holl bobl awtistig. (AAB, tudalen 196)		
Anabledd	**Data lleol:** • Nifer cyfartalog wythnosol yr oriau o ofal cartref a gomisiynir gan awdurdodau lleol/byrddau iechyd • Y gyfradd gyfartalog yr awr ar gyfer gofal cartref yn ôl grŵp poblogaeth (£) **<u>Pobl ag Anghenion Iechyd Meddwl</u>** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd meddwl yn brin ledled Gogledd Cymru (AAB 2022) **<u>Pobl ag Anabledd Dysgu</u>** Mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi cynyddu ond rydym bellach yn wynebu'r angen i gynorthwyo mwy o bobl â llai o arian (o ganlyniad i leihau setliadau awdurdodau lleol, cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol a chyfyngiadau ar y Grant Cymorth Tai) (ASF 2022)	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Nid oes darpariaeth iechyd meddwl arbenigol wedi'i chynnwys ar gyfer awtistiaeth a salwch meddwl difrifol yng Ngwynedd. Conwy yw'r lleoliad agosaf ond mae'r ddarpariaeth yn ddi-Gymraeg (ASF 2022).	Sut mae eich cynnig yn ystyried model cymdeithasol anabledd? Ystyriwch rwystrau fel Symudedd / Medrusrwydd Pobl ddall neu sydd â nam ar eu golwg Pobl F/fyddar neu â nam clyw Iechyd Meddwl Anableddau Dysgu Dementia Gwahaniaeth niwrolegol / Awtistiaeth Cyd-gynhyrchu Mynediad i adeiladau / cyfleusterau Dulliau cyfathrebu Gofalwyr

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	Mae galw mawr am lety byw â chymorth ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu (AAB 2022) Mae'n bosibl y bydd y cynnydd hwn yn nifer y bobl sy'n byw yn y gymuned gyda dementia ac anghenion cymhleth yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau gofal cartref, yn enwedig pecynnau gofal â mwy nag un gofalwr. (ASF) **<u>Oedolion ag anawsterau dysgu ac eraill sydd ag anableddau cymhleth</u>** Mae angen mwy o dai pwrpasol i gwrdd ag anghenion penodol, yn enwedig gwasanaethau cam i fyny/cam i lawr, lle mae lleoliad wedi methu a bod angen cymorth mwy dwys ar yr unigolyn am gyfnod penodol, yn hytrach na'i dderbyn i ysbyty (AAB 2022)	**Effaith gadarnhaol:** Mae'r ASF yn darparu tystiolaeth ar gyfer datblygu gwasanaethau newydd ac ehangu rhai presennol lle mae bylchau yn y ddarpariaeth. **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Bydd y wybodaeth o'r ASF yn helpu comisiynwyr i gefnogi darparwyr preifat a mewnol i wella cynaliadwyedd ariannol a chynllunio cyllidebau'n effeithiol. Bydd y wybodaeth o'r ASF yn helpu comisiynwyr i lunio strategaeth a chynlluniau i liniaru'r risg o amseroedd	Cyflyrau iechyd tymor hir eraill Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD) Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		aros hwy ac unigolion yn symud i gartrefi preswyl. .	
Anabledd (parhad)	**<u>Gofalwyr di-dâl</u>** Mae tua 79,000 o bobl o bob oed yn darparu gofal yn ddi-dâl yng Ngogledd Cymru (2011), ac rydym yn rhag-weld y bydd y nifer hwn yn cynyddu wrth i'r angen am ofal a chymorth gynyddu. Pennod yr AAB ar Ofalwyr Di-dâl.	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Mae'r wybodaeth yn yr AAB a'r ASF yn dangos bod diffyg darpariaeth yn y farchnad gofal yn arwain at alwadau ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Yn benodol, mae hyn yn effeithio ar gymhlethdod gofal sy'n golygu bod gofalwyr di-dâl yn profi cyfrifoldebau gofalu gydag anghenion mwy am ofal. Roedd y ffaith bod pobl yn byw'n hirach ynghyd ag effaith COVID-19 yn cynyddu'r pwysau ar ofalwyr di-dâl ymhellach.	

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		Effaith gadarnhaol: Mae'r ASF yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ategu achosion busnes a cheisiadau am gyllid ac yn cyfiawnhau cynyddu adnoddau i gynorthwyo gofalwyr di-dâl.	
Rhyw	Mae cyfraddau marwolaeth uwch o ganlyniad i goronafeirws ymysg dynion (AAB, tudalen 22) Yn aml, bydd menywod a merched yn ei chael yn anodd cael atgyfeiriad i wasanaethau diagnostig Awtistiaeth, a nifer ohonynt yn gorfod ceisio diagnosis gan wasanaeth preifat. (AAB, tudalen 196) Mae astudiaethau wedi dangos bod menywod anabl ddwywaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig a'u bod ddwywaith yn fwy tebygol hefyd o ddioddef ymosod a threisio (Safe Lives: 2017). (AAB, tudalen 150) Mae ymchwil yn awgrymu bod menywod sy'n profi cam-drin domestig yn fwy tebygol o brofi cyflwr iechyd	**Effaith Gadarnhaol:** Mae'r darlun o'r anghydraddoldebau y mae dynion a merched yn eu hwynebu yn helpu i nodi anghenion cymorth tebygol a chynllunio gwasanaethau'n effeithiol.	Sut mae eich cynnig yn ystyried Dynion / Merched Hunaniaeth Rhywedd Cyfleusterau toiled / newid babi Gofal plant Bwlch Tâl Rhwng y Rhywiau Gweithwyr rhyw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Merched (UNCEDAW) Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	meddwl, tra bydd menywod sydd â chyflwr iechyd meddwl yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig. Mae 30-60% o fenywod sydd â chyflwr iechyd meddwl wedi profi trais domestig (Howard et al: 2009). (AAB, tudalen 217)		
Oedran	***Pobl Hŷn sydd ag angen gofal preswyl*** ***Data rhanbarthol/cenedlaethol:*** • Amcangyfrif o nifer y bobl dros 65 oed yn 2020 ac amcanestyniad o'r nifer yn 2040 (Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, Swyddfa Ystadegau Gwladol; ac amcanestyniadau poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru) • Mae cyfraddau marwolaeth uwch o ganlyniad i COVID-19 ymysg pobl hŷn (AAB, tudalen 22) **Data lleol:** • Nifer presennol y cartrefi gofal i oedolion (18 oed a hŷn) yn ôl math ac ardal (pecynnau data ASF yr awdurdodau lleol) • Nifer presennol y lleoliadau parhaol mewn cartrefi gofal sydd ar gael i'r holl oedolion 18 oed a hŷn	Roedd yr AAB yn dangos yr angen am ddarpariaeth arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl. Roedd yr ASF yn nodi bod hyn yn fwlch yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys gofal preswyl i bobl hŷn, yn cynnwys: • Darpariaeth gofal dementia • Lleoliadau iechyd meddwl preswyl a nyrsio i bobl hŷn • Darpariaeth i bobl hŷn sydd ag anabledd dysgu ac sydd hefyd ag anghenion o ran iechyd corfforol a dementia **Effaith gadarnhaol**: Bydd yr ASF yn darparu tystiolaeth dros roi blaenoriaeth i ddarpariaeth o'r mathau hyn wrth ystyried	

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	• Canran y lleoliadau mewn cartrefi gofal sydd heb eu llenwi, 31 Mawrth 2021 • Lleoliadau i bobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Ngwynedd (data'r awdurdod lleol) • Trosolwg o'r farchnad gofal preswyl i oedolion yn ASF Ynys Môn • Nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir ar gyfer darpariaeth gofal preswyl arbenigol yn Sir Ddinbych (data'r awdurdod lleol) • Nifer y cartrefi gofal sydd wedi cau 2019-2021 (awdurdodau lleol) • Adborth gan breswylwyr cartrefi gofal • Adborth gan ddarparwyr O ganlyniad i'r ffaith bod pobl yn byw gartref yn hirach a bod y boblogaeth yn heneiddio, mae cynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion am ofal preswyl i oedolion ac yn y galw am leoliadau gofal. Nid yw'r cymysgedd presennol o ddarpariaeth gofal preswyl at anghenion cyffredinol ac arbenigol yn un sy'n cyfateb i'r galw a ragwelir yn y dyfodol (ASF)	datblygiadau i gwrdd ag anghenion hyfforddi'r gweithlu, sefydlu a datblygu gwasanaethau newydd a datblygu adeiladau i gwrdd â'r galw. **Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Mae pobl hŷn sydd ag angen gofal preswyl arbenigol yn fwy tebygol o: • Brofi oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty (Cynnydd mewn oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty) • Cael eu lleoli y tu allan i'r sir **Effaith gadarnhaol**: Mae'r ASF yn darparu mewnwelediad a all helpu darparwyr i ailbwrpasu a chreu	

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		darpariaeth newydd lle y bo angen i gwrdd â'r galw.	
Oedran (parhad	**<u>Pobl Hŷn sydd ag angen Gofal Cartref</u>** **Data cenedlaethol** Rhagolwg o nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n ei chael yn anodd cyflawni gweithgareddau byw pob dydd (Daffodil, Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol ac amcanestyniadau poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru) • Nifer wythnosol cyfartalog yr oriau o ofal cartref a gomisiynir gan awdurdodau lleol/byrddau iechyd (casgliad data awdurdodau lleol) • Amcangyfrifon o gyfrannau canrannol ym marchnad y sector gofal cartref yn ôl math (data awdurdodau lleol) • Nifer y darparwyr yn ôl ardaloedd gweithredu (data awdurdodau lleol) • Niferoedd y bobl sy'n derbyn pecynnau gofal cartref yng Nghonwy (data'r awdurdod lleol)	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Mae prinder yn y ddarpariaeth o ofal cartref sydd ar gael ledled y rhanbarth, lle gwelir yr effaith o brinder staff gofal. Oherwydd natur y trefniadau presennol, gall darparwyr wrthod rhoi gofal, neu ddychwelyd pecynnau gofal. Gellir cael argyfyngau'n aml, lle mae darparwyr yn dweud nad ydynt yn gallu darparu gofal bellach oherwydd problemau staffio. Mae'r ASF yn darparu dadansoddiad a all helpu darparwyr a chomisiynwyr i ddatblygu camau lliniaru i leihau'r risgiau canlynol:	

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
	• Nodweddion demograffig pobl sy'n derbyn gofal cartref yn Sir y Fflint • Nifer yr oriau gofal a ddychwelir gan ddarparwyr Mae'r galw am ddarpariaeth o ofal cartref yn fwy na'r cyflenwad ohoni ym mhob ardal yng Ngogledd Cymru. Mae mwyafrif y bobl sy'n derbyn gofal cartref ledled y rhanbarth yn hŷn na 65 oed. Er hynny, mae hyn yn debygol o effeithio hefyd ar oedolion sydd â chyflyrau iechyd tymor hir ac anableddau corfforol.	• Na fydd pobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt a'u bod yn wynebu'r risg o 'lithro drwy'r rhwyd'. • Symud i ofal preswyl yn lle hynny. Mwy o bwysau yn achos y rheini sydd â theulu, ffrindiau neu rwydweithiau cymorth eraill iddynt dderbyn y rôl o fod yn ofalwyr di-dâl	
Oedran (parhad)	**<u>Plant a Phobl Ifanc sydd ag angen gofal preswyl</u>** • Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (diweddariad 2021) • Lleoliadau y tu allan i'r sir (StatsCymru) Mae mwy na 50% o'r plant mewn gofal preswyl yng Ngogledd Cymru yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir, oddi wrth rieni, brodyr a chwiorydd a rhwydweithiau cymorth,	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod. Yn achos plant a phobl ifanc na allant fynd i lety diogel/argyfwng oherwydd eu hanghenion emosiynol ac ymddygiadol	Sut mae eich cynnig yn ystyried oedran Pobl Hŷn Plant Pobl Ifanc Pobl o Oed Gweithio Teuluoedd Ifanc Demograffeg DS: Os oes plant / pobl ifanc yn cael eu heffeithio, cwblhewch y Rhestr Wirio Hawliau Plant 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) Cyfrifoldebau gofalu

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
Oedran (parhad)	a hynny'n effeithio ar y teulu cyfan (Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad) Mae prinder: • darparwyr preswyl lleol. • darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth • llety argyfwng	cymhleth, mae achosion o ddefnyddio ystafelloedd a136, o ymgyflwyno/derbyn amhriodol i ysbytai, o oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty ac o ddefnyddio gofal heb ei reoleiddio wedi'u nodi gan wasanaethau Plant awdurdodau lleol. **Effaith gadarnhaol:** Mae'r ASF yn darparu gwybodaeth a all helpu comisiynwyr i newid cydbwysedd y farchnad gofal, datblygu modelau gofal newydd a chreu mwy o gapasiti gofal i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc. Ceir cystadlu am leoliadau, gall darparwyr ddewis a dethol unigolion sydd â'r anghenion lleiaf cymhleth, fel y bydd y rheini sydd â'r anghenion mwyaf yn aros yn hirach i gael eu lleoli neu'n cael eu hanfon yn bellach oddi cartref.	Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu
Crefydd a Chred		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith	Sut mae eich cynnig yn ystyried crefydd, cred neu ddiffyg cred?

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Cymunedau ffydd Dim Cred Gofynion diet Bwydlysyddiaeth / Feganiaeth Credoau athronyddol eraill Cod gwisg / gwisgoedd ffurfiol Gwyliau/gweithgared dau crefyddol Cyd-gynhyrchu Ystyriwch faterion Croesdoriaethaeth
Cyfeiriadedd rhywiol	Mae arolygon yn awgrymu bod pobl lesbiaidd a hoyw hŷn hefyd yn profi lefelau uwch o unigrwydd. Mae unigrwydd yn gysylltiedig â nifer o wahanol risgiau iechyd, yn cynnwys clefyd coronaidd y galon, iselder, dirywiad gwybyddol a marw cyn pryd. (Valtorta et al., 2016). Mae ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael yn effeithio'n anghymesur ar bobl mewn grwpiau sy'n wynebu risgiau mwy neu sydd wedi'u hymyleiddio. Mae hyn yn cynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol. (AAB, tudalen 219)	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Sut mae eich cynnig yn ystyried cyfeiriadedd rhywiol? Hoyw Lesbiaidd Deurywiol Heterorywiol Terminoleg Cyfrinachedd ynghylch rhywioldeb Cyplau yr un rhyw Pethynas agosaf (next of kin) Cyd-gynhyrchu Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
Ail-bennu Rhywedd		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Sut mae eich cynnig yn ystyried y gymuned trans? Person sy'n bwriadu, wedi dechrau neu wedi gorffen newid eu hunaniaeth rhywedd Trawsryweddol Defnyddio iaith yn briodol, h.y. rhagenwau priodol Cyfleusterau newid a thoiledau sy'n niwtral o ran rhywedd Cyd-gynhyrchu Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth
Priodas a Phartneriaeth sifil		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Statws priodasol Statws partneriaeth sifil Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu
Beichiogrwydd a Mamolaeth		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Mamau beichiog Pobl sydd â hawl i absenoldeb mamolaeth a thadolaeth Maethu / Mabwysiadu

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
			Mamau sy'n bwydo o'r fron Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu
Yr iaith Gymraeg	Mae prinder staff ac argaeledd gwasanaethau yn arwain at leoli y tu allan i'r sir. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y rheini sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf yn cael gofal yn Saesneg. Nodwyd hyn yn benodol ar gyfer unigolion lle mae'r Gymraeg yn elfen hanfodol yn y ddarpariaeth o wasanaethau, yn cynnwys; plant ac oedolion ag anghenion cymhleth, fel y rheini sy'n byw gydag anableddau corfforol a dysgu, yn cynnwys iechyd meddwl ac Awtistiaeth.	**Effaith gadarnhaol:** Mae'r ASF yn darparu asesiad o'r bylchau yn y ddarpariaeth o ofal gan ddarparwyr preifat yn Gymraeg a dynododd rwystrau rhag derbyn gofal yn Gymraeg ar gyfer cynllunio darpariaeth yn y dyfodol, yn cynnwys anawsterau wrth recriwtio a chadw'r gweithlu a mwy o leoliadau y tu allan i'r sir.	Sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Argaeledd gwasanaethau, gweithgareddau a gwybodaeth a mynediad atynt. Technoleg Hawliau unigolion i ofn am wasanaethau yn y Gymraeg. Yr effaith ar gymunedau Cymraeg, yn cynnwys: Effeithiau cadarnhaol / negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Newidiadau posib i nifer/canran y siaradwyr Cymraeg Mudo Cyfleoedd gwaith / newidiadau staffio. Anghenion a chyfleoedd hyfforddi Argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
			Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth Cyd-gynhyrchu
Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol	Mae pobl o rai grwpiau ethnig, plant, pobl anabl a gofalwyr i gyd yn fwy tebygol o brofi tlodi. (AAB, tudalen 22) Mae Gorllewin y Rhyl 1, Gorllewin y Rhyl 2 a Queensway 1 yn Wrecsam ymysg y deg ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019) Mae'r cyfraddau derbyn i adrannau achosion brys 25% yn uwch ymysg pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru, mae gwahaniaeth clir o 7 mlynedd yn eu disgwyliad oes a gwahaniaeth cyffredinol o 14 blynedd o ran iechyd gwael ac anabledd (Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb BIPBC 2020-2021).	**Effaith gadarnhaol:** Drwy gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, darparu gofal yn agosach i'r cartref a gwella mynediad, bydd effaith gadarnhaol ar y rheini sydd â statws economaidd-gymdeithasol is.	Pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill sy'n byw yn yr un gymdeithas. Gall nifer o ffactorau bywyd bob dydd waethygu anfantais, nid dim ond ffiniau trefol neu wledig. Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth – lle mae hunaniaeth yn cymhlethu statws economaidd-gymdeithasol, e.e. rhieni sengl (menywod yn aml), pobl anabl, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Ystyriwch y gall yr effaith fod mewn nifer o barthau, er enghraifft: Anghydraddoldebau mewn Addysg, Iechyd, Safonau Byw. Gwaith, Cyfiawnder a Diogelwch a Chyfranogiad. Esiamplau

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
Hawliau Dynol	Mae pobl mewn grwpiau Ethnig Lleiafrifol yn fwy tebygol o fod yn rhai dan gadwad o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (Race and Mental Health – Tipping the Scale, Mind, 2019) Mae'r cyfyngiadau a weithredwyd i reoli'r pandemig wedi cael effaith ar allu plant i arfer eu hawliau dynol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn cynnwys yr hawl i gael gofal iechyd… ac maent wedi cael llai o amddiffyniad rhag trais, cam-drin ac esgeuluso. (AAB, tudalen 76) Yn yr adroddiad 'Locked Out: Liberating Disabled People's Lives and Rights Beyond Covid-19' (2021) nodir bod y pandemig wedi cael effaith niweidiol ar nifer o feysydd bywyd y rheini sydd ag anableddau dysgu.	**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	Gweler Erthyglau Hawliau Dynol Ystyriwch faterion croesdoriaeth
Arall (nodwch os gwelwch yn dda)		**Effaith gadarnhaol:** O gael marchnad gofal cymdeithasol sefydlog, bydd effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Meysydd allweddol ar	E.e., Caethwasiaeth Fodern, Diogelu, Effeithiau eraill Covid, Gofalwyr, Cyn-droseddwyr, Cyn aelodau'r lluoedd arfog, Pobl sy'n Gadael Gofal, Cam-

Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig	Data Perthnasol	Effaith gadarnhaol a/neu negyddol	Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:**
		gyfer lliniaru mewn cynlluniau ardal a strategaethau comisiynu isod.	drin Sylweddau, y Digartref Ystyriwch faterion croesdoriadaeth

Deddf Hawliau Dynol 1998	
• Erthygl 2 Yr hawl i fyw • Erthygl 3 Y rhyddid rhag arteithio a thriniaeth annynol neu ddiraddiol • Erthygl 4 Y rhyddid rhag Caethwasiaeth a llafur gorfodol • Erthygl 5 Yr hawl i ryddid a diogelwch • Erthygl 6 Yr hawl i brawf teg • Erthygl 7 Yr hawl i beidio â chael eich cosbi ac eithrio dan gyfraith droseddol	• Erthygl 8 Yr hawl i barch i fywyd, teulu, cartref a gohebiaeth breifat • Erthygl 9 Yr hawl i ryddid meddwl, cred a chrefydd • Erthygl 10 Yr hawl i ryddid mynegiant • Erthygl 11 Yr hawl i Ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag Eraill • Erthygl 12 Yr hawl i briodi a sefydlu teulu • Erthygl 13 Yr hawl i gael mynediad i unioni effeithiol os caiff eich hawliau eu torri • Erthygl 14 Gwarchod rhag gwahaniaethu

9. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut ydych yn bwriadu ymdrin ag hwy?

Er mwyn cryfhau eu gwaith yn y dyfodol, gallai awdurdodau lleol adolygu gwybodaeth cydraddoldeb ar gyfer y rheini sy'n derbyn gwasanaethau ar sail nodweddion gwarchodedig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion ar lefel strategol. Gellid dadansoddi'r data hyn ar lefel ranbarthol ochr yn ochr â data am y boblogaeth er mwyn gwirio a yw grwpiau'n gallu cael at wasanaethau pan fydd eu hangen arnynt a chael gofal o'r un ansawdd â'r boblogaeth gyffredinol.

Noder: Os nad yw'n bosib cael y wybodaeth hon nawr, dylech gynnwys hyn yn eich cynllun gweithredu yng Ngham 6 er mwyn i'r wybodaeth hon fod ar gael ar gyfer AEC yn y dyfodol.

10. Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Hefyd sut i weithredu i fanteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Rhoddir sylw i ystyriaethau o ran yr iaith Gymraeg – roedd yr holl ymgynghori wedi'i gynnal yn ddwyieithog, yn cynnwys arolygon a gohebiaeth. Mae'r ASF yn cael ei roi i randdeiliaid ar ffurf ddwyieithog i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi ar ffurf ddwyieithog. Lle cafwyd cais, mae dogfennau wedi'u cyfieithu ar gyfer staff awdurdodau lleol sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf.

11. Os ydych yn diweddaru'r AEC hwn o fersiwn flaenorol o bolisi neu ymarfer tebyg, a gafodd canlyniadau arfaethedig y cynnig hwnnw eu cyflawni neu a oedd yna ganlyniadau eraill? (Rhowch fanylion, er enghraifft, oedd yr effaith wedi'i chyfyngu i'r bobl yr oeddech wedi meddwl fyddai'n cael eu heffeithio'n wreiddiol, neu a gafodd bobl eraill eu heffeithio? Os felly, sut?)

Amherthnasol

12. Beth yw effaith gronnus y cynnig hwn ar wahanol grwpiau gwarchodedig wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn a wnaed gan y sefydliad? (Efallai y byddwch angen trafod hyn gyda'ch Pennaeth Gwasanaeth neu Aelod Cabinet i ystyried yn ehangach a fydd y cynnig hwn yn effeithio ar grwpiau penodol yn fwy andwyol oherwydd penderfyniadau eraill y mae'r sefydliad yn eu gwneud, e.e. effaith ariannol/tlodi, colli aml wasanaethau a p'un ai yw hyn yn rhoi'r un grwpiau dan anfantais, e.e., pobl anabl, pobl hŷn, rhieni sengl (merched yn bennaf), ac ati)

Amherthnasol

13. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal? (Rhowch grynodeb o'ch darganfyddiadau os ydych wedi ystyried hyn eisoes fel rhan o'r broses sgrinio)

I gael rhagor o wybodaeth, gweler: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

Mae’r ASF yn tynnu sylw at heriau a wynebwyd yn y 5 mlynedd diwethaf yn y farchnad gofal cymdeithasol sydd yn rhwystr i wireddu’r weledigaeth o Gymru Iachach a Chymru sy’n Fwy Cyfartal drwy ddisgrifio’r ddarpariaeth o wasanaethau a darparu data, ymchwil a dadansoddiad i gyfrannu at gynllunio yn y dyfodol.

14. Disgrifiwch unrhyw effaith negyddol bwriadol a nodwyd gennych ac eglurwch pam eich bod yn credu fod gennych gyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol[1] neu weithred gadarnhaol[2])

Amherthnasol

Noder: [1]: Cyfiawnhad Gwrthrychol - rhoi amddiffyniad ar gyfer defnyddio polisi, rheol neu ymarfer fyddai fel arall yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon uniongyrchol neu anuniongyrchol. I ddibynnu ar yr amddiffyniad cyfiawnhad gwrthrychol, rhaid i'r cyflogwr, y darparwr gwasanaeth neu sefydliad arall ddangos fod ei bolisi neu reol wedi'i ddefnyddio am reswm da - ei fod yn 'fodd cymesur o gyflawni nod ddilys'. Y ‘**nod ddilys’** yw'r rheswm am y gwahaniaethu ac ni ddylai fod yn wahaniaethol ynddi ei hun a rhaid iddi fod yn rheswm didwyll neu'n rheswm go iawn, e.e. iechyd, diogelwch neu les unigolion. Os mai lleihau costau yw'r nod yn syml, am ei fod yn rhatach gwahaniaethu, ni fydd hyn yn ddilys. Ystyriwch a yw pwysigrwydd y nod yn gorbwyso unrhyw effeithiau gwahaniaethol y driniaeth anffafriol a sicrhewch nad oes unrhyw fesurau eraill ar gael fyddai'n cyflawni'r nod heb lawer o anhawster (yn gymesurol) ac yn osgoi'r effaith wahaniaethol hon.

Noder: [2]: Gweithredu Cadarnhaol – Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu gweithredu cadarnhaol tuag at grp penodol os oes tystiolaeth digonol o angen. Er enghraifft, pan fo cyflogwr yn cymryd camau penodol i wella cydraddoldeb yn y gweithle i roi sylw i unrhyw anghydbwysedd rhwng cyfleoedd, i leihau anfantais neu gynyddu ymgysylltiant sy'n cyfrannu at weithgarwch penodol, drwy efallai gynyddu nifer y bobl anabl mewn swyddi uwch lle maent yn cael eu tangynrychioli wrth dargedu grwpiau penodol gyda hysbysebion swyddi neu gynnig hyfforddiant i helpu creu cyfleoedd i grwpiau penodol. Mae disgwyl i'r sector cyhoeddus ystyried defnyddio gweithredu positif i'w helpu i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond y tybir eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Bydd ☐ Na fydd ☒ Ansicr ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

16. Os mai 'Bydd' neu 'Ansicr' oedd eich ateb i gwestiwn 15, nodwch isod, i ba grwpiau gwarchodedig mae hyn yn berthnasol ac eglurwch pam (yn cynnwys ardrawiad neu effeithiau tebygol y dewis arfaethedig hwn)

Amherthnasol

Tudalen 28

I gael rhagor o wybodaeth, gweler: https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

17. Os ydych wedi ateb 'Na fydd' i gwestiwn 15, a ydych wedi nodi unrhyw rwystrau sydd gyfystyr ag effaith wahaniaethol i grwpiau penodol a beth ydynt?

Mae anghenion iechyd y boblogaeth yn fwy tebygol o fod yn ddwysach yn achos Pobl Hŷn, Plant a Phobl Iau a'r rheini sydd ag Anabledd Corfforol neu Ddysgu – gan effeithio'n sylweddol ar nodweddion gwarchodedig Oed ac Anabledd.

Mae'r gwaith yn yr ASF a'r AAB yn ceisio dynodi'r rhwystrau hynny ac ni fydd yn achosi unrhyw effeithiau negyddol newydd.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn gofyn i'r holl awdurdodau cyhoeddus ystyried anghenion nodweddion gwarchodedig wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys pan wneir hyn mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy gaffael gwasanaethau. Mae Safonau'r Iaith Gymraeg hefyd yn gofyn i'r holl awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad polisi neu newid mewn darpariaeth gwasanaeth, ar yr iaith Gymraeg sy'n cynnwys unrhyw waith a wneir mewn partneriaeth neu gan drydydd parti. Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth gynllunio penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr i ystyried sut all trefniadau o'r fath leihau canlyniadau anghyfartal a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill (ar sail cytundeb perthnasol), rhaid ystyried yn ofalus a fyddai'n briodol:

- i feini prawf gosod y cytundeb hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol (i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da);
- gosod amodau sy'n ymwneud â pherfformiad y contract i helpu cyflawni tair nod y Ddyletswydd Gyffredinol.

Dim ond yn berthnasol i drefniadau contract sy'n "gytundebau perthnasol" sydd un ai'n golygu gosod 'contract cyhoeddus' neu ganlyniad 'cytundeb fframwaith' mae hyn yn berthnasol, y mae'r ddau yn cael eu rheoleiddio gan y Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus (2004/18/EC) sy'n rheoleiddio trothwyon penodol yr UE. Ceir mwy o wybodaeth fan hyn.

Rhaid i ni ystyried sut all trefniadau o'r fath wella cyfleoedd cyfartal a lleihau canlyniadau anghyfartal, yn arbennig ar benderfyniadau caffael a chomisiynu mawr. Mae'r PSED yn berthnasol i'r gwaith y mae sefydliadau sector cyhoeddus yn ei gyflawni wrth ddarparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan. Felly, mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau hynny yn arfer y swyddogaethau hynny drwy sicrhau bod y modd yr ydym yn caffael a monitro'r gwasanaethau hynny yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol dan Adran 149, Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr un modd, mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn berthnasol i unrhyw waith a wneir ar ran, ac yn enw, cyrff cyhoeddus sydd ei hunain yn destun y Safonau, ac felly dylid ystyried sut mae'r gofynion hyn yn cael eu monitro a'u cyfathrebu trwy ddogfennau caffael. Nid yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn pasio i drydydd parti trwy gaffael comisiynu na allanoli. Felly, pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff sydd ddim yn rhan o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, nid yw'r ddyletswydd ond yn berthnasol i ni fel y corff cyhoeddus perthnasol.

18. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd ☒ Na fydd ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

Os mai 'Na fydd' yw eich ateb, ewch ymlaen i Gam 4

19. Os ateboch 'Bydd', pa gamau fyddwch chi'n eu gweithredu i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau? Meddyliwch am:

Tud. 353

Caffael

- Gosod disgwyliadau cydraddoldeb clir mewn dogfennau Tendro a Manylebau, gan ddangos sut y gellir adeiladu hyrwyddo cydraddoldeb i mewn i brosiectau caffael unigol.
- Ar beth wnaethoch chi seilio eich penderfyniadau yn y broses o osod y contract yn cynnwys ystyried cyflogaeth foesegol a chod ymarfer cadwyn gyflenwi
- Sicrhau bod cymalau contractau'n cynnwys Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a gofynion economaidd-gymdeithasol yn ogystal â Dyletswyddau'r Iaith Gymraeg (cofiwch fod unrhyw ddyletswyddau o Fesur yr Iaith Gymraeg 2011 a Safonau'r Iaith Gymraeg hefyd yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir ar eich rhan dan gontract gan gyrff allanol). Mae mesurau Perfformiad a Monitro wedi'u cynnwys i fonitro cydymffurfiaeth, rheoli a gorfodi contractau

Partneriaethau

Byddwch yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am:

- Fonitro Cydraddoldeb data perthnasol
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Cyflawni camau gweithredu'r AEC
- Sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r Iaith Gymraeg
- Dangos fod y Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi derbyn ystyriaeth ddyledus

Y partneriaid yw comisiynwyr mewn awdurdodau lleol a’r bwrdd iechyd lleol y mae gofyn iddynt gydymffurfio’n llwyr a rheoli cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ar gydraddoldeb, hawliau dynol a’r iaith Gymraeg a rhoi sylw dyladwy i ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol mewn arferion comisiynu.

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Andwyol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

20. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol? (Rhowch y manylion yn fras)

Effaith gadarnhaol sylweddol	Effaith negyddol sylweddol
Cynhaliwyd ymchwil drwyadl ar gyfer yr AAB a’r ASF a fydd yn darparu mewnwelediad i randdeiliaid ar y grwpiau o bobl sy’n fwyaf tebygol o wynebu’r risg o anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar gynllunio i ddarparu cymorth effeithiol i’r unigolion hynny. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol hirdymor ledled y rhanbarth, gan ddylanwadu ar strategaeth, llunio polisi ac ymarfer ar gyfer comisiynwyr awdurdodau lleol a’r bwrdd iechyd a darparwyr annibynnol a darparwyr y trydydd sector yn y farchnad gofal cymdeithasol.	

21. Mae’n bwysig eich bod yn cofnodi'r camau lliniaru y byddwch yn eu gweithredu i ddatblygu eich drafft polisi/ymarfer terfynol. Yma, cofnodwch pa fesurau neu newidiadau y byddwch yn eu cyflwyno i'r polisi neu'r ymarfer yn y drafft terfynol allai leihau neu ddileu unrhyw effaith anghyfreithlon neu negyddol neu anfantais a/neu wella cyfleoedd cyfartal/gyflwyno newid positif; neu leihau canlyniadau anghyfartal yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol? (Gall hyn hefyd gyfrannu at y Cynllun Gweithredu yn C30)

Effaith Anghyfreithlon neu Negyddol a Nodwyd	Camau Lliniaru / Gweithrediadau Cadarnhaol yn y Polisi/Ymarfer	Cwblhawyd (✓)
Amherthnasol		

22. A fydd y mesurau hyn yn cael gwared ag unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon?

Bydd ☐ Na fydd ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

23. Os 'Na fydd', pa gamau gweithredu allech chi eu defnyddio i gyflawni'r un nod mewn ffordd arall?

Amherthnasol

24. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010)

b) lleihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol;

c) cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Amherthnasol

25. A oes gennych chi ddigon o wybodaeth i lunio barn gytbwys?

Oes ☐ Nac oes ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

26. Os ateboch 'Oes', nodwch eich cyfiawnhad dros hyn:

Amherthnasol

27. Os ateboch 'Na', pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch a beth sydd angen i chi ei wneud i allu penderfynu?
(Noder: A ddylech gynnwys gasglu data yn y cynllun gweithredu (Cam 6)?)

Amherthnasol

[Efallai y bydd angen i chi oedi fan hyn nes eich bod wedi cael y wybodaeth ychwanegol]

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

28. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4 uchod, nodwch yn y tabl isod a ydych yn medru mynd ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail?

(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi'i dicio' fel sy'n briodol)

	Penderfyniad
☒ Ie	Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol
☐ Ie	Parhau â'r polisi neu'r ymarfer ond gydag addasiadau i wella neu i gael gwared o'r meysydd o effaith andwyol a nodwyd yng Ngham 4.
☐ Ie	Dal ati gyda'r cynllun am fod modd cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol
☐ Na	Peidio â pharhau â'r polisi neu'r ymarfer am nad oes modd ymdrin â'r effaith andwyol. Ystyried ffyrdd eraill o ymdrin â'r materion.

29. A oes unrhyw argymhellion terfynol o ran canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur.

30. Amlinellwch isod unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd yn eich helpu i fonitro eich polisi/ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)

31. Amlinellwch isod pa drefniadau fyddwch chi'n eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn yn cynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (yn cynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amlder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)

CAM 7 - Cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Ar ôl ei gwblhau, trefnwch i'r AEC hwn gael ei gymeradwyo gan eich Pennaeth Gwasanaeth/Adran a threfnu iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi gan anfon copi i'r Swyddog Cydraddoldeb.

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**13 Medi 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Ioan Thomas**
Swyddog Cyswllt:	**Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid**
Rhif Ffôn Cyswllt:	**01286 682684**
Teitl yr Eitem:	**Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. **Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y gynnig posib i gynyddu'r Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor tu hwnt i 100% a hyd at 300% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.**

1.2. **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi pecyn ymgynghori cyhoeddus yn unol â'r adroddiad ac unrhyw argymhellion gan y Cabinet.**

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23, mae'r Cyngor wedi codi Premiwm Treth Cyngor o 100%, sef yr uchaf a ganiataid dan y gyfraith ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn. Mae newidiadau deddfwriaethol yn golygu gall y Cyngor godi Premiwm o hyd at 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

2.2. Rhaid i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad blynyddol ar raddfa'r Premiwm, ac er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, petai'r Cyngor am gynyddu lefel y Premiwm, byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig.

2.3. Mae manylion am y gofyn cyfreithiol i ymgynghori wedi'i amlinellu yn rhan 4 isod.

2.4. Gofynnir am benderfyniad y Cabinet i gytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar lefel y Premiwm, fel bod modd gweithredu'n briodol fyddai'n caniatáu i'r Cyngor llawn ddod i benderfyniad ar lefel Premiwm 2023/24 yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2022, boed hynny'n benderfyniad i gynyddu'r Premiwm neu ei gadw ar yr un lefel.

3. CYFLWYNIAD

3.1. Hyd at ac yn cynnwys y flwyddyn ariannol gyfredol (2022/23), mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 wedi caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor. O 1 Ebrill 2023, bydd gan awdurdodau lleol y grym i godi Premiwm o hyd at 300%.

3.2. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hir dymor perthnasol am y flwyddyn ariannol 2018/19. Ar 4 Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef yr uchafswm a ganiatawyd, ar gyfer blwyddyn 2021/22.

3.3. Ar 2 Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cadw'r Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23. Mae dolen i'r adroddiad i'w gael yma:

Eitem 8 - Hawl Disgresiwn a Ganiatau Disgowntiau a neu Godi Premiwm 2022-23.pdf (llyw.cymru)

4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Cyflwynwyd y grym i awdurdodau lleol gynyddu uchafswm y Premiwm a godir i 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen trwy Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 a ddaeth i rym ym Mawrth 2022

4.2. Mae'r newid hwn yn rhan o becyn ehangach o newidiadau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel rhan o "ymrwymiad ehangach i fynd i'r afael â phroblemau ail gartrefi a thai anfforddiadwy sy'n wynebu llawer o gymunedau yng Nghymru, fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru".

4.3. Yn ôl Llywodraeth Cymru, "Nod yr ymrwymiad yw cymryd camau radical ar unwaith, gan ddefnyddio'r systemau cynllunio, eiddo a threthu". Ceir dolen i'r datganiad yma: Rheolau treth newydd ar gyfer ail gartrefi | LLYW.CYMRU

4.4. Mae mynd i'r afael â phrinder tai fforddiadwy o fewn Gwynedd yn ogystal â'r nifer uchel o ail gartrefi ymysg prif flaenoriaethau'r Cyngor. Un o'r arfau sydd ar gael i'r Cyngor i ddelio gyda'r sefyllfa yw'r Premiwm Treth Cyngor. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru,* wedi eu cynnwys fel **Atodiad 1** i'r adroddiad yma. Mae paragraffau 20 a 21 yn nodi:

> **20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:**
> - **adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a**
> - **chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.**
>
> **21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.**

4.5. Aiff paragraff 22 ymlaen i nodi'r ffactorau fydd angen eu pwyso a mesur wrth i'r Cyngor ddod i benderfyniad terfynol os yw am gynyddu lefel y Premiwm neu beidio ar gyfer 2023/23:

> **22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.**
>
> - **Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;**
> - **Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;**
> - **Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;**
> - **Patrymau'r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;**
> - **Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;**
> - **Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;**
> - **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;**
> - **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.**

4.6. Mae'r *Cynllun Gweithredu Tai*, a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn Rhagfyr 2020, yn nodi pum amcan sydd rhaid ceisio eu cyfarch os ydi'r Cyngor am gyflawni'r weledigaeth o sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd. Mae'r Cynllun yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer rhaglen waith cynhwysfawr, sy'n cyflawni disgwyliad y Cyngor fod cyfran sylweddol o incwm yn Premiwm yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r weledigaeth. Mae hyn yn dystiolaeth y Cyngor yn defnyddio incwm y Premiwm yn unol â'r canllawiau statudol.

4.7. Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "anheddau gyda preswylio o bryd i'w gilydd (dwellings occupied periodically)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "***there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished***". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.

4.8. Yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105) mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- **Dosbarth B** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
- **Dosbarth C** – Annedd sydd yn ddiddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

4.9. Diffinnir “trigolyn” mewn perthynas ag unrhyw annedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda’u prif neu unig breswylfa yn yr annedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).

4.10. Ar 13 Gorffennaf 2022, roedd:

- **4,656** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
- **200** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu’r Premiwm gan eu bod yn destun un o’r eithriadau a amlinellir yn 3.11 isod.
- **761** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

4.11. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn diffinio eiddo gwag hir dymor, at bwrpasau codi Premiwm Treth Cyngor (Adran 12A), fel a ganlyn: ***“a dwelling is a “long-term empty dwelling” on any day if for a continuous period of at least 1 year ending with that day it has been unoccupied, and it has been substantially unfurnished***”. Er mwyn gallu codi premiwm eiddo gwag hir dymor ar unrhyw ddiwrnod, rhaid i’r eiddo fod heb ei feddiannu, a heb ei ddodrefnu, am gofnod parhaus am o leiaf un flwyddyn hyd at y dyddiad y mae’r premiwm yn daladwy.

4.12. Ers cyflwyno Premiwm Treth Cyngor am y tro cyntaf yn 2018/19, mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu yn flynyddol i godi’r un lefel o bremiwm ar eiddo gwag hir-dymor ag ar ail gartrefi, ond mae modd codi lefelau gwahanol os yw amgylchiadau lleol yn cyfiawnhau hynny.

4.13. Mae Deddf 1992 yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru osod eithriadau penodol (mewn dosbarthiadau) lle na ellir gosod premiwm Treth Cyngor. Gwnaethant hynny trwy Mae'r tabl isod yn crynhoi'r eithriadau lle na allwn godi'r premiwm yn unol â Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068). Mae'r tabl isod yn amlinellu'r eithriadau lle na ellir codi Premiwm:

Dosbarthiadau o Anheddau	**Diffiniad**	**Y math o eiddo sy'n gymwys i'r eithriad rhag talu'r premiwm**
Dosbarth 1	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn	Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi
Dosbarth 2	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn	
Dosbarth 3	Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd	
Dosbarth 4	Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog	
Dosbarth 5	Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod.	Ail Gartrefi
Dosbarth 6	Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn	
Dosbarth 7	Anheddau cysylltiedig â gwaith	

Tabl 1: Eithriadau lle na ellir codi Premiwm

5. GOFYNION CYFREITHIOL

Ymgynghori

5.1. Mae Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ill dau yn cynnwys cymal sy'n datgan yn ddiamwys fod rhaid i'r Cyngor dalu sylw i unrhyw ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru: "In exercising its functions under this section a billing authority must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers".

5.2. Mae'r cyfryw ganllawiau, *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*, wedi eu cynnwys fel **Atodiad 1** i'r adroddiad yma. Maent yn gosod y fframwaith o ystyriaethau sydd yn berthnasol i benderfyniad. Tynnir sylw'r aelodau yn benodol hefyd i gynnwys paragraff 23:

23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio.

5.3. Byddai penderfyniad i gynyddu lefel y Premiwm heb ddilyn y camau sydd yn yr arweiniad statudol yma, sy'n cynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ystyrlon, yn gadael y Cyngor yn agored i her yn y llysoedd. Gall her llwyddiannus olygu fod y penderfyniad a wneir gan y Cyngor yn cael ei farnu i fod yn un anghyfreithlon ac yn cael ei osod o'r neilltu.

5.4. Petai hyn yn digwydd, gallai hyn olygu nid yn unig na ellid codi'r Premiwm yn 2023/24, ond byddai'n rhaid rhoi disgownt o 50% i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor am y flwyddyn hefyd gan mai dyna yw'r sefyllfa ddiofyn dan Adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992. Dyma pam mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu'n flynyddol, fel y mae wedi gwneud ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartref, a wedi gwneud penderfyniad tebyg ar gyfer eiddo gwag hirdymor ers 2009. Noder fod y Ddeddf yn atal yr awdurdod bilio rhag addasu lefel y Premiwm neu Ddisgownt ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol unwaith mae'r flwyddyn ariannol berthnasol wedi cychwyn.

Cydraddoldeb

5.5. Fel ddigwyddodd ar yr achlysuron blaenorol pan gyflwynwyd y Premiwm neu ei gynyddu, bydd Asesiad o'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor llawn wrth iddynt ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae copi o'r asesiad pan gynyddwyd y premiwm yn 2021 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2**, ac mae'r gwaith o gynnal asesiad newydd eisoes wedi cychwyn.

Diogelu Data

5.6. Un o'r gwersi a ddysgwyd o ymgynghoriad 2020/21 oedd fod y cyhoedd yn gofyn am gopi llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd, ac fel papurau cefndir i'r penderfyniad roedd rhaid datgelu hynny. Er nad oedd yr holiadur yn gofyn i ymatebwyr ddatgelu unrhyw wybodaeth bersonol, bu angen gwaith sylweddol i sicrhau fod unrhyw wybodaeth oedd wedi ei gynnwys yn cael ei ddileu; roedd hyn yn ddefnydd sylweddol o adnodd staff, a byddwn yn gweithredu i osgoi sefyllfa o'r fath yn codi y tro hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

5.7. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron. Bydd gofynion y Ddeddf yn berthnasol i'r cyfeiriad a argymhellir.

5.8. Byddai cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn caniatáu i ni gasglu tystiolaeth fydd yn rhoi modd i ni sicrhau fod polisi'r Cyngor ynglŷn â'r Premiwm Treth Cyngor wedi ei asesu'n briodol yn erbyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1. Bwriedir cynnal yr ymgynghoriad yn ystod Medi/Hydref 2022 a'i gadw'n agored am 28 diwrnod, gan adrodd ar y canlyniadau i gyfarfod y Cabinet ar 22 Tachwedd 2022, er mwyn iddo wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 er mwyn gosod lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2023/24.

6.2. Fel rhan o drefn lywodraethol, bydd y mater yn destun craffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Tachwedd 2022.

6.3. Bydd yr Adran Gyllid yn trafod camau ymarferol yr ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu yn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

6.4. Mae copi o'r holiadur a ddefnyddiwyd yn 2020/21 wedi ei gynnwys yn **Atodiad 3**, ac mae holiadur ymgynghori drafft ar gyfer ymarferiad newydd wedi ei gynnwys yn **Atodiad 4** am sylwadau.

7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Gofynnir i'r Cabinet gomisiynu ymgynghoriad cyhoeddus.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:

Y Swyddog Monitro:

Gyda'r diwygiadau i Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 bellach mewn grym mae 'n briodol fod y gwaith cychwynnol a'r osod y Premiwm yn dechrau yn amserol. Mae'r gofyn i ymgynghori ar unrhyw newid i'r Premiwm yn eglur ac mae hyn yn gam sydd angen digwydd mewn da bryd ar gyfer ystyried y canlyniadau cyn dod i benderfyniad ar y mater. Bydd hefyd yn cefnogi y gwaith o baratoi Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb sydd yn ystyriaeth allweddol. Rwyf wedi cael cyfle i gynghori ar gynnwys yr adroddiad ac yn fodlon ar yr argymhellion o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru

Cynnwys

Cyflwyniad..... 3
Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor..... 3
Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor..... 4
Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi..... 5
Gwneud Penderfyniad i godi Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi..... 5
Eithriadau i Bremiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi..... 6
Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth..... 7
Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod..... 8
Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd..... 8
Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau, fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog..... 8
Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod 8
Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn..... 9
Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith..... 9
Lleihau Atebolrwydd am Bremiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi..... 10
Apeliadau..... 11
Y Camau Nesaf..... 11
Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig..... 11
Gweinyddu a Gorfodi..... 11
Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Bremiymau'r Dreth Gyngor..... 11
Monitro ac Adrodd..... 12

Canllawiau Gweithredu Premiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru

Cyflwyniad

1. O 1 Ebrill 2017, bydd Awdurdodau Lleol yn cael codi premiwm o hyd at 100% o raddfa safonol y Dreth Gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardal. Gwnaed y newidiadau i'r ddeddfwriaeth gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol yn rhai dewisol. Mae dewis codi premiwm ar gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau) felly yn benderfyniad sydd i gael ei wneud gan bob awdurdod lleol.

2. Pwrpas y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio yn eu hardal.

3. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod y premiymau a'r eithriadau yn cael eu gweithredu'n deg ac yn gyson ledled Cymru.

4. Mae'r canllawiau yn statudol ac fe'u cyhoeddir dan bwerau yn adrannau 12A (3) a 12B (4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (“Deddf 1992”) fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”). Maent yn berthnasol i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

5. Ni ddylid trin y canllawiau hyn fel dehongliad o'r ddeddfwriaeth. Mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf yw dehongli deddfwriaeth, gyda'r dehongliad terfynol yn gyfrifoldeb y llysoedd.

Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau’r Dreth Gyngor

6. Mae paragraffau 7 - 14 yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol sy'n gyffredin i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'r gofynion sy'n benodol i gartrefi gwag hirdymor wedi eu hesbonio ym mharagraffau 15-17, ac mae'r rheiny sy'n benodol i ail gartrefi wedi eu disgrifio ym mharagraffau 18-19.

7. Mae Deddf 2014 yn diwygio Deddf 1992 drwy osod adrannau newydd 12A a 12B i mewn er mwyn galluogi awdurdod trethu (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau lle mae rhywun yn byw yn achlysurol a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).

8. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i benderfynu ar swm y premiwm hyd at uchafswm o 100% o raddfa safonol y dreth gyngor sy'n berthnasol i'r annedd.

9. Pan benderfynir codi premiwm, rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi rhybudd o'r penderfyniad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.

10. Bydd penderfyniad gan awdurdod trethu i godi premiwm hefyd yn datgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 ar gyfer anheddau lle nad oes preswylwyr.

11. Gall awdurdod trethu wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad a wnaed dan adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddi.

12. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau dan adrannau 12A(4) a 12A(5), a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i ragnodi drwy reoliadau rai dosbarthiadau o anheddau na fyddant o bosibl yn destun premiwm. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch Cymru) 2015 dan y pwerau hyn ac mae'r eithriadau y maent yn eu rhagnodi yn cael eu disgrifio yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

13. Mae system y dreth gyngor eisoes yn darparu nifer o eithriadau penodol i'r dreth gyngor. Mae'r grwpiau sydd wedi eu heithrio wedi eu rhestru yng Ngorchymyn Treth Gyngor (Anheddau wedi eu Heithrio) 1992. Mae nifer o eithriadau yn eu lle ar gyfer anheddau gwag, megis, er enghraifft:
    - lle mae'r preswylydd mewn gofal preswyl tymor hir neu yn yr ysbyty,
    - lle mae adeiladwaith annedd yn cael ei drwsio (am hyd at flwyddyn),
    - lle mae'r preswylydd wedi marw (am hyd at chwe mis ar ôl rhoi profiant neu lythyrau gweinyddu).

14. Nid yw annedd sydd wedi ei heithrio o'r dreth gyngor yn agored i bremiwm. Fodd bynnag, pan na fydd annedd bellach yn gymwys i gael ei heithrio, ond yn parhau'n wag, bydd yn dod yn agored i’r premiwm. Yn achos cartref gwag, bydd yn agored i bremiwm ar ôl iddo fod yn wag am gyfnod di-dor o flwyddyn.

<u>Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor</u>

15. Diffinnir annedd wag hirdymor fel annedd sydd wedi bod yn wag a heb ei dodrefnu i raddau helaeth am gyfnod di-dor o flwyddyn o leiaf.

16. Wrth benderfynu a yw annedd wedi bod yn wag am flwyddyn, nid yw unrhyw gyfnod cyn 1 Ebrill 2016 i gael ei gymryd i ystyriaeth. At hynny, ni fydd dodrefnu neu fyw mewn annedd am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor. Mewn geiriau eraill, ni all person newid statws annedd fel annedd wag hirdymor drwy fyw ynddi neu osod dodrefn am gyfnod byr.

17. Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad i godi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, efallai y bydd yn pennu gwahanol ganrannau (hyd at uchafswm o 100 y cant) ar gyfer gwahanol anheddau ar sail yr hyd o amser y maent wedi bod yn wag. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu dull graddedig gyda chynyddiadau bychain yn cael eu cymhwyso dros gyfnod.

Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi

18. Diffinnir ail gartref fel annedd nad yw yn unig nac yn brif gartref person ac sydd wedi ei dodrefnu'n sylweddol. Cyfeirir at yr anheddau hyn yn Neddf 1992 fel anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro ond y cyfeirir atynt yn gyffredin fel "ail gartrefi".

19. Er mwyn i bremiwm fod yn berthnasol i anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro, rhaid i'r awdurdod trethu wneud ei benderfyniad cyntaf dan adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn perthyn iddi. Mae hyn yn golygu er mwyn codi premiwm o 1 Ebrill 2017 bod rhaid i'r awdurdod trethu wneud penderfyniad cyn 1 Ebrill 2016. Rhaid gwneud penderfyniad i godi premiwm yn 2018 cyn 1 Ebrill 2017 ac felly ymlaen.

Gwneud penderfyniad i godi Premiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:
    - adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
    - chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.

21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.

22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.
    - Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;
    - Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;
    - Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;

- Patrymau’r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.

23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i’r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai’r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio.

24. Ar ôl penderfynu codi premiwm, yn ychwanegol at yr angen i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod, dylai awdurdod lleol ystyried sut i gyfleu ei benderfyniad yn ehangach, yn enwedig i'r rheiny y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt. Gall wneud hyn drwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, rhoi gwybodaeth ar dudalennau gwefan neu ddulliau eraill o godi ymwybyddiaeth megis, er enghraifft, cyfathrebu uniongyrchol â threthdalwyr y cyngor sy'n debygol o fod yn agored i'r premiwm. Efallai y bydd yr awdurdod lleol hefyd yn dymuno rhoi ystyriaeth i'r modd y mae’n rhoi gwybod ac yn hysbysu'r rheiny y gall y premiwm effeithio arnynt ond sydd fel rheol yn byw y tu allan i'r ardal leol.

Eithriadau i Bremiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi

25. Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru iddynt wneud rheoliadau i ragnodi un neu ragor o ddosbarthiadau o anheddau na chaiff awdurdod trethu wneud penderfyniad i godi premiwm mewn perthynas â hwy. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch) (Cymru) 2015 dan y pwerau hyn - ni cheir codi premiwm ar annedd sy'n dod o fewn eithriad. Rhaid i awdurdod lleol gymryd yr eithriadau hyn i ystyriaeth cyn penderfynu gweithredu premiwm.

26. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau sydd wedi eu heithrio. Mae Dosbarthiadau 1,2,3 a 4 yn ymwneud â chartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi. Ag ail gartrefi yn unig y mae a wnelo Dosbarthiadau 5,6 a 7. Mae'r dosbarthiadau o anheddau wedi eu hamlinellu yn y tabl isod a rhoddir mwy o fanylion yn eu cylch ym mharagraffau 28 - 46.

Dosbarthiadau o Anheddau	Diffiniad	Cymhwysiad
Dosbarth 1	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn	Cartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi
Dosbarth 2	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn	
Dosbarth 3	Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd	
Dosbarth 4	Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog	
Dosbarth 5	Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod.	Ail Gartrefi
Dosbarth 6	Cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn	
Dosbarth 7	Anheddau cysylltiedig â gwaith	

27. Disgrifir pob eithriad ymhellach yn yr adran nesaf. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

    - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth
    - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod
    - anheddau cysylltiedig â gwaith.

<u>Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth</u>

28. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond bod y gwerthiant heb ei gwblhau eto.

29. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gwerthu am bris rhesymol. Wrth ystyried a yw pris yn rhesymol, dylid ystyried prisiau gwerthu anheddau tebyg yn yr ardal. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

30. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatawyd yr eithriad. Wedi i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sy'n

cael ei marchnata fel annedd ar werth yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi cael ei gwerthu.

Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod

31. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes gan y tenant hawl eto i fyw yn yr eiddo am nad yw'r denantiaeth wedi cychwyn eto.

32. Er mwyn bod yn gymwys i'r eithriad hwn, rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gosod am rent rhesymol, sef y rhent y disgwylid i'r eiddo ei ennill o ystyried y rhent a godir am anheddau cyffelyb. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

33. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatawyd yr eithriad. Wedi i'r cyfnod eithrio ddod i ben, ni fydd annedd sy'n cael ei marchnata fel annedd ar osod yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi bod yn destun tenantiaeth a roddwyd am gyfnod o chwe mis neu ragor.

Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o’r brif annedd

34. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.

35. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae perchennog wedi addasu ei annedd i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r brif annedd.

Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog

36. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.

37. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun ond sy'n wag oherwydd bod y person hwnnw yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog.

38. Bwriedir i'r eithriad hwn hefyd gynnwys personél y lluoedd arfog y mae eu cartrefi'n wag oherwydd eu bod yn byw yn llety'r lluoedd arfog dramor.

Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod sy'n cael eu defnyddio.

39. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n cynnwys safle lle mae carafán yn sefyll neu angorfa lle mae cwch wedi ei angori, lle nad oes neb yn preswylio yn y cwch neu'r garafán, ond pan fydd yn cael ei defnyddio nesaf fydd yn unig neu'n brif breswylfa person.

Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn

40. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n berthnasol i anheddau sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswylio am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf yn unrhyw gyfnod o 12 mis.

41. Bwriadwyd yr eithriad hwn i gynnwys cartrefi gwyliau pwrpasol neu hafotai sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswylio ar hyd y flwyddyn. Mae'r eithriad yn seiliedig ar ddiffiniad y disgownt dewisol presennol ar gyfer cartrefi tymhorol (Dosbarth A) yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998[1].

Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith

42. Nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol ond i'r premiwm ar ail gartrefi ac mae'n ymwneud ag annedd lle mae person yn byw sydd:
    - yn berson cymwys mewn perthynas â'r annedd, ond sy'n preswylio mewn annedd arall sy'n gysylltiedig â gwaith (fel y'i diffiniwyd yn Atodlen 1 y Rheoliadau); neu
    - yn berson cymwys mewn perthynas ag annedd sy'n gysylltiedig â gwaith.

43. Diffinnir person cymwys fel:
    - person sy'n agored i dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a yw hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio; a
    - pherson fyddai'n agored i'r dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a fyddai hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio, os nad oedd yr annedd honno yn dod o fewn:
        i. Dosbarth O Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau sydd wedi eu heithrio) 1992; neu
        ii. Dosbarth E Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion) 1992.

44. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae gofyn i berson breswylio mewn annedd gysylltiedig â gwaith. Mae'n berthnasol i ail gartref lle mae rhywun yn byw'n achlysurol oherwydd bod angen i berson fyw mewn llety

[1] SI 1998 Rhif 105

cysylltiedig â gwaith yn rhywle arall. Mae hefyd yn berthnasol lle mae’r llety cysylltiedig â gwaith yn ail gartref person.

45. Rhoddir diffiniad o annedd gysylltiedig â gwaith yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Er bod yr eithriad hwn yn debyg i'r disgownt cysylltiedig â gwaith dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998, mae'n wahanol oherwydd nad yw'r disgownt yn berthnasol ond os yw'r annedd gysylltiedig â gwaith yn unig neu brif breswylfa person.

46. Gwahaniaeth arall i'r disgownt ar gyfer annedd gysylltiedig â gwaith yw nad oes gofyn i'r trethdalwr fod yn atebol am y dreth gyngor o ran dwy annedd, sy'n golygu y gall person sydd â phrif gartref dramor neu annedd gysylltiedig â gwaith dramor hefyd elwa o'r eithriad. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Lleihau Atebolrwydd am Bremiymau’r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag-Hirdymor ac Ail Gartrefi

47. O dan adran 13A o Ddeddf 1992, mae gan awdurdod trethu bwerau dewisol i leihau atebolrwydd am dreth gyngor i'r cyfryw raddau ag y mae'r awdurdod trethu yn meddwl sy'n addas. Gellir arfer y grym mewn achosion neilltuol neu drwy benderfynu dosbarth neu achos. Gellir defnyddio'r grym i leihau atebolrwydd am dreth gyngor mewn amgylchiadau lle y byddai awdurdod lleol fel arall yn codi premiwm.

48. Mae rhai enghreifftiau i ddarlunio lle y gallai awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn yn cynnwys:
    - lle mae rhesymau pam na ellid byw yn yr annedd;
    - lle mae rhesymau pam na ellid gwerthu neu osod yr annedd;
    - lle mae cynnig wedi cael ei dderbyn ar eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto ac mae'r cyfnod eithrio wedi dod i ben;
    - lle y gallai codi premiwm achosi caledi.

49. Nid yw'r rhestr uchod yn derfynol a bydd ar awdurdodau trethu eisiau ystyried yr holl ffactorau y maent yn meddwl eu bod yn berthnasol.

50. Mater i awdurdod lleol yw p'un a yw pwerau dewisol 13A yn cael eu defnyddio i leihau atebolrwydd am dreth gyngor o ran y premiwm. Er mwyn tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ar p'un a ddefnyddir y pwerau hyn ai peidio a sut. Dylai'r awdurdod, fodd bynnag, ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ar ôl cymryd amgylchiadau'r achos i ystyriaeth.

51. Dylid nodi y bydd trafodaethau ynghylch defnyddio pwerau dewisol 13A yn debygol o fod yn wahanol pan gânt eu hystyried i leihau atebolrwydd am dreth gyngor sy'n ganlyniad premiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd am raddfa safonol y dreth gyngor. Mae hyn oherwydd bod anheddau sy'n agored i bremiwm eisoes yn agored i'r raddfa safonol o dreth gyngor.

Apeliadau

52. Os bydd person yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy gyfrifiad yr awdurdod lleol o swm y dreth gyngor y mae'n atebol amdano, gan gynnwys ei atebolrwydd i dalu premiwm, rhaid iddo, yn y lle cyntaf, apelio at ei awdurdod lleol.

53. Os bydd yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy benderfyniad yr awdurdod lleol neu os na fydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad o fewn y cyfnod o amser sy'n ofynnol, gall apelio at Dribiwnlys Prisio Cymru ond dim ond ar ôl dihysbyddu proses apelio'r awdurdod lleol.

54. Ceir gwybodaeth bellach am y broses apelio ar wefan Tribiwnlys Prisio Cymru drwy'r cyswllt isod:

    http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/home.html

Y Camau Nesaf

Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig

55. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gweinyddu a gorfodi'r premiwm, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i adlewyrchu cyflwyno'r premiwm, er enghraifft, newidiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth ac i'r broses apelio.

Gweinyddu a Gorfodi

56. Er mwyn bod o gymorth i awdurdodau lleol gyda gweinyddu a gorfodi'r premiymau, yn enwedig cymhwyso'r eithriadau, darperir arweiniad ychwanegol.

57. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan rai awdurdodau ynglŷn ag anawsterau gweinyddol a ffyrdd posibl o gamddefnyddio, bydd yr arweiniad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

    - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth;
    - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod; ac
    - anheddau cysylltiedig â gwaith.

Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Bremiymau'r Dreth Gyngor

58. Bydd awdurdod lleol yn cael cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiwm a gwneir diwygiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth er mwyn hwyluso hyn. Fodd bynnag, anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

59. Caiff gofynion penodol o ran adrodd am y refeniw ychwanegol a gynhyrchwyd, a'r defnydd ohono yn ddiweddarach, eu hegluro mewn arweiniad pellach. Rhoddir rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn yr adran nesaf.

Monitro ac Adrodd

60. Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw'r premiymau ac er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y defnydd a wneir ohonynt ar gael yn glir i drethdalwyr lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro ac adrodd am weithrediad y premiymau.

61. Caiff y gofynion penodol mewn perthynas â hyn eu hesbonio mewn arweiniad pellach a gyhoeddir cyn Ebrill 2017. Mae hwn yn debygol o gynnwys:

    - Nifer yr adeiladau sy'n agored i'r premiwm:
    - Yr incwm ychwanegol a godwyd drwy weithredu'r premiymau;
    - Sut y cafodd unrhyw incwm ychwanegol ei ddefnyddio;
    - Nifer y cartrefi gwag yr adferwyd eu defnydd.

62. Mae modiwl newydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar Datatank i awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth fodelu, monitro ac adrodd ar y premiymau. Bydd hwn ar gael i'r holl awdurdodau lleol yn y Flwyddyn Newydd.

Tîm Trethi Lleol
Llywodraeth Cymru
Rhagfyr 2015

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

1 Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail Gartrefi

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Ers Ebrill 2018 mae'r Cyngor wedi bod yn codi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Cyngor ar 3 Rhagfyr 2020 yn argymell cadw lefel y Premiwm yn 50% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Cyflwynwyd gwelliant i'r cynnig hwn, sef bod y Cabinet yn ystyried ymgynghori ar cynyddu lefel y premiwm i hyd at 100%, ac fe'i basiwyd. Y ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020, cytunodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r Premiwm ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Ar ôl ystyried materion perthnasol, gan gynnwys sefyllfa dai Gwynedd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Cabinet yn argymell cynyddu lefel y Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor i 100% yn 2021/22.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg)

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

15 Rhagfyr 2020. Dechreuodd yr asesiad hwn ar ôl i'r Cabinet benderfynu y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn darganfod barn y cyhoedd ar y cynnig i newid graddfa'r Premiwm.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae gan y Cyngor y grym o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) i addasu lefel y Premiwm hyd at 100%. Fodd bynnag, mae'n ddisgwyliad echblyg i ni ymgynghori hefo'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gyda sylw wedi ei roi yn y wasg lleol ac ar wefannau cymdeithasol, ac ysgrifennodd y Cyngor at berchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm.

Y partneriaid a rhanddeiliaid allweddol oedd:

Trigolion Gwynedd
Trethdalwyr ar eiddo gwag ac ail gartrefi

Bu cydweithio gyda nifer o bartneriaid mewnol, e.e.:
Adran Cyllid
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd
Y Cyngor Llawn

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig?

Rydym wedi ymdrechu i adnabod unigolion gyda nodweddion gwarchodedig gan fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i'r ymatebwyr ein hysbysu o unrhyw nodweddion gwarchodedig fel bod modd ystyried rhain wrth ddatblygu'r polisi.

Roedd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac roedd yr holiadur ar gael i unrhyw un i'w lenwi ar-lein. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg yn codi ymwybyddiaeth ohono, a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Ysgrifennodd y Cyngor at bob aelwyd oedd yn destun y Premiwm gyda llythyr yn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Lle roedd y cyfeiriad gohebiaeth gwahanol wedi ei gofnodi yn y system Treth Cyngor, defnyddiwyd hwnnw. Roedd y llythyr yn cyfeirio at wefan y Cyngor a'r cyfle i lenwi'r holiadur yno, ond roedd gwefan y Cyngor yn nodi y gallai unrhyw un gysylltu gyda'r Cyngor os oeddynt yn dymuno derbyn copi papur o'r ymgynghoriad.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 22 Rhagfyr 2020 a 1 Chwefror 2021. Derbyniwyd 6,213 o ymatebion ar yr holiadur ffurfiol, yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig.

Roedd barn y rhai a atebodd wedi ei rannu, ond roedd dros 70% o'r rhai a ymatebodd yn erbyn cynyddu lefel y Premiwm. Yn gyffredinol, roedd perchnogion ail gartrefi yn arbennig yn gwrthwynebu'r bwriad i godi unrhyw bremiwm, tra fod cyfran sylweddol arall yn cefnogi codi premiwm o hyd at 100%.

Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Roedd nifer o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nodi eu bod yn berchen ar eu heiddo yng Ngwynedd ers sawl blwyddyn, ac yn hoff iawn o'r ardal. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rhai oedd yn ymateb yn honni fod cymhelliad hiliol tu ôl i'r bwriad i godi Premiwm gan fod y Cyngor yn erbyn pobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma.

Mae dau gategori gwahanol o eiddo sy'n destun y Premiwm, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Ychydig iawn o bobl sydd eisiau talu mwy o dreth, ac roedd gwrthwynebiad chwyrn gan berchnogion ail gartrefi yn arbennig. Mae'n sefyll i reswm byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith ariannol ar yr unigolion yma, ond ni welwyd tystiolaeth y byddai unrhyw grŵp gwarchodedig yn cael eu heffeithio. Serch hynny, mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i'r ymholiad yn honni fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol, gwrth-Seisnig, er nad oes unrhyw wahaniaethu yn bodoli pan yn gosod y premiwm.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i'r Cyngor weithredu'n bositif tuag at rhai carfannau os oes tystiolaeth o angen ("cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill"). Mae sawl astudiaeth gan y Cyngor wedi adnabod fod problem yn bodoli gyda argaeledd tai i deuluoedd ifanc Gwynedd, felly rydym wedi adnabod problem ac yn cymryd camau i ddelio gyda hynny. Mae pobl ifanc wedi ei prisio allan o'r farchnad dai leol.

Ar 25 Tachwedd 2020, roedd:

- 4,718 eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
- 165 o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau statudol
- 811 eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol a na ellir codi Premiwm.

Ar yr un adeg, roedd 1,130 eiddo yn destun y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor

Astudiaeth Effaith Tai Gwyliau

Ystyriaeth allweddol gan y Cyngor wrth bleidleisio ar y gwelliant i ohirio'r penderfyniad ar godi premiwm yn 2021/22 oedd yr adroddiad manwl Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a gyflwynwyd i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2020:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Mae hyn yn dilyn astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn 2013.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod cyfanswm nifer y cartrefi gwyliau (ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar) o fewn Gwynedd yn parhau i gynyddu, ac yn gofyn am ymrwymiad y Cabinet i gymryd camau pendant i ymdrin â'r sefyllfa.

Mae'r astudiaeth yn ganlyniad gwaith ymchwil manwl sydd wedi cael ei gynnal dros y misoedd diwethaf, ac mae'n amlygu fod nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar stoc dai Gwynedd. Mae'n adeiladu ar astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal yn y gorffennol ac yn amlygu fod materion dybryd sy'n parhau angen sylw, a fod y sefyllfa o fewn cymunedau Gwynedd, yn enwedig y rhai sy'n denu ymwelwyr, yn dwysau.

Tra fod sgôp yr astudiaeth yn ymestyn i faterion cynllunio hefyd, rhoddir sylw blaenllaw i'r cymhelliad ariannol sydd yn bodoli o fod yn berchennog tŷ gwyliau yn ogystal â'r fantais trethiannol sy'n bodoli o fod yn cwrdd â'r trothwyon cyfreithiol ar gyfer trosglwyddo eiddo i'r gyfundrefn ardrethi annomestig (nid yw'r eiddo hyn yn destun y Premiwm).

Gwerth eiddo

Mae bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn gyffredinol uwch nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Yn Rhagfyr 2020, roedd 33.9% o ail gartrefi Gwynedd ym Mand Treth Cyngor E neu uwch, o'i gymharu â 21.5% o eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae bandiau eiddo gwag hir dymor yn is. Dim ond 17.8% o'r eiddo yma sydd yn mand E neu uwch.

Un o'r themâu oedd yn dod o'r ymgynghoriad oedd fod nifer o ail gartrefi yn gartref teuluol oedd wedi cael eu hetifeddu a'u cadw gan y teulu, neu fod yr eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu fel ail gartref ers nifer o flynyddoedd.

2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Ar wahân i ymdeimlad rhai ymatebwyr fod Cyngor Gwynedd yn gyffredinol hiliol am ystyried codi'r Premiwm ac yna ei gynyddu, nid oes tystiolaeth wedi ei dderbyn i gefnogi hynny gan fod astudiaethau wedi cael eu cynnal sy'n awgrymu fod angen cymryd camau i weithredu i fynd i'r afael â phroblemau tai mewn ardaloedd gwledig o Wynedd.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur cydraddoldeb. Roedd hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o berchnogion ail gartrefi na'r boblogaeth gyffredinol yn bobl hŷn.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif	Bwriad y polisi o godi premiwm yw i fynd i'r afael â'r sefyllfa nad oes tai ar gael i bobl leol, ac mae'r effaith yn bositif ar y garfan yma.
	Negyddol	Bydd y polisi yn effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor. Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg y bydd y polisi yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Serch hynny, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol, sy'n ddeilliant positif.
Yr iaith Gymraeg	Positif	Bydd effaith anuniongyrchol ar yr iaith gan mai pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Mae cynnyrch y Premiwm hyd yma wedi ei ddefnyddio i diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma. Yn benodol, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.

Anabledd	Ansylweddol	Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd o oes rhywun sydd ag anabledd yn cadw eiddo sydd wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael gwyliau mewn man arall.
Rhyw	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Oedran	Positif	Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hŷn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynaladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol. Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (*Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England*) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn. Mae ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol wedi awgrymu yr un peth. Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hŷn, ond disgwylir y bydd y bobl hŷn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy. Serch hynny, mae tystiolaeth gryf fod darparwyr gofal yn wynebu trafferthion recriwtio dybryd. Mae sicrhau cydbwysedd cymunedol yn hollbwysig er mwyn cael digon o bobl ieuengach i warchod a rhoi gofal i bobl hŷn, a bwriad y polisi o godi Premiwm ydi helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal leol trwy allu darparu cartrefi lleol iddynt. Ar y cyfan, felly, bydd y polisi yn cael effaith bositif gan ei fod yn helpu teuluoedd ifanc i gael cartref. Bydd hyn wedyn yn rhoi effaith mwy bositif na negyddol ar gydbwysedd cymunedol.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Ailbennu rhywedd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	**A yw'n cael effaith?***	**Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?**
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Bydd hyn yn rhoi cyfle cyfartal i bobl leol sy'n methu fforddio cartref ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa tai ar hyn o bryd yn anghyfartal a bwriad y penderfyniad ydi sefydlogi ac unioni'r sefyllfa yma.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Gall y polisi o godi Premiwm hyrwyddo perthnasau da gyda pobl o fewn cymunedau Gwynedd os ydi'r Polisi yn rhoi cyfle iddynt cael gwell cartref, neu gartref cyntaf, gan fod nifer y tai gwyliau ac anheddau gwag yn cael ei ganfod fel cael effaith andwyol ar allu pobl lleol i gael lle i fyw. Gall polisi o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag wella'r perthnasau os ydi trigolion Gwynedd yn teimlo fod y polisi'n gymorth iddynt fod â gwell cyfle i gael cartref yn eu hardal leol. Mae rhai perchnogion ail gartrefi wedi honni yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y bydd cynyddu lefel y Premiwm yn achosi drwg-deimlad cymunedol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i law gefnogi'r honiad yma. Mae'r anghyfartaledd presennol yn fwy tebygol o greu drwgdeimlad.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Un o prif ganlyniadau'r Premiwm ydi ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol o fewn Gwynedd. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'r camau positif iawn fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun, gyda chymorth ariannol y Premiwm:

Microsoft Word - 0.2Asesiad_Effaith_Cydraddoldeb_CGT.doc (llyw.cymru)

Bwriad y Premiwm yw anelu i leihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd, ac mae'n cyfrannu at hynny drwy ariannu prosiectau penodol.

Mae manylion am asesiad o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gael yng nghorff yr adroddiad i'r Cabinet.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor.

Dylid nodi fod ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf fod perchnogion ail gartrefi yn dueddol o fod yn bobl hŷn. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod rhai o'r perchnogion hŷn yma yn "asset rich / cash poor". Hynny yw, maent wedi prynu'r eiddo ers sawl blwyddyn neu wedi ei etifeddu, ond nid yw eu hincwm o reidrwydd yn uchel. Mae hyn yn y pen draw yn codi gronyn o amheuaeth os yw'r Cyngor yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol, ond rhaid pwyso hynny yn erbyn y tlodi, diweithdra a digartrefedd sydd yng nghefn gwlad Gwynedd. Yn ôl y Cynllun Gweithredu Tai, mae 59% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd.

Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi datgan fod y Polisi yma yn un hiliol gan ei fod yn targedu unigolion sydd yn byw y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Premiwm yn cael ei godi ar bob eiddo sy'n ail gartref neu'n eiddo gwag hirdymor heb ystyried y perchnogaeth. Mae cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson, a byddai cynyddu'r Premiwm yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod hyn yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o wireddu gweithrediad gadarnhaol, sef mynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	✓

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

Mae honiad fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wynedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu Cynllun Gweithredu Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

Mae unigolion sydd o blaid ac yn erbyn codi'r Premiwm wedi mynegi anfodlonrwydd gyda'r un cwestiwn ar effaith y Premiwm ar yr economi (gan honni ei fod yn "arwain"), sy'n awgrymu fod y balans y cwestiynau yn gywir.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Mater gwleidyddol yn y pen draw yw lefel y Premiwm, wedi ei gymryd ar sail y dystiolaeth sydd i law. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng y gost ychwanegol i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor a'r cymhelliant cysylltiedig o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, yn erbyn y lles cymdeithasol fyddai'n deillio o'r gallu i wireddu cynlluniau penodol i fynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn y flynyddol ar gyfer gosod lefel y Premiwm. Bydd yr Adran Gyllid yn parhau i gadw golwg ar newidiadau ar statws eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac yn gweithredu fel bo'r angen i asesu os oes materion cydraddoldeb tu ôl i'r trosglwyddo i ardrethi annomestig.

Cyngor Gwynedd - Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor	Gwynedd Council - Council Tax Premium on Second Homes and Long-term Empty Dwellings
Holiadur Ymgynghori	Consultation Questionnaire
Mae Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn diffinio **ail gartref** fel *"annedd lle nad oes trigolyn ac y mae wedi ei ddodrefnu yn sylweddol".*	The Local Government Finance Act 1992 defines a **second home** as a *"domestic property where there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished".*
Mae Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn diffinio **annedd gwag hirdymor** fel *"annedd nas meddiannwyd ac sydd heb ei ddodrefnu yn sylweddol".*	The Local Government Finance Act 1992 defines a **long-term empty home** as a "*domestic dwelling that has been unoccupied, and has been substantially unfurnished".*
Mae Adrannau 12A a 12B at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi'r hawl i gynghorau godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor eiddo gwag hirdymor (Adran 12A) ac ail gartrefi (Adran 12B).	Sections 12A and 12B of the Local Government Finance Act 1992 give Councils the right to raise an additional Premium on the Council Tax of long-term empty homes (Section 12A) and second homes (Section 12B).
Ers 1 Ebrill 2018 mae Cyngor Gwynedd wedi codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor yr eiddo yma, ond mae'r Cyngor rŵan yn ystyried cynyddu graddfa'r Premiwm i hyd at yr uchafswm a ganiateir dan y gyfraith, sef 100%. Rydym yn ymgynghori er mwyn derbyn barn trethdalwyr Gwynedd, perchnogion tai, ac eraill ar sut y dylai'r Cyngor weithredu'r grym yma.	Since 1 April 2018 Gwynedd Council has raised a Premium of 50% on the Council Tax of these properties, but the Council is now considering raising the Premium rate to up to the maximum permitted by law, which is 100%. We are consulting in order to gather the views of Gwynedd taxpayers, homeowners and others on how the Council should implement these powers.

1. Ydych chi'n gyfrifol am dalu Treth Cyngor i Cyngor Gwynedd am unrhyw eiddo?

   Are you responsible for paying Council Tax to Gwynedd Council on any property

   ☐ Ydw / *Yes*

   ☐ Nac Ydw / *No*

2. A ydych chi'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd?

   Do you own a long-term empty dwelling or second home in Gwynedd?

Trwy'r holiadur mae 'annedd gwag hirdymor' yn cyfeirio at annedd sydd wedi bod yn wag a heb ei ddodrefnu i raddau helaeth am gyfnod di-dor o flwyddyn o leiaf.

Mae ' ail-gartref' yn yr holiadur yn cyfeirio at annedd nad yw yn unig neu brif gartref unrhyw berson ac sydd wedi ei dodrefnu'n sylweddol.

Throughout this questionnaire a 'long-term empty property' is defined as a dwelling which is unoccupied and substantially unfurnished for a continuous period of at least one year.

The use of 'second home' in the questionnaire refers to a dwelling which is not a person's sole or main home and is substantially furnished.

☐ Nac Ydw / No

☐ Ydw – ail gartref / *Yes – second home*

☐ Ydw – annedd gwag hirdymor / *Yes – a long-term empty dwelling*

☐ Ydw – annedd gwag hirdymor ac ail gartref /
Yes – both a long-term empty home and a second home

3. Yn eich barn chi, pa effaith mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol ar hyn o bryd?

In your opinion, what impact do you believe second homes currently have on local communities?

☐ Cadarnhaol / *Positive*

☐ Niwtral / *Neutral*

☐ Negyddol / *Negative*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

4. Yn eich barn chi, pa effaith mae anheddau gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol ar hyn o bryd?

In your opinion, what impact do you believe long-term empty dwellings currently have on local communities?

☐ Cadarnhaol / Positive

☐ Niwtral / Neutral

☐ Negyddol / Negative

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

5. Mae'r Cyngor yn ystyried cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor (sy'n 50% ar hyn o bryd). A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

   The Council is considering increasing the Council Tax Premium charged on second homes and long term empty dwellings (currently 50%). Is this appropriate in your opinion?

☐ Ydi / *Yes*

☐ Nac Ydi / *No*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

6. Yn eich barn chi, a fyddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg?

   In your opinion, would increasing the Council Tax Premium on long-term empty dwellings or second homes have an effect on the Welsh language?

☐ Byddai / *Yes*

☐ Na Fyddai / *No*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

7. Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cynyddu, byddai nifer yr ail gartrefi yng Ngwynedd yn ...

If the level of the Council Tax Premium on long-term empty dwellings or second homes were to be increased, the number of second homes within Gwynedd would…

☐ Cynyddu / *Increase*

☐ Aros yr un fath / *Stay the same*

☐ Gostwng / *Decrease*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

8. Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ailgartrefi yng Ngwynedd yn cynyddu, credaf byddai nifer yr anheddau gwag yng Ngwynedd yn...

If the level of the Council Tax Premium on long-term empty dwellings or second homes were to be increased, the number of long-term empty dwellings within Gwynedd would …

☐ Cynyddu / *Increase*

☐ Aros yr un fath / *Stay the same*

☐ Gostwng / *Decrease*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

9. Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai argaeledd tai fforddiadwy yng Ngwynedd yn...

If the level of the Council Tax Premium were to be increased, the availability of affordable housing within Gwynedd will...

☐ Cynyddu / *Increase*

☐ Aros yr un fath / *Stay the same*

☐ Gostwng / *Decrease*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

10. Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar y gymuned leol yn...

If the level of the Council Tax Premium were to be increased, the effect on the local community will be...

☐ Gadarnhaol / *Positive*

☐ Niwtral / *Neutral*

☐ Negyddol / *Negative*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

11. Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar dwristiaeth yn...

If the level of the Council Tax Premium were to be increased, the effect on tourism will be…

☐ Gadarnhaol / *Positive*

☐ Niwtral / *Neutral*

☐ Negyddol / *Negative*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

12. Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar yr economi leol yn gyffredinol yn...

If the level of the Council Tax Premium were to be increased, the effect on local economy will be...

☐ Gadarnhaol / *Positive*

☐ Niwtral / *Neutral*

☐ Negyddol / *Negative*

Rhowch unrhyw sylw pellach / *Note any further comments below*:

13. Buasem yn croesawu unrhyw sylwadau eraill sydd gennych:

We welcome any other comments you may have:

Monitro Cydraddoldeb / *Equality Monitoring*

1. Rhyw:	1. Sex:
☐ Dyn/Gwryw	☐ Man/Male
☐ Dynes/Benyw	☐ Women/Female
☐ Gwell gennyf beidio â dweud	☐ I'd rather not say
☐ Arall -	☐ Other - .....
2. Grŵp Oedran:	2. Age Group:
☐ 15 oed neu iau	☐ 15 years or younger
☐ 16-24 oed	☐ 16-24 years old
☐ 25-34 oed	☐ 25-34 years old
☐ 35-44 oed	☐ 35-44 years old
☐ 45-54 oed	☐ 45-54 years old
☐ 55-64 oed	☐ 55-64 years old
☐ 65-74 oed	☐ 65-74 years old
☐ 75-84 oed	☐ 75-84 years old
☐ 85 oed neu fwy	☐ 85 years old or elder
☐ Gwell gennyf beidio dweud	☐ I'd rather not say

3. Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau? Does dim rhaid i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed

- ☐ Heterorywiol/Strêt
- ☐ Dyn hoyw
- ☐ Dynes hoyw/lesbian
- ☐ Deurywiol (Bisexual)
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall - .....

3. Which one of these describes you best? (You do not need to answer this question if you're under 16)

- ☐ Heterosexual/Straight
- ☐ Gay man
- ☐ Gay women / lesbian
- ☐ Bisexual
- ☐ I'd rather not say
- ☐ Other -.....

4. Ydych chi'n deall, siarad, darllen neu'n ysgrifennu'n Gymraeg?

- ☐ Deall Cymraeg ar lafar
- ☐ Siarad Cymraeg
- ☐ Darllen Cymraeg
- ☐ Ysgrifennu Cymraeg
- ☐ Dw i ddim yn deall Cymraeg (ddim un o'r uchod)
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

4. Can you understand, speak, read or write Welsh?

- ☐ I understand spoken Welsh
- ☐ Speak Welsh
- ☐ Read Welsh
- ☐ Write Welsh
- ☐ I can't understand Welsh (none of the above)
- ☐ I'd rather not say

5. Pa un o'r rhain sydd yn eich disgrifio chi orau?

- ☐ Cymro/Cymraes
- ☐ Sais/Saesnes
- ☐ Albanwr/Albanes
- ☐ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- ☐ Prydeiniwr/Prydeines
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

5. Which one of these describes you best?

- ☐ Welsh
- ☐ English
- ☐ Scottish
- ☐ Gaelic from Northern Ireland
- ☐ British
- ☐ I'd rather not say

6. Beth yw eich hil?

- ☐ Gwyn
- ☐ Du/Affricanaidd/Caribïaidd
- ☐ Sipsiwn/teithwyr Gwyddelig
- ☐ Asiaidd
- ☐ Cymysg/sawl grŵp ethnig
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall- .....

6. What is your race?

- ☐ White
- ☐ Black/African/Caribbean
- ☐ Gypsy/Irish traveller
- ☐ Asian
- ☐ Mix/many ethnic groups
- ☐ I'd rather not say
- ☐ Other-.....

7. Beth yw eich crefydd neu gred?

- ☐ Cristion
- ☐ Mwslim
- ☐ Bwdhaidd
- ☐ Hindŵ
- ☐ Iddewig
- ☐ Anffyddiwr
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall - .....

7. What is your belief or religion?

- ☐ Christian
- ☐ Muslim
- ☐ Buddhist
- ☐ Hindu
- ☐ Jewish
- ☐ Atheist
- ☐ I'd rather not say
- ☐ Other -.....

8. Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (h.y ydych chi'n drawsrywiol neu trans)
(Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed)

- ☐ Ydw
- ☐ Nac Ydw
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

8. Has your gender identification changed from when you were born? (i.e. are you transexual or transgender)
(You do not need to answer this question if you are under 16 years old)

- ☐ Yes
- ☐ No
- ☐ I'd rather not say

9. a) Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod anabledd gan unigolyn os:

a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a

b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac Ydw
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

9. a) Section 6 (1) of the Equality Act 2010 states that a person has a disability if:

a. the person has a physical or mental impairment, and

b. the impairment has a substantial and long-term effect on the person's ability to carry out normal day-to-day activities.

Using this definition, do you consider yourself a disabled person?

- ☐ Yes
- ☐ No
- ☐ I'd rather not say

9 b) Allwch chi nodi os oes gynnoch chi un o'r cyflyrau neu amhariadau canlynol?

- ☐ Yn ddall neu'n cael problem gweld
- ☐ Yn fyddar neu'n cael problem clywed
- ☐ Cyflwr corfforol
- ☐ Anhawster dysgu (anabledd dysgu)
- ☐ Cyflwr iechyd meddwl
- ☐ Gwahaniaeth Niwrolegol (ee ar y sbectrwm awtistiaeth)
- ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
- ☐ Arall - .....

9 b) Can you note if you have any of the following conditions or impairments?

- ☐ Blind or have a visual problem
- ☐ Deaf or have hearing problem
- ☐ Physical Impairment
- ☐ Learning Impairment (learning disabilities)
- ☐ Mental Health Condition
- ☐ Neurological difference (eg on the autistic spectrum)
- ☐ I'd rather not say
- ☐ Other -.....

Diolch yn fawr i chi am gwblhau'r holiadur

Thank you very much for completing the questionnaire

Atodiad 4 - Holiadur Ymgynghori drafft

Ydych chi'n gyfrifol am dalu Treth Cyngor i Cyngor Gwynedd am unrhyw eiddo?

- Ydw
- Nac ydw

A ydych chi'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd?

- Nac ydw
- Ydw – ail gartref
- Ydw – annedd gwag hirdymor
- Ydw – annedd gwag hirdymor ac ail gartref

Yn eich barn chi, pa effaith mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol ar hyn o bryd?

- Effaith gadarnhaol ar y cyfan
- Effaith niwtral ar y cyfan
- Effaith negyddol ar y cyfan

Yn eich barn chi, pa effaith mae anheddau gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol ar hyn o bryd?

- Effaith gadarnhaol ar y cyfan
- Effaith niwtral ar y cyfan
- Effaith negyddol ar y cyfan

Mae'r Cyngor yn ystyried cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor (sy'n 100% ar hyn o bryd). A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

- Ydi
- Nac Ydi

Os ydych yn wedi ateb "Ydi" i'r cwestiwn blaenorol, pa lefel ydych chi'n credu fyddai'n briodol i osod y Premiwm:

- Hyd at 150%
- Hyd at 200%
- Hyd at 250%
- Hyd at 300%

Os ydych o'r farn dylid cynyddu'r Premiwm, oes ganoch farn ynglŷn â sut i gyflwyno'r cynnydd hwnnw:

- Yn raddol dros sawl blwyddyn
- Ar unwaith

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn codi yr un lefel o Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hir-dymor. Oes ganoch farn ar hyn?

- Dylid parhau i gadw'r ddau ar yr un lefel
- Dylai'r Premiwm fod yn is ar ail gartrefi

- Dylai'r Premiwm fod yn is ar anheddau gwag hirdymor

Eglurwch y rheswm dros eich ateb os gwelwch yn dda

Yn eich barn chi, a fyddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg?

- Byddai
- Na fyddai

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi yng Ngwynedd yn cynyddu, byddai nifer yr ail gartrefi yng Ngwynedd yn...

- Cynyddu
- Aros yr un fath
- Gostwng

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd yn cynyddu, credaf byddai nifer yr anheddau gwag yng Ngwynedd yn...

- Cynyddu
- Aros yr un fath
- Gostwng

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai argaeledd tai fforddiadwy yng Ngwynedd yn...

- Cynyddu
- Aros yr un fath
- Gostwng

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar y gymuned leol yn...

- Gadarnhaol ar y cyfan
- Niwtral ar y cyfan
- Negyddol ar y cyfan

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar dwristiaeth yn...

- Gadarnhaol ar y cyfan
- Niwtral ar y cyfan
- Negyddol ar y cyfan

Os byddai lefel y Premiwm Treth Cyngor yn cynyddu, byddai'r effaith ar yr economi leol yn gyffredinol yn...

- Gadarnhaol ar y cyfan
- Niwtral ar y cyfan
- Negyddol ar y cyfan

Buasem yn croesawu unrhyw sylwadau eraill sydd gennych:

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**Medi 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Beca Brown**
Swyddog Cyswllt:	**Buddug Mair Huws**
Rhif Ffôn Cyswllt:	**34319**
Teitl yr Eitem:	**ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) GWYNEDD**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

(i) Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo argymhelliad yr Adran Addysg a Phwyllgor CYSAG Gwynedd fyddai newid aelodaeth Grŵp B fel a nodir :

- **Grŵp A – Cristnogaeth a Chredoau eraill**

- **Grŵp B – cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid – Cadw nifer y seddi ar 5**

  Dyrannu'r seddi fel a ganlyn:
  3 sedd i'w rhannu rhwng yr Undebau Athrawon a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd (NAS/UWT; UCAC ; NEU; ASCL a'r NAHT – i'w benderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd)

  1 sedd i'w llenwi gan y Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig (GYDCA)
  1 sedd i'w llenwi gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

- **Grŵp C - Aelodau Etholedig - cadw yn 7**

- **Cyfetholedig - Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau**

- **(3 pleidlais sydd sef 1 i bob Grŵp, nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig)**

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Nid yw'r Cyngor wedi ystyried y cyfansoddiad ers 2019, o ganlyniad, mae'r cyfansoddiad presennol yn nodi bod cynrychiolaeth athrawon yn dod gan yr Undebau Athrawon oedd yn weithredol o fewn yr Awdurdod:
ASCL (1)
NAS/UWT (1)

UCAC (1)
NUT (1)
ATL (1)

Fodd bynnag, unwyd Undebau'r NUT ac ATL yn 2017 i greu Undeb NEU, yn ychwanegol at hyn cydnabyddir Undeb yr NAHT gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r Adran Addysg a CYSAG o'r farn bod angen cryfhau cynrychiolaeth athrawon ar y Pwyllgor er mwyn ychwnaegu gwerth at y cyfarfodydd a gweithrediadau'r Pwyllgor.

Mae'r Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig (GYDCA) yn grŵp sy'n cyfarfod yn fisol ac yn cynnwys un Pennaeth Cynradd o bob dalgylch yng Ngwynedd a'r Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU) hefyd yn cyfarfod yn fisol ac yn cynnwys pob un o Benaethiaid Uwchradd Gwynedd. Credir y byddai'n briodol gofyn am enwebiad o'r ddau grŵp yma er sicrhau cynrychiolaeth o un pennaeth/athro cynradd ac uwchradd ar bwyllgor CYSAG.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Cefndir
Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sefydlu cyngor sefydlog i'w gynghori ar addysg grefyddol.

Swyddogaethau CYSAG

Yn unol a'r Cyfansoddiad, mame swyddogaethau CYSAG fel a ganlyn:

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ynghylch addoli mewn ysgolion a'r addysg grefyddol a roddir yn unol â'r maes llafur cytûn, gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon;

- Ystyried a ddylid argymell i'r Awdurdod Lleol y dylai ei faes llafur cytûn presennol gael ei adolygu drwy alw Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ['CMLlC'];

- Ystyried ceisiadau gan ysgolion i ddod i benderfyniad (i gael eu heithrio o'r gofyniad i addoli crefyddol fod yn "Gristnogol");

- Adrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar ei weithgareddau'n flynyddol.

Aelodaeth CYSAG
Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai CYSAG gynnwys cynrychiolwyr o blith y canlynol:

- Grŵp o bersonau i gynrychioli'r enwadau Cristnogol a'r crefyddau eraill hynny sydd, ym marn yr awdurdod, yn cynrychioli prif draddodiadau crefyddol yr ardal ('grŵp A')

- Grŵp o bersonau i i gynrychioli'r cymdeithasau athrawon hynny y cred yr awdurdod a ddylai gael eu cynrychioli, o ystyried amgylchiadau'r ardal (grŵp B)

- Grŵp o bersonau i gynrychioli'r awdurdod (grŵp C)

Dim ond y grwpiau cynrychioladol uchod sydd â'r hawl i bleidleisio, a bydd gan bob grŵp un bleidlais.

Gall y CYSAG ei hun hefyd gyfethol aelodau (ond ni fydd ganddynt bleidlais)

Cylchlythyr 10/94
Yn ogystal â'r ddarpariaeth statudol, yn 1994 cyhoeddodd yr hen Swyddfa Gymreig arweiniad ar Addysg Grefyddol a Chydaddoli ar ffurf Cylchlythyr 10/94, sy'n cynnwys darpariaethau yn ymwneud â gweithrediad CYSAG.

CYSAG Cyngor Gwynedd
Adolygwyd aelodaeth y CYSAG gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn mis Ebrill 2019 ac mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

Cristnogion a Chrefyddau Eraill (Grŵp A)
Yr Eglwys Fethodistaidd
Undeb Bedyddwyr Cymru
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru
Undeb yr Annibynwyr
Yr Eglwys Babyddol
un cynrychiolydd o'r credoau: Bwdaeth, Islam, Hindwaeth, Iddewiaeth, Siciaeth a'r Dyneiddwyr

Athrawon yn cynrychioli'r Undebau canlynol
ASCL (1)
NAS/UWT (1)
UCAC (1)
NUT (1)
ATL (1)

Aelodaeth Aelodau Etholedig (7)
(Ar sail cydbwysedd gwleidyddol)
(Aelodau ex-officio Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor)

Nid yw cyfansoddiad CYSAG wedi ei adolygu ers hynny.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Cyflwyno penderfyniad y Cabinet i'r Pwyllgor CYSAG ar y 29ain o Dachwedd 2022 .
4.2 Gweithredu ar y newid i'r Cyfansoddiad yn unol â phenderfyniad y Cabinet.

5. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 **Barn Pwyllgor CYSAG Gwynedd ar addasu'r modd y gwahoddir cynrychiolwyr athrawon -** Byddai'n gyfle i CYSAG Gwynedd fod yn fwy cynrychioliadol ac yn galluogi cynyddu cynrychiolaeth allweddol athrawon ar y Pwyllgor

5.2 **Barn Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd –** Mae angen addasu'r cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran Undebau athrawon.

5.3 **Barn y Swyddogion Statudol:**

i. Y Swyddog Monitro: Mae'r adroddiad wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. Y Pennaeth Cyllid: Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Tud. 406

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**13 Medi 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Beca Brown**
Swyddog Cyswllt:	**Buddug Mair Huws**
Rhif Ffôn Cyswllt:	**34319**
Teitl yr Eitem:	**CYMERADWYO A MABWYSIADU MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG CYNGOR GWYNEDD**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i’r Cabinet gymeradwyo a mabwysiadu Maes llafur Cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol ag argymhelliad yr Adran Addysg a Chyngor Ymgynghorol Statudol ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Gwynedd a’r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae dyletswydd cyfreithiol ar bob awdurdod lleol i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn adolygu'r maes llafur ac argymell maes llafur priodol i'r awdurdod lleol er mwyn iddo ei fabwysiadu. Pryd bynnag y bydd awdurdod lleol o'r farn (ar sail sylwadau a wneir iddo neu fel arall) y dylid ailystyried y maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am alw'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ynghyd at y diben hwnnw. Dylid ailystyried y maes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg o fewn pob pum mlynedd. Yn sgil dyfodiad Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a sefydlu’r Gwricwlwm i Gymru, cynhaliwyd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Gwynedd ar y 15fed o Chwefror 2022. Penderfyniad unfrydol y Gynhadledd oedd mabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Cefndir

Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 y Cwricwlwm i Gymru o dan y gyfraith, gan ddisodli'r cwricwlwm sylfaenol (sy'n cynnwys, er enghraifft, y cwricwla cenedlaethol a lleol a nodir yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002).

Mae'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn nodi pedwar diben y cwricwlwm o dan y gyfraith. Mae hefyd yn nodi'r elfennau mandadol canlynol sydd, ac eithrio Saesneg, yn rhychwantu continwwm dysgu 3 i 16 oed:

sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
enwau'r meysydd dysgu a phrofiad (Meysydd)
addysg cydberthynas a rhywioldeb
crefydd, gwerthoedd a moeseg
Cymraeg
Saesneg – o 7 oed sydd yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd

Ar ôl i faes llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg gael ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig, gan gynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Os bydd awdurdod lleol yn dymuno mabwysiadu neu addasu'r canllawiau hyn fel eu maes llafur cytunedig, caiff wneud hynny.

3.2 Swyddogaeth Statudol CYSAG

- Ystyried ac argymell maes llafur cytunedig i’r Awdurdod Lleol yn dilyn cynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig [‘CMLlC’];
- Nid yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn pennu erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid i Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig gyntaf baratoi ac argymell maes llafur cytunedig. Rhaid i'r awdurdod lleol fabwysiadu maes llafur newydd yn lle'r maes llafur cytunedig presennol i'w ddefnyddio mewn ysgolion a lleoliadau sy'n rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith. Felly, bydd angen i Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig gael eu sefydlu mewn da bryd i gyflwyno maes llafur cytunedig yn unol â'r broses o roi Cwricwlwm i Gymru ar waith yn 2022. Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am weinyddu hyn.

3.3 Statws Cyfreithiol y Canllawiau Crefydd, gwerthoedd a moeseg

Mae'r canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 y Ddeddf, a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o fewn y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

3.4 Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru

Bu gwaith ymgynghori cynghwysfawr ar y Canllawiau o fis Mawrth 2020 ymlaen ac fe fu Cymdeithas CYSAGauCymru yn ran annatod o’u creu. Ffrwyth llafur yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yw’r canllaw a gyhoeddwyd bellach gan Lywodraeth Cymru.

Ni fwriedir i'r maes llafur cytunedig fod yn gynllun gwaith. Yn hytrach, bwriedir iddo fod yn ganllaw ac yn bwynt cyfeirio defnyddiol i ysgolion er mwyn eu helpu i gynllunio cwricwlwm priodol a pherthnasol ar gyfer eu dysgwyr sy'n cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg o fewn Maes y Dyniaethau.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Rhannu Maes Llafur Cytunedig Gwynedd ag ysgolion Gwynedd erbyn yr 16eg o Fedi 2022

5. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMHELL Y PENDERFYNIAD

5.1 Barn Adran Addysg Gwynedd: Mae'r Adran Addysg yn awyddus i sicrhau bod yr addysg grefyddol a gyflwynir yn ein hysgolion yn adlewyrchu natur y gymdeithas leol a safbwyntiau trigolion Gwynedd.

5.2 Barn CYSAG Gwynedd: Ar 12 Gorffennaf 2022 bu i CYSAG Gwynedd gytuno i argymhell y dylai'r Cabinet dderbyn a mabwysiadu Maes Llafur Cytunedig yn unol â phenderfyniad y Gynhadledd.

5.3 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro: Mae'r adroddiad wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. Y Pennaeth Cyllid: Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Dogfennau Cefndir

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#crefydd,-gwerthoedd-a-moeseg

Canllawiau ar Grefydd,Gwerthoedd a Moeseg

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	**13 Medi 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Beca Brown**
Swyddog Cyswllt:	**Garem Jackson**
Rhif Ffôn Cyswllt:	**32089**
Teitl yr Eitem:	**Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg**

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

3 CYFLWYNIAD

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

3.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Awst 2022. Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad. Rwyf yn arbennig o hapus gyda pherfformiad yr Adran, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

4.1 **Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

4.1.1 Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl.

4.1.2 Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd agor ei drysau yn Hydref 2020 gan ddod yn gartref addysgol newydd i hyd at 420 o ddysgwyr yn ninas Bangor. Mae safle'r ysgol hefyd yn cynnig addysg feithrin a darpariaeth gofal plant cynhwysfawr mewn awyrgylch pwrpasol gyda'r adnoddau gorau posibl. Mae gofod wedi ei gynllunio'n ofalus yn ogystal ar gyfer unedau arbenigol i gefnogi datblygiad

plant ar y safle. Roedd gwaith tîm ardderchog, a chyfathrebu clir yn nodwedd o'r prosiect llwyddiannus hwn sydd wedi cadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer. Mae'r prosiect wedi ennill dwy wobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021 sef:
Gwobr Adeiladwaith Digidol (Digital Construction Award)
Gwobr Cleient y flwyddyn (Client of the Year Award)
https://www.cewales.org.uk/cew-awards/awards-2021/
Byddwn yn trefnu agoriad swyddogol ar y cyd â'r ysgol pan fydd yn saff i wneud hynny.

4.1.3 Mae Ysgol y Faenol hefyd yn y broses o gael estyniad sylweddol. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, mae'r estyniad wedi ei gwblhau erbyn hyn. Er hynny, mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau ac o ganlyniad nid oes modd cwblhau'r gwaith ar faes parcio'r ysgol ar hyn o bryd. Pan fydd y gwaith ar y maes parcio wedi ei gwblhau, bydd yr ysgol yn gallu derbyn 315 o ddysgwyr yn sgil yr estyniad, sydd yn gynnydd o 129 o ddysgwyr. Mae'r adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hwb i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd yn cael ei chodi fel rhan o'r datblygiad. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd Tymor yr Hydref 2022.

4.1.4 I ateb y gofyn cynyddol am le yn Ysgol Glancegin ym Maesgeirchen rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer ychwanegu dosbarth at adeilad yr ysgol. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau, ac roedd y dosbarth yn barod at ddefnydd yr ysgol ar gychwyn y flwyddyn addysgol ddiwethaf.

4.1.5 Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth prosiect Ysgol Ein Harglwyddes wedi eu cytuno gyda'r Esgobaeth, sy'n golygu bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am hwyluso trefniadau'r prosiect a chyflwyno'r achos fusnes i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol wedi'i gwblhau i adnabod yr anghenion, ac mae cytundeb i leoli'r ysgol newydd ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau), ac mae'r lleoliad hwn yn cyd-fynd gyda dyheadau'r gymuned, gyda chynlluniau cysyniadol wedi eu creu ar gyfer sefydlu Ysgol Ein Harglwyddes ar y safle hwnnw.

4.1.6 Yn sgil cyflwr gwael adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr, byddwn yn adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu. Mae'r Cabinet eisoes wedi cefnogi'r bwriad i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 o ddysgwyr, ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497 yn unol â'r drefn statudol. Mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno i adleoli'r ysgol i safle'r A497, ond mae dau fater wedi codi parthed y safle fel rhan o'r broses gynllunio, ac mewn ymateb i hynny mae gwaith archeolegol wedi ei gwblhau, ac mae arolwg llwybrau saff i'r ysgol bellach wedi ei gwblhau ac adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Adran Gynllunio. Edrychaf ymlaen i weld y gwaith adeiladu'n symud yn ei flaen yn fuan ac i weld y plant yn manteisio ar y cyfleusterau gorau un.

4.1.7 Yn sgil amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn Addysg ôl-16 yn Arfon, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i'r Adran ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithwir gyda phenaethiaid, Llywodraethwyr, staff, rhieni, dysgwyr a'r gymuned yn ehangach er mwyn cyflwyno'r weledigaeth newydd

ar gyfer addysg ôl-16, ynghyd â chasglu barn a syniadau am y ffordd orau i wireddu'r weledigaeth. Rydym wedi adrodd ar negeseuon cychwynnol yr ymgysylltu yma gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror y llynedd, ac rydym nawr mewn sefyllfa i allu bwrw ymlaen efo'r prosiect hwn yn sgil yr oedi a fu dros y flwyddyn ddiwethaf.

4.1.8 Yn gysylltiedig â'r maes addysg ôl-16, rwy'n hynod o falch o nodi ein bod wedi diddymu'r ffi ar gyfer y tocyn teithio ôl-16 i'n holl ddysgwyr o fis Medi yma ymlaen. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau nad ydym fel Cyngor yn gosod unrhyw rwystrau rhag galluogi ein pobl ifanc i barhau a'u haddysg wedi 16 oed, ac yn bwysicach fyth y dyddiau hyn o ystyried y cynnydd aruthrol yng nghostau byw.

4.19 Mae un prosiect o fewn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sef Cyflwr ac Addasrwydd wedi wynebu rhai rhwystrau a heriau sydd wedi amharu ar ein gallu i symud ymlaen i weithredu rhai agweddau o'r prosiect gydag ysgolion penodol am gyfnod. Pwrpas y prosiect yma yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael. O ganlyniad, yn ystod 2021 bu'n rhaid i ni oedi gweithredu nifer o addasiadau oedd wedi eu rhaglennu i ddigwydd yn ein hysgolion yn ystod haf 2021, gyda'r gobaith y byddai'r farchnad adeiladu'n sefydlogi a phrisiau'n gostwng rhywfaint. Rwy'n falch o ddweud bod y sefyllfa wedi gwella ers cychwyn y pandemig a Brexit, a'n bod wedi llwyddo i symud ymlaen i weithredu nifer o addasiadau a gwelliannau i gyflwr adeiladau ein hysgolion eleni, ac yn arbennig dros wyliau'r haf.

4.2 **Gagendor Lles a Chyrhaeddiad**

4.2.1 Yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo, mae'r Adran Addysg a'r Cyngor wedi adnabod y gagendor lles a chyrhaeddiad fel un o'r prif flaenoriaethau yn sgil pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles.

4.2.2 Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, ers Medi 2020 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu *Rhaglen Cyflymu'r Dysgu* gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed.

4.2.3 Y tu hwnt i'r ysgol, mae dau gyfnod ym mywyd plant a phobl ifanc wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth o ran ymateb i'r gagendor lles a chyrhaeddiad hefyd, sef plant 0-5 oed, ynghyd â phobl ifanc ôl-16. Yn sicr, mae'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, gydag anghysondeb ar draws y sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan o'r ddarpariaeth ynghyd â chyfeiriad strategol y maes yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i saernïo ein gwasanaethau ni yma yng Ngwynedd. Mae'r grŵp prosiect wedi cytuno ar ffrydiau gwaith penodol ac wedi blaenoriaethu cynnal asesiad digonolrwydd darpariaeth gofal ac addysg ar draws yr awdurdod. Ar yr un amser mae gwaith yn cael ei wneud ar fodelau ariannu gwahanol ynghyd ag oblygiadau prydlesi rhwng darparwyr a Chyngor Gwynedd.

4.2.4 Hefyd o sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 wedi eu heffeithio'n anghymesur gan y pandemig. Mae mwy o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Mae bwriad i roi sylw penodol er mwyn lliniaru unrhyw sgil-effeithiau gan sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu.

4.3 **Trawsnewid y ddarpariaeth ADYaCh**

4.3.1 Pwrpas y prosiect hwn oedd trawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegu a chynhwysiad er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Bu'r prosiect hefyd yn canolbwyntio ar baratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018). Daeth y Ddeddf hon yn weithredol ym Medi 2021, ond gyda chyfnod o dair blynedd i drawsnewid hyd at Medi 2024.

4.3.2 Mae Arolwg Parodrwydd Deddf ADY Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd cryf iawn o ran paratoadau'r Awdurdod o ran y Ddeddfwriaeth. Mae'r swyddi statudol angenrheidiol mewn lle ers Ionawr 2021 ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd wedi datblygu'n dda drwy gydweithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid wedi eu cynnal ar gyfer manylu ar agweddau penodol o'r Cod Terfynol. Bu gwaith ar y llwybrau datrys anghydfod i sicrhau bod rhain yn weithredol. Yn y sector blynyddoedd cynnar mae'r systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod yn fuan, a sefydlu prosesau clir wedi ei gyflawni, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector ôl-16 yn parhau. Hefyd mae'r gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ag asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu.

4.3.3 Mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar-lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar).

4.3.4 O ystyried bod y ddeddfwriaeth newydd wedi dod i rym ers Medi 2021, a bod Gwynedd mewn sefyllfa gadarn o safbwynt gweithredu'r gofynion newydd, rwyf o'r farn fod y prosiect hwn yng Nghynllun y Cyngor bellach wedi ei gyflawni, ac rwy'n hyderus bod y gofynion ynghlwm â'r ddeddfwriaeth bellach wedi trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran.

4.4 **Strategaeth Addysg Ddigidol**

4.4.1 Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 11. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

4.4.2 Mae gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni, gan gynnwys uwchraddio rhwydwaith ysgolion yn unol â'r safonau digidol addysg, yn ogystal â'r gwaith o drawsnewid dull hidlo'r we. Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o

ipads wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o *Chromebooks* wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 wedi cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11, ac mae pob un o athrawon Gwynedd wedi derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth cyn diwedd Tymor yr Haf eleni. Yn sgil y penderfyniad i fewnoli cefnogaeth i'r holl ddyfeisiadau, ac yn sgil proses recriwtio, mae tîm Gwasanaethau Digidol Ysgolion bellach wedi ei sefydlu ac yn weithredol. Y gobaith yw y bydd y dyfeisiadau hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

4.4.3 O ystyried fod y dyfeisiadau bellach wedi eu rhannu gyda dysgwyr ac athrawon yn ein hysgolion, a bod y Gwasanaeth Digidol Ysgolion wedi ei sefydlu, rwyf o'r farn fod y prosiect hwn yng Nghynllun y Cyngor bellach wedi ei gyflawni, a'r gwaith wedi trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran Addysg a TGCh.

4.5 Cinio am ddim yn yr ysgolion cynradd

4.5.1 Yn mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd ar draws Cymru. Ers y cyhoeddiad mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a'r Tîm Datblygu Eiddo sydd yn golygu ein bod o flaen yr amserlen genedlaethol ar gyfer darparu cinio am ddim i holl ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd.

4.5.2 O ddechrau Medi ymlaen bydd pob dysgwr ym Mlwyddyn Derbyn ac Un yng Ngwynedd yn derbyn cinio ysgol am ddim, erbyn mis Ionawr rydym yn anelu i holl ddysgwyr Blwyddyn 2 yn ogystal dderbyn cinio ysgol am ddim, ac erbyn Medi 2023 anelwn at sicrhau y bydd holl ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd yn derbyn cinio ysgol am ddim.

4.6 Cydweithio Meirionnydd

4.6.1 Pwrpas y prosiect yma yw edrych yn benodol ar sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol yn ysgolion uwchradd Meirionnydd. Mae'r cynnydd ar y prosiect wedi bod yn araf ac wedi ei effeithio yn sgil heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd.

4.6.2 Serch hynny, rydym wedi casglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Rydym hefyd wedi cylchredeg holiadur er mwyn ceisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a phenaethiaid fydd yn llywio cyfeiriad y prosiect i'r dyfodol, ac rydym yn y broses o ddadansoddi negeseuon o'r holiaduron rheiny ar hyn o bryd.

4.7 Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc

4.7.1 Er mwyn ymateb i bryderon a adnabuwyd o ganlyniad i bandemig Covid 19 a gofynion deilliannau'r CSGA, sicrhawyd defnydd effeithiol o Grant y Gymraeg i dargedu sgiliau iaith y gweithlu a defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymysg disgyblion. Yn ystod 2021/22, cynlluniwyd a chwblhawyd 13 Cynllun Clwstwr y Gymraeg o dan arweiniad y Cydlynydd Siarter Iaith a'r Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd oedd yn cynnwys holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir. Braf oedd gweld ffilm a gynhyrchwyd o rai o arferion da gwaith y clystyrau hyn ar draws y sir yn cael ei

ddangos fel rhan o ddathliadau gŵyl cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Mhorthmadog ym mis Mehefin eleni.

4.7.2 Manteisiwyd ar y cyfle i gael gwersi Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, Prifysgol Bangor yn ystod 2021/22 gan 12 athro fel rhan o gynlluniau i ymateb i ddata Hunan Asesiad Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg. Cefnogwyd athrawon a chymhorthydd Ysgol Ein Harglwyddes ym Mangor i wella a gloywi eu sgiliau iaith Gymraeg mewn cydweithrediad gyda Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor. Rwy'n hynod o falch fod athrawes Datblygu'r Gymraeg wedi ei phenodi yn Ysgol Friars ar gyfer Medi 2022 gyda chefnogaeth yr Awdurdod er mwyn cefnogi gweithlu'r ysgol i fagu hyder a meithrin sgiliau yn y Gymraeg, gyda'r nod y bydd mwy o ddarpariaeth cwricwlaidd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr dros y blynyddoedd nesaf.

4.7.3 Yn ddiweddar, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda thrawstoriad o ddysgwyr yn yr uwchradd er mwyn casglu eu barn a'u syniadau ar gyfer sefydlu Fforymau Iaith ymhob ysgol uwchradd yng Ngwynedd o Fedi 2022 ymlaen. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous, ac edrychaf ymlaen i glywed am y syniadau a'r gweithgareddau y bydd y dysgwyr yn awyddus i'w datblygu er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg eu cyfoedion.

4.8 Gwaith dydd i ddydd yr Adran

4.8.1 Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol wrth gwrs yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo pan oedd mwyafrif ein dysgwyr (ar wahân i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr allweddol) yn gorfod aros adref. Yn ddiweddar, mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig Amddiffyn Plant mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Braf yw gallu datgan bod 100% o bersonau dynodedig Amddiffyn Plant ein hysgolion wedi cwblhau hyfforddiant lefel 2 o fewn 3 blynedd, ynghyd â 100% o bersonau dynodedig ar gyrff llywodraethol ein hysgolion hefyd.

4.8.2 Pwrpas y gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yw darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion i gyrraedd eu potensial. Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn allweddol a chwbl greiddiol drwy gydol y pandemig i sicrhau gwasanaeth glanhau rheolaidd yn ystod y dydd er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Mae'r gwasanaeth arlwyo hefyd yn cynnig 13 lleoliad Kickstart yng ngheginau uwchradd ysgolion ar draws y Sir sydd yn derbyn gwasanaeth arlwyo gan y Cyngor. Mae'r cynllun Kickstart gan y Llywodraeth yn darparu cyllid ar gyfer creu lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ifanc oedran 16 i 24 sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol (Universal Credit) ac sydd mewn risg o ddiweithdra tymor hir.

4.8.3 Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r

cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ar safle Eifionydd, ac mae'r adeilad wedi cyrraedd safle Ysgol Tryfan ym Mangor hefyd, gyda gwaith cysyniadol ar gyfer dyluniadau safle addysg drochi newydd Tywyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Yn ddiweddar, bu'r Adran yn ffodus i dderbyn buddsoddiad cyfalaf pellach gan Lywodraeth Cymru, ac ar 19 Gorffennaf 2022 bu i'r Cabinet gymeradwy'r buddsoddiad fydd yn golygu sicrhau bod yr adnoddau yn y safleoedd trochi cynradd ym Maesincla yn addas ar gyfer yr Ganrif 21ain, gyda safle addysg drochi Llangybi yn symud i safle Cymerau ym Mhwllheli, a safle Dolgellau yn dod yn rhan o safle Bro Idris.

At hyn, mae'r Adran hefyd wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn arian refeniw Trochi Hwyr Llywodraeth Cymru, a thros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i lunio a recordio cyfres o weminarau fydd ar gael i weithlu ysgolion Gwynedd er mwyn eu harfogi gydag arferion trochi iaith. Mae'r arian refeniw hefyd wedi ein galluogi i foderneiddio'r ddarpariaeth drwy gomisiynu cwmni *Animated Technologies* i ddatblygu tref rithiol or enw Aber Rwla, gydag Anni Llŷn wedi ei chomisiynu yn greu'r cynllun trochi ar ei newydd wedd.

4.8.4 Sefydlwyd y Ganolfan Fusnes Ysgolion ym mis Medi 2019 er mwyn cynnig gwasanaethau i ysgolion y sir. Mae'r ganolfan yn cynnig nifer o wasanaethau gan gynnwys rheolaeth ariannol, gweinyddu penodiadau, trefnu athrawon llanw, a sicrhau fod system SIMS yn gyfredol. Mae'r ganolfan wedi adnabod tri blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn, ac ar hyn o bryd ar darged i gyflawni yn unol â'r Cynllun Busnes. Mae'n gadarnhaol iawn fod holl ysgolion cynradd Gwynedd yn prynu mewn i'r gwasanaeth, ac yn gweld gwerth er mwyn sicrhau bod prosesau yn cael eu dilyn yn gywir. Mae'r ganolfan yn esblygu'n barhaus i allu cynnig rhagor o wasanaethau i ysgolion yn y dyfodol.

4.8.5 Rhaid cydnabod mai crynodeb yn unig a geir yn yr adroddiad o holl waith yr Adran a'r ysgolion dros y misoedd diwethaf, ac o ganlyniad hoffwn gydnabod a nodi fy ngwerthfawrogiad i'r gwaith arwrol sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn yr Adran ac yn ein hysgolion er sicrhau'r addysg gorau i'n plant ynghyd â diogelwch, iechyd a lles ein holl ddysgwyr a staff.

I gloi, hoffwn hefyd longyfarch ein hysgolion a'n dysgwyr ar ganlyniadau gwych yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf yma.

.

5. SEFYLLFA ARBEDION

Mae'r Adran wedi cyflawni holl gynlluniau arbedion hanesyddol.
Nid oes gan yr Adran targedau arbedion yn 2022/23.

SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:
Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg.

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: **13 MEDI 2022**

Aelod Cabinet: **CYNGHORYDD IOAN THOMAS**

Swyddog Cyswllt: **DEWI A MORGAN, PENNAETH CYLLID**

Rhif Cyswllt: **34684**

Pwnc: **ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD YR AELOD CABINET CYLLID**

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

---

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd-aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Mae'r holl faterion a gyflwynir yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf fi, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mewn Cyfarfod Herio Perfformiad a gynhaliwyd ar 27ain Gorffennaf, ble roedd Tîm Rheoli'r Adran a'r rheolwyr gwasanaeth yn bresennol.

1.3 Rwy'n falch iawn o nodi fod perfformiad yr Adran Cyllid wedi aros yn gyffredinol dda dros y misoedd diwethaf. Mae'r Adran hefyd wedi gwneud cynnydd boddhaol ar y prosiect blaenoriaeth perthnasol.

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella)

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiect blaenoriaeth yr Adran.

2.2 Cyflawni Arbedion

2.2.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2021, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio cynlluniau arbedion.

2.3.2 Roedd gwerth £2,375,000 o arbedion wedi eu cynllunio i'w gwireddu yn 2022/23, a hynny'n gyfuniad o arbedion oedd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol a chynlluniau newydd. Ar ôl ystyried y sefyllfa, penderfynodd y Cabinet yn Ionawr 2022 fel a ganlyn o ran y cynlluniau hynny:

- cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef:
  - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
  - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
- symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol.

2.3.3 Canlyniad hyn yw fod gwerth £595,000 o gynlluniau arbedion yn weddill i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23.

2.3.4 Rydym yn disgwyl setliad sylweddol is ar gyfer 2023/24 a 2024/25 nag a dderbyniwyd yn 2022/23 a felly mae'n ymddangos yn gynyddol debygol na fydd modd llithro'r cynlluniau arbed hyn ymhellach i osod cynllun ariannol cytbwys, ac ymhellach byddai angen darganfod arbedion ychwanegol.

2.3.5 Yn hanesyddol, mae'r cynlluniau arbed sydd wedi llithro yn rhai sydd wedi profi i fod yn anodd iawn eu gwireddu, a lle mae'r newidiadau enfawr yn sgil Covid19 wedi gwneud y sefyllfa yn anoddach fyth.

2.3.6 Byddai modd defnyddio rhai o'n cronfeydd i oedi ambell un o'r cynlluniau arbed hyn a phontio'r bwlch cyllidebol, ond nid yw defnyddio cronfeydd yn ateb parhaol.

2.3.7 Mae'r symiau perthnasol eisoes wedi cael eu tynnu allan o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23; bydd adolygiadau ffurfiol yn cael eu cynnal ar ddiwedd Awst 2022 a Tachwedd 2022 a bydd unrhyw orwariant yn cael ei amlygu a'i drafod gyda'r adrannau. Bydd adroddiad manwl ar gynlluniau arbedion fesul adran yn cael ei gyflwyno i Gabinet 25ain Hydref 2022.

3. PERFFORMIAD

3.1 Isod, rwy'n amlinellu'r prif faterion sy'n deillio o berfformiad yr adran yn y cyfnod ers dechrau Ebrill 2022. Nid yw'r wybodaeth yn cyfeirio at bob gwasanaeth yn yr adran, dim ond y rhai hynny y teimlwn fod angen tynnu eich sylw atynt.

3.2 Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae Archwilio Mewnol wedi llwyddo i gwblhau 4.48% o'r Cynllun Blynyddol 2022/2023 erbyn diwedd Mehefin, sef 3 archwiliad allan o 67. Mae'r ffigwr yma yn is na'r hyn a gynlluniwyd ar ei gyfer, ond yn ystod chwarter 1, yn ôl yr arfer, darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol i oddeutu 70 o gynghorau tref a chymuned. Yn ogystal â hynny, bu swyddogion y gwasanaeth yn parhau ar y gwaith o gynorthwyo'r Gwasanaeth Budd-daliadau i ddelio gyda prosesu Taliadau Cymorth Hunan-ynysu. Mae'r gwaith hwn o safbwynt Archwilio Mewnol bellach wedi ei gwblhau. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn ffyddiog bydd y gwasanaeth wedi dal i fyny gyda'r gwaith erbyn y chwarter nesaf ond mae llithriad yn y gwaith Archwilio Mewnol wedi cael ei ychwanegu fel risg adrannol.

3.3 Gwasanaeth Budd-daliadau. Mae'r gwasanaeth wedi gallu parhau i berfformio yn erbyn ei fesurau cyflawni craidd, sef y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal, a'r amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn. Mae'r ddau ddangosydd yn dangos gwelliant ym Mehefin 2022 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22.

Yn ogystal â'r gwaith o brosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor, mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio i weinyddu dau gynllun mawr ar ran Llywodraeth Cymru, sef Taliadau Hunan-ynysu a Thaliadau i Ofalwyr Di-dâl.

3.4 Gwasanaeth Incwm a Dyledion. Mae maint yr ôl-ddyledion sydd dros 6 mis oed yn cynyddu eto, ar ôl gwella yn ystod ail hanner blwyddyn ariannol 2021/22 ac yn sefyll yn £1,722,863 ar 30 Mehefin (ond wedi addasu am ddyledion y Bwrdd Iechyd mae'r cyfanswm yn gostwng i £1,406,971). Er hynny, mae'r ffigwr ychydig yn is nag yr oedd ar yr un dyddiad yn 2021. Er fod yr argyfwng costau byw yn ffactor erbyn hyn, byddai angen gwaith dadansoddi manwl cyn gallu asesu yn bendant faint o ffactor yw hyn.

3.5 Gwasanaeth Pensiynau. Rwyf yn fodlon â pherfformiad y Gwasanaeth Pensiynau, ond rwyf yn ymwybodol bod y gwasanaeth hwn yn un o'r rhai lle gall recriwtio a chadw staff fod yn gonsyrn. Mae'n faes arbenigol iawn a gall colli staff profiad fod yn risg o ran gallu parhau i gynnal y lefel bresennol o berfformiad.

3.6 Gwasanaeth Trethi. Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, mae'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo i ddosbarthu £150 yr un i 39,486 o aelwydydd cymwys o fewn Gwynedd. Trwy gyfuniad o daliadau'n syth i'r banc a threfniadau i ddarparu taliadau mewn swyddfeydd post, roedd y gwasanaeth wedi llwyddo i anfon taliad neu daleb i 99% o gartrefi cymwys erbyn diwedd Mehefin– y ffigwr uchaf yng Nghymru ar y pryd.

Mae Trethi yn wasanaeth arall ble mae recriwtio a chadw staff yn broblem gynyddol, ac rwyf yn arbennig o ymwybodol fod gallu'r gwasanaeth i ateb galwadau ffôn tra ar yr un pryd yn ymgymryd â gwaith prosesu yn falans anodd, sy'n golygu nad yw'r cyhoedd yn gallu cysylltu fel y dymunant bob amser. Oherwydd hyn, mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu adolygiad o'r galw gyda chymorth y Tîm Ffordd Gwynedd.

Er gwaethaf yr heriau a ddisgrifir uchod, mae perfformiad y gwasanaeth wrth gyflawni ei rôl greiddiol o gasglu trethi wedi parhau'n gyson â blynyddoedd diweddar. Erbyn diwedd Mehefin 2022 roedd:

- Cyfradd gasglu Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 28.96%, sydd ychydig yn is nag yr oedd yr un pryd yn 2021 (29.73%).
- Cyfradd gasglu Ardrethi Annomestig yn 23.78%, sy'n welliant ar yr un cyfnod yn 2021 (23.21%).

3.7 **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg.** Adroddwyd ar sefyllfa terfynol y Cyngor a'i holl adrannau yn yr adroddiad alldro refeniw a chyfalaf i'r Cabinet ar 14eg Mehefin 2022 ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 30ain Mehefin.

Llwyddwyd i gwblhau pump set o Ddatganiadau o Gyfrifon 2021/22 yn amodol ar archwiliad (cyfrifon Gwynedd, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Harbyrau) yn amserol yn ystod Mai a Mehefin. Mae'r gwaith o gwblhau cyfrifon terfynol llawn ar ran y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi bod yn waith ychwanegol i Cyllid eleni.

3.8 **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth – Isadeiledd.** Mae'r tîm hwn yn parhau i weithio'n ddygn i gynnal a chryfhau gwytnwch systemau'r cyngor. Rwyf yn falch o adrodd bod argaeledd y gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel iawn a ni chafwyd unrhyw ddigwyddiad o ymyrraeth difrifol i'r gwasanaeth. Dangosodd y rhwydwaith craidd argaeledd o 100%, gyda'r systemau critigol yn arddangos 99.99% am y chwarter. Yn ogystal â'r gwaith rhagorol o gefnogi'n systemau, fe gyflawnwyd sawl prosiect i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach, gan gynnwys uwchraddio'r rhwydwaith a gwella'r ddarpariaeth yn ein canolfannau data. Llwyddwyd unwaith eto i gadarnhau ein cydymffurfiad â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN), gan sicrhau bod gweithdrefnau a safonau diogelwch uchel gan y Cyngor.

3.9 **Gwasanaeth TG – Cefnogol.** Parhau mae boddhad defnyddwyr y gwasanaeth hwn, gyda pob un o'r ymatebwyr yn nodi boddhad llawn gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd. Mae'r Ddesg Gymorth yn gwasanaethu rhwng 08:00 a 17:00 ac ar gyfartaledd fe atebwyd 19 ym mhob 20 o'r galwadau a dderbyniwyd.

3.10 **Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol.** Mae hwn yn wasanaeth newydd sydd wedi cael ei sefydlu yn sgil trosglwyddo'r swyddogaeth o gefnogi TG ysgolion oddi wrth gwmni Cynnal. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi sefydlu'n gyflym a chadarn, ac mae'r gwaith o ddosbarthu gliniaduron newydd i athrawon wedi ei gwblhau, gyda llawer o waith pellach wedi cael ei gwblhau yn ystod yr haf, gan gynnwys paratoi gliniaduron ar gyfer disgyblion ein ysgolion uwchradd.

4. ARBEDION ADRANNOL

4.1 Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu un cynllun 'Cynhyrchu Incwm drwy Atal Twyll' gwerth £20k yn 2020/21 (12% sydd yn weddill o gynlluniau 2021/22) a £20k perthnasol i 2021/22, yn dilyn atal cyfweliadau yn ymwneud â hawliadau twyllodrus yn y maes Budd-daliadau dros gyfnod yr argyfwng. Maent yn parhau heb eu hail gychwyn o ganlyniad i'r amgylchiadau presennol, felly rhagwelir oediad pellach mewn gwireddu'r £40k.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Pennaeth Cyllid:
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.